# Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol

**Mesur Gweithgarwch a Pherfformiad – Catalog Diffiniadau 2026-27**

## Cynnwys


Performance and Improvement Framework for Social Services ... 1
Contents ... 1
Overview ... 3
Audience ... 3
Action Required ... 3
Further Information ... 3
Related Documents ... 3
Introduction ... 4
Language and terminology used within this guidance ... 5
Document and Revisions History ... 6
Metrics relating to Adults ... 18
Adult Contacts ... 18
Adult Assessments ... 24
Reablement ... 40
Adult Care and Support Plans ... 43
Adult Safeguarding ... 61
Types of Care and Support ... 84
Adult Advocacy ... 92
Metrics relating to Children and Families ... 98
Children’s Contacts ... 98
Children’s Assessments ... 109
Children’s Care and Support Plans ... 130
Children’s Safeguarding ... 145
Children Looked After ... 191
Care Leavers ... 231
Children’s Advocacy ... 248
Metrics relating to Carers ... 253
Adult Carer Contacts ... 253
Adult Carer Assessments ... 260

Adult Carer Support Plans ........ 269
Young Carer Contacts ........ 276
Young Carer Assessments ........ 283
Young Carer Support Plans ........ 291
Index of Measures ........ 300
Metrics relating to Adults ........ 300
Metrics relating to Children and Families ........ 304
Metrics relating to Carers ........ 309

## Trosolwg
Canllawiau i ategu’r Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r canllawiau'n darparu'r diffiniadau manwl ar gyfer pob un o'r metrigau yn adran ‘Mesur Gweithgarwch a Pherfformiad’ y Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer y dyddiadau 1 Ebrill 2026 i 31 Mawrth 2027.

### Cynulleidfa
Swyddogion data a pherfformiad awdurdodau lleol, datblygwyr adroddiadau a dadansoddwyr systemau, sefydliadau trydydd sector, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, darparwyr atebion digidol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill

### Camau i'w cymryd
Dylai pob awdurdod lleol gasglu, cyflwyno a defnyddio'r data a'r dystiolaeth a nodir yn y canllawiau hyn.

### Rhagor o Wybodaeth
Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau pellach at:


Cangen Dadansoddi ac Arloesi

Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2il Lawr y De

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10  3NQ

timdadansoddiacarloesi@llyw.cymru


### Dogfennau cysylltiedig
Ymgynghoriad ar fesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol Gwasanaethau Cymdeithasol

Fframwaith perfformiad a gwella ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol: arweiniad ychwanegol 2024 i 2025

# Cyflwyniad

Mae'r Cod Ymarfer sy'n ymwneud â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn nodi sut y mae'n rhaid i awdurdodau lleol gasglu data a thystiolaeth er mwyn cael yr wybodaeth sydd ei hangen i ddeall yn llawn y gofal a'r cymorth, a'r cymorth i ofalwyr, y maent yn eu darparu wrth gyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r ddogfen hon yn nodi fframwaith o fetrigau perfformiad y mae'n rhaid iddynt gael eu casglu gan awdurdodau lleol a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ac mae'n darparu'r diffiniad manwl ar gyfer pob un o'r metrigau hynny fel y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ehangach yn y grŵp ysgrifennu metrigau. Bwriedir iddi fod yn dogfen gyfeirio i'w defnyddio gan awdurdodau lleol a'r sector gofal cymdeithasol ehangach yng Nghymru i roi disgrifiadau cyson o ba ddata a gasglwn, pam yr ydym yn eu casglu a pha mor aml rydym yn eu casglu. Dylid ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r Arweiniad Ychwanegol.

Nid yw'r diffiniadau yn ddisgrifiad technegol o'r systemau a ddefnyddir i gasglu'r data. Bydd angen i awdurdodau lleol ddeall y diffiniadau yn y ddogfen i ddatblygu arferion i echdynnu data o'u systemau ac adrodd ar bob un o'r metrigau at eu defnydd eu hunain yn ogystal ag at ddefnydd Llywodraeth Cymru.

Drwy ddarparu dull cyson o ddisgrifio'r gofynion ar gyfer casglu data, dylai hyn annog cyd-ddealltwriaeth o'r data rydym am eu cael, gan arwain at ddata o ansawdd uwch sy'n llai tueddol o gael eu camddehongli oherwydd disgrifiadau gwael o ba ddata y dylid eu cynnwys (neu beidio) yn y metrigau.

Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i ddisgrifio pob metrig mor fanwl ag sydd angen, deallwn ei bod yn amhosibl rhagweld pob posibilrwydd a allai godi ac efallai y bydd angen eglurhad pellach rywbryd yn y dyfodol ar gyfer rhai metrigau. Mae dyluniad y canllawiau ar gyfer mesur gweithgarwch a pherfformiad yn caniatáu diweddaru diffiniadau yn ôl y gofyn.

## Yr iaith a'r derminoleg a ddefnyddir yn y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn yn defnyddio iaith a therminoleg benodol i ddisgrifio digwyddiadau ac unigolion, ac mae hynny'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r casgliadau data sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau hyn wedi'u rhannu yn ôl categori oedolion, plant a gofalwyr. Diffinnir y rhain gan y Ddeddf fel:

- ystyr "oedolyn" yw unigolyn sy'n 18 oed neu hŷn,
- ystyr "plentyn" yw person dan 18 oed;
- Ystyr "gofalwr" yw unigolyn sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl.

*Nodyn: Mae nifer o fetrigau ar gyfer plant hefyd yn cynnwys plant â phrofiad o fod mewn gofal ac sydd nawr yn oedolion.*

Mae gan bob un o'r metrigau yn y fframwaith ddiffiniad technegol manwl cysylltiedig yn y catalog hwn. Mae'r holl ddiffiniadau wedi'u datblygu gan arbenigwyr data a gwybodaeth yr awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru drwy'r Is-grŵp Adrodd Cenedlaethol. Gellir cyfuno metrigau penodol i greu mesurau sy'n gallu mesur pa mor dda y perfformiodd awdurdod lleol mewn perthynas â'r gofynion a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r derminoleg a ddefnyddir yn niffiniad technegol pob metrig yn gyson â'r iaith a ddefnyddir yn y Codau Ymarfer ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae cyfeiriadau at adrannau perthnasol y codau ymarfer wedi'u cynnwys yn y diffiniad technegol fel sy'n briodol.

## Hanes Dogfennau a Diwygiadau

**Dyddiad**: 1 Ebrill 2020

**Disgrifiad:** Cyhoeddi fersiwn 1.0

**Dyddiad**: 2 Chwefror 2020

**Disgrifiad:** Mân Ddiwygiadau – Fersiwn 1.1

- AD/014 – wedi ychwanegu seibiannau byr fel categori D
- CH/015 – wedi newid cod o P1 i P4

**Dyddiad**: 26 Ebrill 2021

**Disgrifiad:** Mân Ddiwygiadau – Fersiwn 1.2

- AD/025 – newid yr opsiwn "plentyn" yn adran 3 i "fab neu ferch" er mwyn osgoi dryswch gan ei fod yn ymwneud â pherson dan 18 oed.
- AD/031 – wedi tynnu opsiwn 2 yn adran 7 ("*peidio â chyfrif oedolyn fwy nag unwaith, ni waeth faint o wasanaethau dibreswyl y gallant eu derbyn"*) gan fod hyn yn groes i'r canllawiau yn adran 6.
- CH/044 – eglurder ychwanegol ynghylch pa blant y gellir eu gwahardd. Dim ond y plant hynny a oedd yn oedran ysgol gorfodol ar adeg y symud y dylech eu cyfrif.

**Dyddiad**: 22 Mawrth 2022

**Disgrifiad:** Diwygiadau – V1.3

- AD/008 – Tynnwyd y gair "cymesur"
- AD/009 – Wedi'i aralleirio er mwyn bod yn glir
- AD/016 – Canllawiau ychwanegol ar gyfer pan fu farw unigolyn cyn y dyddiad adolygu
- AS/001-6 – Canllawiau Diogelu Oedolion wedi'u hymgorffori yn y prif ganllawiau
- AD/030 – Cynnwys troednodyn i esbonio sefyllfa lle nad oes cyfradd safonol yn cael ei defnyddio
- CH/005 – Geiriad ychwanegol ar gyfer eglurder ar gyfer opsiwn a
- CH/006 – Tynnwyd opsiwn b a'r cyfeiriadau at asesiadau "cynhwysfawr" neu "gymesur"
- CH/007 - Dileu cyfeiriadau at asesiadau "cymesur"

- CH/008 - Dileu cyfeiriadau at asesiadau “cynhwysfawr” neu “gymesur”. Ychwanegwyd troednodyn yn egluro’r defnydd o rith asesiadau. Data sylfaen yn awr yw CH/006, yn lle CH/006b
- CH/011 – Geiriad ychwanegol ar gyfer eglurder ar gyfer opsiwn a. Tynnwyd “na”
- CH/052 – Dileu’r cyfeiriad at “12 mis ers gadael gofal”

**Dyddiad**: 26 Mai 2022

**Disgrifiad:** Diwygiadau – V1.4

- AD/001 - Wedi newid o gysylltiadau newydd i bob cyswllt.
- AD/003 – Data sylfaen wedi’i newid o AD/001 i AD/002 (lle darparwyd cyngor neu gynhorthwy)
- AD/008 – Ychwanegu ‘ddim’ at y disgrifiad o’r asesiad newydd. Canllawiau clir ynghylch ailadrodd asesiadau.
- AD/009 – Esboniad ychwanegol yn y metrig i nodi nad oes gan yr unigolyn gynllun gofal a chymorth gweithredol. Ychwanegu ‘ddim’ at y disgrifiad o’r asesiad newydd.
- AD/012 – Opsiwn ychwanegol i gynnwys yr oedolion hynny sydd â chynllun gofal a chymorth sydd hefyd â chyfrifoldebau gofalu
- AD/014 – Ail-eirio Gofal Preswyl i Gartref Gofal Oedolion a dileu Gofal Dydd. Darparu eglurder ychwanegol ynghylch y dyddiad dechrau a’r hyn sydd i’w gynnwys.
- AD/015 – Gofal Dydd wedi’i ddileu
- AD/016 – Wedi newid o “nifer yr adolygiadau sydd i’w cwblhau” i “nifer y cynlluniau gofal a chymorth a adolygwyd”
- AD/017 – Wedi newid o “nifer yr adolygiadau priodol a gwblhawyd o fewn amserlenni” i “nifer yr adolygiadau a gwblhawyd o fewn amserlenni”
- AD/018 – Wedi newid o “nifer yr adolygiadau sydd i’w cwblhau” i “nifer yr adolygiadau a gwblhawyd”
- AD/019 – Wedi newid o “nifer yr adolygiadau dyledus a gwblhawyd o fewn amserlenni” i “nifer y cynlluniau a gefnogir gan daliadau uniongyrchol a adolygwyd o fewn amserlenni”
- AD/023 – Dadansoddiad o’r grŵp oedran ychwanegol
- AD/028 – Wedi’i ail-eirio i ofyn am ymholiadau sy’n arwain at gynllun gofal a chymorth gweithredol drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal â chynlluniau gweithredol. Y data sylfaenol bellach yw AD/026
- AD/029 – Ail-eirio’r gwreiddiol AD/029. Rhan a) yn gofyn am y ffi wythnosol uchaf ar gyfer gwasanaethau dibreswyl. Daw rhan b) o fersiwn flaenorol AD/030. Ychwanegwyd rhan c) am asesiadau ariannol.
- AD/030 – Wedi newid i holi am y mathau o wasanaethau sy’n cael eu darparu.
- AD/031 – Wedi’i newid i holi am y mathau o wasanaethau y codir tâl amdanynt.

- CH/015 – Opsiwn ychwanegol i gynnwys y plant hynny sydd â chynllun gofal a chymorth sydd hefyd â chyfrifoldebau gofalu. Ychwanegwyd canllawiau ynghylch defnyddio cynlluniau arbenigol ac integredig.
- CH/017 – Wedi newid o nifer yr adolygiadau i nifer y cynlluniau a adolygwyd yn ystod y flwyddyn gasglu. Dadansoddiad o'r cynllun wedi'i ychwanegu. Ychwanegwyd canllawiau ynghylch defnyddio cynlluniau arbenigol.
- CH/018 – Wedi newid i ofyn am adolygiadau a gwblheir o fewn amserlenni statudol yn hytrach nag adolygiadau dyledus. Ychwanegwyd canllawiau ynghylch defnyddio cynlluniau arbenigol. Rhannu adolygiadau SGO yn ddau grŵp: adolygiadau cymorth ac adolygiadau ariannol.
- CH/019 – Wedi newid i ofyn am nifer yr adolygiadau o gynlluniau/darparu cymorth ariannol, yn ôl y math o adolygiad. Dilyn CH/018 gydag adolygiadau SGO wedi'u rhannu'n ddau grŵp: adolygiadau cymorth ac adolygiadau ariannol. Ychwanegu canllawiau newydd ar gyfer mesur newydd.
- CH/023 – (a-i) Nid yw bellach yn defnyddio CH/022 fel data sylfaenol ac mae bellach yn seiliedig ar bob plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
- CH/029 – Tynnwyd "oedd yn ddyledus." Canllawiau wedi'u diweddaru yn unol â hynny
- CH/030 – Wedi newid o nifer yr ymweliadau i nifer y plant yr ymwelwyd â hwy. Newidiwyd o nifer yr ymweliadau â phlant a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, i nifer yr ymweliadau â phlant ar y Gofrestr. Nawr yn deillio o CH/029. Canllawiau wedi'u diweddaru yn unol â hynny.
- CH/033 – Newid data sylfaen o CH/034 i CH/020
- CH/034 – Geiriad ychwanegol i ddisgrifio'r cyfeiriad at y prif ffactorau.
- CH/037c – Bellach yn cyfeirio at "gyfnod cychwynnol" yn hytrach nag "amser cydamserol".
- CH/041 – Wedi newid o "ymweliadau dyledus" i "ymweliadau wedi'u cwblhau"
- CH/042 – Wedi newid o nifer yr ymweliadau i nifer y plant yr ymwelwyd â hwy
- CH/048 – Wedi newid o "ar ddiwedd y flwyddyn gasglu" i "ar 31 Mawrth"
- CH/054 – Canllawiau cliriach – nid oes angen mwyach cynnwys gweithgarwch pobl ifanc sy'n gadael gofal yn y 12fed a'r 24ain mis ers gadael gofal.
- CH/056 – Erbyn hyn, dim ond i gynnwys plant pump oed a throsodd
- CA/001 – Wedi tynnu AD/001 fel data sylfaenol
- CA/006 – Nid yw bellach yn defnyddio CA/001 fel data sylfaenol a chanllawiau ychwanegol ar gyfer pryd mae unigolion yn cael cynnig asesiad yn rhagweithiol.
- CA/008 – Opsiwn ychwanegol ar gyfer pan fydd gan ofalwr sy'n oedolyn ei anghenion gofal ei hun hefyd.
- CA/009 – Wedi newid o "nifer yr adolygiadau sydd i'w cwblhau" i "nifer yr adolygiadau a gwblhawyd"
- CA/010 – Wedi newid o "nifer yr adolygiadau priodol a gwblhawyd o fewn amserlenni" i "nifer yr adolygiadau a gwblhawyd o fewn amserlenni"
- CA/011 – Nid yw bellach yn defnyddio CH/001 fel data sylfaenol.
- CA/013 – Wedi'i gywiro i ddangos mai CA/011 yw'r data sylfaenol.

- CA/015 – Wedi'i gywiro i ddangos mai CA/014 yw'r data sylfaenol
- CA/017 – Opsiwn ychwanegol ar gyfer pan fydd gan ofalwr ifanc ei anghenion gofal ei hun hefyd.
- CA/018 – Wedi newid o "nifer yr adolygiadau sydd i'w cwblhau" i "nifer yr adolygiadau a gwblhawyd"
- CA/019 – Wedi newid o "nifer yr adolygiadau priodol a gwblhawyd o fewn amserlenni" i "nifer yr adolygiadau a gwblhawyd o fewn amserlenni"

**Dyddiad**: 21 Hydref 2022

**Disgrifiad:** Diwygiadau – V1.41

- AD/001 – wedi newid o "yr holl gysylltiadau ar gyfer oedolion a gafodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn" i a. "cyfanswm nifer y cysylltiadau" a b. "nifer y cysylltiadau newydd".
- AD/002 – wedi newid o "nifer y cysylltiadau ar gyfer oedolion" i "nifer y cysylltiadau newydd"
- AD/003 – diwygio testun y canllawiau yn unol â newidiadau i AD/001 ac AD/002.
- AD/015 – wedi newid "egwyliau byr" i "ofal seibiant". Nid yw'n effeithio ar y data sy'n cael ei gasglu, ond yn hytrach mae'n cyflwyno diffiniadau AD/015 o ofal seibiant a gwyliau byr yn unol â'r rheini yn AD/030.
- AD/016 – wedi newid o "nifer yr adolygiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn" i gyfrif y "nifer y cynlluniau gofal a chymorth a oedd i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn gasglu".
- AD/017 – wedi newid o "nifer y cynlluniau ar 31 Mawrth a adolygwyd o fewn amserlenni statudol" i gyfrif "nifer y cynlluniau gofal a chymorth a oedd i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn gasglu a adolygwyd o leiaf unwaith".
- AD/018 – wedi newid o "nifer yr adolygiadau o gynlluniau a gefnogwyd gyda thaliadau uniongyrchol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn" i gyfrif "nifer y cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer oedolion a oedd wedi defnyddio taliadau uniongyrchol i ddiwallu eu hanghenion, a oedd i fod i gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn gasglu".
- AD/019 – wedi newid o "nifer y cynlluniau a gefnogir gan daliadau uniongyrchol a adolygwyd o fewn amserlenni statudol" i gyfrif "nifer y cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer oedolion a gefnogir gan daliadau uniongyrchol a oedd i fod i gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn gasglu ac a gafodd o leiaf un adolygiad".
- CH/017 – wedi newid i "nifer y cynlluniau gyda'r adolygiadau i'w cynnal yn ystod y flwyddyn gasglu", wedi'u dadansoddi yn ôl y math o adolygiad. Mae'r canllawiau wedi cael eu hegluro.
- CH/018 – wedi newid o "nifer yr adolygiadau" i "nifer y cynlluniau a oedd yn ddyledus yn ystod y flwyddyn gasglu ac a adolygwyd o fewn amserlenni statudol", wedi'u dadansoddi yn ôl y math o adolygiad. Mae'r canllawiau wedi cael eu diwygio yn unol â hynny.

- CH/019 – wedi newid o “nifer yr adolygiadau a oedd i fod i gael eu cwblhau o fewn amserlenni statudol” i “nifer yr adolygiadau a oedd yn ddyledus yn ystod y flwyddyn ac a gwblhawyd, ni waeth a oeddent o fewn amserlenni statudol ai peidio”, wedi’u dadansoddi yn ôl y math o adolygiad. Mae’r canllawiau wedi cael eu diwygio yn unol â hynny.
- CH/029 – wedi newid o “nifer yr ymweliadau” i “nifer yr ymweliadau sydd i’w cynnal yn ystod y flwyddyn”. Mae manylion ychwanegol wedi’u cynnwys ym mwriad y mesur ac yn y canllawiau.
- CH/030 – wedi newid o “nifer yr ymweliadau â phlant ar y gofrestr amddiffyn plant” i “nifer yr ymweliadau â phlant ar y gofrestr amddiffyn plant a oedd a. wedi’u cwblhau; a b. wedi’u cwblhau o fewn amserlenni statudol”. Mae manylion ychwanegol wedi’u cynnwys ym mwriad y mesur ac yn y canllawiau.
- CH/041 – wedi newid o “nifer yr ymweliadau statudol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal a gwblhawyd” i “nifer yr ymweliadau statudol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal a oedd i fod i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn”. Mae manylion ychwanegol wedi’u cynnwys ym mwriad y mesur ac yn y canllawiau.
- CH/042 – wedi newid o “nifer y plant sy’n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a gafodd ymweliadau a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol” i “nifer y plant sy’n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn yr oedd eu hymweliadau a. wedi’u cwblhau a b. wedi’u cwblhau o fewn yr amserlenni statudol”. Mae manylion ychwanegol wedi’u cynnwys ym mwriad y mesur ac yn y canllawiau.
- CA/009 – wedi newid o “nifer yr adolygiadau o gynlluniau cymorth ar gyfer oedolion sy’n ofalwyr a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn” i “nifer yr adolygiadau o gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr sy’n oedolion a oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn”
- CA/010 – wedi newid o “nifer yr adolygiadau o gynlluniau cymorth yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol” i “nifer yr adolygiadau o gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr sy’n oedolion a oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn ac a gwblhawyd”
- CA/018 – wedi newid o “nifer yr adolygiadau o gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn” i “nifer yr adolygiadau o gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc a oedd i fod i gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn”.
- CA/019 – wedi newid “nifer yr adolygiadau o gynlluniau cymorth a oedd i fod i gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol.”
- CA/020 – mesur ychwanegol. Yn ategu CA/018 a CA/19: nifer yr adolygiadau o gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, ni waeth a gawsant eu cwblhau yn ystod amserlenni statudol ai peidio.

**Dyddiad**: 22 Awst 2023

**Blwyddyn adrodd**: 2023-24

**Disgrifiad:** Diwygiadau – V1.42

- AD/015 – cael gwared ar ddyblygu yn “Beth i’w gynnwys yn y Mesur”
- AD/031 – cael gwared ar ganllawiau anghyson ar gyfer beth i’w gynnwys
- CH/008 – canllawiau cliriach o ran a ddylid gweld plentyn / pryd y dylai plentyn gael ei weld fel rhan o asesiad
- CH/018 – wedi newid i beidio â bod yn cyfeirio mwyach at asesiadau a oedd i fod i gael eu cwblhau, gan gyfeirio yn hytrach at gasglu adolygiadau a gwblhawyd o fewn amserlenni
- CH/019 – wedi newid i beidio â bod yn cyfeirio mwyach at asesiadau a oedd i fod i gael eu cwblhau, gan gyfeirio yn hytrach at adolygiadau a gwblhawyd ni waeth a oeddent o fewn amserlenni ai peidio
- CH/023 – nawr yn cynnwys plant fwy nag unwaith os cawsant eu cofrestru sawl gwaith drwy gydol y flwyddyn
- CH/029 – ddim yn deillio mwyach o CH/026b
- CH/030 – ddim yn deillio mwyach o CH/029
- CH/036 – nawr yn cynnwys plant fwy nag unwaith os cawsant eu datgofrestru sawl gwaith drwy gydol y flwyddyn
- CH/037 – CH/048 – wedi diweddaru cyfeirnodau cod lleoliad o’r cyfrifiad Plant sy’n Derbyn Gofal. Wedi egluro lle mae metrigau’n cael eu llwytho gan Lywodraeth Cymru, ac felly nad ydynt yn cael eu cwblhau gan awdurdodau lleol
- CH/042 – ddim yn deillio mwyach o CH/039
- CH/049 – canllawiau ychwanegol am bobl ifanc sy’n cael eu pen-blwydd yn 17 oed ac sy’n gadael gofal
- CH/054 – gofyniad syml i gasglu manylion dim ond y rhai sy’n gadael gofal sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn y flwyddyn gasglu, wedi’u rhannu yn ôl categori pobl sy'n gadael gofal, ni waeth pryd y gadawsant y gofal
- CH/055 – wedi diweddaru cyfeirnodau cod lleoliad o’r cyfrifiad Plant sy’n Derbyn Gofal. Wedi egluro lle mae metrigau’n cael eu llwytho gan Lywodraeth Cymru, ac felly nad ydynt yn cael eu cwblhau gan awdurdodau lleol
- CH/057 – wedi egluro bod y metrigau hyn yn is-set o CH/056, nid CH/053
- CA/010 – wedi’i symleiddio i gasglu nifer y cynlluniau cymorth sydd i fod i gael eu hadolygu yn y flwyddyn gasglu a gafodd o leiaf un adolygiad yn y flwyddyn gasglu
- CA/019 – wedi'i newid i beidio â bod yn cyfeirio mwyach at adolygiadau a oedd i fod i gael eu cwblhau, gan gyfeirio'n hytrach at adolygiadau a gwblhawyd o fewn amserlenni
- CA/020 – wedi'i newid i beidio â bod yn cyfeirio mwyach at adolygiadau a oedd i fod i gael eu cwblhau, gan gyfeirio'n hytrach at adolygiadau a gwblhawyd ni waeth a oeddent o fewn amserlenni ai peidio

**Dyddiad**: 16 Mai 2024

**Blwyddyn adrodd**: 2024-25

**Disgrifiad:** Diwygiadau – V1.5

- AD/004 - Dileu cyfeiriadau at asesiadau “cymesur”. Ychwanegu testun yn esbonio sut mae AD/004 yn wahanol i AD/002 a disgrifiad o asesiadau cyflawn.
- AD/005 – ychwanegu testun yn esbonio sut mae AD/005 yn wahanol i AD/002.
- AD/007 – ychwanegu testun yn esbonio sut mae AD/007 yn wahanol i AD/002
- AD/011 – wedi'i ddiwygio i gynnwys cyfnodau ailalluogi yn is-gategori d, yn ogystal â'r rhai yn is-gategorïau a-c.
- AD/012 – dileu cyfeiriad at Gynlluniau Gofal a Thriniaeth.
- AD/016 – y gair "adolygiad" wedi'i ddileu
- AD/028 – roedd yn nodi bod a) yn cynnwys pob ymholiad sy'n arwain at gynllun gweithredol, waeth a yw'r cynllun hwnnw'n dal i fod yn weithredol ai peidio.
- AD/030 – mathau o ofal a chymorth wedi'u cyfuno i grwpiau mwy. Dileu opsiwn Teleofal. Y diffiniad o ofal dydd wedi'i ehangu.
- AD/031 – fel ar gyfer AD/030.
- CH/005 a CH/011 – cyfeiriad wedi'i ddiweddaru at Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).
- CH/006 – wedi'i ddiwygio i gynnwys asesiadau o blant heb eu geni.
- CH/007 – ailfformadu'r Canlyniad Gofyniad Asesu Cyffredin i wella'r darllenadwyedd.
- CH/010 – eglurhad ynghylch plant heb eu geni a'r awdurdod cyfrifol.
- CH/011 – cyfeiriad wedi'i ddiweddaru at Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).
- CH/014 – ailfformadu'r Canlyniad Gofyniad Asesu Cyffredin i wella'r darllenadwyedd.
- CH/020 – ychwanegu cyfarwyddyd i gyfrif pob plentyn ar wahân pan gynhelir ISM ar gyfer sawl plentyn.
- CH/021 – ychwanegu cyfarwyddyd i gyfrif pob plentyn ar wahân pan gynhelir ISM ar gyfer sawl plentyn.
- CH/022 – tynnwyd y cyfeiriad at CH/021. Ychwanegu cyfarwyddyd i gyfrif pob plentyn ar wahân pan gynhelir ISM ar gyfer sawl plentyn.
- CH/023 – ychwanegu canllawiau yn egluro sut mae hwn yn wahanol i CH/024. Mae CH/023 yn cynnwys plant heb eu geni nad ydynt wedi'u hychwanegu at y Gofrestr Amddiffyn Plant eto, ond y mae penderfyniad wedi'i wneud i'w cynnwys ar ôl iddynt gael eu geni. Mae CH/024 yn cynnwys dim ond y plant hynny sy'n weithredol ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (ac y mae'n rhaid iddynt, felly, fod wedi'u geni).
- CH/023(j-k) – eglurhad bod rhan k yn cyfrif plant nad ydynt wedi'u rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac nad oes unrhyw anghenion ychwanegol wedi'u nodi ar eu cyfer. Eglurhad i gyfrif pob plentyn ar wahân os oes ICP yn cael ei gynnal ar gyfer sawl plentyn.
- CH/024 – eglurhad i gynnwys dim ond y plant hynny sy'n weithredol ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (ac y mae'n rhaid iddynt, felly, fod wedi'u geni).

- CH/025a – ychwanegu metrig newydd: nifer y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol cyn geni a gafodd eu cynnull yn ystod y flwyddyn.
- CH/025b – metrigau wedi'u hailenwi oherwydd bod CH/025a wedi'i gynnwys.
- CH/027 – tynnwyd y cyfeiriad at CH/023.
- CH/028 – cywiro testun – metrigau sy'n deillio o CH/023 nid CH/027. Canllawiau ychwanegol i gyfrif pob cyfarfod grŵp craidd cychwynnol waeth beth fo'r dyddiad cofrestru.
- CH/029, CH/030 – Darparwyd enghreifftiau i gynorthwyo â'r cyfrifiadau.
- CH/032 – ehangwyd y diffiniad i gynnwys pob plentyn sy'n mynd ar goll.
- CH/034 – ailfformadu'r diffiniadau o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, camfanteisio'n droseddol ar blant a masnachu plant, i wella darllenadwyedd.
- CH/035 – egluro'r geiriad.
- CH/041 a CH/042 – Darparwyd enghreifftiau i gynorthwyo â'r cyfrifiadau.
- CH/043 – ychwanegu "ni ddylid cynnwys unrhyw blentyn nad yw'n derbyn gofal ar 31 Mawrth".
- CH/044 – eglurhad i eithrio pob newid i addysg sy'n digwydd pan nad yw plentyn yn derbyn gofal.
- CH/045 – ychwanegu cod "C1" mewn mesur.
- CH/053, CH/054 – cywiro'r diffiniad o bobl ifanc categori 3 a chategori 5 i fod yn gyson â deddfwriaeth a rheoliadau.
- CA/005 – ailfformadu'r Canlyniad Gofyniad Asesu Cyffredin i wella'r darllenadwyedd.
- CA/006 – tynnwyd y cyfeiriad at CA/001.
- CA/015 – ailfformadu'r Canlyniad Gofyniad Asesu Cyffredin i wella'r darllenadwyedd. Cywiro'r testun i gyfeirio at ofalwr sy'n "oedolyn ifanc".

**Dyddiad**: 10 Gorffennaf 2024

**Blwyddyn adrodd**: 2025-26

**Disgrifiad:** Diwygiadau – V1.6

- Dyddiadau wedi'u symud ymlaen ar gyfer blwyddyn gasglu newydd.
- AD/006 – ychwanegu geiriad sy'n egluro y gall yr iaith a ddewisir fod yn unrhyw iaith, heb fod yn gyfyngedig i'r Gymraeg neu'r Saesneg.
- AD/012 – ehangu AD/012b i gynnwys pob gofalwr sydd ag anghenion cymorth, nid dim ond y rhai sydd â chynlluniau cymorth gofalwyr; canllawiau ychwanegol ar gyfer cynnwys cynlluniau Gofal a Thriniaeth.
- AD/013 – ehangu AD/013b i gynnwys pob gofalwr sydd ag anghenion cymorth, nid dim ond y rhai sydd â chynlluniau cymorth gofalwyr; canllawiau ychwanegol ar gyfer cynnwys cynlluniau Gofal a Thriniaeth; newid i gyfrif nifer yr oedolion, nid nifer y cynlluniau.
- AD/014 – canllawiau ychwanegol ar gyfer cynnwys cynlluniau Gofal a Thriniaeth; eglurhad nad yw rhan a, Cartref Gofal Oedolion, yn cynnwys oedolion mewn Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cynlluniau Cysylltu Bywydau).

- AD/015 – canllawiau ychwanegol ar gyfer cynnwys cynlluniau Gofal a Thriniaeth; eglurhad nad yw rhan a, Cartref Gofal Oedolion, yn cynnwys oedolion mewn Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cynlluniau Cysylltu Bywydau).
- AD/016 – wedi'i ddiwygio i gyfrif nifer yr oedolion yn lle cyfrif nifer y cynlluniau; canllawiau ychwanegol ar gyfer cynnwys cynlluniau Gofal a Thriniaeth.
- AD/017 – wedi'i ddiwygio i gyfrif nifer yr oedolion yn lle cyfrif nifer y cynlluniau; canllawiau ychwanegol ar gyfer cynnwys cynlluniau Gofal a Thriniaeth.
- AD/018 – wedi'i ddiwygio i gyfrif nifer yr oedolion yn lle cyfrif nifer y cynlluniau; canllawiau ychwanegol ar gyfer cynnwys cynlluniau Gofal a Thriniaeth.
- AD/019 – wedi'i ddiwygio i gyfrif nifer yr oedolion yn lle cyfrif nifer y cynlluniau; canllawiau ychwanegol ar gyfer cynnwys cynlluniau Gofal a Thriniaeth.
- AD/004 – wedi'i hollti'n rhannau (nifer yr adroddiadau yn ôl ethnigrwydd) a b (nifer yr adroddiadau yn ôl rhywedd).
- AD/023 – ychwanegwyd cyfeiriad at ymholiadau Adran 126 o dan Ddeddf 2014.
- AD/024 – ychwanegwyd cyfeiriad at ymholiadau Adran 126 o dan Ddeddf 2014.
- AD/025 – ychwanegwyd cyfeiriad at ymholiadau Adran 126 o dan Ddeddf 2014.
- AS/005 – ychwanegwyd cyfeiriad at ymholiadau Adran 126 o dan Ddeddf 2014.
- AD/026 – ychwanegwyd cyfeiriad at ymholiadau Adran 126 o dan Ddeddf 2014. Holltwyd yn rhannau A-D yn ôl a oedd y risg o gam-drin neu esgeulustod wedi'i nodi ac a oedd angen camau pellach.
- AD/027 – ychwanegwyd cyfeiriad at ymholiadau Adran 126 o dan Ddeddf 2014.
- AD/028 – ychwanegwyd cyfeiriad at ymholiadau Adran 126 o dan Ddeddf 2014; geiriad diwygiedig i gyfeirio at gynlluniau gofal a chymorth 'agored'.
- UG/007 – ychwanegwyd mesur newydd – cyfanswm nifer yr ymholiadau adran 126 a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn ar gyfer oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg; b. cyfarfodydd strategaeth a thrafodaethau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn; ac c. cyfarfodydd cynadleddau achos a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.
- UG/008 – y mesur wedi'i ddileu.
- AD/029 – canllawiau ychwanegol ar gyfer cynnwys cynlluniau Gofal a Thriniaeth.
- AD/030 – canllawiau ychwanegol ar gyfer Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cynlluniau Cysylltu Bywydau); canllawiau ychwanegol ar gyfer cynnwys cynlluniau Gofal a Thriniaeth.
- AD/031 – canllawiau ychwanegol ar gyfer cynnwys cynlluniau Gofal a Thriniaeth.
- CH/009 – ychwanegu geiriad sy'n egluro y gall yr iaith a ddewisir fod yn unrhyw iaith, heb fod yn gyfyngedig i'r Gymraeg neu'r Saesneg.
- CH/017 – dileu'r cyfeiriad at gau achos (hen derminoleg).

- CH/020a – CH/020 wedi'i hollti'n rhannau a, b, ac c. Rhan a – nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.
- CH/020b – Mesur newydd – nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, yn ôl cyflawnwr/cyflawnwyr honedig.
- CH/020c – Mesur newydd – nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn, yn ôl lleoliad(au) honedig y cam-drin.
- CH/021a – CH/021 wedi'i hollti'n rhannau a, b, ac c. Rhan a – nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn lle gwnaed y penderfyniad i symud ymlaen i ymholiadau Adran 47; dileu cyfeiriadau at achosion agored a newydd (hen derminoleg).
- CH/021b – Mesur newydd – nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn lle gwnaed y penderfyniad i symud ymlaen i ymholiadau Adran 47, yn ôl cyflawnwr/cyflawnwyr honedig.
- CH/021c – Mesur newydd – nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn lle gwnaed y penderfyniad i symud ymlaen i ymholiadau Adran 47, yn ôl lleoliad(au) honedig y cam-drin.
- CH/022 – dileu cyfeiriadau at achosion agored a newydd (hen derminoleg).
- CH/023(a-i) – wedi'i ychwanegu, wedi'i rannu yn ôl oedran: i. o dan 1 oed, ii. 1-4 oed iii. 5-9 oed, iv. 10-15 oed, v. 16-18 oed; dileu cyfeiriadau at achosion agored a newydd (hen derminoleg).
- CH/(j-k) – dileu cyfeiriadau at achosion agored a newydd (hen derminoleg).
- CH/033 – diwygiwyd i gyfrif nifer y cyfarfodydd, yn lle cyfrif nifer y plant; yn gysylltiedig â CH/020a; dileu cyfeiriadau at achosion agored a newydd (hen derminoleg).
- CH/034 – eglurhad bod y mesur yn cyfrif nifer y Cyfarfodydd Strategaeth yn y flwyddyn gasglu lle *gwnaed y penderfyniad* i symud ymlaen i ymholiadau Adran 47; yn gysylltiedig â CH/021a; dileu cyfeiriadau at achosion agored a newydd (hen derminoleg).
- CH/048 – geiriad diwygiedig i gyfeirio at gategori 1, 2, 3, a 4 “pobl ifanc” nid "gofalwyr ifanc"; canllawiau ychwanegol ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.
- CH/050 – geiriad diwygiedig i gyfeirio at gategori 1, 2, 3, a 4 “pobl ifanc” nid “gofalwyr ifanc”; canllawiau ychwanegol ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.
- CH/051 – canllawiau ychwanegol ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.
- CH/052 – diffiniad eglurach o unigolyn sy'n “gadael gofal”; diwygio'r geiriad i gyfeirio at “bobl ifanc” categori 1, 2, 3, a 4, nid “gofalwyr ifanc”.
- CH/053 – canllawiau ychwanegol ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches; diwygio'r geiriad i gyfeirio at "bobl ifanc" categori 1, 2, 3, a 4, nid “gofalwyr ifanc”.
- CH/054 – geiriad diwygiedig i gyfeirio at gategori “bobl ifanc” categori 1, 2, 3, a 4, nid “gofalwyr ifanc”; eglurhad bod pobl ifanc categori 3 yn cynnwys pobl ifanc 18 oed neu hŷn; diwygio'r geiriad i gyfeirio at “bobl ifanc y gwnaeth yr ALI ryngweithio â nhw yn ystod y flwyddyn”.

- CH/055 – dileu rhan b “gadawodd leoliad Pan fydda i'n Barod” yn ystod y flwyddyn, os parhaodd y lleoliad lai na 3 mis.
- CA/002 – dileu'r diffiniadau o “oedolyn” a “gofalwr”.
- CA/004 – dileu'r diffiniadau o “oedolyn” a “gofalwr”.
- CA/005 – dileu'r diffiniadau o “oedolyn” a “gofalwr”.
- CA/006 – dileu'r diffiniadau o “oedolyn” a “gofalwr”.
- CA/007 – ychwanegu geiriad sy'n egluro y gall yr iaith a ddewisir fod yn unrhyw iaith, heb fod yn gyfyngedig i'r Gymraeg neu'r Saesneg.
- CA/009 – eglurhad o'r geiriad i gynnwys dim ond cynlluniau ar gyfer anghenion unigolion fel gofalwyr; dileu cyfeiriadau at gau achosion (hen derminoleg).
- CA/016 – ychwanegu geiriad sy'n egluro y gall yr iaith a ddewisir fod yn unrhyw iaith, heb fod yn gyfyngedig i'r Gymraeg neu'r Saesneg.
- CA/018 – geiriad eglurach.

**Dyddiad**: 2 Mehefin 2026

**Blwyddyn adrodd**: 2026-27

**Disgrifiad:** Diwygiadau – V1.7

- Dyddiadau wedi'u rholio ymlaen.
- AD/002 – egluro'r geiriad: dileu “cyfrannol” a chynnwys gwybodaeth eglurhaol ynghylch cymorth pellach.
- Dolenni diwygiedig i gynnwys Codau Ymarfer 2014 wedi'u diweddaru
- AD/012 – eglurhad bod cymorth ataliol ar waith, nad oes angen cynllun gofal a chymorth ar ei gyfer.
- AD/026 – diwygio geiriad rhannau a-d
- CH/002 – cywiro o “unigolion o dan 18 oed” i “unigolion dros 18 oed”.
- CH/015 – lle mae gan blentyn gynllun llwybr *a* chynlluniau gofal a chymorth, cyfrifwch unwaith yn unig.
- CH/023a-i – dileu'r gofyniad bod CH/023 yn llai na CH/024.
- CH/025b – esboniad o pa bryd mae'r egwyl o 15 diwrnod rhwng y cyfarfod strategaeth a'r confensiwn cynhadledd amddiffyn plant yn dechrau ac yn dod i ben.
- CH/054 – diwygiedig; nid oes angen rhannu yn ôl categori person ifanc bellach; Yn hytrach: rhan a) ers gadael gofal a rhan b) yn y flwyddyn gasglu.

**Mae'r canllawiau hyn yn gymwys i awdurdodau lleol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol fel y'u disgrifir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

Mae’r ddogfen hon yn amlinellu’r canllawiau ar gyfer mesur gweithgarwch a pherfformiad fel y disgrifiwyd yn y Fframwaith Perfformiad a Gwella a amlinellwyd yn y cod ymarfer ar gyfer perfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng

Nghymru, a gyhoeddwyd dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â'r canllawiau yn y ddogfen hon yn unol â'r gofynion a osodir arnynt gan y Cod Ymarfer ar berfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a chodau ymarfer cysylltiedig eraill.

**Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â’r flwyddyn ariannol 2026-27 ac mae’n disodli holl fersiynau blaenorol y canllawiau technegol. Daeth i rym ar 1 Ebrill 2026.**

# Metrigau sy’n ymwneud ag Oedolion

## Cysylltiadau Oedolion

### Cyfeirnod Mesur: AD/001

**Enw’r Mesur:** Nifer y cysylltiadau ar gyfer oedolion a gafodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn.

a. **Cyfanswm** nifer y cysylltiadau
b. Nifer y cysylltiadau **newydd**

### Bwriad y Mesur

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i ganfod faint o wybodaeth, cyngor a chynhorthwy sydd ar gael fel y'u diffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a faint o alw sydd amdanynt. Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod awdurdodau lleol yn gweithredu eu swyddogaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy (IAA) mewn gwahanol ffyrdd, a bwriad y metrig ar hyn o bryd yw archwilio a yw'r gwahanol fodelau hyn o IAA yn cyflwyno data sy'n awgrymu gwahaniaethau yn y gwasanaeth y mae'r defnyddiwr terfynol yn ei gael.

Mae faint sydd ar gael, er nad oes ganddo gydberthynas uniongyrchol, yn arwydd o'r galw ar swyddogaeth y gwasanaethau cymdeithasol o fewn awdurdod lleol. Drwy archwilio faint o bobl sy'n ceisio gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy, mae modd i awdurdodau lleol gael mecanwaith syml i fonitro nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a chymharu hynny â metrigau ychwanegol i asesu sut yr ymdriniwyd â'r unigolion hyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro'r cysylltiadau â gwasanaethau IAA yng Nghymru a’i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

### Diffiniad

Cyfrwch nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan oedolion neu berson sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar eu rhan, a geisiodd wybodaeth, cyngor a chynhorthwy gan y gwasanaeth IAA yn eich awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn. Mae gennym ddiddordeb mewn dau grŵp: a) **pob cysylltiad** â’r gwasanaeth, gan gynnwys y rheini sydd eisoes yn derbyn gofal a chymorth, neu gymorth, a b) cysylltiadau **newydd** â’r gwasanaeth.

Gall oedolyn gael **mwy nag un cyswllt** yn ystod y flwyddyn gasglu. Cyfrwch y rhain i gyd.

Mae Cod Ymarfer **Rhan 2 a Rhan 3** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyfeirio at unigolion yn **‘cysylltu’** â'r gwasanaeth. Weithiau mae paragraffau eraill o fewn y codau ymarfer yn defnyddio termau gwahanol fel **‘atgyfeirio’** neu **‘geisio’ neu ‘gyrchu’** gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. At ddibenion y metrig hwn, dylid ystyried bod y rhain yr un peth.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1) Ar gyfer rhan a) dylech gynnwys **pob** cyswllt, ac ar gyfer rhan b) dim ond **cysylltiadau newydd**, â'ch gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu. Os nad ydych yn gallu darparu un o'r adrannau, nodwch hyn yn y ffurflen ddata a rhowch ffurflen wag ar gyfer yr adran honno.
2) Dylai rhan b) gynnwys dim ond pobl **nad oeddent** yn derbyn gofal a chymorth, neu gymorth (fel gofalwr) adeg y cyswllt.
3) Mae cyswllt yn cynnwys unrhyw berson sy'n cysylltu â'r gwasanaeth, neu weithiwr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar ei ran.
4) Os yw'r cyswllt yn cyfeirio at **nifer o unigolion, dylai pob person y cyfeirir ato fel un sydd angen cymorth gael ei gyfrif yn un sydd wedi cael cyswllt.**
5) Dylech gynnwys unrhyw gyswllt a geir, p'un a yw hynny wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy e-bost neu drwy ffurflen gyswllt ar wefan.
6) Gall person gael **mwy nag un cyswllt** yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrwch y rhain i gyd.
7) **Dylid cyfrif materion diogelu fel cyswllt** oni bai eu bod yn cael gofal a chymorth ar adeg y cyswllt.
8) Ar gyfer rhan b), dylai gofalwr ifanc, sydd eisoes yn cael cymorth gan yr awdurdod lleol ac sy'n cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer **IAA nad yw'n gysylltiedig â'i anghenion fel gofalwr**, gael ei gynnwys yn y cyfrif.
9) Nid yw pob awdurdod lleol yn gweithredu un pwynt mynediad. **Dylai'r cyfrif gynnwys pob cyswllt** sy'n bodloni'r meini prawf uchod, **waeth beth fo'r llwybr i mewn i'r system.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1) Peidiwch â chynnwys **ymweliadau â gwefan eich gwasanaeth IAA** fel cysylltiadau. Er bod darparu gwybodaeth ar wefan yn arfer da, nid dyna rydym yn ceisio'i gyfrif yma.
2) Ar gyfer rhan b), peidiwch â chynnwys unigolion a oedd yn **derbyn gofal a chymorth** adeg y cyswllt.
3) Peidiwch â chynnwys **cysylltiadau sy'n atgyfeiriadau uniongyrchol i wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal**, os nad oes asesiad yn digwydd. Dywed Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 2 o'r Cod Ymarfer, para. 294 mai swyddogaeth y gwasanaeth IAA yw: *[darparu] gwybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â gofal a chymorth, a chynhorthwy i gael mynediad at ofal a chymorth.* Dylid cynnwys cysylltiadau lle mae asesiad yn dod i'r casgliad mai gwasanaeth ymyrraeth gynnar ac atal yw'r ffordd fwyaf priodol o weithredu.
4) Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **sy'n amlwg wedi'u cyfeirio at yr adran anghywir.**
5) Peidiwch â chynnwys cysylltiadau sydd **wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad** (h.y. dyblygu, defnyddio'r math anghywir o atgyfeiriad ar y system).
6) Peidiwch â chynnwys cysylltiadau a ddefnyddir i **gofnodi gwybodaeth** am gael gafael ar wybodaeth gan asiantaethau eraill (h.y. AGC, yr heddlu).

**Cyfeirnod Mesur: AD/002**

**Enw'r Mesur:** Nifer y cysylltiadau **newydd** ar gyfer oedolion a gafodd y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor neu gynhorthwy.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan y gwasanaeth IAA lle darparwyd cyngor a/neu gynhorthwy yn unol â'r diffiniad a geir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Cod Ymarfer **Rhan 2** (Swyddogaethau Cyffredinol), **para. 300** (t63).

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro sut mae gwasanaethau IAA yng Nghymru yn ymdrin â chysylltiadau, ac yn ei defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o AD/001b.***

Mae Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol), para. 300 (t64-65) yn diffinio Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy.

Cyfrwch y cysylltiadau **newydd yn unig** o AD/001 sy'n cyfateb i'r diffiniad ar gyfer darparu **cyngor a/neu gynhorthwy.**

Er mwyn rhoi cyngor a chynhorthwy, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Pan fo'n hysbys, rhaid cofnodi gwybodaeth bersonol (data craidd) am yr unigolyn.
- Rhaid bod y pum elfen asesu wedi'u hystyried.
- Rhaid bod "sgwrs beth sy'n bwysig" wedi'i chynnal.

**Ni ddylid** cynnwys cysylltiadau newydd pan mai **dim ond** gwybodaeth a ddarparwyd.

Mae darparu cyngor a chynhorthwy **yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau asesiad** (Cod Ymarfer Rhan 3, para. 20). Mae angen i'r broses asesu **ddod i ben** cyn i ganlyniad yr asesiad fod yn hysbys. Mae hyn yn golygu, os yw'r asesiad yn fwy cynhwysfawr, mai casgliad y 'broses' asesu fydd yn pennu'r canlyniad, ni waeth sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu gwasanaeth IAA.

Mae set benodol iawn o egwyddorion yn bodoli ar gyfer sut mae awdurdod lleol yn ymateb i bryderon lle mae oedolyn yn cael ei gam-drin a'i esgeuluso, neu mewn perygl o gael ei gam-drin a'i esgeuluso. Mae Cod Ymarfer **Rhan 7** ar Weithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 6 (Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg), para. 58 yn datgan:

"*Bydd y broses asesu a nodir dan Ran 3 o'r Ddeddf yn gymwys pan fo amheuaeth bod oedolyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei niweidio. Gall yr asesiad ddechrau o'r adeg pan hysbysir yr awdurdod lleol er mwyn adnabod yr holl*

*anghenion am ofal a chymorth gan gynnwys y rhai i amddiffyn oedolyn sy'n wynebu risg. Gall yr asesiad bara trwy gydol y broses a dylid ei gwblhau gyda'r lefel briodol o frys yn ôl yr achos."*

Mae paragraff 63 o God Ymarfer Rhan 7 (Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl), Cyfrol 6 (Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg) yn nodi:

"*Dylai'r asesiad ar gyfer gofal a chymorth gael ei gynnal ochr yn ochr â'r ymholiad diogelu ac ni ddylai'r ymholiad amharu ar amseroldeb y broses asesu nac ar ddiwallu anghenion cymwys gan yr awdurdod."*

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1) Mae'r metrig hwn yn **is-set o'r data yn AD/001 Rhan b).** Defnyddiwch ddata sy'n cydymffurfio â'r diffiniad o AD/001 fel y data sylfaen ar gyfer y metrig hwn. **Data sylfaen: AD/001b.**
2) Dylech gynnwys cysylltiadau **newydd yn unig** ar gyfer oedolion os canlyniad y cyswllt oedd **darparu cyngor a/neu gynhorthwy** fel y'u diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Cod Ymarfer Rhan 2 paragraff 300.
3) Dylech gynnwys **pob cyswllt newydd** os darparwyd cyngor neu gynhorthwy **waeth beth fo canlyniad yr asesiad.** Mae'n bosibl bod y cyswllt wedi mynd ymlaen i dderbyn cymorth pellach neu gyngor neu gymorth asesu.
4) Dylech gynnwys **adroddiadau diogelu oedolion**, pan **nad oes gan y person gynllun gofal a chymorth gweithredol.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1) Peidiwch â chynnwys cysylltiadau newydd ar gyfer oedolion os canlyniad y cyswllt oedd **darparu gwybodaeth yn unig** fel y'i diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Cod Ymarfer Rhan 2 paragraff 300.
2) Peidiwch â chynnwys cysylltiadau newydd **os nad ystyriwyd y pum elfen asesu**, neu os na chynhaliwyd sgwrs "beth sy'n bwysig".
3) Peidiwch â chynnwys unrhyw ddata y **tu allan** i'r hyn a gasglwyd ar gyfer **AD/001b**.
4) Peidiwch â chynnwys plant (unigolion o dan 18 mlwydd oed) yn y metrig hwn.
5) Peidiwch â chynnwys unrhyw gysylltiadau a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AD/003**

**Enw'r Mesur:** Nifer y cysylltiadau newydd a gafodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn, lle darparwyd cyngor a chynhorthwy, a gafwyd gan:

a. Yr unigolyn ei hun
b. Perthynas
c. Ffrind neu gymydog
d. Gwasanaeth Atal / Ymyrryd yn fuan (Camu i fyny)
e. Iechyd
f. Addysg
g. Tai
h. Yr heddlu
i. Gwasanaethau prawf
j. Sefydliad trydydd sector
k. Awdurdod Lleol
l. Ysbyty Annibynnol
m. Gwasanaeth Ambiwlans
n. Rheoleiddiwr Gofal
o. Darparwr
p. Eiriolwr
q. Arall
r. Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall)

**Bwriad y Mesur**

Bwriad y metrig hwn yw casglu data ar ffynonellau cyswllt. Mae gwybod pwy a sut y deuir i gysylltiad â'r gwasanaeth IAA yn helpu sefydliadau i nodi sut mae pobl yn defnyddio'r gwasanaeth IAA. Mae gweithio gydag asiantaethau partner i nodi'n well y galw a'r llwybrau i mewn i wasanaethau IAA gofal cymdeithasol yn caniatáu cynllunio ac adnoddau rhyng-sefydliadol gwell i sicrhau bod y bobl gywir yn cael y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro sut mae pobl yn cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ac yn defnyddio'r wybodaeth hon ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o AD/002.***

Cyfrwch yr holl gysylltiadau newydd a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol i oedolion yn ystod y flwyddyn lle rhoddwyd cyngor neu gynhorthwy a defnyddio ffynhonnell y cyswllt a gofnodwyd ar eich system wedi'i fapio i'r is-gategorïau a restrir yn y metrig hwn.

Dylai'r aelod o staff sy'n derbyn yr wybodaeth gofnodi ffynhonnell yr atgyfeiriad. Gwerthfawrogir bod gan lawer o awdurdodau lleol ddull llawer mwy manwl o gofnodi pwy gysylltodd â'r adran. Dylid mapio'r rhain i'r categori mwyaf priodol. Er enghraifft:

- **Yr unigolyn ei hun neu aelod o'r teulu**; dylai gynnwys achosion o hunangyfeirio, neu os yw'r person sy'n cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn briod, partner, plentyn, brawd neu chwaer neu berthynas arall i'r person sy'n destun y cyswllt.
- Dylai **cyfaill neu gymydog** gynnwys ffrindiau neu gymdogion y person sy'n destun y cyswllt.
- Dylai **iechyd** gynnwys cydweithwyr iechyd sylfaenol, eilaidd, trydyddol a chymunedol. Meddygon Teulu, Ysbytai, Ymgynghorwyr, Clinigau, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd ac ati.
- Dylai **addysg** gynnwys unrhyw atgyfeiriwr sy'n darparu gwasanaethau addysg neu ddysgu. Ysgolion, Athrawon, AALlau, Unedau Cyfeirio Disgyblion, Colegau a Phrifysgolion, darpariaeth addysg arbenigol, gwasanaethau seicoleg addysg ac ati.
- Dylai **yr Heddlu** gynnwys unrhyw swyddog awdurdod heddlu, heddlu trafnidiaeth neu asiantaeth troseddau genedlaethol.
- Dylai **Gwasanaeth Prawf** gynnwys unrhyw aelod o staff y gwasanaeth prawf sy'n gweithredu yn rhinwedd ei swydd broffesiynol.
- Dylai **tai** gynnwys adran dai awdurdod lleol ac asiantaethau tai eraill.
- Dylai **Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar / Atal (Camu i fyny)** gynnwys unrhyw wasanaeth a gynlluniwyd i ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal, boed yn fewnol neu wedi'u comisiynu gan yr awdurdod lleol, pan fo'r person sy'n destun y cyswllt yn derbyn gwasanaeth gan yr asiantaethau hyn – cyfeirir at hyn weithiau fel ‘camu i fyny’.
- **Sefydliad Trydydd Sector**; dylai gynnwys unrhyw sefydliad trydydd sector, budd cymunedol, menter gymdeithasol neu elusennol.
- **Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall)**; dylai gynnwys cysylltiadau a gynhyrchir yn fewnol (h.y. drwy ddarganfod unigolyn arall sydd ag anghenion gofal a chymorth posibl yn ystod gwaith o ddydd i ddydd).
- **Arall**; unrhyw ffynhonnell gyswllt arall nad yw'n cyd-fynd â'r categorïau uchod, ee dienw, cyfreithiwr, awdurdod lleol arall, aelod o'r cyhoedd ac ati.
- Rydym yn cydnabod y gall rhai cysylltiadau ddisgyn i fwy nag un categori. Er enghraifft, gall cymydog hefyd fod yn aelod o'r teulu. Gall sefydliad trydydd sector hefyd ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnal ac atal. Mater i'r sawl sy'n derbyn yr wybodaeth yw llunio barn ar y categori mwyaf priodol i’r ffynhonnell gyswllt.

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys pob cyswllt newydd ar gyfer oedolion os canlyniad y cyswllt oedd **darparu cyngor a/neu gynhorthwy** fel y'u diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Cod Ymarfer Rhan 2 paragraff 300. Data sylfaen = AD/002

2. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **os nad ystyriwyd y pum elfen asesu**, neu os na chynhaliwyd sgwrs “beth sy'n bwysig”.
3. Peidiwch â chynnwys unrhyw ddata y **tu allan** i'r hyn a gasglwyd ar gyfer **AD/002**
4. Peidiwch â chynnwys plant (unigolion o dan 18 mlwydd oed) yn y metrig hwn.
5. Peidiwch â chynnwys unrhyw gysylltiadau a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau ar gyfer oedolion os canlyniad y cyswllt oedd **darparu gwybodaeth** fel y'i diffinnir gan God Ymarfer Rhan 2, paragraff 300, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
2. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **os nad ystyriwyd y pum elfen asesu**, neu os na chynhaliwyd sgwrs “beth sy'n bwysig”.
3. Peidiwch â chynnwys unrhyw ddata y **tu allan** i'r hyn a gasglwyd ar gyfer **AD/002.**
4. Peidiwch â chynnwys plant (unigolion o dan 18 mlwydd oed) yn y metrig hwn.
5. Peidiwch â chynnwys unrhyw gysylltiadau a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

## Asesiadau Oedolion

### Cyfeirnod Mesur: AD/004

**Enw’r Mesur:** Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am nifer yr asesiadau **newydd** a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn.

Mae casglu data am yr unigolion hynny sy'n dod i sylw'r gwasanaethau cymdeithasol i gael eu hasesu yn agwedd bwysig ar fesur cyfanswm, llif a galw ar ddechrau'r broses gofal cymdeithasol statudol. **Nid yw'n cynnwys ailasesiadau** o oedolion sydd eisoes â chynllun gofal a chymorth. Bwriad y metrig yw nodi’r llif a'r galw i mewn i'r system.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cyfanswm a llif i wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, ac yn ei defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro'r galw o fewn y system.

**Diffiniad**

Mae **Rhan 2** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, para. 300 (t64) yn nodi bod darparu cyngor a chynhorthwy “*yn golygu ei bod yn ofynnol i staff gynnal asesiad cymesur drwy drafod a dadansoddi pum elfen yr Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol”.*

Dylai hyn **gynnwys** unrhyw asesiadau, **gan gynnwys** y rhai sy'n ymgorffori asesiadau manwl neu **gynhwysfawr** yn y broses asesu, yn ogystal â'r rhai sy'n ymgorffori asesiadau arbenigol a gynhaliwyd gan hefyd ystyried deddfwriaeth ategol (Deddf Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ac ati).

Er mwyn rhoi cyngor a chynhorthwy, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid cofnodi Gwybodaeth Bersonol (data craidd) am yr unigolyn (lle bo'n hysbys).
- Rhaid bod y pum elfen asesu wedi'u hystyried.
- Rhaid bod "sgwrs beth sy'n bwysig" wedi'i chynnal.

Ni ddylid cynnwys cysylltiadau lle mai dim ond gwybodaeth a ddarparwyd gan nad yw'r rhain yn bodloni'r trothwy ar gyfer asesu.

Mae darparu cyngor a chynhorthwy yn golygu bod **angen cwblhau asesiad** (Cod Ymarfer **Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion), para. 20). Mae angen i'r broses asesu ddod i ben cyn i ganlyniad yr asesiad fod yn hysbys. Mae hyn yn golygu, os yw'r asesiad yn fwy cynhwysfawr, mai casgliad y 'broses' asesu fydd yn pennu'r canlyniad, ni waeth sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu gwasanaeth IAA.

**Mae'r metrig hwn yn wahanol i AD/002** yn y data a gesglir. Oherwydd yr amser sydd ei angen i gynnal asesiadau – yn enwedig pan fo'r asesiad yn fanwl neu'n gynhwysfawr – pan fyddwn yn ceisio casglu nifer yr asesiadau a wnaed o ganlyniad i gysylltiadau a gafodd yr Awdurdod Lleol mewn blwyddyn gasglu benodol, bydd cyfran o'r asesiadau sy'n deillio o'r cysylltiadau hynny yn digwydd y tu allan i flwyddyn gasglu dyddiad eu cyswllt. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd cyswllt wedi'i dderbyn fis Ionawr 2024, a'r asesiad dilynol wedi'i gynnal fis Mai 2024. Bydd y cyswllt yn cael ei gyfrif ym mlwyddyn gasglu 2023-24, ond bydd yr asesiad wedi digwydd ym mlwyddyn gasglu 2024-25.

Mae'r metrig hwn yn cyfrif **unrhyw asesiad newydd a gwblhawyd yn y flwyddyn gasglu, waeth pryd y derbyniwyd y cyswllt.** Mae hyn yn rhoi darlun gwell o gyfanswm nifer yr asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

Mae set benodol iawn o egwyddorion yn bodoli ar gyfer sut mae awdurdod lleol yn ymateb i bryderon pan fo oedolyn yn cael ei gam-drin a'i esgeuluso, neu pan fo mewn perygl o gael ei gam-drin a'i esgeuluso. Mae Cod Ymarfer **Rhan 7** ar Weithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 6 (Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg), para. 58 yn nodi:

"***Bydd y broses asesu a nodir dan Ran 3 o'r Ddeddf yn gymwys pan fo amheuaeth bod oedolyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei niweidio.*** *Gall yr asesiad ddechrau o'r adeg pan hysbysir yr awdurdod lleol er mwyn adnabod yr holl anghenion am ofal a chymorth gan gynnwys y rhai i amddiffyn oedolyn sy'n wynebu risg. Gall yr asesiad bara trwy gydol y broses a dylid ei gwblhau gyda'r lefel briodol o frys yn ôl yr achos."*

Mae'r cod ymarfer ar Weithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 6 (Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg), para. 63 yn nodi: "***Dylai'r asesiad ar gyfer gofal a chymorth gael ei gynnal ochr yn ochr â'r ymholiad diogelu" ac ni ddylai'r ymholiad*** *amharu ar amseroldeb y broses asesu nac ar ddiwallu anghenion cymwys gan yr awdurdod.*

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr **holl** asesiadau a **gwblhawyd** yn ystod y flwyddyn gasglu.
2. Gall asesiad **gynnwys asesiadau manwl neu gynhwysfawr** a all ymgorffori asesiadau arbenigol a gynhelir gan weithwyr proffesiynol ar wahân i'r ymarferydd arweiniol.
3. Ystyrir bod asesiad wedi'i gwblhau, pan fydd wedi'i **awdurdodi gan reolwr practis** neu berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.
4. Dylech gynnwys pob asesiad **waeth beth fo canlyniad** yr asesiad.
5. Dylech gynnwys asesiadau a gwblhawyd **o ganlyniad i ymholiadau diogelu oedolion.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau ar gyfer oedolion os canlyniad y cyswllt oedd darparu gwybodaeth fel y'i diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Cod Ymarfer Rhan 2 paragraff 300.
2. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **os nad ystyriwyd y pum elfen asesu**, neu os na chynhaliwyd sgwrs "**beth sy'n bwysig**".
3. Peidiwch â chynnwys asesiadau a gwblhawyd **y tu allan i'r flwyddyn gasglu**.
4. Peidiwch â chynnwys **ailasesiadau** o oedolion sydd eisoes â chynllun gofal a chymorth.
5. Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu **proses asesu aml-gam** sy'n defnyddio mwy nag un ffurflen ar gyfer y broses asesu. Peidiwch â chyfrif y rhain yn unigol. Cyfrwch y broses yn ei chyfanrwydd unwaith yn unig.
6. Peidiwch â chynnwys **plant (unigolion o dan 18 mlwydd oed)** yn y metrig hwn.
7. Peidiwch â chynnwys asesiadau a oedd yn **anghyflawn**. Ystyrir bod asesiad wedi'i gwblhau, pan fydd wedi'i awdurdodi gan reolwr practis neu berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.
8. Peidiwch â chynnwys asesiadau **a gofnodwyd drwy gamgymeriad.**

**Cyfeirnod Mesur: AD/005**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn lle:

a. Dim ond gyda chynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.
b. Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.
c. Lle nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am ganlyniadau'r asesiadau a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn.

Mae casglu data ar yr unigolion hynny sy'n cyflwyno i'r gwasanaethau cymdeithasol i'w hasesu yn agwedd bwysig ar fesur cyfanswm, llif a galw ar ddechrau'r broses gofal cymdeithasol statudol. **Nid yw'n cynnwys ailasesiadau** o oedolion sydd eisoes â chynllun gofal a chymorth. Bwriad y metrig yw nodi'r llif a'r galw i mewn i'r system.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cyfanswm a llif i wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, ac yn ei defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro'r galw o fewn y system.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o AD/004.***

Mae Cod Ymarfer **Rhan 2** (Swyddogaethau Cyffredinol) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, para. 300 (t64) yn nodi bod darparu cyngor a chynhorthwy *yn golygu ei bod yn ofynnol i staff gynnal asesiad cymesur drwy drafod a dadansoddi pum elfen yr Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol..*

Dylai hyn **gynnwys** unrhyw asesiadau, **gan gynnwys** y rhai sy'n ymgorffori asesiadau manwl neu **gynhwysfawr** yn y broses asesu, yn ogystal â'r rhai sy'n ymgorffori asesiadau arbenigol a gynhaliwyd gan hefyd ystyried deddfwriaeth ategol (Deddf Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ac ati).

Er mwyn rhoi cyngor a chynhorthwy, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid cofnodi Gwybodaeth Bersonol (data craidd) am yr unigolyn (lle bo'n hysbys).
- Rhaid bod y pum elfen asesu wedi'u hystyried.
- Rhaid bod “sgwrs beth sy'n bwysig” wedi’i chynnal.

Ni ddylid cynnwys cysylltiadau lle mai dim ond gwybodaeth a ddarparwyd gan nad yw'r rhain yn bodloni'r trothwy ar gyfer asesu.

Mae darparu cyngor a chynhorthwy yn golygu bod **angen cwblhau asesiad** (Cod Ymarfer **Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion), **para. 20**). Mae angen i'r broses asesu ddod i ben cyn i ganlyniad yr asesiad fod yn hysbys. Mae hyn yn golygu, os yw'r asesiad cyfrannol yn fwy cynhwysfawr, mai casgliad y ‘broses’ asesu fydd yn pennu'r canlyniad, ni waeth sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu gwasanaeth IAA.

**Mae'r metrig hwn yn wahanol i AD/002** yn y data a gesglir. Oherwydd yr amser sydd ei angen i gynnal asesiadau – yn enwedig pan fo'r asesiad yn fanwl neu'n gynhwysfawr – pan fyddwn yn ceisio casglu nifer yr asesiadau a wnaed o ganlyniad i gysylltiadau a gafodd yr Awdurdod Lleol mewn blwyddyn gasglu benodol, bydd

cyfran o'r asesiadau sy'n deillio o'r cysylltiadau hynny yn digwydd y tu allan i flwyddyn gasglu dyddiad eu cyswllt. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd cyswllt wedi'i dderbyn fis Ionawr 2024, a'r asesiad dilynol wedi'i gynnal fis Mai 2024. Bydd y cyswllt yn cael ei gyfrif ym mlwyddyn gasglu 2023-24, ond bydd yr asesiad wedi digwydd ym mlwyddyn gasglu 2024-25.

Mae'r metrig hwn yn cyfrif **unrhyw asesiad newydd a gwblhawyd yn y flwyddyn gasglu, waeth pryd y derbyniwyd y cyswllt.** Mae hyn yn rhoi darlun gwell o gyfanswm nifer yr asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

Mae set benodol iawn o egwyddorion yn bodoli ar gyfer sut mae awdurdod lleol yn ymateb i bryderon lle mae oedolyn yn cael ei gam-drin a'i esgeuluso, neu mewn perygl o gael ei gam-drin a'i esgeuluso. Mae Cod Ymarfer **Rhan 7** ar Weithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 6 (Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn oedolion sy’n wynebu risg), para. 58 yn datgan:

"***Bydd y broses asesu a nodir dan Ran 3 o’r Ddeddf yn gymwys pan fo amheuaeth bod oedolyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei niweidio.*** *Gall yr asesiad ddechrau o’r adeg pan hysbysir yr awdurdod lleol er mwyn adnabod yr holl anghenion am ofal a chymorth gan gynnwys y rhai i amddiffyn oedolyn sy’n wynebu risg. Gall yr asesiad bara trwy gydol y broses a dylid ei gwblhau gyda’r lefel briodol o frys yn ôl yr achos.”*

Mae’r Cod Ymarfer ar Weithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 6 (Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn oedolion sy’n wynebu risg), para. 63 yn nodi:

“**Dylai’r asesiad ar gyfer gofal a chymorth gael ei gynnal ochr yn ochr â’r ymholiad diogelu ac ni ddylai’r ymholiad** amharu ar amseroldeb y broses asesu nac ar ddiwallu anghenion cymwys gan yr awdurdod.”

At ddibenion y metrig hwn, dylid mapio'r wyth canlyniad asesu a gynhwysir yn yr offeryn asesu a chymhwysedd cenedlaethol i'r is-gategori priodol fel a ganlyn:

Canlyniadau'r Gofyniad Asesu Cyffredin

1. Nid oes angen diwallu unrhyw anghenion gofal a chymorth.

*Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i fodloni*

2. Mae angen asesiad mwy cynhwysfawr, a all gynnwys asesiadau mwy arbenigol.

*Amherthnasol – Dylid cyfrif y broses asesu yn ei chyfanrwydd. Os oes angen asesiad mwy cynhwysfawr, mae hyn yn rhan o'r broses asesu gyffredinol lle gellir cynnwys asesiadau arbenigol*.

3. Gellir diwallu anghenion drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy.

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

4. Gellir diwallu anghenion, drwy ddarparu gwasanaethau ataliol.

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

5. Gall anghenion gael eu diwallu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan yr unigolion eu hunain (gyda chymorth pobl eraill neu hebddynt).

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

6. Gall materion eraill gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau personol, neu fel arall ddiwallu'r anghenion.

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

7. Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth, y gall anghenion gael eu diwallu (**mae anghenion yn gymwys**).

*Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.*

8. Mae'r awdurdod lleol o'r farn bod angen diwallu'r anghenion er mwyn amddiffyn y person rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu rhag y risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu yn achos plentyn, rhag niwed arall neu rhag y risg o niwed.

   *Dylai'r asesiad ddechrau ar adeg yr atgyfeiriad a phara drwy gydol y broses ddiogelu (**Cod Ymarfer Rhan 7, paragraff 74**). Dewiswch yr opsiwn priodol ar ôl i'r asesiad hwn ddod i ben.*

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr **holl** asesiadau a **gwblhawyd** yn ystod y flwyddyn gasglu. **Data sylfaen = AD/004**
2. Gall asesiad **gynnwys asesiadau manwl neu gynhwysfawr** a all ymgorffori asesiadau arbenigol a gynhelir gan weithwyr proffesiynol ar wahân i'r ymarferydd arweiniol.
3. Ystyrir bod asesiad wedi'i gwblhau, pan fydd wedi'i **awdurdodi gan reolwr practis** neu berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.
4. Dylech gynnwys pob asesiad cyfrannol **waeth beth fo canlyniad** yr asesiad.
5. Dylech gynnwys asesiadau a gwblhawyd **o ganlyniad i bryderon diogelu.**

**Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau ar gyfer oedolion os canlyniad y cyswllt oedd darparu gwybodaeth fel y'i diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Cod Ymarfer Rhan 2 paragraff 300.
2. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **os nad ystyriwyd y pum elfen asesu**, neu os na chynhaliwyd sgwrs "**beth sy'n bwysig**".
3. Peidiwch â chynnwys asesiadau a gwblhawyd **y tu allan i'r flwyddyn gasglu**.
4. Peidiwch â chynnwys **ailasesiadau** o oedolion sydd eisoes â chynllun gofal a chymorth ar adeg yr asesiad.

5. Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu **proses asesu aml-gam** sy'n defnyddio mwy nag un ffurflen ar gyfer y broses asesu. Peidiwch â chyfrif y rhain yn unigol. Cyfrwch y broses yn ei chyfanrwydd unwaith yn unig.
6. Peidiwch â chynnwys **plant (unigolion dan 18 mlwydd oed)** yn y metrig hwn.
7. Peidiwch â chynnwys asesiadau a oedd yn **anghyflawn**.
8. Peidiwch â chynnwys asesiadau **a gofnodwyd drwy gamgymeriad.**

**Cyfeirnod Mesur: AD/006**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gwblhawyd (AD/004) yn ystod y flwyddyn lle:

a. Roedd tystiolaeth o'r cynnig rhagweithiol o ran y Gymraeg
b. Derbyniwyd Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg
c. Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio dewis iaith yr unigolyn (unrhyw iaith, heb fod yn gyfyngedig i'r Gymraeg neu'r Saesneg).

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r fframwaith strategol 'Mwy na Geiriau' ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **Cod Ymarfer Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion) **para. 52**, yn nodi: ***Rhaid** i'r broses asesu gydnabod y cysyniad o'r angen am iaith a dylai ymarferwyr **sicrhau bod yr egwyddor cynnig rhagweithiol yn cael ei hymgorffori'n ymarferol.***

*Mae hyn yn golygu y dylai'r awdurdod lleol fod yn rhagweithiol a **dylid gofyn i'r unigolyn pa iaith y byddai'n well ganddo ei defnyddio ar ddechrau'r broses.** Bydd hyn yn sicrhau bod yr unigolyn yn gallu derbyn gwasanaethau yn ei iaith ei hun gydol y broses o nodi a diwallu ei anghenion gofal a chymorth. Mae iaith yn elfen annatod o'r gofal y mae pobl yn ei dderbyn a chyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw darparu gwasanaethau priodol sy'n cynnwys diwallu anghenion ieithyddol defnyddwyr. Dim ond drwy wneud hyn y gallant ddarparu gofal sy'n ddiogel ac yn effeithiol.*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cydymffurfiaeth genedlaethol yn erbyn gofynion y Ddeddf.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o AD/004.***

Mae **Cod Ymarfer Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 52** yn nodi: *…dylai awdurdod lleol fod yn rhagweithiol a* ***dylid gofyn i'r unigolyn pa iaith fyddai'n well ganddo ei defnyddio ar ddechrau'r broses (rhan a).***

Dylai awdurdodau lleol hefyd gofnodi a oedd yr unigolyn neu'r teulu sy'n cael eu hasesu wedi manteisio ar y Gynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg (**rhan b**).

Mae Cod Ymarfer **Rhan 3** (Asesu angen Unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 59**, yn diffinio'r set Ddata Graidd sy'n cynnwys 'Dewis Iaith'. Gall hyn gynnwys ieithoedd **heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg (rhan c).**

Cyfrwch **Gynnig Rhagweithiol y Gymraeg a dewisiadau iaith eraill ar gyfer pob asesiad a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn gasglu.**

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl asesiadau** ar gyfer oedolion a gwblhawyd yn y flwyddyn gasglu. **Data sylfaen = AD/004.**
2. Cyfrifwch yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:
    a. **Ar gyfer rhan a:** Mae cysyniad y Cynnig Rhagweithiol yn cyfeirio awdurdodau lleol at gynnig gwasanaethau i unigolion yn Gymraeg heb fod angen i'r unigolyn ofyn amdano'n benodol. Mae hyn yn golygu gofyn i bobl sy'n mynd at y gwasanaeth i gael asesiad a fyddai'n well ganddynt gael gohebiaeth yn Gymraeg. Mae'r canllawiau 'Mwy na Geiriau', para. 3.13 yn datgan: *Dylai cofnodion cleientiaid a chleifion ddangos yn glir beth yw dewis iaith dinasyddion (sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg neu'r Saesneg).*
    b. **Ar gyfer rhan b:** Pan fo unigolyn yn *rhan a* yn dewis cael gohebiaeth yn Gymraeg, dylai awdurdodau lleol gofnodi hyn yn yr asesiad (neu mewn rhan arall o'r system lle bo modd cyfeirio'n ôl at yr asesiad). Mae'r canllawiau 'Mwy na Geiriau', para. 3.13 yn datgan: ***Rhaid*** *i gofnodion cleientiaid a chleifion gynnwys adrannau i alluogi staff i gofnodi pryd y bydd* ***rhaid*** *darparu Cynnig Rhagweithiol.*
    c. **Ar gyfer rhan c:** Pan fo unigolyn yn *rhan a* yn dewis cael gohebiaeth mewn iaith **heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg**, dylai awdurdodau lleol gofnodi hyn yn yr asesiad. Mae Cod Ymarfer **Rhan 3** (Asesu angen Unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 59**, yn diffinio'r set Ddata Graidd sy'n cynnwys 'Dewis Iaith'.
    **Cofnodwch a gynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio'r iaith o ddewis, ni waeth beth oedd yr iaith.**
3. Rhaid i asesiad fod wedi'i **awdurdodi neu ei gymeradwyo** gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw i gael ei ystyried yn 'gyflawn'.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau lle'r oeddech wedi darparu **gwybodaeth yn unig.**
2. Peidiwch â chynnwys asesiadau ar gyfer **gofalwyr sy'n oedolion lle na nodwyd unrhyw anghenion gofal a chymorth ychwanegol** ar gyfer y sawl sy'n darparu gofal.
3. Peidiwch â chynnwys asesiadau **anghyflawn.**
4. Peidiwch â chynnwys asesiadau ar gyfer pob is-gategori **nad ydynt yn bodloni'r meini prawf** a amlinellir uchod.
5. Peidiwch â chynnwys asesiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AD/007**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn yr ystâd ddiogeledd.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion mewn ystâd ddiogeledd yn ystod y flwyddyn.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 11 (amrywiol a Chyffredinol) yn nodi: Rhaid i awdurdodau lleol gefnogi oedolyn ag anghenion gofal a chymorth mewn sefydliad diogel yng Nghymru yn yr un modd ag y byddent yn cefnogi rhywun yn y gymuned.

Mae casglu data ar yr unigolion hynny sy'n cyflwyno i'r gwasanaethau cymdeithasol i'w hasesu yn agwedd bwysig ar fesur cyfanswm, llif a galw ar ddechrau'r broses gofal cymdeithasol statudol. Nid yw'n cynnwys ailasesiadau o oedolion sydd eisoes â chynllun gofal a chymorth. Bwriad y metrig yw nodi'r llif a'r galw i mewn i'r system.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cyfanswm a llif i wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, ac yn ei defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro'r galw o fewn y system.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o AD/004.***

Mae Cod Ymarfer **Rhan 11** (Amrywiol a Chyffredinol) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, para. 16, yn nodi: *Mae gan y rhai mewn sefydliadau diogel sydd ag anghenion gofal a chymorth hawl i gael asesiad gyda'r nod o gyflawni eu canlyniadau lles personol. Rhaid i awdurdodau lleol asesu'r rhai mewn sefydliadau diogel yn yr un modd ag y byddent yn asesu unrhyw un sy'n byw yn eu hardal, ond efallai y bydd angen iddynt newid y dull o ddarparu'r trefniadau asesu fel ei fod yn cydymffurfio â chyfyngiadau system y sefydliad diogel.*

Mae **Cod Ymarfer Rhan 2** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, para. 300 (t64) yn nodi bod darparu cyngor a chynhorthwy *yn golygu ei bod yn ofynnol i staff gynnal asesiad cymesur drwy drafod a dadansoddi pum elfen yr Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol.*

Dylai hyn **gynnwys** unrhyw asesiadau sy'n ymgorffori asesiadau manwl neu **gynhwysfawr** yn y broses asesu, yn ogystal â'r rhai sy'n ymgorffori asesiadau arbenigol a gynhaliwyd gan hefyd ystyried deddfwriaeth ategol (Deddf Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ac ati).

Er mwyn rhoi cyngor a chynhorthwy, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid cofnodi Gwybodaeth Bersonol (data craidd) am yr unigolyn (lle bo'n hysbys).
- Rhaid bod y pum elfen asesu wedi'u hystyried.
- Rhaid bod "sgwrs beth sy'n bwysig" wedi'i chynnal.

Ni ddylid cynnwys cysylltiadau lle mai dim ond gwybodaeth a ddarparwyd gan nad yw'r rhain yn bodloni'r trothwy ar gyfer asesu.

Mae darparu cyngor a chynhorthwy yn golygu bod **angen cwblhau asesiad** (Cod Ymarfer **Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion), para. 20). Mae angen i'r broses asesu ddod i ben cyn i ganlyniad yr asesiad fod yn hysbys. Mae hyn yn golygu, os yw'r asesiad yn fwy cynhwysfawr, mai casgliad y 'broses' asesu fydd yn pennu'r canlyniad, ni waeth sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu gwasanaeth IAA.

**Mae'r metrig hwn yn wahanol i AD/002** yn y data a gesglir. Oherwydd yr amser sydd ei angen i gynnal asesiadau – yn enwedig pan fo'r asesiad yn fanwl neu'n gynhwysfawr – pan fyddwn yn ceisio casglu nifer yr asesiadau a wnaed o ganlyniad i gysylltiadau a gafodd yr Awdurdod Lleol mewn blwyddyn gasglu benodol, bydd cyfran o'r asesiadau sy'n deillio o'r cysylltiadau hynny yn digwydd y tu allan i flwyddyn gasglu dyddiad eu cyswllt. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd cyswllt wedi'i dderbyn fis Ionawr 2024, a'r asesiad dilynol wedi'i gynnal fis Mai 2024. Bydd y cyswllt yn cael ei gyfrif ym mlwyddyn gasglu 2023-24, ond bydd yr asesiad wedi digwydd ym mlwyddyn gasglu 2024-25.

Mae'r metrig hwn yn cyfrif **unrhyw asesiad newydd a gwblhawyd yn y flwyddyn gasglu, waeth pryd y derbyniwyd y cyswllt.** Mae hyn yn rhoi darlun gwell o gyfanswm nifer yr asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

Mae set benodol iawn o egwyddorion yn bodoli ar gyfer sut mae awdurdod lleol yn ymateb i bryderon pan fo oedolyn yn cael ei gam-drin a'i esgeuluso, neu pan fo mewn perygl o gael ei gam-drin a'i esgeuluso. Mae Cod Ymarfer **Rhan 7** ar Weithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 6 (Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg), para. 58 yn nodi:

"***Bydd y broses asesu a nodir dan Ran 3 o'r Ddeddf yn gymwys pan fo amheuaeth bod oedolyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei niweidio.*** *Gall yr asesiad ddechrau o'r adeg pan hysbysir yr awdurdod lleol er mwyn adnabod yr holl anghenion am ofal a chymorth gan gynnwys y rhai i amddiffyn oedolyn sy'n*

*wynebu risg. Gall yr asesiad bara trwy gydol y broses a dylid ei gwblhau gyda'r lefel briodol o frys yn ôl yr achos.*"

Mae'r Cod Ymarfer ar Weithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 6 (ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg), para. 63, yn nodi:

"**Dylai'r asesiad ar gyfer gofal a chymorth gael ei gynnal ochr yn ochr â'r ymholiad diogelu ac ni ddylai'r ymholiad** amharu ar amseroldeb y broses asesu nac ar ddiwallu anghenion cymwys gan yr awdurdod."

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr **holl** asesiadau a **gwblhawyd yn yr ystad ddiogel** yn ystod y flwyddyn gasglu. **Data sylfaen = AD/004**
2. **Diffinnir yr ystad ddiogel** yng **Nghod Ymarfer Rhan 11** (Amrywiol a Chyffredinol) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
3. Gall asesiad **gynnwys asesiadau manwl neu gynhwysfawr** a all ymgorffori asesiadau arbenigol a gynhelir gan weithwyr proffesiynol ar wahân i'r ymarferydd arweiniol.
4. Ystyrir bod asesiad wedi'i gwblhau, pan fydd wedi'i **awdurdodi gan reolwr practis** neu berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.
5. Dylech gynnwys pob asesiad cyfrannol **waeth beth fo canlyniad** yr asesiad.
6. Dylech gynnwys asesiadau a gwblhawyd **o ganlyniad i ymholiadau diogelu oedolion.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys asesiadau **na chafodd eu cynnal yn yr ystad ddiogel.**
2. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **os nad ystyriwyd y pum elfen asesu**, neu os na chynhaliwyd sgwrs "**beth sy'n bwysig**".
3. Peidiwch â chynnwys asesiadau a gwblhawyd **y tu allan i'r flwyddyn gasglu**.
4. Peidiwch â chynnwys unrhyw asesiadau **nad ydynt wedi'u cynnwys yn AD/004**.
5. Peidiwch â chynnwys **ailasesiadau** o oedolion sydd eisoes â chynllun gofal a chymorth.
6. Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu **proses asesu aml-gam** sy'n defnyddio mwy nag un ffurflen ar gyfer y broses asesu. Peidiwch â chyfrif y rhain yn unigol. Cyfrwch y broses yn ei chyfanrwydd unwaith yn unig.
7. Peidiwch â chynnwys **plant (unigolion o dan 18 mlwydd oed)** yn y metrig hwn.
8. Peidiwch â chynnwys asesiadau a oedd yn **anghyflawn** (gweler 6.3 uchod).
9. Peidiwch â chynnwys asesiadau **a gofnodwyd drwy gamgymeriad.**

**Cyfeirnod Mesur: AD/008**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr asesiadau newydd y gofynnodd yr oedolyn neu'r teulu amdanynt yn ystod y flwyddyn lle'r oedd asesiad blaenorol wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am nifer yr oedolion sy'n dychwelyd i'r gwasanaethau cymdeithasol ac yn gofyn i'w hanghenion gael eu hasesu eto.

Gall awdurdodau lleol ddefnyddio gwybodaeth am oedolion sy'n gofyn am ailasesiad o'u hanghenion i bennu'r prif ffactorau ar gyfer ailgyflwyno. Bydd yr wybodaeth hon yn caniatáu i awdurdodau lleol gynllunio'r gwaith o ddatblygu, gwella a/neu gomisiynu gwasanaethau a allai wella'r cymorth ymyrraeth gynnar ac atal sydd ar gael i unigolion fel y gellir diwallu anghenion heb yr angen am ofal a chymorth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro nifer yr asesiadau a ailgynhelir yng Nghymru.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o AD/004.***

Mae Cod Ymarfer Rhan 3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Swyddogaethau Cyffredinol) 2014, **para. 98** yn nodi:

"*Mae gan yr unigolyn yr hawl i ofyn am ail-asesiad o'i anghenion ar unrhyw adeg. Rhaid i broses ffurfiol ar gyfer gwneud y cais hwn gael ei datblygu, ei chyhoeddi a'i chyfleu'n glir gan yr awdurdod lleol."*

Mae'r metrig hwn yn ceisio casglu gwybodaeth i oedolion sydd heb gynllun gofal a chymorth ar adeg yr asesiad diweddaraf, ond sydd wedi'u hasesu'n flaenorol yn ystod y 12 mis diwethaf ac wedi gofyn i'w hanghenion gael eu hailasesu.

Mae'r disgrifiadau canlynol wedi'u datblygu i'ch helpu i ddeall:

**Asesiad newydd** –asesiad a gynhelir ar berson sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol (neu gynllun cymorth os yw'r cais am gymorth fel gofalwr) ar adeg yr asesiad.

**Ailasesiad** – byddai hyn yn digwydd pan fo newid sylweddol yn amgylchiadau person sydd eisoes yn derbyn gofal a chymorth (neu gymorth fel gofalwr), sy'n gorfodi'r ALl i adolygu'r asesiad (Cod Ymarfer Rhan 3, para. 92-100). Nid yw adolygu asesiad yr un fath ag adolygu cynllun gofal a chymorth.

**Asesiad a ailgynhelir** – mae hwn yn digwydd pan fydd person sydd wedi'i asesu ac nad oes ganddo anghenion cymwys yn arfer ei hawliau i ofyn am ailasesiad o'i

anghenion. Fe'i diffinnir fel ailasesiad yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ond at ddibenion casglu, mae wedi'i enwi'n wahanol i'w gwahaniaethu oddi wrth ailasesiadau o unigolion sydd eisoes yn derbyn gofal a chymorth. Gellir ystyried ailadrodd asesiad fel apêl, lle bo'r unigolyn yn anghytuno â chanlyniad yr asesiad gwreiddiol. Yn yr achos hwn, nid yw eu hamgylchiadau wedi newid. Byddai newid mewn amgylchiadau yn galw am asesiad newydd, yn hytrach nag ailasesiad neu asesiad a ailgynhelir.

**Mae'r metrig hwn yn cyfrif asesiadau a ailgynhaliwyd ar gyfer oedolion (oedolion sy'n cael eu hasesu yn ystod y flwyddyn lle bodlonir y meini prawf canlynol):**

- **Nid oes** gan yr oedolyn gynllun gofal a chymorth (na chynllun cymorth fel gofalwr) ar adeg yr asesiad.
- Mae asesiad blaenorol wedi'i gynnal gan y gwasanaethau cymdeithasol yn y 12 mis cyn **dechrau'r** asesiad diweddaraf.
- **Gofynnodd yr unigolyn neu aelod o'r teulu** am yr asesiad.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr holl asesiadau a ailgynhaliwyd ar gyfer oedolion, a gafodd eu cynnal yn y flwyddyn gasglu. **Data sylfaen = AD/004.**
2. Dylech gynnwys **pob** asesiad a ailgynhaliwyd, waeth beth oedd y rheswm pam yr ymgyflwynodd yr unigolyn yn wreiddiol.
3. Dylech gynnwys asesiadau a ailgynhelir pan fo **asesiad blaenorol** wedi'i gynnal yn ystod y **12 mis cyn dechrau'r asesiad diweddaraf.**
4. Dim ond asesiadau **y gofynnwyd amdanynt gan yr unigolyn neu aelod o'i deulu** y dylid eu cynnwys.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys asesiadau lle mae amgylchiadau'r unigolion **wedi newid.**
2. Peidiwch â chynnwys asesiadau **nad ydynt yn AD/004.**
3. Peidiwch â chynnwys asesiadau y **gofynnwyd amdanynt gan rywun heblaw'r** unigolyn neu aelod o'i deulu.
4. Peidiwch â chynnwys unrhyw asesiadau **lle'r oedd gan yr unigolyn gynllun gofal a chymorth (neu gynllun cymorth fel gofalwr**) ar adeg yr asesiad.
5. Peidiwch â chynnwys asesiadau lle cafodd yr asesiad blaenorol ei gynnal **dros 12 mis** cyn dechrau'r asesiad diweddaraf.
6. Peidiwch â chynnwys unrhyw asesiadau lle'r oedd y person yn derbyn gofal a chymorth o fewn y 12 mis cyn yr asesiad diweddaraf, **ond roedd yr asesiad blaenorol yn gynharach**.

**Cyfeirnod Mesur: AD/009**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd, lle gofynnodd yr oedolyn neu'r teulu am yr asesiad yn ystod y flwyddyn, ac roedd asesiad blaenorol wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol, ac nid oes gan yr unigolyn gynllun gofal a chymorth ar hyn o bryd, a chanlyniad yr asesiad newydd yw:

a. Roedd anghenion ond yn gallu cael eu diwallu gyda chynllun gofal a chymorth.
b. Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.
c. Lle nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am nifer yr oedolion sy'n dychwelyd i'r gwasanaethau cymdeithasol ac yn gofyn i'w hanghenion gael eu hasesu eto.

Gall awdurdodau lleol ddefnyddio gwybodaeth am oedolion sy'n gofyn am ailasesiad o'u hanghenion i bennu'r prif ffactorau ar gyfer ailgyflwyno. Bydd yr wybodaeth hon yn caniatáu i awdurdodau lleol gynllunio'r gwaith o ddatblygu, gwella a/neu gomisiynu gwasanaethau a allai wella'r cymorth ymyrraeth gynnar ac atal sydd ar gael i unigolion fel y gellir diwallu anghenion heb yr angen am ofal a chymorth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro nifer yr asesiadau a ailgynhelir yng Nghymru.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o AD/008.***

Mae Cod Ymarfer **Rhan 3** (Asesu Anghenion Unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 98** yn nodi: *Mae gan yr unigolyn yr hawl i ofyn am ailasesiad o'i anghenion ar unrhyw adeg.*

*Rhaid i broses ffurfiol ar gyfer gwneud y cais hwn gael ei datblygu, ei chyhoeddi a'i chyfleu'n glir gan yr awdurdod lleol.*

Mae'r metrig hwn yn ceisio casglu gwybodaeth i oedolion sydd heb gynllun gofal a chymorth ar adeg yr asesiad diweddaraf, ond sydd wedi'u hasesu'n flaenorol yn ystod y 12 mis diwethaf ac wedi gofyn i'w hanghenion gael eu hailasesu.

Er mwyn helpu i ddeall hyn, datblygwyd y disgrifiadau canlynol:

**Asesiad newydd** – asesiad a gynhelir ar berson sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol (neu gynllun cymorth os yw'r cais am gymorth fel gofalwr) ar adeg yr asesiad.

**Ailasesiad** – byddai hyn yn digwydd pan fo newid sylweddol mewn amgylchiadau i berson sydd eisoes yn cael gofal a chymorth (neu gymorth fel gofalwr) sy'n gorfodi'r Awdurdod Lleol i adolygu'r asesiad (Cod Ymarfer Rhan 3, para. 92-100). Nid yw adolygu asesiad yr un fath ag adolygu cynllun gofal a chymorth.

**Asesiad a ailgynhelir** – mae hwn yn digwydd pan fydd person sydd wedi'i asesu ac nad oes ganddo anghenion cymwys yn arfer ei hawliau i ofyn am ail asesiad o'i anghenion. Fe'i diffinnir fel ailasesiad yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ond at ddibenion casglu, mae wedi'i enwi'n wahanol i'w gwahaniaethu oddi wrth ailasesiadau o unigolion sydd eisoes yn derbyn gofal a chymorth. Gellir ystyried ailadrodd asesiad fel apêl, lle bo'r unigolyn yn anghytuno â chanlyniad yr asesiad gwreiddiol. Yn yr achos hwn, nid yw eu hamgylchiadau wedi newid. Byddai newid mewn amgylchiadau yn galw am asesiad newydd, yn hytrach nag ailasesiad neu asesiad a ailgynhelir.

**Mae'r metrig hwn yn cyfrif y canlyniad ar gyfer asesiadau a ailgynhelir ar gyfer oedolion (oedolion sy'n cael eu hasesu yn ystod y flwyddyn lle bodlonir y meini prawf canlynol):**

- **Nid oes** gan yr oedolyn gynllun gofal a chymorth (na chynllun cymorth fel gofalwr) ar adeg yr asesiad.
- Mae asesiad cyfrannol blaenorol wedi'i gynnal gan y gwasanaethau cymdeithasol yn y 12 mis cyn **dechrau'r** asesiad diweddaraf.
- **Gofynnodd yr unigolyn neu aelod o'r teulu** am yr asesiad.

At ddibenion y metrig hwn, dylid mapio'r wyth canlyniad asesu a gynhwysir yn yr offeryn asesu a chymhwysedd cenedlaethol i'r is-gategori priodol fel a ganlyn:

Canlyniadau'r Gofyniad Asesu Cyffredin

1. Nid oes angen diwallu unrhyw anghenion gofal a chymorth.

   *Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i fodloni*

2. Mae angen asesiad mwy cynhwysfawr, a all gynnwys asesiadau mwy arbenigol.

   *Amherthnasol – Dylid cyfrif y broses asesu yn ei chyfanrwydd. Os oes angen asesiad mwy cynhwysfawr, mae hyn yn rhan o'r broses asesu gyffredinol lle gellir cynnwys asesiadau arbenigol.*

3. Gellir diwallu anghenion drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy.

   *Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

4. Gellir diwallu anghenion, drwy ddarparu gwasanaethau ataliol.

   *Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

5. Gall anghenion gael eu diwallu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan yr unigolion eu hunain (gyda chymorth pobl eraill neu hebddynt).

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

6. Gall materion eraill gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau personol, neu fel arall ddiwallu'r anghenion.

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

7. Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth, y gall anghenion gael eu diwallu (**mae anghenion yn gymwys**).

*Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.*

8. Mae'r awdurdod lleol o'r farn bod angen diwallu'r anghenion er mwyn amddiffyn y person rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu rhag y risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu yn achos plentyn, rhag niwed arall neu rhag y risg o niwed.

   *Dylai'r asesiad ddechrau ar adeg yr atgyfeiriad a phara drwy gydol y broses ddiogelu (**Cod Ymarfer Rhan 7, paragraff 74**). Dewiswch yr opsiwn priodol ar ôl i'r asesiad hwn ddod i ben.*

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr **holl** asesiadau a ailgynhaliwyd a **gwblhawyd** yn ystod y flwyddyn gasglu. **Data sylfaen = AD/008**
2. Gall asesiad **gynnwys asesiadau manwl neu gynhwysfawr** a all ymgorffori asesiadau arbenigol a gynhelir gan weithwyr proffesiynol ar wahân i'r ymarferydd arweiniol.
3. Ystyrir bod asesiad wedi'i gwblhau, pan fydd wedi'i **awdurdodi gan reolwr practis** neu berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.
4. Dylech gynnwys pob asesiad cyfrannol **waeth beth fo canlyniad** yr asesiad.
5. Dylech gynnwys asesiadau a gwblhawyd **o ganlyniad i bryderon diogelu.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau ar gyfer oedolion os canlyniad y cyswllt oedd darparu gwybodaeth fel y'i diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Cod Ymarfer Rhan 2 paragraff 300.

2. Peidiwch â chynnwys ceisiadau am asesiad, **os na chynhaliwyd yr asesiad.**
3. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **os nad ystyriwyd y pum elfen asesu**, neu os na chynhaliwyd sgwrs “**beth sy'n bwysig**”.
4. Peidiwch â chynnwys asesiadau a gwblhawyd **y tu allan i'r flwyddyn gasglu**.
5. Peidiwch â chynnwys **ailasesiadau** o oedolion sydd eisoes â chynllun gofal a chymorth ar adeg yr asesiad.
6. Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu **proses asesu aml-gam** sy'n defnyddio mwy nag un ffurflen ar gyfer y broses asesu. Peidiwch â chyfrif y rhain yn unigol. Cyfrwch y broses yn ei chyfanrwydd unwaith yn unig.
7. Peidiwch â chynnwys **plant (unigolion dan 18 mlwydd oed)** yn y metrig hwn.
8. Peidiwch â chynnwys asesiadau a oedd yn **anghyflawn** (gweler 6.3 uchod).
9. Peidiwch â chynnwys asesiadau **a gofnodwyd drwy gamgymeriad.**

## Ailalluogi

**Cyfeirnod Mesur: AD/010**

**Enw’r Mesur:** Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

### Bwriad y Mesur

Ystyr ailalluogi yw helpu pobl i wneud pethau drostynt eu hunain i wella eu gallu i fyw bywyd mor annibynnol â phosibl gyda lefel briodol o gymorth. Bwriad cyffredinol ailalluogi yw galluogi person i adfer sgiliau a medrau a arferai fod ganddo er mwyn lleihau’r angen am gymorth parhaus ar ôl ailalluogi. Dylai ailalluogi helpu’r person i ailddechrau byw mor annibynnol â phosibl yn ei gartref ei hun.

Mae mesur gwasanaethau ailalluogi yn caniatáu i awdurdodau lleol ddatblygu eu gwasanaethau i ddiwallu anghenion yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data hyn ar y cyd â metrigau eraill i bennu defnydd a llwyddiant gwasanaethau ailalluogi yng Nghymru.

### Diffiniad

Cyfanswm nifer yr oedolion sy’n **cwblhau** cyfnod o ailalluogi yn ystod y flwyddyn. Fel arfer, bydd person sy’n derbyn gwasanaethau ailalluogi a ddarperir neu a drefnir gan awdurdod lleol yn cael ei gefnogi gan dîm ailalluogi dros gyfnod cyfyngedig o hyd at chwe wythnos (42 diwrnod) fel arfer, ond gall fod yn fwy.

**Dim ond cyfnodau o ailalluogi sydd wedi'u cwblhau y dylid eu cyfrif.** Gall cyfnod o ailalluogi ddod i ben, ond efallai na fydd wedi’i gwblhau, er enghraifft efallai

caiff person ei dderbyn i'r ysbyty, efallai y bydd yn symud y tu allan i'r ardal, symud i ofal preswyl neu efallai y bydd yn marw.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch **bob** cyfnod o ailalluogi i oedolion sydd wedi'u cwblhau yn y flwyddyn gasglu.
2. Gall person gael **mwy nag un** cyfnod o ailalluogi yn ystod y flwyddyn. Cyfrwch bob un o'r rhain lle cwblhawyd y cyfnod ailalluogi.
3. Cyfrwch bobl sy'n cwblhau cyfnod o ailalluogi **p'un a oedd ganddynt gynllun gofal a chymorth o'r blaen ai peidio.**
4. Gall person gwblhau cyfnod o ailalluogi a **ddechreuwyd yn y flwyddyn gasglu flaenorol.** Dylech gynnwys hyn yn eich cyfrif.
5. **Cyfnod ailalluogi wedi'i gwblhau** yw diwedd y cyfnod ailalluogi a **ddiffinnir yn y cynllun gofal a chymorth** ar gyfer yr unigolyn hwnnw ar ddechrau'r cynllun.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cyfnodau o ailalluogi **na chwblhawyd** am ba reswm bynnag.
2. Peidiwch â chynnwys **teleofal, darparu cyfarpar, addasiadau i'r cartref a thaliadau uniongyrchol.**

**Cyfeirnod Mesur: AD/011**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle:

a. Cafodd yr angen am gymorth ei leihau
b. Cafodd yr angen am gymorth ei gynnal
c. Cafodd yr angen am gymorth ei liniaru
d. Ni chafodd yr angen am gymorth ei leihau, ei gynnal na'i liniaru

**Bwriad y Mesur**

Ystyr ailalluogi yw helpu pobl i wneud pethau drostynt eu hunain i wella eu gallu i fyw bywyd mor annibynnol â phosibl gyda lefel briodol o gymorth. Bwriad cyffredinol ailalluogi yw galluogi person i adfer sgiliau a medrau a arferai fod ganddo er mwyn lleihau'r angen am gymorth parhaus ar ôl ailalluogi. Dylai ailalluogi helpu'r person i ailddechrau byw mor annibynnol â phosibl yn ei gartref ei hun.

Mae mesur gwasanaethau ailalluogi yn caniatáu i awdurdodau lleol ddatblygu eu gwasanaethau i ddiwallu anghenion yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data hyn ar y cyd â metrigau eraill i bennu defnydd a llwyddiant gwasanaethau ailalluogi yng Nghymru.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o AD/010.***

Cyfanswm nifer yr oedolion sy'n **cwblhau** cyfnod o ailalluogi yn ystod y flwyddyn. Fel arfer, bydd person sy'n derbyn gwasanaethau ailalluogi a ddarperir neu a drefnir gan awdurdod lleol yn cael ei gefnogi gan dîm ailalluogi dros gyfnod cyfyngedig o hyd at chwe wythnos (42 diwrnod) fel arfer, ond gall fod yn fwy.

**Dim ond cyfnodau o ailalluogi sydd wedi'u cwblhau y dylid eu cyfrif (AD/010).** Gall cyfnod o ailalluogi ddod i ben, ond efallai na fydd wedi'i gwblhau, er enghraifft efallai caiff person ei dderbyn i'r ysbyty, efallai y bydd yn symud y tu allan i'r ardal, symud i ofal preswyl neu efallai y bydd yn marw.

Dylai'r asesiad o lwyddiant ailalluogi gael ei wneud gan ymarferydd gofal cymdeithasol (neu weithiwr proffesiynol ailalluogi) ar ddiwedd y cyfnod o gwblhau'r ailalluogi. Os caiff yr ailalluogi ei ymestyn, arhoswch i'r estyniad ddod i ben cyn penderfynu ar y canlyniad. Dylai penderfynu ar ganlyniad ailalluogi ystyried y diwrnodau/oriau o gymorth a ddarperir i'r person ar ddechrau'r ailalluogi wrth ddod i gasgliad pa gategori i'w ddewis.

Ar gyfer pob un o'r is-gategorïau:

a. **Ailalluogi wedi lleihau'r angen am gymorth.** Mae'r angen am ofal a chymorth ar ôl cwblhau'r ailalluogi yn **sylweddol is** o'i gymharu â'r gofal a'r cymorth ar ddechrau'r cyfnod ailalluogi. Byddai newid sylweddol yn golygu y gallai person **nodi'n hawdd fod ei anghenion wedi lleihau heb orfod troi at fesur.**

b. **Ailalluogi wedi cynnal yr angen am gymorth.** Mae'r angen am ofal a chymorth ar ôl cwblhau'r ailalluogi **tua'r un faint** o'i gymharu â'r gofal a'r cymorth ar ddechrau'r cyfnod ailalluogi. Mae hyn yn golygu y gallai rhywun ddweud **na fu unrhyw newid yn ei angen am gymorth heb orfod troi at fesur**, er y gallai'r angen am ofal a chymorth fod **ychydig yn fwy neu ychydig yn llai.**

c. **Ailalluogi wedi lliniaru'r angen am gymorth.** Mae'r angen am gymorth wedi'i **liniaru'n llwyr. Nid oes angen pellach am ofal a chymorth** ar berson yn y categori hwn ar ôl ei gyfnod ailalluogi.

d. **Person nad yw ei angen am gymorth wedi lleihau, ei gynnal na'i liniaru.** Byddai hyn yn golygu y gallai person **nodi'n hawdd bod ei anghenion wedi cynyddu heb orfod troi at fesur.**

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch **yr holl** gyfnodau o ailalluogi ar gyfer oedolion sydd wedi'u cwblhau yn y flwyddyn gasglu (AD/010) a **dosbarthwch bob cyfnod o ailalluogi wedi'i gwblhau yn is-gategorïau a-d**.
2. Rhaid i'r asesiad gael ei wneud **ar ddiwedd y cyfnod ailalluogi a gwblhawyd.**
3. Gall person gael **mwy nag un** cyfnod o ailalluogi yn ystod y flwyddyn. Cyfrwch bob un o'r rhain lle cwblhawyd y cyfnod ailalluogi.
4. Gall person gwblhau cyfnod o ailalluogi a **ddechreuwyd yn y flwyddyn gasglu flaenorol.** Dylech gynnwys hyn yn eich cyfrif.
5. **Cyfnod ailalluogi wedi'i gwblhau** yw diwedd y cyfnod ailalluogi a **ddiffinnir yn y cynllun gofal a chymorth** ar gyfer yr unigolyn hwnnw ar ddechrau'r cynllun.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cyfnodau o ailalluogi **na chwblhawyd** am ba reswm bynnag.
2. Peidiwch â chynnwys unrhyw gyfnodau o ailalluogi wedi'u cwblhau **nad ydynt wedi'u cyfrif yn AD/010.**
3. Peidiwch â chynnwys **teleofal, darparu cyfarpar, addasiadau i'r cartref a thaliadau uniongyrchol.**

## Cynlluniau Gofal a Chymorth i Oedolion

### Cyfeirnod Mesur: AD/012

**Enw'r Mesur:** Nifer yr oedolion gyda:

a. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth.
b. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth a hefyd anghenion cymorth fel gofalwr, a all gynnwys cynllun cymorth i ofalwr.

**Bwriad y Mesur**

Mae deall nifer yr oedolion sydd angen gofal a chymorth yn agwedd bwysig ar gynllunio gofal yn llwyddiannus, rheoli achosion a chynllunio'r gweithlu ar gyfer awdurdodau lleol.

Mae nifer yr oedolion sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r galw. Dylai awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth fanylach am ofal a chymorth er mwyn deall yn well rai o'r gofynion a osodir ar eu dyletswyddau a'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i gasglu gwybodaeth am yr angen am ofal a chymorth i oedolion yng Nghymru ac yn defnyddio'r wybodaeth hon ar y cyd â data arall i bennu beth yw lles cyffredinol y genedl.

**Diffiniad**

Mae Adran 54 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer person y mae'n ofynnol i'r awdurdod ddiwallu ei anghenion.

Mae Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) yn nodi bod rhaid i'r cynllun gofal a chymorth gynnwys y canlynol o leiaf:

- y canlyniadau sydd wedi'u nodi mewn perthynas â'r person y mae'r cynllun yn berthnasol iddo
- y camau i'w cymryd gan yr awdurdod lleol a phobl eraill i helpu'r person i gyflawni'r canlyniadau hynny
- yr anghenion a ddiwellir trwy ddarparu gofal a chymorth
- sut y caiff cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau hynny ei fonitro a'i fesur
- dyddiad yr adolygiad nesaf o'r cynllun gofal.

Mae **paragraff 82** o'r Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) hefyd yn nodi: "***Rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt systemau technoleg gwybodaeth i gefnogi'r broses cynllunio gofal i sicrhau bod y cynllun gofal yn cael ei gofnodi'n electronig."*

Efallai y bydd gan rai oedolion gynllun Gofal a Thriniaeth (fel y nodir yn Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011) ond eu bod yn cael gofal a chymorth gwasanaethau cymdeithasol. Golyga hyn os yw **gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i'r oedolyn, neu os yw ei gydlynydd gofal yn dod o'r adran gwasanaethau cymdeithasol**. Fel arall, gall hyn fod yn berthnasol os **yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn talu, neu wedi talu, am ei ofal a chymorth**, a all fod trwy gomisiynu gwasanaeth. Os yw hyn yn wir, dylid eu cynnwys yn y mesur hwn. Fodd bynnag, dylid gwneud hyn dim ond os oes gan adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol fynediad at y data sy'n angenrheidiol i'w gwblhau, h.y. **os yw'r data eisoes yn cael ei gadw gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na'r bwrdd iechyd**.

Cyfrwch **yr holl gynlluniau gofal a chymorth gweithredol** ar gyfer **oedolion ar 31 Mawrth** y flwyddyn gasglu **(rhan a).** Mewn amgylchiadau achlysurol, mae gan berson sydd â chynllun gofal a chymorth anghenion fel gofalwr hefyd; efallai y bydd

yn gofalu am briod, neu blentyn anabl er enghraifft (**rhan b)**. hy byddai'r bobl hynny yn rhan b yn gymwys i gael cynllun cymorth gofalwr os nad oedd ganddynt eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain.

Efallai y bydd gan rai awdurdodau lleol un cynllun integredig lle mae anghenion gofal a chymorth unigolyn ei hun, a'u hanghenion cymorth fel gofalwr, yn cael eu cynnwys mewn un cynllun. Yn y sefyllfaoedd hyn, dylech gynnwys yr unigolyn dan **ran b.**

### Beth i'w gynnwys yn y Mesur

1. Dylech gynnwys yr **holl gynlluniau gofal a chymorth gweithredol** ar gyfer oedolion ar 31 Mawrth y flwyddyn gasglu. Mae hyn yn cynnwys pob oedolyn sydd:
    a. Sydd â chynllun gofal a chymorth yn unig.
    b. Sydd â chynllun gofal a chymorth ac anghenion cymorth fel gofalwr, a all gynnwys cynllun cymorth gofalwr.
2. Rhaid i gynllun gofal a chymorth fod wedi'i awdurdodi neu ei gymeradwyo gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw i gael ei ystyried yn 'weithredol'.
3. Dylech gynnwys cynlluniau lle mae darparu'r cynllun gofal a chymorth yn golygu **darparu gwasanaeth traddodiadol** (gofal cartref, gofal preswyl ac ati) a bod gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb i adolygu'r gwasanaeth hwnnw.
4. Dylech gynnwys cynlluniau lle ceir cynlluniau sy'n gorgyffwrdd sydd wedi'u rhagnodi'n gyfreithiol neu'n genedlaethol a all hefyd ddiwallu'r angen am ofal a chymorth drwy un cynllun integredig.
5. Dylech gynnwys cynlluniau lle mae'r cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn ac anghenion y sawl sy'n gofalu amdanynt wedi cael eu **hystyried ar y cyd.**

### Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur

1. Peidiwch â chynnwys **cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion** lle nad oes anghenion gofal a chymorth ychwanegol ar gyfer yr unigolyn sy'n darparu gofal, neu os nad yw ei gynllun wedi'i gysylltu â chynllun gofal a chymorth ar gyfer person sydd angen gofal a chymorth.
2. Peidiwch â chynnwys **cynlluniau arbenigol nad ydynt yn diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn** (oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio i greu un cynllun gofal a chymorth sy'n diwallu anghenion yr unigolyn).
3. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u **gwrthod.**
4. Peidiwch â chynnwys achosion lle rydych chi'n darparu **cymorth anffurfiol** (er enghraifft, gwybodaeth, cyngor neu gymorth) neu **gymorth ataliol**, nad oes angen cynllun gofal a chymorth (fel teleofal).
5. Peidiwch â chynnwys cynlluniau a luniwyd gan sefydliad a gomisiynwyd neu sefydliad trydydd parti lle mae'r awdurdod lleol wedi **cyfeirio'r** unigolyn at y

gwasanaethau hynny drwy broses yr IAA ac nad oes gan yr awdurdod lleol unrhyw gyfrifoldebau diffiniedig i gydgysylltu nac adolygu gofal.
6. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u cofnodi mewn camgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AD/013**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr oedolion â chynllun gofal a chymorth y mae eu hanghenion yn cael eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth sydd â:

a. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth.
b. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth a hefyd anghenion cymorth fel gofalwr, a all gynnwys cynllun cymorth i ofalwr.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am nifer yr oedolion ar ddiwedd y flwyddyn gasglu gyda chynllun gofal a chymorth sy'n cael ei gefnogi gan ddefnyddio taliad uniongyrchol.

Mae casglu data ar yr unigolion hynny'n bwysig ar gyfer cynllunio ariannol yn ogystal â deall sut y caiff unigolion eu grymuso i ddarparu'r mecanweithiau i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro sut y defnyddir taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion ledled Cymru.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o AD/012.***

Mae Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu Anghenion Unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 128-129** yn nodi:

"*Symiau ariannol yw taliadau uniongyrchol sydd ar gael gan awdurdodau lleol i unigolion, neu eu cynrychiolydd, i'w galluogi i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth; neu yn achos gofalwr, ei anghenion cymorth. Mae taliadau uniongyrchol yn fecanwaith pwysig i bobl allu arfer dewis, llais a rheolaeth i benderfynu sut i ddiwallu eu hanghenion am ofal a chymorth a chyflawni eu canlyniadau personol. O'r herwydd, mae taliadau uniongyrchol yn rhan annatod o ddiwallu anghenion pobl drwy gynllunio gofal a chymorth, ac ni ddylid eu hystyried yn ystyriaeth eilaidd ar wahân.*

*Mae taliadau uniongyrchol yn disodli gofal a chymorth a ddarperir yn uniongyrchol, neu a gomisiynir gan awdurdod lleol.* ***Gallant fod am y cyfan, neu ran, o***

***anghenion gofal a chymorth unigolyn**, yn yr achos olaf, mae gweddill eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu mewn modd amgen."*

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer **Rhan 4** (Codi ffioedd ac asesiadau ariannol), **para**. **35** yn nodi: "*Mae'r cyfeiriad yn y meini prawf cymhwysedd at yr awdurdod lleol yn paratoi cynllun gofal a chymorth, a sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu, yn cynnwys cynllun gofal a chymorth **y gellir ei hunanreoli drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol."***

Mae **Adran 187(2)** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi: *"...na all person (plentyn/oedolyn) gael taliadau uniongyrchol tuag at dalu cost ei anghenion gofal a chymorth os yw wedi'i gael yn euog o drosedd a'i fod yn y carchar, neu mewn llety cadw ieuenctid, neu'n byw mewn mangre gymeradwy."*

Efallai y bydd gan rai oedolion gynllun Gofal a Thriniaeth (fel y nodir yn Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011) ond eu bod yn cael gofal a chymorth gwasanaethau cymdeithasol. Golyga hyn os yw **gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i'r oedolyn, neu os yw ei gydlynydd gofal yn dod o'r adran gwasanaethau cymdeithasol**. Fel arall, gall hyn fod yn berthnasol os **yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn talu, neu wedi talu, am ei ofal a chymorth**, a all fod trwy gomisiynu gwasanaeth. Os yw hyn yn wir, dylid eu cynnwys yn y mesur hwn. Fodd bynnag, dylid gwneud hyn dim ond os oes gan adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol fynediad at y data sy'n angenrheidiol i'w gwblhau, h.y. **os yw'r data eisoes yn cael ei gadw gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na'r bwrdd iechyd**.

Cyfrwch yr **holl gynlluniau gofal a chymorth gweithredol ar gyfer oedolion** ar ddiwedd y flwyddyn gasglu (31 Mawrth) **lle gwneir taliad uniongyrchol i ddiwallu eu hanghenion.** Gall y taliad uniongyrchol gwmpasu'r **cyfan neu ran** o'u hanghenion.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch **yr holl** oedolion â chynlluniau gofal a chymorth a oedd **yn weithredol** ar ddiwedd y flwyddyn gasglu (31 Mawrth) a lle **defnyddir taliad uniongyrchol i ddiwallu eu holl anghenion gofal a chymorth neu ran ohonynt** (**Data sylfaen = AD/012**) sydd:
    a. Sydd â chynllun gofal a chymorth yn unig.
    b. Sydd â chynllun gofal a chymorth ac anghenion cymorth fel gofalwr, a all gynnwys cynllun cymorth gofalwr.
2. Rhaid i gynllun gofal a chymorth fod wedi'i **awdurdodi neu ei gymeradwyo** gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw i gael ei ystyried yn '**weithredol**'.
3. Dylech gynnwys yr holl gynlluniau gofal a chymorth gweithredol lle gwneir taliad uniongyrchol, **waeth beth fo'r anghenion** y mae'r taliad uniongyrchol yn helpu i'w diwallu.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth **nad ydynt yn cael eu cefnogi gan daliad uniongyrchol.**
2. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth **nad ydynt yn weithredol** ar ddiwedd y flwyddyn gasglu.
3. Peidiwch â chynnwys unrhyw gynlluniau gofal a chymorth na chafodd eu cynnwys yn y data a gasglwyd yn **AD/012.**
4. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth a gofnodwyd mewn camgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AD/014**

**Enw'r Mesur:** Ar gyfer gwasanaethau a ddechreuwyd yn ystod y flwyddyn, cyfanswm nifer y diwrnodau y mae'n rhaid i oedolion aros rhwng y **dyddiad dechrau a drefnwyd** a **dyddiad dechrau gwirioneddol** gwasanaeth a nodwyd yn eu cynllun gofal a chymorth, lle mai'r canlynol yw'r gwasanaeth hwnnw:

a. Cartref Gofal i Oedolion
b. Gofal Cartref

**Bwriad y Mesur**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, paragraff 12, yn nodi:

"*[Mae'n] ofyniad bod gan unigolyn ag anghenion gofal a chymorth hawl i dderbyn gofal a chymorth a ddarperir neu a drefnir gan yr awdurdod lleol trwy gynllun gofal a chymorth os na all ddiwallu'r anghenion hynny ei hun (neu, yn achos plentyn, gyda chymorth rhieni neu bobl eraill sy'n gofalu am y plentyn) neu gyda chymorth eraill neu gymorth gwasanaethau yn y gymuned."*

Bydd gwybodaeth am amseroedd aros yn caniatáu i awdurdodau lleol gael gwell dealltwriaeth o alw a chapasiti gwasanaethau penodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data hwn i benderfynu sut y gall awdurdodau lleol ymateb i anghenion gofal a chymorth penodol yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol), paragraff 84 yn nodi: ***"Pan fo angen ymyrraeth, dylai bob amser fod yn gymesur ac yn amserol*** *a dylai helpu pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth i gyflawni eu canlyniadau personol."*

Mae Cod Ymarfer **Rhan 4** (Diwallu Anghenion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, para. 84 yn datgan:

*Rhaid i Gynlluniau Gofal a Chymorth roi sylw i'r canlynol:*

- *y canlyniadau sydd wedi'u nodi mewn perthynas â'r person y mae'r cynllun yn berthnasol iddo*
- ***y camau i'w cymryd gan yr awdurdod lleol a phobl eraill i helpu'r person i gyflawni'r canlyniadau hynny***
- *yr anghenion a ddiwellir trwy ddarparu gofal a chymorth*
- ***sut y caiff cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau hynny ei fonitro a'i fesur***
- *dyddiad yr adolygiad nesaf o'r cynllun gofal."*

Cyfrwch yr holl wasanaethau yng chategorïau a-c ar gyfer oedolion sydd wedi dechrau'r gwasanaethau hynny yn ystod y flwyddyn gasglu, p'un a oedd y dyddiad dechrau a drefnwyd mewn blwyddyn flaenorol ai dim ond mewn blwyddyn flaenorol.

Dylai pob categori fod yn swm o gyfanswm nifer y diwrnodau a gymerir i ddechrau pob gwasanaeth i oedolion yn ystod y flwyddyn. Diben y metrig yw adrodd am yr amser cyfartalog y mae'n rhaid i oedolion aros am wasanaethau penodol drwy gyfuno'r metrig hwn ag AD/015.

Efallai y bydd gan rai oedolion gynllun Gofal a Thriniaeth (fel y nodir yn Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011) ond eu bod yn cael gofal a chymorth gwasanaethau cymdeithasol. Golyga hyn os yw **gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i'r oedolyn, neu os yw ei gydlynydd gofal yn dod o'r adran gwasanaethau cymdeithasol**. Fel arall, gall hyn fod yn berthnasol os **yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn talu, neu wedi talu, am ei ofal a chymorth**, a all fod trwy gomisiynu gwasanaeth. Os yw hyn yn wir, dylid eu cynnwys yn y mesur hwn. Fodd bynnag, dylid gwneud hyn dim ond os oes gan adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol fynediad at y data sy'n angenrheidiol i'w gwblhau, h.y. **os yw'r data eisoes yn cael ei gadw gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na'r bwrdd iechyd**.

Amlinellir isod feini prawf manwl ar sut y dylid casglu'r metrig hwn.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl wasanaethau newydd yn is-gategorïau a-b** ar gyfer oedolion sydd wedi dechrau **yn ystod y flwyddyn gasglu.**
2. Mae'n bosibl fod person wedi dechrau **mwy nag un** gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. **Dylech gynnwys pob un o'r rhain.**
3. Dylech gynnwys cyfanswm nifer y diwrnodau ar gyfer gwasanaethau **newydd** yn unig.
4. Cyfrwch gyfanswm nifer y diwrnodau o'r **dyddiad dechrau a drefnwyd hyd at ddyddiad dechrau gwirioneddol** y gwasanaeth. Hynny yw, y diwrnod y

dechreuodd y gwasanaeth. Os nad oes dyddiad cychwyn penodol wedi'i drefnu, defnyddiwch y dyddiad y cwblhawyd y cynllun gofal a chymorth.

5. Cyfrwch y **diwrnodau calendr**, nid diwrnodau gwaith.
6. Dylech gynnwys **penwythnosau a gwyliau banc** yn eich cyfrif.
7. Cyfrwch **yn ôl i'r dyddiad dechrau a drefnwyd yn y cynllun gofal a chymorth,** nid dechrau'r flwyddyn ariannol.
8. Dylai'r dyddiad dechrau a drefnwyd fod yn **ddiwrnod sero ac ni ddylid cyfrif y diwrnod dechrau wrth iddynt dderbyn y gwasanaeth ar y diwrnod hwn.** Er enghraifft, byddai dyddiad dechrau a drefnwyd ar 10 Chwefror a dyddiad dechrau gwirioneddol ar 19 Chwefror yn golygu cyfnod aros o **8** diwrnod.
9. Gall y dyddiad dechrau a drefnwyd **fod yr un fath â'r dyddiad y cwblhawyd y cynllun gofal a chymorth, ond gall fod yn ddyddiad a bennwyd yn bwrpasol ar ôl hyn.**
10. Cyfrifwch yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:
    a. **Ar gyfer rhan a:** Cartref Gofal Oedolion – yn cynnwys cartrefi preswyl a chartrefi â nyrsio. Peidiwch â chynnwys oedolion sy'n rhan o Gynllun Lleoliad Oedolion (Cynllun Cysylltu Bywydau).
    b. **Ar gyfer rhan b:** Gofal cartref – gwasanaethau ymarferol sy'n cynorthwyo'r person i weithredu mor annibynnol â phosibl a/neu barhau i fyw yn eu cartref.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys gwasanaethau **na ddechreuodd yn y flwyddyn gasglu**, p'un a yw'r gwasanaethau hynny'n parhau yn y flwyddyn gasglu ai peidio.
2. Peidiwch â chynnwys **newidiadau i wasanaethau sy'n bodoli eisoes**. Dylech ddim ond cyfrif pan fydd gwasanaeth newydd wedi dechrau.
3. Peidiwch â chynnwys **gwasanaeth pontio oni bai ei fod yn darparu gwasanaeth tebyg am debyg.**
4. Peidiwch â chynnwys data sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AD/015**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y gwasanaethau i oedolion a ddechreuwyd yn ystod y flwyddyn lle mai'r canlynol yw'r gwasanaeth hwnnw:

a. Cartref Gofal i Oedolion
b. Gofal Cartref
c. Gofal Seibiant

**Bwriad y Mesur**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 4** (Diwallu Anghenion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, para. 12 yn datgan: *[Mae'n] ofyniad bod gan unigolyn ag*

*anghenion gofal a chymorth hawl i dderbyn gofal a chymorth a ddarperir neu a drefnir gan yr awdurdod lleol trwy gynllun gofal a chymorth os na all ddiwallu'r anghenion hynny ei hun (neu, yn achos plentyn, gyda chymorth rhieni neu bobl eraill sy'n gofalu am y plentyn) neu gyda chymorth eraill neu gymorth gwasanaethau yn y gymuned.*

Bydd gwybodaeth am amseroedd aros yn caniatáu i awdurdodau lleol gael gwell dealltwriaeth o alw a chapasiti gwasanaethau penodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data hyn i benderfynu sut y gall awdurdodau lleol ymateb i anghenion gofal a chymorth penodol yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae Cod Ymarfer Rhan 2 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Swyddogaethau Cyffredinol) 2014, para. 84 yn datgan: ***Pan fo angen ymyrraeth, dylai bob amser fod yn gymesur ac yn amserol*** *a dylai helpu pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth i gyflawni eu canlyniadau personol.*

Mae Cod Ymarfer **Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, paragraff 84, yn nodi: *Rhaid i Gynlluniau Gofal a Chymorth roi sylw i'r canlynol:*

- *y canlyniadau sydd wedi'u nodi mewn perthynas â'r person y mae'r cynllun yn berthnasol iddo*
- ***y camau i'w cymryd gan yr awdurdod lleol a phobl eraill i helpu'r person i gyflawni'r canlyniadau hynny***
- *yr anghenion a ddiwellir trwy ddarparu gofal a chymorth*
- ***sut y caiff cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau hynny ei fonitro a'i fesur***
- *dyddiad yr adolygiad nesaf o'r cynllun gofal*

Cyfrwch yr holl wasanaethau yng nghategorïau a-c ar gyfer oedolion sydd wedi dechrau'r gwasanaethau hynny yn ystod y flwyddyn gasglu, p'un a oedd y dyddiad dechrau a **drefnwyd** mewn blwyddyn flaenorol ai peidio.

Efallai y bydd gan rai oedolion gynllun Gofal a Thriniaeth (fel y nodir yn [Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011]) ond eu bod yn cael gofal a chymorth gwasanaethau cymdeithasol. Golyga hyn os yw **gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i'r oedolyn, neu os yw ei gydlynydd gofal yn dod o'r adran gwasanaethau cymdeithasol**. Fel arall, gall hyn fod yn berthnasol os **yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn talu, neu wedi talu, am ei ofal a chymorth**, a all fod trwy gomisiynu gwasanaeth. Os yw hyn yn wir, dylid eu cynnwys yn y mesur hwn. Fodd bynnag, dylid gwneud hyn dim ond os oes gan adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol fynediad at y data sy'n angenrheidiol i'w gwblhau, h.y. **os yw'r data eisoes yn cael ei gadw gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na'r bwrdd iechyd**.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl wasanaethau newydd yn is-gategorïau a-c** ar gyfer oedolion sydd wedi dechrau **yn ystod y flwyddyn gasglu**. Mae'n bosibl y bydd oedolion yn newid rhwng gwasanaethau; cyfrwch y rhain fel gwasanaethau newydd.
2. Mae’n bosibl fod person wedi dechrau **mwy nag un** gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. **Dylech gynnwys pob un o'r rhain.**
3. Dylech ond cynnwys gwasanaethau sy'n **dechrau** yn y flwyddyn gasglu.
4. Cyfrif yn seiliedig ar y meini prawf canlynol (gweler AD/030 am ragor o fanylion):
    a. **Ar gyfer rhan a:** Cartref Gofal i Oedolion – dylech gynnwys cartrefi preswyl a chartrefi gyda gofal nyrsio. Peidiwch â chynnwys oedolion sy'n rhan o Gynllun Lleoli Oedolion (Cynllun Cysylltu Bywydau).
    b. **Ar gyfer rhan b:** Gofal cartref – gwasanaethau ymarferol sy’n cynorthwyo’r person i weithredu mor annibynnol â phosibl a/neu barhau i fyw yn eu cartref.
    c. **Ar gyfer rhan c:** Gofal seibiant – gofal a ddarperir gan yr awdurdod lleol i ddarparu rhyddhad i’r gofalwr/wyr a’r sawl sy’n derbyn gofal. Dylai’r cyfnod gofal gynnwys o leiaf un noson ond ni ddylai fod yn hwy na 3 mis.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys gwasanaethau **na ddechreuodd yn y flwyddyn gasglu**, p'un a oeddent i fod i ddechrau yn y flwyddyn honno ai peidio.
2. Peidiwch â chynnwys **newidiadau i wasanaethau sy'n bodoli eisoes**. Dylech ddim ond cyfrif pan fydd gwasanaeth newydd wedi dechrau.
3. Peidiwch â chynnwys **gwasanaeth pontio oni bai ei fod yn darparu gwasanaeth tebyg am debyg.**
4. Peidiwch â chynnwys data sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AD/016**

**Enw’r Mesur:** Nifer yr oedolion a oedd i fod i gael adolygiad yn ystod y flwyddyn gasglu.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4**(Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,**para. 58**. yn nodi: *Mae adran 54 o’r Ddeddf yn nodi bod rhaid i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer person y mae angen diwallu ei anghenion.* ***Rhaid adolygu’r cynlluniau yn gyson.*** *Os yw’r awdurdod lleol o’r farn bod amgylchiadau person*

*wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio ar y cynllun, rhaid iddo gynnal asesiadau o'r fath a diwygio'r cynllun yng ngoleuni'r asesiadau hynny. Ni ddylai cynllun gael ei gau heb adolygiad.*

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 88**. yn nodi: *Rhaid i Gynlluniau Gofal a Chymorth gynnwys dyddiad clir, a gytunir gyda'r unigolyn a/neu ei deulu, ar gyfer adolygu'r cynllun. Fodd bynnag, yn achos oedolyn, rhaid i'r dyddiad adolygu fod o fewn 12 mis.*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cydymffurfiaeth genedlaethol yn erbyn gofynion y Ddeddf.

**Diffiniad**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 113** yn nodi: *Rhaid i awdurdod lleol adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn deall a yw darpariaeth y gofal a'r cymorth hwnnw yn diwallu anghenion yr unigolyn ac ystyried a yw ei anghenion wedi newid ac a oes angen ailasesiad. Rhaid i'r dyddiad cytunedig ar gyfer adolygu'r cynllun fod wedi'i amlinellu yn y cynllun.*

O ran oedolion sydd â chynllun gofal a chymorth, rhaid i'w cynllun gael ei adolygu **o leiaf unwaith bob 12 mis.** Felly, dylai'r metrig hwn gynnwys pob oedolyn a oedd â chynllun gofal a chymorth gweithredol trwy gydol y flwyddyn gasglu gyfan. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod lleol o'r farn bod angen trefnu adolygiad yn ychwanegol at yr adolygiad blynyddol sy'n ofyniad lleiaf. Gall hyn ddigwydd pan fydd yr oedolyn yn newid gwasanaethau neu'n dechrau gwasanaeth newydd.

**Mae'r gofynion ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth sy'n cynnwys taliad uniongyrchol y mae unigolyn yn ei ddefnyddio i reoli ei ofal a'i gymorth ei hun ychydig yn wahanol. Dylid cynnwys y rhain yn y metrig hwn.**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 142**. yn nodi: *Rhaid i awdurdod lleol adolygu'r trefniadau ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol a sut y maent yn cael eu defnyddio ar adegau a bennir gan yr awdurdod lleol yn unol â'r gofynion yn y cod hwn ar gyfer adolygu cynlluniau gofal a chymorth, ond sut bynnag* ***ar ôl cyfnodau o ddim mwy na 6 mis ar ôl gwneud y taliad cyntaf a 12 mis ar ôl yr adolygiad cyntaf.***

Efallai y bydd gan rai oedolion gynllun Gofal a Thriniaeth (fel y nodir yn Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011) ond eu bod yn cael gofal a chymorth gwasanaethau cymdeithasol. Golyga hyn os yw **gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i'r oedolyn, neu os yw ei gydlynydd gofal yn dod o'r adran gwasanaethau cymdeithasol**. Fel arall, gall hyn fod yn berthnasol os **yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn talu, neu wedi talu, am ei ofal a chymorth**, a all fod trwy gomisiynu gwasanaeth. Os yw hyn yn wir, dylid eu cynnwys yn y mesur hwn. Fodd bynnag, dylid gwneud hyn dim ond os oes gan adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol fynediad at y data sy'n

angenrheidiol i'w gwblhau, h.y. **os yw'r data eisoes yn cael ei gadw gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na'r bwrdd iechyd**.

Cyfrwch yr holl oedolion y mae'r **dyddiad adolygu** a drefnwyd ar eu cyfer **yn digwydd yn y flwyddyn gasglu**.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr holl oedolion sydd **i fod i gael adolygiad** yn y flwyddyn gasglu. Mae hyn naill ai oherwydd bod ganddynt gynllun gofal a chymorth gweithredol ar gyfer y flwyddyn gasglu gyfan, neu pan fo'r awdurdod lleol wedi penderfynu bod angen trefnu adolygiad.
2. **Rhaid i gynllun gofal a chymorth fod wedi'i awdurdodi** neu ei gymeradwyo gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw er mwyn cael ei ystyried yn 'weithredol'.
3. Dylech gynnwys cynlluniau oedolion, lle ceir cynlluniau'n gorgyffwrdd sydd wedi'u rhagnodi'n gyfreithiol neu'n genedlaethol, a all hefyd ddiwallu'r angen am ofal a chymorth drwy un cynllun integredig. Er enghraifft, gellir ystyried mai **Cynllun Gofal a Thriniaeth** fel y'i disgrifir o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yw'r ffordd i'r awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a darparu cynllun gofal a chymorth i rywun.
4. Dylech gynnwys oedolion y mae eu gofal a'u cymorth, ac anghenion y person sy'n gofalu amdanynt, yn cael eu **hystyried ar y cyd** yn eu cynlluniau.
5. Cyfrwch nifer yr oedolion, nid nifer y cynlluniau.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys oedolion nad yw eu cynlluniau **i fod i gael eu hadolygu yn y flwyddyn gasglu gyfredol.** Er enghraifft, pan ddechreuwyd y cynllun gofal a chymorth yn y flwyddyn gasglu ac nad yw dyddiad yr adolygiad cyntaf o fewn y flwyddyn gasglu.
2. Peidiwch â chynnwys **gofalwyr sy'n oedolion a chanddynt gynlluniau cymorth** os nad oes anghenion gofal a chymorth ychwanegol ar gyfer yr unigolyn sy'n darparu gofal, neu os nad yw ei gynllun wedi'i gysylltu â chynllun gofal a chymorth ar gyfer person sydd angen gofal a chymorth.
3. Peidiwch â chynnwys oedolion sydd â **chynlluniau arbenigol nad ydynt yn diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn** (oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio i un cynllun gofal a chymorth sy'n diwallu anghenion yr unigolyn).
4. Peidiwch â chynnwys oedolion sydd â chynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u **gwrthod.**
5. Peidiwch â chynnwys achosion lle rydych yn darparu **cymorth anffurfiol** (er enghraifft, gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy).
6. Peidiwch â chynnwys oedolion sydd â chynlluniau a luniwyd gan sefydliad wedi'i gomisiynu neu sefydliad trydydd parti pan fo'r awdurdod lleol wedi **cyfeirio'r** unigolyn at y gwasanaethau hynny drwy broses yr IAA ac nad oes gan yr awdurdod lleol **unrhyw gyfrifoldebau diffiniedig i gydgysylltu nac adolygu gofal.**

7. Peidiwch â chynnwys oedolion y mae eu cynlluniau gofal a chymorth wedi'u cofnodi mewn camgymeriad.
8. Cyfrwch nifer yr oedolion yn unig, nid nifer y cynlluniau.

**Cyfeirnod Mesur: AD/017**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr oedolion a oedd i fod i gael eu hadolygu yn y flwyddyn gasglu ac a adolygwyd o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn gasglu.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 58** yn nodi:

*"[...] bod rhaid i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer person y mae angen diwallu ei anghenion.* ***Rhaid i'r cynlluniau gael eu hadolygu'n rheolaidd.*** *Os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod amgylchiadau person wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio ar y cynllun, rhaid iddo gynnal asesiadau o'r fath a diwygio'r cynllun yng ngoleuni'r asesiadau hynny. Ni ddylai cynllun gael ei gau heb adolygiad."*

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 88** yn nodi: *"Rhaid i Gynlluniau Gofal a Chymorth gynnwys dyddiad clir, a gytunir gyda'r unigolyn a/neu ei deulu, ar gyfer adolygu'r cynllun. Fodd bynnag, yn achos oedolyn,* ***rhaid i'r dyddiad adolygu fod o fewn 12 mis****."*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cydymffurfiaeth genedlaethol yn erbyn gofynion y Ddeddf.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o AD/016.***

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 113** yn nodi:

*"Rhaid i awdurdod lleol adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn deall a yw darpariaeth y gofal a'r cymorth hwnnw yn diwallu anghenion yr unigolyn ac ystyried a yw ei anghenion wedi newid ac a oes angen ailasesiad. Rhaid i'r dyddiad cytunedig ar gyfer adolygu'r cynllun fod wedi'i amlinellu yn y cynllun."*

O ran oedolion sydd â chynllun gofal a chymorth, rhaid i'w cynllun gael ei adolygu **o leiaf unwaith bob 12 mis.**

Mae'r gofynion ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth sy'n cynnwys taliad uniongyrchol y mae unigolyn yn ei ddefnyddio i reoli ei ofal a'i gymorth ei hun ychydig yn wahanol. **Dylid cynnwys y rhain yn y metrig hwn.**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 142** yn nodi:

*"Rhaid i awdurdod lleol adolygu'r trefniadau ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol a sut y maent yn cael eu defnyddio ar adegau a bennir gan yr awdurdod lleol yn unol â'r gofynion yn y cod hwn ar gyfer adolygu cynlluniau gofal a chymorth, ond yn sicr* ***o fewn 6 mis i'r dyddiad y gwnaed y taliad cyntaf ac o fewn 12 mis i'r adolygiad cyntaf."***

Cyfrwch yr holl oedolion **a oedd i fod i gael adolygiad ac a gafodd adolygiad yn y flwyddyn gasglu.** At ddibenion y metrig hwn, **yr unig** gyfrif y mae gennym ddiddordeb ynddo yw a gafodd oedolyn adolygiad **o fewn y flwyddyn gasglu**.

Efallai y bydd gan rai oedolion gynllun Gofal a Thriniaeth (fel y nodir yn Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011) ond eu bod yn cael gofal a chymorth gwasanaethau cymdeithasol. Golyga hyn os yw **gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i'r oedolyn, neu os yw ei gydlynydd gofal yn dod o'r adran gwasanaethau cymdeithasol**. Fel arall, gall hyn fod yn berthnasol os **yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn talu, neu wedi talu, am ei ofal a chymorth**, a all fod trwy gomisiynu gwasanaeth. Os yw hyn yn wir, dylid eu cynnwys yn y mesur hwn. Fodd bynnag, dylid gwneud hyn dim ond os oes gan adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol fynediad at y data sy'n angenrheidiol i'w gwblhau, h.y. **os yw'r data eisoes yn cael ei gadw gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na'r bwrdd iechyd**.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr holl oedolion a oedd i fod i gael adolygiad yn y flwyddyn gasglu y cafodd eu cynllun **ei adolygu o leiaf unwaith, ni waeth pryd y digwyddodd hynny. Data sylfaen = AD/016.**
2. Rhaid i gynllun/adolygiad gofal a chymorth fod wedi'i **awdurdodi neu ei gymeradwyo** gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw i gael ei ystyried yn 'weithredol'.
3. Dylech gynnwys adolygiadau o gynlluniau, lle ceir cynlluniau sy'n gorgyffwrdd, sydd wedi'u rhagnodi'n gyfreithiol neu'n genedlaethol a all hefyd ddiwallu'r angen am ofal a chymorth drwy un cynllun integredig. Er enghraifft, gellir ystyried mai **Cynllun Gofal a Thriniaeth** fel y'i disgrifir o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yw'r ffordd i'r awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a darparu cynllun gofal a chymorth.

4. Dylech gynnwys cynlluniau pan fo'r cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn, ac anghenion y sawl sy'n gofalu amdanynt, wedi'u **hystyried ar y cyd.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys oedolion **nad ydynt i fod i gael adolygiad yn y flwyddyn gasglu gyfredol.** Er enghraifft, pan ddechreuwyd y cynllun gofal a chymorth yn y flwyddyn gasglu ac nad yw dyddiad yr adolygiad cyntaf o fewn y flwyddyn gasglu.
2. Peidiwch â chynnwys cynlluniau nad ydynt wedi'u cynnwys yn AD/016.
3. Peidiwch â chynnwys cynlluniau 'wedi'u diweddaru' **os nad oes adolygiad wedi'i gynnal.** Ni ddylai'r cyfrifiad ond chwilio am gynlluniau gofal a chymorth yn dilyn adolygiad a gynhelir o fewn canllawiau statudol.
4. Peidiwch â chynnwys **adolygiadau o gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion** os nad oes anghenion gofal a chymorth ychwanegol ar gyfer yr unigolyn sy'n darparu gofal, neu os nad yw ei gynllun wedi'i gysylltu â chynllun gofal a chymorth ar gyfer person sydd angen gofal a chymorth.
5. Peidiwch â chynnwys **adolygiadau o gynlluniau arbenigol nad ydynt yn diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn** (oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio i un cynllun gofal a chymorth sy'n diwallu anghenion yr unigolyn).
6. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u **gwrthod.**
7. Peidiwch â chynnwys achosion lle'r ydych yn darparu **cymorth anffurfiol** (er enghraifft, gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy).
8. Peidiwch â chynnwys cynlluniau a luniwyd gan sefydliad a gomisiynwyd neu sefydliad trydydd parti lle mae'r awdurdod lleol wedi **cyfeirio'r** unigolyn at y gwasanaethau hynny drwy broses yr IAA ac nad oes gan yr awdurdod lleol unrhyw gyfrifoldebau diffiniedig i gydgysylltu nac adolygu gofal.
9. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u cofnodi mewn camgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AD/018**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr oedolion a gynorthwyir â thaliadau uniongyrchol a oedd i fod i gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn gasglu.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r metrig hwn i fonitro cydymffurfiaeth â'r gofynion a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cydymffurfiaeth genedlaethol yn erbyn gofynion y Ddeddf.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o AD/016.***

Mae Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 113** yn nodi: "*Os bydd unigolyn yn defnyddio taliadau uniongyrchol i reoli ei ofal ei hun (naill ai'n uniongyrchol neu drwy rywun arall), bydd y taliadau uniongyrchol hynny yn rhan o gynllun gofal a chymorth."*

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 113** yn nodi:

"*Rhaid i awdurdod lleol adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn deall a yw darpariaeth y gofal a'r cymorth hwnnw yn diwallu anghenion yr unigolyn ac ystyried a yw ei anghenion wedi newid ac a oes angen ailasesiad. Rhaid i'r dyddiad cytunedig ar gyfer adolygu'r cynllun fod wedi'i amlinellu yn y cynllun.*."

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 142** yn nodi:

*"Rhaid i awdurdod lleol adolygu'r trefniadau ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol a sut y maent yn cael eu defnyddio ar adegau a bennir gan yr awdurdod lleol yn unol â'r gofynion yn y cod hwn ar gyfer adolygu cynlluniau gofal a chymorth, ond yn sicr* ***o fewn 6 mis i'r dyddiad y gwnaed y taliad cyntaf ac o fewn 12 mis i'r adolygiad cyntaf."***

Cyfrwch yr holl gynlluniau gofal a chymorth ar gyfer oedolion **a oedd i fod i gael eu hadolygu yn y flwyddyn gasglu**, lle mae'r unigolyn yn defnyddio **taliadau uniongyrchol** i reoli ei ofal ei hun.

Efallai y bydd gan rai oedolion gynllun Gofal a Thriniaeth (fel y nodir yn Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011) ond eu bod yn cael gofal a chymorth gwasanaethau cymdeithasol. Golyga hyn os yw **gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i'r oedolyn, neu os yw ei gydlynydd gofal yn dod o'r adran gwasanaethau cymdeithasol**. Fel arall, gall hyn fod yn berthnasol os **yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn talu, neu wedi talu, am ei ofal a chymorth**, a all fod trwy gomisiynu gwasanaeth. Os yw hyn yn wir, dylid eu cynnwys yn y mesur hwn. Fodd bynnag, dylid gwneud hyn dim ond os oes gan adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol fynediad at y data sy'n angenrheidiol i'w gwblhau, h.y. **os yw'r data eisoes yn cael ei gadw gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na'r bwrdd iechyd**.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **cynlluniau gofal a chymorth gweithredol** ar gyfer oedolion **lle mae'r unigolyn yn defnyddio taliadau uniongyrchol** i reoli ei ofal ei hun, ac a oedd i fod i gael eu hadolygu yn y flwyddyn gasglu. **Data Sylfaen = AD/016.**
2. Rhaid i gynllun/adolygiad gofal a chymorth fod wedi'i **awdurdodi neu ei gymeradwyo gan reolwr** neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys **cynlluniau cymorth** ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion lle nad oes anghenion gofal a chymorth ychwanegol ar gyfer yr unigolyn sy'n darparu gofal, neu os nad yw ei gynllun wedi'i gysylltu â chynllun gofal a chymorth ar gyfer person sydd angen gofal a chymorth.
2. Peidiwch â chynnwys oedolion sydd â chynlluniau gofal a chymorth **nad ydynt yn defnyddio taliadau uniongyrchol** i ddiwallu eu hanghenion.
3. Peidiwch â chynnwys oedolion y mae eu cynlluniau gofal a chymorth wedi'u **gwrthod.**
4. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u cofnodi mewn camgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AD/019**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr oedolion a gefnogir gan daliadau uniongyrchol a oedd i fod i gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn gasglu ac a gafodd o leiaf un adolygiad yn ystod y flwyddyn gasglu.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r metrig hwn i fonitro cydymffurfiaeth â'r gofynion a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cydymffurfiaeth genedlaethol yn erbyn gofynion y Ddeddf.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o AD/017 ac AD/018.***

Mae Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 113** yn nodi: "*Os bydd unigolyn yn defnyddio taliadau uniongyrchol i reoli ei ofal ei hun (naill ai'n uniongyrchol neu drwy rywun arall), bydd y taliadau uniongyrchol hynny yn rhan o gynllun gofal a chymorth."*

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 113** yn nodi:

**"***Rhaid i awdurdod lleol adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn deall a yw darpariaeth y gofal a'r cymorth hwnnw yn diwallu anghenion yr unigolyn ac ystyried a yw ei anghenion wedi newid ac a oes angen ailasesiad. Rhaid i'r dyddiad cytunedig ar gyfer adolygu'r cynllun fod wedi'i amlinellu yn y cynllun.*."

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 142** yn nodi:

*"Rhaid i awdurdod lleol adolygu'r trefniadau ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol a sut y maent yn cael eu defnyddio ar adegau a bennir gan yr awdurdod lleol yn unol â'r gofynion yn y cod hwn ar gyfer adolygu cynlluniau gofal a chymorth, ond yn sicr **o fewn 6 mis i'r dyddiad y gwnaed y taliad cyntaf ac o fewn 12 mis i'r adolygiad cyntaf."***

Cyfrwch yr holl gynlluniau gofal a chymorth ar gyfer oedolion a **oedd i fod i gael eu hadolygu yn y flwyddyn gasglu, ac a gafodd eu hadolygu**, lle mae'r unigolyn yn defnyddio **taliadau uniongyrchol** i reoli ei ofal ei hun.

Efallai y bydd gan rai oedolion gynllun Gofal a Thriniaeth (fel y nodir yn Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011) ond eu bod yn cael gofal a chymorth gwasanaethau cymdeithasol. Golyga hyn os yw **gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i'r oedolyn, neu os yw ei gydlynydd gofal yn dod o'r adran gwasanaethau cymdeithasol**. Fel arall, gall hyn fod yn berthnasol os **yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn talu, neu wedi talu, am ei ofal a chymorth**, a all fod trwy gomisiynu gwasanaeth. Os yw hyn yn wir, dylid eu cynnwys yn y mesur hwn. Fodd bynnag, dylid gwneud hyn dim ond os oes gan adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol fynediad at y data sy'n angenrheidiol i'w gwblhau, h.y. **os yw'r data eisoes yn cael ei gadw gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na'r bwrdd iechyd**.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr holl gynlluniau gofal a chymorth ar gyfer oedolion lle mae'r unigolyn yn defnyddio taliadau uniongyrchol i reoli ei ofal ei hun, a oedd i fod i gael eu hadolygu yn y flwyddyn gasglu **ac a oedd wedi cael o leiaf un adolygiad yn y flwyddyn gasglu. Data Sylfaen = AD/017 ac AD/018.**
2. Rhaid i adolygiad fod wedi'i **awdurdodi neu ei gymeradwyo** gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw cyn y gellid ystyried ei fod wedi'i gwblhau.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys unrhyw gynlluniau gofal a chymorth **nad oeddent i fod i gael eu hadolygu yn y flwyddyn gasglu. Data Sylfaen = AD/018**.
2. Peidiwch â chynnwys unrhyw gynlluniau gofal a chymorth **na chawsant eu hadolygu yn y flwyddyn gasglu. Data Sylfaen = AD/017**.
3. Peidiwch â chynnwys **cynlluniau gofal a chymorth lle na roddir unrhyw daliadau uniongyrchol** i ganiatáu i'r unigolyn ddiwallu ei anghenion ei hun.
4. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u **gwrthod.**
5. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u cofnodi mewn camgymeriad.

## Diogelu Oedolion

### Cyfeirnod Mesur: AS/001

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn.

### Bwriad y Mesur

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **Cod Ymarfer Rhan 7** (Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl), Cyfrol 6 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg) yn disgrifio'r broses o dan adran 131 ar y ddyletswydd i roi gwybod am oedolion sy'n wynebu risg.

Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i fesur cyfanswm yr oedolion yr amheuir eu bod wedi cael niwed sylweddol y rhoddir gwybod i'r sefydliad amdanynt yn ystod y flwyddyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro gweithgarwch diogelu ar gyfer oedolion yng Nghymru.

### Diffiniad

Mae **Adran 128** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn nodi'r ddyletswydd a osodir ar 'bartneriaid perthnasol' o dan Adran 162 o'r Ddeddf i roi gwybod am oedolion a phlant, gan gynnwys plant heb eu geni, y mae ganddynt sail resymol dros amau eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin.

Gall yr awdurdod lleol hefyd dderbyn adroddiadau gan unigolion, gan gynnwys pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a sefydliadau fel y rhai o'r trydydd sector.

Cyfrwch nifer yr adroddiadau ar gyfer oedolion yr amheuwyd eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso i'r awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl** adroddiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn gasglu ynghylch oedolion yr amheuir eu bod yn wynebu risg.
2. Os rhoddwyd gwybod i'r awdurdod lleol am yr unigolyn **fwy nag unwaith** yn ystod y flwyddyn, cyfrwch yr oedolyn **unwaith yn unig**.

**Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys adroddiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.
2. Peidiwch â chynnwys adroddiadau a wnaed ar adroddiadau a **dderbyniwyd y tu allan i'r flwyddyn gasglu** (AD/020).

**Cyfeirnod Mesur: AS/002**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a gofnodwyd fwy nag unwaith ar gyfer yr un categori o gamdriniaeth neu esgeulustod yn ystod y flwyddyn.

**Bwriad y Mesur**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **Cod Ymarfer Rhan 7** (Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl), Cyfrol 6 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg) yn disgrifio'r broses o dan adran 131 ar y ddyletswydd i roi gwybod am oedolion sy'n wynebu risg.

Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i fesur cyfanswm yr oedolion yr amheuir eu bod wedi cael niwed sylweddol y rhoddir gwybod i'r sefydliad amdanynt yn ystod y flwyddyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro gweithgarwch diogelu ar gyfer oedolion yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae **Adran 128** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn nodi'r ddyletswydd a osodir ar 'bartneriaid perthnasol' o dan adran 162 o'r Ddeddf i roi gwybod am oedolion a phlant, gan gynnwys plant heb eu geni, y mae ganddynt sail resymol dros amau eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin.

Gall yr awdurdod lleol hefyd dderbyn adroddiadau gan unigolion, gan gynnwys pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a sefydliadau fel y rhai o'r trydydd sector.

Cyfrif nifer yr oedolion y rhoddwyd gwybod i'r awdurdod lleol amdanynt yn ystod y flwyddyn yr adroddwyd amdanynt fwy nag unwaith am yr un categori o gamdriniaeth neu esgeulustod.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl** adroddiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn gasglu ynghylch oedolion yr amheuir eu bod yn wynebu risg. **Data sylfaen = AS/001.**
2. Gellir cyfrif oedolyn dan AS/002 ac AS/003.

**Cyfeirnod Mesur: AS/003**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a gofnodwyd ar gyfer categorïau gwahanol o gamdriniaeth neu esgeulustod yn ystod y flwyddyn.

**Bwriad y Mesur**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **Cod Ymarfer Rhan 7** (Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl), Cyfrol 6 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg) yn disgrifio'r broses o dan adran 131 ar y ddyletswydd i roi gwybod am oedolion sy'n wynebu risg.

Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i fesur cyfanswm yr oedolion yr amheuir eu bod wedi cael niwed sylweddol y rhoddir gwybod i'r sefydliad amdanynt yn ystod y flwyddyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro gweithgarwch diogelu ar gyfer oedolion yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae **Adran 128** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn nodi'r ddyletswydd a osodir ar 'bartneriaid perthnasol' o dan adran 162 o'r Ddeddf i roi gwybod am oedolion a phlant, gan gynnwys plant heb eu geni, y mae ganddynt sail resymol dros amau eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin.

Gall yr awdurdod lleol hefyd dderbyn adroddiadau gan unigolion, gan gynnwys pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a sefydliadau fel y rhai o'r trydydd sector.

Cyfrif nifer yr oedolion y rhoddwyd gwybod i'r awdurdod lleol amdanynt yn ystod y flwyddyn yr adroddwyd amdanynt ar gyfer gwahanol gategorïau o gamdriniaeth neu esgeulustod.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl** adroddiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn gasglu ynghylch oedolion yr amheuir eu bod yn wynebu risg. **Data sylfaen = AS/001.**
2. Gellir cyfrif oedolyn dan AS/002 ac AS/003.

**Cyfeirnod Mesur: AD/020**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr adroddiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn ynghylch oedolion yr amheuid eu bod yn wynebu risg.

**Bwriad y Mesur**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **Cod Ymarfer Rhan 7** (Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl), Cyfrol 6 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg) yn disgrifio'r broses o dan adran 131 ar y ddyletswydd i roi gwybod am oedolion sy'n wynebu risg.

Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fesur cyfanswm nifer yr achosion o niwed sylweddol a amheuir y mae'r sefydliad yn ymdrin â hwy yn ystod y flwyddyn, ar y cyd â'r metrigau isod, i ganfod cyfradd athrofa unigolion sy'n symud drwy'r broses amddiffyn oedolion.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro gweithgarwch diogelu ar gyfer oedolion yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae **Adran 128** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn nodi'r ddyletswydd a osodir ar 'bartneriaid perthnasol' o dan Adran 162 o'r Ddeddf i roi gwybod am oedolion a phlant, gan gynnwys plant heb eu geni, y mae ganddynt sail resymol dros amau eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin.

Gall yr awdurdod lleol hefyd dderbyn adroddiadau gan unigolion, gan gynnwys pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a sefydliadau fel y rhai o'r trydydd sector.

Cyfrwch nifer yr adroddiadau i'r awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn am oedolion yr amheuid eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl** adroddiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn gasglu ynghylch oedolion yr amheuid eu bod yn wynebu risg.
2. Gall oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg gael **mwy nag un** adroddiad yn ystod y flwyddyn. **Cyfrwch bob un o'r rhain.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys adroddiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AD/021**

**Enw’r Mesur:** Yr adroddiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn ynghylch oedolion yr amheuir eu bod yn wynebu risg gan:

a. Yr unigolyn ei hun
b. Perthynas
c. Ffrind neu gymydog
d. Gwasanaeth Atal / Ymyrryd yn fuan (Camu i fyny)
e. Iechyd
f. Addysg
g. Tai
h. Yr heddlu
i. Gwasanaethau prawf
j. Sefydliad trydydd sector
k. Awdurdod Lleol
l. Ysbyty Annibynnol
m. Gwasanaeth Ambiwlans
n. Rheoleiddiwr Gofal
o. Darparwr
p. Eiriolwr
q. Arall
r. Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall)

**Bwriad y Mesur**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **Cod Ymarfer Rhan 7** (Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl), Cyfrol 6 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy’n Wynebu Risg) yn disgrifio'r broses o dan adran 131 ar y ddyletswydd i roi gwybod am oedolion sy’n wynebu risg.

Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fesur beth yw tarddiad cyfanswm nifer yr adroddiadau am niwed sylweddol tybiedig y mae'r sefydliad yn ymdrin â hwy yn ystod y flwyddyn, a hefyd, ar y cyd â metrigau ychwanegol, canfod cyfradd athrofa unigolion sy'n symud drwy'r broses amddiffyn oedolion.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro gweithgarwch diogelu ar gyfer oedolion yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae **Adran 128** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn nodi'r ddyletswydd a osodir ar 'bartneriaid perthnasol' o dan adran 162 o'r Ddeddf i roi gwybod am oedolion a phlant, gan gynnwys plant heb eu geni, y mae ganddynt sail resymol dros amau eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin.

Gall yr awdurdod lleol hefyd dderbyn adroddiadau gan unigolion, gan gynnwys pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a sefydliadau fel y rhai o'r trydydd sector.

Cyfrwch nifer yr adroddiadau i'r awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn am oedolion yr amheuid eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl** adroddiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn gasglu ynghylch oedolion yr amheuid eu bod yn wynebu risg. **Data sylfaen = AD/020**
2. Gall oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg gael **mwy nag un** adroddiad yn ystod y flwyddyn. **Cyfrwch bob un o'r rhain.**

**Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys adroddiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AD/022**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gasglu lle'r honnwyd bod cam-drin yn digwydd o dan y prif categorïau canlynol:

a. Esgeulustod
b. Cam-drin corfforol
c. Cam-drin rhywiol
d. Cam-drin emosiynol neu seicolegol

    e. Cam-drin ariannol

Ac Oedran:

1. 18-24
2. 25-34
3. 35-44
4. 45-54
5. 55-64
6. 65-74
7. 75-84
8. 85 oed a hŷn

**Bwriad y Mesur**

Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu prosesau diogelu yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro gweithgarwch diogelu ar gyfer oedolion yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae **Adran 128** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn nodi'r ddyletswydd a osodir ar 'bartneriaid perthnasol' o dan **adran 162** o'r Ddeddf i roi gwybod am oedolion a phlant, gan gynnwys plant heb eu geni, y mae ganddynt sail resymol dros amau eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin.

Gall yr awdurdod lleol hefyd dderbyn adroddiadau gan unigolion, gan gynnwys pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a sefydliadau fel y rhai o'r trydydd sector.

Cyfrwch nifer yr adroddiadau i'r awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn am oedolion yr amheuid eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, **yn ôl y categori o gam-drin honedig**.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl** adroddiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gasglu ar gyfer oedolyn yr amheuid ei fod yn wynebu risg. **Data sylfaen = AD/020**
2. Cyfrwch adroddiadau yn ôl y **categori o gam-drin honedig** yn is-adrannau'r metrig hwn.
3. Mae'n bosibl yr amheuir **mwy nag un categori o gam-drin** mewn adroddiad. **Cyfrwch bob un o'r rhain.**

4. Gall oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg fod yn destun **mwy nag un** adroddiad yn ystod y flwyddyn. **Cyfrwch bob un o'r rhain.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys adroddiadau a wnaed ar adroddiadau a **dderbyniwyd y tu allan i'r flwyddyn gasglu** (AD/020).
2. Peidiwch â chynnwys adroddiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AS/004a**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gasglu lle'r oedd ethnigrwydd yr oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso yn:

a. Gwyn
b. Grŵp ethnig cymysg
c. Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig
d. Du, Affricanaidd, Caribïaidd/, neu Ddu Prydeinig
e. Grŵp ethnig arall
f. Ni chafwyd yr wybodaeth
g. Gwrthod rhoi gwybodaeth

**Bwriad y Mesur**

Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu prosesau diogelu yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro gweithgarwch diogelu ar gyfer oedolion yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae **Adran 128** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn nodi'r ddyletswydd a osodir ar 'bartneriaid perthnasol' o dan **adran 162** o'r Ddeddf i roi gwybod am oedolion a phlant, gan gynnwys plant heb eu geni, y mae ganddynt sail resymol dros amau eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin.

Gall yr awdurdod lleol hefyd dderbyn adroddiadau gan unigolion, gan gynnwys pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a sefydliadau fel y rhai o'r trydydd sector.

Cyfrwch nifer yr adroddiadau i'r awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn am oedolion yr amheuid eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, **yn ôl ethnigrwydd**.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl** adroddiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gasglu ar gyfer oedolyn yr amheuid ei fod yn wynebu risg. **Data sylfaen = AD/020**
2. Cyfrwch adroddiadau yn ôl **ethnigrwydd yr oedolion** yn is-adrannau'r metrig hwn.
3. Dylid cofnodi **un ethnigrwydd ar gyfer pob adroddiad.**
4. Gall oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg fod yn destun **mwy nag un** adroddiad yn ystod y flwyddyn. **Cyfrwch bob un o'r rhain.**
5. Cynnwys Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig dan 'Gwyn'.
6. Cynnwys Tsieineaidd neu Dsieineaidd Prydeinig dan 'Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig'.
7. Cynnwys Arabaidd dan 'Grŵp ethnig arall'.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

3. Peidiwch â chynnwys adroddiadau a wnaed ar adroddiadau a **dderbyniwyd y tu allan i'r flwyddyn gasglu** (AD/020).
4. Peidiwch â chynnwys adroddiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AS/004b**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gasglu lle'r oedd rhywedd yr oedolyn yr amheuid ei fod mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso yn:

a) Gwryw
b) Benyw
c) Arall
d) Heb ei ddatgelu neu'n anhysbys

**Bwriad y Mesur**

Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu prosesau diogelu yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro gweithgarwch diogelu ar gyfer oedolion yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae **Adran 128** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn nodi'r ddyletswydd a osodir ar 'bartneriaid perthnasol' o dan **adran 162** o'r Ddeddf i roi gwybod am oedolion a phlant, gan gynnwys plant heb eu geni, y mae ganddynt sail resymol dros amau eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin.

Gall yr awdurdod lleol hefyd dderbyn adroddiadau gan unigolion, gan gynnwys pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a sefydliadau fel y rhai o'r trydydd sector.

Cyfrwch nifer yr adroddiadau i'r awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn am oedolion yr amheuid eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, **yn ôl ethnigrwydd**.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl** adroddiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gasglu ar gyfer oedolyn yr amheuid ei fod yn wynebu risg, yn ôl rhywedd:
   a. Gwryw
   b. Benyw
   c. Arall
   d. Heb ei ddatgelu neu'n anhysbys. **Data sylfaen = AD/020**
2. Gall oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg fod yn destun **mwy nag un** adroddiad yn ystod y flwyddyn. **Cyfrwch bob un o'r rhain.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

5. Peidiwch â chynnwys adroddiadau a wnaed ar adroddiadau a **dderbyniwyd y tu allan i'r flwyddyn gasglu** (AD/020).
6. Peidiwch â chynnwys adroddiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AD/023**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr adroddiadau ynghylch oedolion yr amheuir eu bod yn wynebu risg lle mae angen gwneud ymholiadau Adran 126, yn ôl oedran:

1. 18-24
2. 25-34
3. 35-44
4. 45-54
5. 55-64

6. 65-74
7. 75-84
8. 85 oed a hŷn

**Bwriad y Mesur**

Gall gwybodaeth am y metrig hwn, ar y cyd â metrigau ychwanegol, ganfod cyfradd athrofa unigolion sy'n symud drwy'r broses amddiffyn oedolion.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro gweithgarwch diogelu ar gyfer oedolion yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **Cod Ymarfer Rhan 7** (Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl), Cyfrol 6 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion) para. 17 yn datgan:

*"Mae Adran 126(2) o Ddeddf 2014 yn nodi: "Os oes gan awdurdod lleol sail resymol dros gredu bod person o fewn ei ardal (p'un a yw'n preswylio fel arfer yno ai peidio) yn oedolyn sy'n wynebu risg, rhaid iddo:-*

a. *gwneud unrhyw **ymholiadau** (neu beri iddynt gael eu gwneud) y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol i'w alluogi i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau (p'un ai o dan y Ddeddf hon neu fel arall) ac, os felly, pa gamau a chan bwy, a*
b. *penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau o'r fath."*

Gall yr awdurdod lleol gynnal yr ymholiadau ei hun, neu achosi iddynt gael eu cynnal gan gorff arall. Mae'r ddyletswydd i bennu natur yr ymholiadau gofynnol yn aros gyda'r awdurdod lleol, hyd yn oed os mai corff arall sy'n cynnal yr ymholiadau. Efallai y gofynnir i bartneriaid perthnasol wneud ymholiadau ar ran yr awdurdod lleol, ac mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â cheisiadau o'r fath oni bai y byddai gwneud hynny yn mynd yn groes i'w dyletswyddau eu hunain.

Cyfrwch nifer yr adroddiadau ar gyfer oedolion yr amheuwyd eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso i'r awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle mae angen gwneud ymholiadau.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **pob** adroddiad am oedolyn yr amheuid ei fod mewn perygl a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gasglu a arweiniodd at wneud ymholiadau Adran 126. **Data sylfaen = AD/020**
2. Gall oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg gael **mwy nag un** adroddiad yn ystod y flwyddyn. **Cyfrwch y rhain i gyd lle gwnaed ymholiadau Adran 126**.

3. Gall y penderfyniad i wneud ymholiadau Adran 126 fod **y tu allan i'r flwyddyn gasglu**. Os oes modd, **cofiwch gynnwys y rhain**.

**Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys ymholiadau a wnaed ar adroddiadau a **dderbyniwyd y tu allan i'r flwyddyn gasglu** (AD/020).
2. **Nid yw ymholiadau'n cynnwys ymchwiliadau ffurfiol** sy'n ymwneud â'r heddlu, er y gallai hyn fod yn ganlyniad.
3. Peidiwch â chynnwys adroddiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AD/024**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr ymholiadau Adran 126 a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith o gael gwybod am yr achos honedig o gam-drin.

**Bwriad y Mesur**

Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu prosesau diogelu yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro gweithgarwch diogelu ar gyfer oedolion yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan, Oedolion mewn Perygl, **Adran 3** (Ymateb i adroddiad ar oedolyn sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin a/neu ei esgeuluso; Dyletswydd i wneud ymholiadau o dan **Adran 126(1)** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) yn nodi:

"*Fel arfer, dylai ymholiad gael ei gwblhau o fewn **7 diwrnod gwaith** i'r adroddiad/atgyfeiriad. **Bydd y cyfnod ymholi o 7 diwrnod gwaith yn dechrau unwaith y bydd yr awdurdod lleol wedi derbyn yr adroddiad.***

*Dylai'r ymholiadau gynnwys:*

- *gwirio cywirdeb ffeithiol cyffredinol unrhyw adroddiad;*
- *cwblhau gwerthusiad cychwynnol: Bydd hyn yn golygu casglu, adolygu a chrynhoi gwybodaeth. (Gallant ofyn i bartneriaid perthnasol eraill gwblhau hyn ar eu rhan ond cadw cyfrifoldeb achos);*
- *penderfynu pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd."*

Cyfrwch nifer yr ymholiadau Adran 126 ar gyfer oedolion yr amheuid eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a gwblhawyd gan yr awdurdod lleol **o fewn 7 diwrnod gwaith** yn ystod y flwyddyn.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **yr holl ymholiadau Adran 126** a wnaed am oedolyn yr amheuid ei fod yn wynebu risg a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gasglu a gwblhawyd mewn **7 diwrnod gwaith**. **Data sylfaen = AD/023**
2. Gall oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg fod yn destun **mwy nag un** ymholiad Adran 126 yn ystod y flwyddyn. **Cyfrwch bob un o'r rhain lle gwnaed ymholiadau.**
3. **Caiff diwrnod derbyn yr adroddiad ei gyfrif yn ddiwrnod sero**. Cyfrwch yr holl ymholiadau Adran 126 a gwblhawyd **hyd at a chan gynnwys 7 diwrnod gwaith** o'r pwynt hwn.
4. Gall cwblhau'r ymholiadau fod y **tu allan i'r flwyddyn gasglu. Dylech gynnwys y rhain lle gallwch.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys ymholiadau Adran 126 a wnaed ar adroddiadau a **dderbyniwyd y tu allan i'r flwyddyn gasglu** (AD/020).
2. Peidiwch â chynnwys ymholiadau Adran 126**na chafodd eu cwblhau mewn saith diwrnod gwaith**.
3. Peidiwch â chynnwys **gwyliau banc na phenwythnosau** yn eich cyfrifiad.
4. **Nid yw ymholiadau'n cynnwys ymchwiliadau ffurfiol** sy'n ymwneud â'r heddlu, er y gallai hyn fod yn ganlyniad.
5. Peidiwch â chynnwys ymholiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AD/025**

**Enw'r Mesur:** O'r ymholiadau Adran 126 hynny, y nifer lle'r oedd y cyflawnwr honedig yn un o'r canlynol:

a. Priod
b. Plentyn
c. Aelod o'r teulu nad yw'n blentyn neu'n briod
d. Gweithiwr proffesiynol
e. Gwirfoddolwr neu weithiwr di-dâl
f. Ffrind agos
g. Cymydog
h. Defnyddiwr Gwasanaeth
i. Person Arall
j. Ddim yn hysbys

**Bwriad y Mesur**

Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu prosesau diogelu yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro gweithgarwch diogelu ar gyfer oedolion yng Nghymru.

**Diffiniad**

Ar gyfer yr ymholiadau Adran 126 hynny, cofnodwch berthynas yr holl gyflawnwyr honedig â'r oedolyn sy'n wynebu risg. Y rhain yw:

Plentyn neu ŵr neu wraig; aelod o'r teulu nad yw'n blentyn neu'n briod; gweithiwr proffesiynol; gwirfoddolwr neu weithiwr di-dâl; ffrind neu gymydog, defnyddiwr gwasanaeth arall; unrhyw berson arall; anhysbys (nid yw'r unigolyn mewn perygl yn gwybod pwy yw'r sawl sy'n cyflawni'r trosedd neu nid yw'r unigolyn sydd mewn perygl yn dweud).

Os oedd gan adroddiad nifer o gyflawnwyr, **cofnodwch bob un o'r rhain yn unigol.**

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl ymholiadau Adran 126** a wnaed am oedolyn yr amheuid ei fod yn wynebu risg a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gasglu ac a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn. **Data sylfaen = AD/023**
2. Efallai bydd mwy nag un cyflawnwr honedig o gam-drin, lle ystyrir bod oedolyn mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. **Cyfrwch y rhain i gyd yn unigol.**
3. Gall cwblhau'r ymholiadau Adran 126 fod y **tu allan i'r flwyddyn gasglu.** Dylech **gynnwys gwybodaeth am gyflawnwyr honedig yn y rhain lle gallwch.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys ymholiadau Adran 126 a wnaed ar adroddiadau a **dderbyniwyd y tu allan i'r flwyddyn gasglu** (AD/020).
2. **Nid yw ymholiadau'n cynnwys ymchwiliadau ffurfiol** sy'n ymwneud â'r heddlu, er y gallai hyn fod yn ganlyniad.
3. Peidiwch â chynnwys ymholiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AS/005**

**Enw'r Mesur:** O'r ymholiadau Adran 126 hynny, y nifer lle y digwyddodd y cam-drin honedig yn:

a. Eu cartref eu hunain
b. Y gymuned
c. Lleoliad cartref gofal
d. Lleoliad iechyd

**Bwriad y Mesur**

Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu prosesau diogelu yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro gweithgarwch diogelu ar gyfer oedolion yng Nghymru.

**Diffiniad**

Ar gyfer yr ymholiadau Adran 126 a wnaed, cofnodwch y man lle digwyddodd y gamdriniaeth neu'r esgeulustod honedig. Y rhain yw:

- Cartref ei hun; y gymuned; cartref gofal; a lleoliad iechyd.
- Cymuned – yn cynnwys cartref perthynas, cartref y cyflawnwr honedig
- Lleoliad cartref gofal – yn cynnwys lleoliad preswyl, nyrsio neu seibiant, cartref Grŵp Ymddiriedolaeth y GIG
- Lleoliad iechyd – yn cynnwys ysbyty'r GIG, ysbyty annibynnol

Enghreifftiau:
Tenantiaeth gyffredin - cofnodwch fel cartref eich hun
Eiddo wedi'i forgeisio i'r dioddefwr honedig neu i'w bartner – cofnodwch fel cartref ei hun
Person hŷn sy'n byw yng nghartref y ferch – cofnodwch fel cymuned ehangach
Person hŷn sy'n byw yn ei gartref ei hun a'i ferch yn symud i mewn i helpu gyda gofal – cofnodwch fel cartref ei hun
Coleg addysg bellach, coleg cymunedol ar gyfer dosbarthiadau nos, 19 oed yn byw mewn lleoliad ysgol breswyl – cofnodwch fel cymuned
Gwely a Brecwast neu Westy – cofnodwch fel cymuned.

Os oedd adroddiad yn ymwneud â nifer o leoedd, **cofnodwch bob un o'r rhain yn unigol.**

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl ymholiadau Adran 126** a wnaed am oedolyn yr amheuid ei fod yn wynebu risg a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gasglu ac a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn. **Data sylfaen = AD/023**
2. Efallai bydd mwy nag un lle o gam-drin honedig, lle ystyrir bod oedolyn mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. **Cyfrwch y rhain i gyd yn unigol.**
3. Gall cwblhau'r ymholiadau fod y **tu allan i'r flwyddyn gasglu.** Dylech **gynnwys gwybodaeth am gyflawnwyr honedig yn y rhain lle gallwch.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys ymholiadau Adran 126 a wnaed ar adroddiadau a **dderbyniwyd y tu allan i'r flwyddyn gasglu** (AD/020).
2. **Nid yw ymholiadau'n cynnwys ymchwiliadau ffurfiol** sy'n ymwneud â'r heddlu, er y gallai hyn fod yn ganlyniad.
3. Peidiwch â chynnwys ymholiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AD/026**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr ymholiadau Adran 126 lle roedd y canlyniad fel a ganlyn:

a. Amddiffyn ar Unwaith
b. Mae'r oedolyn yn 'oedolyn sy'n wynebu risg' ac mae angen gweithredu i'w amddiffyn.
c. Nid yw'r oedolyn yn 'oedolyn sy'n wynebu risg' ond gall fod ganddo anghenion gofal a chymorth.
d. Nid yw'r oedolyn yn 'oedolyn sy'n wynebu risg' ac ni nodwyd unrhyw anghenion gofal a chymorth sydd heb eu diwallu; nid oes angen cymryd camau pellach.

**Bwriad y Mesur**

Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu prosesau diogelu yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro gweithgarwch diogelu ar gyfer oedolion yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **Cod Ymarfer Rhan 7**, **para. 109** yn nodi: *Gellir dod ag ymholiadau dan Adran 126 i ben unrhyw bryd lle mae'r awdurdod lleol wedi'i argyhoeddi bod digon o wybodaeth i benderfynu*

*a ddylai unrhyw gamau gweithredu gael eu cymryd (boed dan Ddeddf 2014 neu fel arall) ac, os felly, beth a chan bwy. Dylai'r penderfyniad o ran pa gamau gweithredu pellach sy'n angenrheidiol neu'n dderbyniol gael ei wneud mewn ymgynghoriad â'r unigolyn bob amser oni bai bod rhesymau cyfiawnadwy dros beidio â gwneud hynny megis lle ceir risg i eraill.*

Cyfrwch yr ymholiadau Adran 126 a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn gasglu. Dylai canlyniad yr ymholiadau hyn fod wedi penderfynu **lle mae angen camau pellach**. Gall y cam hwn fod oherwydd bod risg o gam-drin wedi'i nodi (a.), neu fod tystiolaeth amhendant o risg a chamdriniaeth, ond fod gan oedolyn anghenion gofal a chymorth sy'n gofyn am gamau gweithredu neu fod angen ymchwiliadau pellach (c.). Dylai'r ymholiadau hyn hefyd benderfynu lle nad oes angen camau pellach, naill ai oherwydd bod camau eisoes wedi'u cymryd (b.) neu oherwydd nad oes tystiolaeth glir o risg neu gam-drin (d.).

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **yr holl ymholiadau Adran 126** a wnaed ar gyfer oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn gasglu ac a arweiniodd at:
    a. Amddiffyn ar unwaith. **Data sylfaen = AD/023**
    b. Mae'r oedolyn yn 'oedolyn sy'n wynebu risg' ac mae angen gweithredu i'w amddiffyn. **Data sylfaen = AD/023**
    c. Nid yw'r oedolyn yn 'oedolyn sy'n wynebu risg' ond gall fod ganddo anghenion gofal a chymorth. **Data sylfaen = AD/023**
    d. Nid yw'r oedolyn yn 'oedolyn sy'n wynebu risg' ac ni nodwyd unrhyw anghenion gofal a chymorth sydd heb eu diwallu; nid oes angen cymryd camau pellach. **Data sylfaen = AD/023**
2. Efallai y bydd mwy nag un ymholiad yn cael ei wneud ar gyfer oedolyn yn ystod y flwyddyn. **Cyfrwch bob un lle cynhaliwyd asesiad o'r risg sy'n bodoli**.
3. Gall cwblhau'r ymholiadau fod y **tu allan i'r flwyddyn gasglu. Cynhwyswch y rhain i gyd.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys adroddiadau o risg o gam-drin neu niwed **lle na wnaed ymholiadau**.
2. **Nid yw ymholiadau'n cynnwys ymchwiliadau ffurfiol** sy'n ymwneud â'r heddlu, er y gallai hyn fod yn ganlyniad.
3. Peidiwch â chynnwys ymholiadau **na chafodd eu cofnodi yn AD/023.**
4. Peidiwch â chynnwys ymholiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AD/027**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr ymholiadau Adran 126 lle gwrthododd yr unigolyn gymryd rhan yn y camau a nodwyd.

**Bwriad y Mesur**

Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu prosesau diogelu yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro gweithgarwch diogelu ar gyfer oedolion yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer **Rhan 7**, **para. 95** yn nodi:

"*Wrth benderfynu ynghylch natur yr ymholiadau, dylai'r awdurdod lleol ystyried nifer o ffactorau:*

- *hawl y person y credid ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg i wrthod cyfranogi. Nid yw gwrthod cyfranogi yn rhyddhau'r awdurdod lleol yn awtomatig o'i ddyletswydd, ond gall leihau effeithiolrwydd yr ymholiad."*

Mae **Gweithdrefnau Diogelu Cymru**, Ymateb i adroddiad am oedolyn sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin a/neu ei esgeuluso, Ymgysylltu â'r oedolyn sy'n wynebu risg a'i deulu, yn nodi: *Mae'n bosibl y gall oedolion ag anghenion gofal a chymorth amddiffyn eu hunain rhag camdriniaeth, esgeulustod a [chamfanteisio] gan eraill. Er enghraifft, nid yw bregustod, oedran nac anabledd o reidrwydd yn atal unigolyn rhag gallu amddiffyn ei hun ac mae asesiadau galluedd meddyliol bob tro'n dibynnu ar y sefyllfa.*

*Dylai ymarferwyr geisio parchu dymuniadau personol ac annibyniaeth yr oedolyn ar bob adeg. Dylai ymarferwyr sicrhau bod yr unigolyn yn ymwybodol o unrhyw risgiau a'r effaith bosibl ar ei ddiogelwch a'i lesiant, a'i annog i ddatblygu strategaethau i ddiogelu ei hun. Fodd bynnag, mae angen penderfyniad proffesiynol am allu'r oedolyn i wneud dewisiadau gwybodus. Dylai ymarferwyr ystyried y canlynol:*

*A oes gan yr oedolyn sy'n wynebu risg y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau gwybodus am ei ddiogelwch ei hun o ystyried ei sefyllfa bresennol?*

- *A yw'n ymwybodol o'r dewisiadau sydd ganddo?*
- *A yw'n gwneud y penderfyniad heb bwysau a gorfodaeth gan drydydd parti?*
- *A oes unrhyw ystyriaethau er budd y cyhoedd?*
- *A ydyw wedi gwrthod cynllun gofal a chymorth oherwydd pwysau neu orfodaeth gan drydydd parti?*

*Dylai ymarferwyr gadw cofnod, sy'n cynnwys:*

- *pam na chymerir camau gweithredu;*
- *canfyddiadau unrhyw sgrinio cychwynnol;*
- *y trefniadau amddiffyn a gynigwyd;*
- *y gwaith a wnaed i ddeall y rhesymau dros beidio â derbyn cymorth.*

*Mae'n bwysig bod cofnod yr ymchwiliad ar gael ac yn atodol at unrhyw gynllun gofal a chymorth.*

*Mewn rhai amgylchiadau, gellir diystyru dymuniadau'r oedolyn sy'n wynebu risg. Gweler yr enghreifftiau canlynol:*

- *os oes risg uchel i iechyd a/neu ddiogelwch yr unigolyn;*
- *os gallai eraill, gan gynnwys plant neu oedolion eraill, wynebu risg;*
- *os amheuir y cyflawnwyd trosedd yn erbyn yr oedolyn;*
- *os yw'r pryderon yn berthnasol i fethiant mewn gofal, torri rheoliad neu god ymddygiad proffesiynol;*
- *mae gwasanaethau cymdeithasol oedolion, gwasanaethau iechyd neu asiantaeth arall yn cefnogi neu'n gweithio ag oedolyn y mae mater neu ddigwyddiad sydd wedi achosi niwed yn effeithio arno'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol;*
- *ystyrir fod yr oedolyn sy'n wynebu risg yn cam-drin neu'n esgeuluso oedolyn arall neu blentyn sy'n wynebu risg;*
- *os yw'r oedolyn wedi'i orfodi.*

Cyfrwch yr ymholiadau Adran 126 a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn lle penderfynwyd bod **angen cymryd camau pellach ac y gwrthododd yr oedolyn gymryd rhan yn y camau gweithredu a nodwyd.**

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl** ymholiadau Adran 126 a wnaed am oedolyn yr amheuid ei fod yn wynebu risg a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn gasglu lle penderfynwyd bod angen cymryd camau pellach **ac y gwrthododd yr oedolyn gymryd rhan yn y camau a nodwyd. Data sylfaen = AD/026a**
2. Efallai y bydd mwy nag un ymholiad yn cael ei wneud ar gyfer oedolyn yn ystod y flwyddyn. **Cyfrwch bob un o'r rhain lle'r oedd angen cymryd camau pellach ac y gwrthododd yr oedolyn gymryd rhan yn y camau a nodwyd**.
3. Gall cwblhau'r ymholiadau fod y **tu allan i'r flwyddyn gasglu.** Dylech **gynnwys y rhai sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer eu cynnwys yn 6.1.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys ymholiadau sy'n dod i'r casgliad **nad oedd angen cymryd camau pellach.**
2. Peidiwch â chynnwys ymholiadau lle **cytunodd yr oedolyn i gymryd rhan** yn y camau gweithredu a nodwyd yn yr ymholiad.
3. **Nid yw ymholiadau'n cynnwys ymchwiliadau ffurfiol** sy'n ymwneud â'r heddlu, er y gallai hyn fod yn ganlyniad.
4. Peidiwch â chynnwys ymholiadau **na chafodd eu cofnodi yn AD/026.**
5. Peidiwch â chynnwys ymholiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AD/028**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr:

a. Ymholiadau Adran 126 yn y flwyddyn gasglu lle penderfynwyd bod angen camau ychwanegol gan arwain at gynllun diogelu gofal a chymorth **agored**.
b. cynlluniau gofal a chymorth **agored** i oedolion ar 31 Mawrth lle mae'r awdurdod lleol yn credu ei bod yn angenrheidiol i ddiogelu oedolyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod.

**Bwriad y Mesur**

Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu prosesau diogelu yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro gweithgarwch diogelu ar gyfer oedolion yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 7, Cyfrol 6 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg), para. 64 yn datgan:

*"Mae Adran 54 o Ddeddf 2014 yn amodi bod yn rhaid i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth ar gyfer person y mae'n ofynnol iddo ddiwallu ei anghenion. Mae hyn yn cynnwys anghenion y mae'r awdurdod lleol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol eu diwallu i amddiffyn oedolyn rhag cael neu rhag y risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Mae'r Cod Ymarfer ar Ran 4 o Ddeddf 2014 yn nodi'r broses y dylai'r awdurdod lleol ei defnyddio i ddarparu cynlluniau gofal a chymorth a'u hadolygu'n gyson ar gyfer pobl a chanddynt anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra, ac ar gyfer pobl lle ymddengys i'r awdurdod lleol ei bod yn*

*angenrheidiol diwallu anghenion y person er mwyn amddiffyn y person rhag cael neu rhag y risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.*

*Bydd y Cynllun Gofal a Chymorth o dan Ran 4 yn cael ei ddefnyddio ar gyfer oedolyn sy'n wynebu risg. Gellir cyfeirio at hyn hefyd fel Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth."*

Ar gyfer rhan a), cyfrwch yr **ymholiadau hynny a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn** pan oedd y canlyniad yn gynllun gofal a chymorth gweithredol lle mae'r awdurdod lleol o'r farn ei bod yn angenrheidiol amddiffyn oedolyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Ar gyfer rhan b), cyfrwch nifer y **cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth gweithredol ar 31 Mawrth** lle mae'r awdurdod lleol o'r farn bod angen amddiffyn oedolyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu rhag y risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Ar gyfer rhan a), dylech gynnwys yr **holl ymholiadau** a wnaed am oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn gasglu lle penderfynwyd bod angen cymryd camau pellach, a arweiniodd at gynlluniau amddiffyn gofal a chymorth **gweithredol** i oedolion. **Data sylfaen = AD/026**
2. Ar gyfer rhan b), dylech gynnwys **yr holl** gynlluniau amddiffyn gofal a chymorth **gweithredol** ar 31 Mawrth lle mae'r awdurdod lleol o'r farn bod angen amddiffyn oedolyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu rhag y risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Nid oes angen i'r ymholiad a arweiniodd at y cynlluniau amddiffyn hyn fod wedi digwydd yn y flwyddyn gasglu.
3. Rhaid i gynllun gael ei **gymeradwyo gan reolwr** neu berson arall ar ei ran i'w ystyried yn weithredol.
4. Gall cynllun gynnwys camau i amddiffyn yr unigolyn rhag categorïau lluosog o gam-drin. **Cyfrwch y cynllun unwaith yn unig.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cynlluniau lle **nad oedd yr awdurdod lleol o'r farn** bod angen amddiffyn yr oedolyn rhag cael ei gam-drin a/neu ei esgeuluso neu rhag y risg o gael ei gam-drin a/neu ei esgeuluso.
2. Ar gyfer rhan b), peidiwch â chynnwys cynlluniau a **gaewyd** cyn 31 Mawrth y flwyddyn gasglu **(ddim yn weithredol)**.
3. Peidiwch â chyfrif cynlluniau a **wrthodwyd.**
4. Peidiwch â chynnwys cynlluniau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AS/006**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr ymchwiliadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd yr ymchwiliad yn un:

a. Troseddol
b. Anhroseddol

**Bwriad y Mesur**

Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu prosesau diogelu yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro gweithgarwch diogelu ar gyfer oedolion yng Nghymru.

**Diffiniad**

Os yw adroddiad neu ymholiad am oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl yn awgrymu y gallai trosedd fod wedi'i gyflawni, rhaid i'r heddlu gyfranogi cyn gynted ag y bo modd. Mae ymchwiliad troseddol yn un sy'n cynnwys yr heddlu ac fel arfer yr heddlu sy'n gyfrifol am ddechrau gweithredu. Cynhelir ymchwiliad gan swyddogion yr heddlu gyda'r bwriad o ganfod a ddylid cyhuddo person o drosedd, neu a yw person sydd wedi'i gyhuddo o drosedd yn euog ohono. Byddai ymchwiliad gan yr heddlu yn cymryd blaenoriaeth dros unrhyw ymchwiliad arall.

Os yw adroddiad neu ymholiad am oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl yn awgrymu y gallai tramgwydd anhroseddol fod wedi'i gyflawni, dylai ymchwiliad anhroseddol ddechrau.

Os daw mater troseddol i'r amlwg yn ystod ymchwiliad nad yw'n droseddol, dylai'r ymchwiliad ddod i ben ar unwaith.

Cyfrif pob ymchwiliad **troseddol** a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn.
Cyfrif pob ymchwiliad **nad yw'n droseddol** a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **pob** ymchwiliad a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn, **ni waeth** pryd y dechreuodd yr ymchwiliad.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys ymchwiliadau a ddaeth i ben **y tu allan i'r flwyddyn gasglu**.

**Cyfeirnod Mesur: AS/007**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr:

a. ymholiadau adran 126 am oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn
b. cyfarfodydd strategaeth a thrafodaethau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn
c. cyfarfodydd cynadleddau achos a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn

**Bwriad y Mesur**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **Cod Ymarfer Rhan 7** (Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl), Cyfrol 6 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg) yn disgrifio'r broses o dan adran 131 ar y ddyletswydd i roi gwybod am oedolion sy'n wynebu risg.

Bydd gwybodaeth am y metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fesur cyfanswm nifer yr achosion o niwed sylweddol a amheuir y mae'r sefydliad yn ymdrin â hwy yn ystod y flwyddyn, ar y cyd â'r metrigau isod, i ganfod cyfradd athrofa unigolion sy'n symud drwy'r broses amddiffyn oedolion.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro gweithgarwch diogelu ar gyfer oedolion yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae **Adran 128** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn nodi'r ddyletswydd a osodir ar 'bartneriaid perthnasol' i roi gwybod am oedolion a phlant, gan gynnwys plant heb eu geni, y mae ganddynt sail resymol dros amau eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin.

Gall yr awdurdod lleol hefyd dderbyn adroddiadau gan unigolion, gan gynnwys pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a sefydliadau fel y rhai o'r trydydd sector.

Dylid trefnu cynhadledd amddiffyn oedolion os yw canlyniad yr ymholiadau Adran 126 a'r cyfarfod/trafodaeth strategaeth fel a ganlyn:

- mae'r oedolyn yn parhau i wynebu risg ac mae angen camau gweithredu tymor hwy i'w amddiffyn rhag cam-drin ac esgeulustod a/neu
- mae'r broses ymchwilio i'r achos wedi dod i ben.

Cyfrwch nifer yr ymholiadau adran 126, cyfarfodydd a thrafodaethau strategaeth a chyfarfodydd cynadleddau achos ar gyfer oedolion yr amheuid eu bod yn wynebu risg o gam-drin neu esgeulustod, ar gyfer yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **yr holl**:
    a. Ymholiadau adran 126 a wnaed yn ystod y flwyddyn gasglu
    b. cyfarfodydd strategaeth a thrafodaethau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn
    c. cyfarfodydd cynadleddau achos a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn
2. Gall oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg gael **mwy nag un** adroddiad yn ystod y flwyddyn. Cyfrwch **bob enghraifft** lle gwnaed ymholiadau adran 126 (a.), lle cynhaliwyd cyfarfodydd a thrafodaethau strategaeth (b.) a lle cynhaliwyd cyfarfodydd cynadleddau achos (c.).

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Gall y penderfyniad i wneud ymholiadau Adran 126 fod **y tu allan i'r flwyddyn gasglu**. Peidiwch â chynnwys y rhain
2. Peidiwch â chynnwys ymholiadau a wnaed ar adroddiadau a **dderbyniwyd y tu allan i'r flwyddyn gasglu** (AD/020).
3. **Nid yw ymholiadau'n cynnwys ymchwiliadau ffurfiol** sy'n ymwneud â'r heddlu, er y gallai hyn fod yn ganlyniad.
4. Peidiwch â chynnwys adroddiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

## Mathau o Ofal a Chymorth

**Cyfeirnod Mesur: AD/029**

**Enw'r Mesur:**

Nifer yr oedolion sydd â chynllun gofal a chymorth a oedd yn ystod y flwyddyn:
  a. wedi talu'r uchafswm tâl wythnosol tuag at gost gofal dibreswyl
  b. wedi talu ffi cyfradd safonol tuag at wasanaethau gofal a chymorth
  c. canfuwyd eu bod dros y terfyn cyfalaf ar gyfer gofal preswyl

**Bwriad y Mesur**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer **Rhan 5** (Codi ffioedd ac asesiadau ariannol), para. 3.4 yn datgan:

"*Bwriedir i'r fframwaith codi ffioedd ac asesiadau ariannol a gyflwynir gan y Ddeddf, y rheoliadau a'r cod hwn sicrhau bod ffioedd, pan gânt eu codi, yn gyson, yn deg ac yn cael eu deall yn glir. Yr egwyddor gyffredinol yw mai dim ond yr hyn y gallant ei fforddio y mae'n rhaid gofyn i bobl y gofynnir iddynt dalu ffi ei dalu."*

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer **Rhan 5** (Codi ffioedd ac asesiadau ariannol), paragraff 6.1 yn nodi:

*“Gall awdurdodau lleol godi ffi unffurf am ofal a chymorth lefel isel, cost isel neu bennu cyfraniad neu ad-daliad unffurf ar gyfer taliadau uniongyrchol am ofal a chymorth o'r fath. Byddai ffioedd unffurf yn cael eu codi fel arfer am ofal a chymorth a ddarperir yn gyfnewid am fyw arferol, megis prydau bwyd neu olchi dillad. Er y gall fod yn ofal a chymorth a ddarperir yn rheolaidd, mewn rhai achosion efallai mai hyn yw'r unig ofal a chymorth y mae person yn ei dderbyn. Gall awdurdodau lleol hefyd godi ffioedd unffurf o dan adran 69 (Codi ffi am wasanaethau ataliol a chynhorthwy) o'r Ddeddf am wasanaethau ataliol neu gynhorthwy y mae'n eu darparu neu'n eu trefnu. Rhaid i ffioedd unffurf a godir* ***beidio â bod*** *yn fwy na'r gost yr eir iddi wrth drefnu neu ddarparu'r gofal a chymorth, gwasanaethau ataliol neu gynhorthwy y maent yn ymwneud â hwy.*

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer **Rhan 5** (Codi ffioedd ac Asesiadau Ariannol), paragraffau 5.9-5.10 yn nodi:

“*Mae’r terfyn ariannol, a elwir yn “gyfyngiad cyfalaf”, yn bodoli at ddibenion yr asesiad ariannol ac mae’n nodi ar ba bwynt y mae gan berson hawl i gael cymorth ariannol awdurdod lleol i ddiwallu ei anghenion cymwys. Mae manylion llawn amdano wedi’u nodi yn Atodiad A ar drin cyfalaf, a rhaid i awdurdod lleol ddilyn yr Atodiad hwnnw wrth gynnal asesiad ariannol a chymhwyso’r terfyn cyfalaf.”*

*“Mae lefel y terfyn cyfalaf wedi’i nodi yn y Rheoliadau Codi Ffioedd a gall y lefel hon newid o bryd i’w gilydd. Gall y rheini sydd ag asedau cyfalaf ar neu islaw’r terfyn hwn ofyn am gymorth ariannol ar sail prawf modd gan eu hawdurdod lleol. Mae hyn yn golygu y bydd yr awdurdod lleol yn cynnal asesiad ariannol o fodd y person a gall godi tâl am y gofal a’r cymorth y mae’n ei dderbyn neu y bydd yn ei dderbyn ar sail yr hyn y gall y person fforddio ei dalu tuag at gost darparu neu drefnu hyn. Wrth gynnal yr asesiad ariannol rhaid diystyru cyfalaf ar neu islaw’r terfyn cyfalaf yn yr asesiad o’r hyn y gall person fforddio ei dalu. Os yw cyfalaf person ar neu’n is na’r terfyn cyfalaf, ni ddylai fod yn ofynnol iddo gyfrannu at gost ei ofal a’i gymorth o’i gyfalaf.”*

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data hwn i gael cipolwg ar bolisi codi ffioedd ledled Cymru.

### Diffiniad

Pan fo awdurdod lleol yn dewis codi ffi am ofal dibreswyl, rheoliadau sy'n pennu'r uchafswm y gall awdurdod lleol ei godi ar berson. Wrth benderfynu ar ffi, neu gyfraniad neu ad-daliad mewn cysylltiad â thaliadau uniongyrchol, rhaid i awdurdodau lleol beidio â chodi ffi ar berson sy'n cael gofal a chymorth dibreswyl yn fwy na'r ffi wythnosol uchaf am yr holl ofal dibreswyl a gânt. Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Codi Tâl) (Cymru) 2015 yn cynnwys y gofyniad hwn ac maent yn pennu lefel y ffi uchaf.

Nid yw awdurdodau lleol yn rhydd i godi mwy ar dderbynnydd gofal dibreswyl na’r ffi uchaf hon mewn wythnos waeth beth fo maint a chost y pecyn gofal dibreswyl sydd ganddo. Mae hyn yr un mor berthnasol pan fo person yn cael gwasanaethau deuol; hy gofal a chymorth a ddarperir neu a drefnir gan ei awdurdod lleol a gofal a chymorth a ddarperir drwy daliadau uniongyrchol. Rhaid i gyfanswm unrhyw ffi a

godir am y gwasanaethau cyfunol hyn **beidio â** bod yn fwy na'r uchafswm ffi wythnosol.

**Ar gyfer rhan a),** cyfrwch nifer yr oedolion a dalodd:

- y ffi wythnosol uchaf, neu,
- cyfraniad neu ad-daliad mewn cysylltiad â thaliadau uniongyrchol, ar lefel y ffi wythnosol uchaf,

tuag at gost gofal dibreswyl, o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn.

Mae adran 69 o'r Ddeddf yn caniatáu i awdurdodau lleol godi cyfradd unffurf isel ar gyfer darparu neu drefnu gwasanaethau ataliol neu gynhorthwy. Byddai ffioedd cyfradd unffurf fel arfer ar gyfer gofal a chymorth sy'n dasgau y byddai'n rhaid i rywun eu gwneud fel arfer fel rhan o fywyd bob dydd, megis paratoi prydau bwyd neu olchi dillad. Mewn rhai achosion efallai mai dyma'r unig ofal a chymorth y mae person yn ei gael ac efallai nad oes ganddo gynllun gofal a chymorth.

**Ar gyfer rhan b),** cyfrwch nifer yr oedolion a dalodd ffi cyfradd unffurf am ofal a chymorth o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn. Ar gyfer awdurdodau lleol nad ydynt yn defnyddio ffioedd cyfradd safonol, dylid darparu gwerth o “0”. Dylid cynnwys sylw yn nodi nad yw ffioedd cyfradd sefydlog yn cael eu defnyddio wrth gwblhau.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 5 (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol), paragraff 3.4 yn nodi:

*“Bwriedir i'r fframwaith codi ffioedd ac asesiadau ariannol a gyflwynir gan y Ddeddf, y rheoliadau a'r cod hwn sicrhau bod ffioedd, pan gânt eu codi, yn gyson, yn deg ac yn cael eu deall yn glir. Yr egwyddor gyffredinol yw mai dim ond yr hyn y gallant ei fforddio y mae'n **rhaid** gofyn i bobl y gofynnir iddynt dalu ffi ei dalu.”*

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 5 (Codi ffioedd ac Asesiadau Ariannol), paragraff 5.11 yn nodi:

“*Caiff person sydd â mwy o gyfalaf na’r terfyn cyfalaf ofyn i’w awdurdod lleol drefnu ei ofal a’i gymorth ar ei gyfer os yw’n dewis o dan adran 35(4)(b)(ii) (Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn) o’r Ddeddf. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i bobl yn y sefyllfa hon dalu cost lawn eu gofal a’u cymorth mewn gofal preswyl, neu’r gost lawn hyd at yr uchafswm ffi wythnosol mewn perthynas â gofal a chymorth dibreswyl, hyd nes y bydd gwerth eu cyfalaf ar neu’n is na lefel y terfyn cyfalaf. Dylid nodi y gall terfyn cyfalaf gwahanol fod yn berthnasol mewn perthynas â gofal a chymorth preswyl, a gofal a chymorth amhreswyl.”*

Ar gyfer rhan c), cyfrwch nifer yr oedolion yr aseswyd eu bod dros y terfyn cyfalaf ar gyfer gwasanaethau preswyl ar unrhyw adeg yn y flwyddyn gasglu. Dim ond i’r oedolion hynny sydd wedi dod drwy broses asesu’r awdurdod lleol ac sy’n gorfod talu am eu gofal eu hunain y mae’r eitem hon yn berthnasol. **Nid yw’r metrig hwn yn cynnwys yr oedolion hynny a gysylltodd yn uniongyrchol â darparwyr gofal preswyl, heb gael asesiad yn gyntaf.**

Efallai y bydd gan rai oedolion gynllun Gofal a Thriniaeth (fel y nodir yn [Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011]) ond eu bod yn cael gofal a chymorth gwasanaethau cymdeithasol. Golyga hyn os yw **gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i'r oedolyn, neu os yw ei gydlynydd gofal yn dod o'r adran gwasanaethau cymdeithasol**. Fel arall, gall hyn fod yn berthnasol os **yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn talu, neu wedi talu, am ei ofal a chymorth**, a all fod trwy gomisiynu gwasanaeth. Os yw hyn yn wir, dylid eu cynnwys yn y mesur hwn. Fodd bynnag, dylid gwneud hyn dim ond os oes gan adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol fynediad at y data sy'n angenrheidiol i'w gwblhau, h.y. **os yw'r data eisoes yn cael ei gadw gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na'r bwrdd iechyd**.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Rhan a), cyfrwch bob oedolyn **sydd â chynllun gofal a chymorth** sy'n talu'r **uchafswm ffi wythnosol** tuag at eu gofal a chymorth **amhreswyl yn ystod y flwyddyn gasglu.**
2. Ar gyfer rhan b),
    a. cyfrwch yr **holl** oedolion sy'n talu ffi **cyfradd safonol** tuag at eu gofal a'u cymorth **o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn gasglu.**
    b. Os talodd yr oedolyn ffi cyfradd safonol **am fwy nag un gwasanaeth** (ee paratoi prydau bwyd a golchi dillad) **dylech gyfrif yr oedolyn fwy nag unwaith.**
    c. Os talodd yr oedolyn ffi cyfradd safonol am fwy nag un o'r **un gwasanaeth** (ee paratoi prydau bwyd ddwywaith yr wythnos) **dim ond unwaith y dylech gyfrif yr oedolyn.**
3. Ar gyfer rhan c), cyfrwch **yr holl** oedolion yr aseswyd eu bod dros y terfyn cyfalaf ar gyfer gwasanaethau preswyl **yn ystod y flwyddyn gasglu**.
4. Dylech gynnwys cyfraniadau oedolion neu ad-daliad mewn cysylltiad â **thaliadau uniongyrchol.**
5. Dylech gynnwys oedolion yn yr **ystad ddiogel** sydd â chynllun gofal a chymorth.
6. Os talodd yr oedolyn y ffi wythnosol uchaf, neu gyfraniad neu ad-daliad mewn cysylltiad â thaliadau uniongyrchol, tuag at gost gofal a chymorth dibreswyl, mewn mwy nag un achos **dim ond unwaith y dylech gyfrif yr oedolyn.**
7. Dim ond gofal a chymorth a **ddarparwyd ac y codir ffi amdanynt yn y flwyddyn gasglu** y dylech eu cynnwys.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chyfrif gofalwyr sy'n cael cymorth. Mae'r mesur hwn yn berthnasol i **oedolion sydd â chynllun gofal a chymorth yn unig.**
2. Ar gyfer rhan a), peidiwch â chyfrif **gwasanaethau preswyl.**
3. Peidiwch â chyfrif oedolyn **fwy nag unwaith**, ni waeth faint o wasanaethau amhreswyl y gallant fod yn eu derbyn.

Ar gyfer rhan b), peidiwch â chynnwys gwasanaethau a godir y tu allan i'r ddarpariaeth yn **Adran 15 (gwasanaethau)** neu **Adran 17 (cynhorthwy)** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

4. Dylech gynnwys **dim ond** oedolion sydd wedi bod **drwy broses asesu'r awdurdod lleol.** Peidiwch â chynnwys unrhyw un a gysylltodd yn uniongyrchol â darparwyr gofal preswyl, heb gael asesiad yn gyntaf.
5. Peidiwch â chynnwys data sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AD/030**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr oedolion ar 31 Mawrth sydd â chynllun gofal a chymorth yn ôl:

1) Mathau o ofal a chymorth:
   a) Gofal cartref
   b) Gofal dydd
   c) Gofal seibiant / Seibiant byr / Gofal amgen
   d) Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cynlluniau Cysylltu Bywydau)
   e) Llety â chymorth / byw â chymorth
   f) Taliadau uniongyrchol
   g) Cartrefi gofal i oedolion (heb ofal nyrsio)
   h) Cartrefi gofal i oedolion gyda gofal nyrsio

2) Ac Oedran:
   a) 18-24
   b) 25-34
   c) 35-44
   d) 45-54
   e) 55-64
   f) 65-74
   g) 75-84
   h) 85 oed a hŷn

**Bwriad y Mesur**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 4** (Diwallu Anghenion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, para. 12 yn datgan:

"*[Mae'n] ofyniad bod gan unigolyn ag anghenion gofal a chymorth hawl i dderbyn gofal a chymorth a ddarperir neu a drefnir gan yr awdurdod lleol trwy gynllun gofal a chymorth os na all ddiwallu'r anghenion hynny ei hun (neu, yn achos plentyn, gyda chymorth rhieni neu bobl eraill sy'n gofalu am y plentyn) neu gyda chymorth eraill neu gymorth gwasanaethau yn y gymuned."*

Bydd gwybodaeth am y math o ofal a chymorth sy'n cael ei ddarparu yn caniatáu i awdurdodau lleol gael gwell dealltwriaeth o alw a chapasiti gwasanaethau penodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data hwn i benderfynu sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i anghenion gofal a chymorth penodol yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 4** (Swyddogaethau Cyffredinol) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, paragraff 81, yn nodi:

"*Gallai cynllun gofal a chymorth ymwneud ag un gwasanaeth sy'n diwallu un neu fwy o anghenion gofal a chymorth neu fod yn fwy cymhleth ac yn cynnwys mapio nifer o wahanol wasanaethau sy'n diwallu un neu fwy o anghenion. Gallai cynllun gofal a chymorth gynnwys camau gweithredu sy'n cael eu hunan-reoli ochr yn ochr â'r rheini sy'n cael eu rheoli gan yr awdurdod lleol."*

**Gofal cartref -** Gwasanaethau ymarferol sy'n cynorthwyo'r unigolyn i fyw mor annibynnol â phosibl a/neu i barhau i fyw yn eu cartref. Peidiwch â chynnwys gwasanaethau ailalluogi sy'n digwydd yng nghartref y person ei hun; dylid cofnodi'r rhain fel ailalluogi.

**Gofal dydd –** Presenoldeb mewn canolfan ddydd neu yn y gymuned i gael gofal a/neu brydau bwyd am resymau cymdeithasol neu lesiant. Gellir cyfeirio at hyn fel "cyfleoedd dydd", "gwasanaeth dydd" neu bresenoldeb mewn "safle dydd". Pwrpas gofal dydd yw darparu cyfleoedd o fewn y gymuned i'r unigolyn sy'n cael gofal a chymorth.

**Gofal seibiant –** Gofal a ddarperir gan yr awdurdod lleol i ddarparu seibiant i'r gofalwr/gofalwyr a'r unigolyn sy'n cael gofal, lle bydd yr unigolyn sy'n cael gofal a chymorth yn cael llety y tu allan i'w gartref neu ei breswylfa arferol, e.e., mewn lleoliad gofal preswyl. Dylai cyfnod y gofal fod yn un noson o leiaf, ond ni ddylai bara mwy na 3 mis. **Peidiwch â chynnwys llety cartref gofal dros dro ar gyfer yr unigolion hynny sy'n aros am becyn gofal hirdymor**.

**Seibiant byr / Gofal amgen** Gofal a ddarperir gan yr awdurdod lleol i roi seibiant i'r gofalwr/gofalwyr ac i'r unigolyn sy'n cael gofal, lle bydd gofalwr a delir yn rhoi cymorth yng nghartref yr unigolyn neu yn ei breswylfa arferol.

**Cynllun Lleoli Oedolion (Cynllun Cysylltu Bywydau) –** Cynllun yw hwn lle mae oedolyn yn byw gyda gofalwr mewn trefniant hirdymor. Gellir rhoi llety a chefnogaeth i un, dau neu, mewn amgylchiadau eithriadol, dri oedolyn a leolir gyda chytundeb Cynllun Lleoli Oedolion.

**Llety â chymorth/byw â chymorth –** Gofal i bobl yn eu cartref/preswylfa eu hunain y mae ganddynt gytundeb tenantiaeth ar ei gyfer.

**Taliadau uniongyrchol –** Taliadau ariannol a wneir gan awdurdodau lleol yn uniongyrchol i oedolion at ddiben prynu gwasanaethau gofal a chymorth.

**Cartrefi gofal i oedolion (heb ofal nyrsio) –** yn cynnwys:

Cartrefi gofal preswyl awdurdodau lleol – Sefydliadau sy’n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol sy’n darparu llety ynghyd â gofal personol fel y’i diffinnir yn Neddf Gofal 2000. Peidiwch â chynnwys pobl sy'n cael gofal seibiant ar ffurf cyfres o seibiannau byrdymor wedi'u cynllunio.

Cartrefi gofal y sector annibynnol dan gontract - Sefydliadau preifat sy'n darparu llety ynghyd â gofal personol.

**Cartrefi gofal i oedolion gyda nyrsio** – cartrefi gofal y sector annibynnol dan gontract, sy’n darparu llety ynghyd â gofal personol a nyrsio. Peidiwch â chynnwys pobl sy'n cael gofal seibiant ar ffurf cyfres o seibiannau byrdymor wedi'u cynllunio.

Cyfrwch yr holl wasanaethau yng nghategorïau a-j ar gyfer oedolion a oedd yn cael y gwasanaethau hynny ar 31 Mawrth, p'un a oedd y dyddiad dechrau a drefnwyd mewn blwyddyn flaenorol ai peidio.

Efallai y bydd gan rai oedolion gynllun Gofal a Thriniaeth (fel y nodir yn Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011) ond eu bod yn cael gofal a chymorth gwasanaethau cymdeithasol. Golyga hyn os yw **gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i'r oedolyn, neu os yw ei gydlynydd gofal yn dod o'r adran gwasanaethau cymdeithasol**. Fel arall, gall hyn fod yn berthnasol os **yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn talu, neu wedi talu, am ei ofal a chymorth**, a all fod trwy gomisiynu gwasanaeth. Os yw hyn yn wir, dylid eu cynnwys yn y mesur hwn. Fodd bynnag, dylid gwneud hyn dim ond os oes gan adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol fynediad at y data sy'n angenrheidiol i'w gwblhau, h.y. **os yw'r data eisoes yn cael ei gadw gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na'r bwrdd iechyd**.

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl wasanaethau yn is-gategorïau a-j** ar gyfer oedolion a oedd yn derbyn y gwasanaethau ar **31 Mawrth**.
2. Mae’n bosibl y bydd person wedi cael **mwy nag un** gwasanaeth ar 31 Mawrth. **Dylech gynnwys pob un o'r rhain.**

**Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys gwasanaeth pontio oni bai ei fod yn darparu **gwasanaeth tebyg am debyg.**
2. Peidiwch â chyfrif gofalwyr sy’n cael cymorth. Mae’r mesur hwn yn berthnasol i **oedolion sydd â chynllun gofal a chymorth yn unig.**
3. Peidiwch â chynnwys data sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: AD/031**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr oedolion â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth y codwyd tâl arnynt am ofal a chymorth gan:

Mathau o ofal a chymorth:

a) Gofal cartref
b) Gofal dydd
c) Gofal seibiant / Seibiant byr / Gofal amgen
d) **Cynllun Lleoli Oedolion (Cynllun Cysylltu Bywydau)**
e) Llety â chymorth / byw â chymorth
f) Taliadau uniongyrchol
g) Cartrefi gofal i oedolion (heb ofal nyrsio)
h) Cartrefi gofal i oedolion gyda gofal nyrsio

2) Ac Oedran:
a) 18-24
b) 25-34
c) 35-44
d) 45-54
e) 55-64
f) 65-74
g) 75-84
h) 85 oed a hŷn

**Bwriad y Mesur**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 5 (Codi ffioedd ac Asesiadau Ariannol), paragraff 3.4 yn nodi: "*Bwriedir i'r fframwaith codi ffioedd ac asesiadau ariannol a gyflwynir gan y Ddeddf, y rheoliadau a'r cod hwn sicrhau bod ffioedd, pan gânt eu codi, yn gyson, yn deg ac yn cael eu deall yn glir. Yr egwyddor gyffredinol yw mai dim ond yr hyn y gallant ei fforddio y mae'n rhaid gofyn i bobl y gofynnir iddynt dalu ffi ei dalu.*"

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data hwn i gael cipolwg ar bolisi codi ffioedd ledled Cymru.

**Diffiniad**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 5 (Codi ffioedd ac Asesiadau Ariannol), paragraff 3.3 yn nodi:

"*Pan fydd awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chymorth i ddiwallu anghenion person, neu gymorth i ddiwallu anghenion gofalwr, o dan adrannau 35 i 45 o'r Ddeddf (Diwallu anghenion) mae ganddo ddisgresiwn i godi ffi am hyn, oni fydd yn ofynnol peidio â chodi ffi ar berson penodol neu beidio â chodi ffi am fath penodol o ofal a chymorth.*"

Cyfrwch **nifer yr oedolion** a dalodd ffi, neu gyfraniad neu ad-daliad mewn cysylltiad â thaliadau uniongyrchol, tuag at gost gofal a chymorth, o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn.

Efallai y bydd gan rai oedolion gynllun Gofal a Thriniaeth (fel y nodir yn [Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011]) ond eu bod yn cael gofal a chymorth gwasanaethau cymdeithasol. Golyga hyn os yw **gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i'r oedolyn, neu os yw ei gydlynydd gofal yn dod o'r adran gwasanaethau cymdeithasol**. Fel arall, gall hyn fod yn berthnasol os **yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn talu, neu wedi talu, am ei ofal a chymorth**, a all fod trwy gomisiynu gwasanaeth. Os yw hyn yn wir, dylid eu cynnwys yn y mesur hwn. Fodd bynnag, dylid gwneud hyn dim ond os oes gan adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol fynediad at y data sy'n angenrheidiol i'w gwblhau, h.y. **os yw'r data eisoes yn cael ei gadw gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na'r bwrdd iechyd**.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr **holl** oedolion sy'n talu tuag at eu gofal a'u cymorth ar **31 Mawrth. Data sylfaen = AD/030.**
2. Dylech gynnwys cyfraniadau oedolion neu ad-daliad mewn cysylltiad â **thaliadau uniongyrchol.**
3. Dylech gynnwys oedolion yn yr **ystad ddiogel** sydd â chynllun gofal a chymorth.
4. Os talodd yr oedolyn gyfraniad am **fwy nag un gwasanaeth** (ee gofal dydd a gofal cartref) dylech **gyfrif yr oedolyn fwy nag unwaith.** Os talodd yr oedolyn am fwy nag un sesiwn o'r **un gwasanaeth** (ee gofal cartref ddwywaith yr wythnos) dim ond **unwaith y dylech gyfrif yr oedolyn.**
5. Dim ond gofal a chymorth a **ddarparwyd ac y codir ffi amdanynt yn y flwyddyn gasglu** y dylech eu cynnwys.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chyfrif gofalwyr sy'n cael cymorth. Mae'r mesur hwn yn berthnasol i **oedolion sydd â chynllun gofal a chymorth yn unig.**
2. Peidiwch â chynnwys data sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

## Eiriolaeth ar gyfer Oedolion

### Cyfeirnod Mesur: AD/032

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr oedolion yn ystod y flwyddyn lle nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol.

**Bwriad y Mesur**

Mae eiriolaeth yn cefnogi ac yn galluogi pobl sy'n cael anhawster wrth nodi eu buddiannau, arfer eu hawliau, mynegi eu barn, archwilio a gwneud dewisiadau gwybodus. Mae Eiriolaeth Annibynnol yn cefnogi'r unigolyn beth bynnag fo gofynion a phryderon pobl eraill. Mae'n herio achosion ac effeithiau anghyfiawnder, gormes a cham-drin ac yn cynnal hawliau dynol. Gellir darparu eiriolaeth ar unrhyw adeg wrth ddarparu prosesau asesu, cymorth, gofal a chymorth, adolygu neu ddiogelu.

Mae'r metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol bennu sawl gwaith y mae angen eiriolwr proffesiynol annibynnol yn ystod y flwyddyn a chynorthwyo gyda chynllunio a chomisiynu yn y dyfodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data hyn i fonitro'r galw am eiriolaeth broffesiynol annibynnol yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 10** (Eiriolaeth) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 31** yn nodi: *Mae sawl math o eiriolaeth ar gael, ac mae gan bob un amcan cyffredin o gynorthwyo unigolion i ddweud eu dweud, i gadarnhau eu hopsiynau ac i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau. Mae gan bob math o eiriolaeth ei fanteision ei hun a dylai awdurdodau lleol gydnabod a gwerthfawrogi pob math o eiriolaeth. Mae dulliau eirioli wedi'u cyfarwyddo a dulliau heb eu cyfarwyddo ar gael.*

Mae Cod Ymarfer **Rhan 10** (Eiriolaeth) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 32** yn nodi:

"*Mae gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill yn gwneud cyfraniad allweddol at eirioli ar ran unigolion wrth arfer eu gwaith proffesiynol bob dydd. Fodd bynnag, gall y broses o wneud penderfyniadau arwain at wrthdaro buddiannau ar adegau. Bydd angen i weithwyr proffesiynol fod yn effro i sefyllfaoedd lle maent yn credu bod gwrthrychedd neu annibyniaeth y broses o wneud penderfyniadau yn cael ei thanseilio, neu fod perygl i bobl feddwl hynny. O dan amgylchiadau o'r fath, mae'n rhaid ystyried rolau mathau eraill o eiriolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:*

***Hunaneirioli*** *– pan fydd unigolion yn cynrychioli ac yn siarad drostynt eu hunain.*

***Eiriolaeth anffurfiol*** *– pan fydd aelodau'r teulu, ffrindiau neu gymdogion yn cynorthwyo unigolyn i fynegi ei ddymuniadau a'i deimladau, sy'n gallu cynnwys siarad ar ei ran o bosibl.*

***Eiriolaeth gyfunol*** *– yn ymwneud â grymuso grwpiau o unigolion sydd â phrofiadau cyffredin i fynegi barn, dylanwadu ar newid a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol.*

***Eiriolaeth cymheiriaid*** *– unigolyn sy'n rhannu profiad neu gefndir cyffredin yn eirioli ar ran unigolyn arall.*

***Eiriolaeth dinesydd*** *– partneriaeth un i un hirdymor rhwng unigolyn ac eiriolwr dinesydd sydd wedi'i hyfforddi neu sy'n derbyn cymorth.*

***Eiriolwr gwirfoddol annibynnol*** *– eiriolwr annibynnol a gwirfoddol sy'n gweithio am gyfnod byr neu ar bwnc penodol gydag un neu fwy o unigolion.*

***Eiriolaeth ffurfiol*** *– mae'n gallu cyfeirio at rôl eirioli staff ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a meysydd eraill, lle y bo'n ofynnol i weithwyr proffesiynol ystyried ac ymdrin â dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn rhinwedd eu swydd.*

***Eiriolaeth broffesiynol annibynnol*** *– partneriaeth un i un rhwng eiriolwr proffesiynol annibynnol sydd wedi'i hyfforddi i weithio fel eiriolwr proffesiynol am dâl. Gall y gwaith ymwneud ag un pwnc neu bynciau lluosog. Mae'n rhaid i eiriolwyr proffesiynol annibynnol sicrhau bod safbwyntiau unigolion yn cael eu cyfleu yn gywir, waeth beth yw safbwynt yr eiriolwr neu safbwynt eraill ynglŷn â'r hyn sydd o fudd pennaf i'r unigolion. Mae rhagor o wybodaeth am rôl yr eiriolwr annibynnol a rôl yr awdurdod lleol i'w gynorthwyo ar gael yn Atodiad 1.*

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **Cod Ymarfer Rhan 10** (Eiriolaeth) **para. 47** yn nodi: *Mae'n **rhaid i awdurdodau lleol drefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol** ar gyfer person nad yw'n gallu goresgyn y rhwystr(au) i gymryd rhan yn llawn yn y prosesau asesu, cynllunio gofal a chymorth, adolygu a diogelu heb gael cymorth gan unigolyn priodol, ond nad oes unigolyn priodol ar gael."*

Cyfrwch **bob** achos yn ystod y flwyddyn gasglu, lle barnwyd bod angen **eiriolwr proffesiynol annibynnol** yn unol â gofynion paragraff 47 o God Ymarfer rhan 10

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch **bob** achos yn ystod y flwyddyn gasglu, lle barnwyd bod angen **eiriolwr proffesiynol annibynnol** yn unol â gofynion **paragraff 47 o God Ymarfer rhan 10.**
2. Dylech gynnwys pob achos yn ystod y flwyddyn pan benderfynodd gweithiwr proffesiynol mai'r unig ffordd i berson oresgyn y rhwystr(au) rhag cymryd rhan yn llawn yn y prosesau asesu, cynllunio gofal a chymorth, adolygu a diogelu yw **gyda chymorth unigolyn priodol, ond nad oes unigolyn priodol ar gael.**
3. Cyfrwch y rhai yn 6.2 uchod, p'un a **ddarparwyd neu a dderbyniwyd** eiriolwr proffesiynol annibynnol ai peidio.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys achosion y **tu allan i'r flwyddyn gasglu.**
2. Peidiwch â chynnwys achosion yn ystod y flwyddyn lle penderfynodd gweithiwr proffesiynol mai'r unig ffordd i oedolyn oresgyn y rhwystr(au) rhag cymryd rhan yn llawn yn y prosesau asesu, cynllunio gofal a chymorth,

adolygu a diogelu yw gyda **chymorth unigolyn priodol nad yw'n eiriolwr proffesiynol annibynnol cyflogedig llawn.**

**Cyfeirnod Mesur: AD/033**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr oedolion yn ystod y flwyddyn lle nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol ac y darparwyd eiriolwr proffesiynol annibynnol.

**Bwriad y Mesur**

Mae eiriolaeth yn cefnogi ac yn galluogi pobl sy'n cael anhawster wrth nodi eu buddiannau, arfer eu hawliau, mynegi eu barn, archwilio a gwneud dewisiadau gwybodus. Mae Eiriolaeth Annibynnol yn cefnogi'r unigolyn beth bynnag fo gofynion a phryderon pobl eraill. Mae'n herio achosion ac effeithiau anghyfiawnder, gormes a cham-drin ac yn cynnal hawliau dynol. Gellir darparu eiriolaeth ar unrhyw adeg wrth ddarparu prosesau asesu, cymorth, gofal a chymorth, adolygu neu ddiogelu.

Mae'r metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol bennu sawl gwaith y mae angen eiriolwr proffesiynol annibynnol yn ystod y flwyddyn a chynorthwyo gyda chynllunio a chomisiynu yn y dyfodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data hyn i fonitro'r galw am eiriolaeth broffesiynol annibynnol yng Nghymru.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o AD/032.***

Mae Cod Ymarfer **Rhan 10** (Eiriolaeth) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 31** yn nodi: *Mae sawl math o eiriolaeth ar gael, ac mae gan bob un amcan cyffredin o gynorthwyo unigolion i ddweud eu dweud, i gadarnhau eu hopsiynau ac i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau. Mae gan bob math o eiriolaeth ei fanteision ei hun a dylai awdurdodau lleol gydnabod a gwerthfawrogi pob math o eiriolaeth. Mae dulliau eirioli wedi'u cyfarwyddo a dulliau heb eu cyfarwyddo ar gael.*

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **Cod Ymarfer Rhan 10** (Eiriolaeth) **para. 32** yn nodi:

"*Mae gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill yn gwneud cyfraniad allweddol at eirioli ar ran unigolion wrth arfer eu gwaith proffesiynol bob dydd. Fodd bynnag, gall y broses o wneud penderfyniadau arwain at wrthdaro buddiannau ar adegau. Bydd angen i weithwyr proffesiynol fod yn effro i sefyllfaoedd lle maent yn credu bod gwrthrychedd neu annibyniaeth y broses o wneud*

*penderfyniadau yn cael ei thanseilio, neu fod perygl i bobl feddwl hynny. O dan amgylchiadau o'r fath, mae'n rhaid ystyried rolau mathau eraill o eiriolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:*

***Hunaneirioli** – pan fydd unigolion yn cynrychioli ac yn siarad drostynt eu hunain.*

***Eiriolaeth anffurfiol** – pan fydd aelodau'r teulu, ffrindiau neu gymdogion yn cynorthwyo unigolyn i fynegi ei ddymuniadau a'i deimladau, sy'n gallu cynnwys siarad ar ei ran o bosibl.*

***Eiriolaeth gyfunol** – yn ymwneud â grymuso grwpiau o unigolion sydd â phrofiadau cyffredin i fynegi barn, dylanwadu ar newid a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol.*

***Eiriolaeth cymheiriaid** – unigolyn sy'n rhannu profiad neu gefndir cyffredin yn eirioli ar ran unigolyn arall.*

***Eiriolaeth dinesydd** – partneriaeth un i un hirdymor rhwng unigolyn ac eiriolwr dinesydd sydd wedi'i hyfforddi neu sy'n derbyn cymorth.*

***Eiriolwr gwirfoddol annibynnol** – eiriolwr annibynnol a gwirfoddol sy'n gweithio am gyfnod byr neu ar bwnc penodol gydag un neu fwy o unigolion.*

***Eiriolaeth ffurfiol** – mae'n gallu cyfeirio at rôl eirioli staff ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a meysydd eraill, lle y bo'n ofynnol i weithwyr proffesiynol ystyried ac ymdrin â dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn rhinwedd eu swydd.*

***Eiriolaeth broffesiynol annibynnol** – partneriaeth un i un rhwng eiriolwr proffesiynol annibynnol sydd wedi'i hyfforddi i weithio fel eiriolwr proffesiynol am dâl. Gall y gwaith ymwneud ag un pwnc neu bynciau lluosog. Mae'n rhaid i eiriolwyr proffesiynol annibynnol sicrhau bod safbwyntiau unigolion yn cael eu cyfleu yn gywir, waeth beth yw safbwynt yr eiriolwr neu safbwynt eraill ynglŷn â'r hyn sydd o fudd pennaf i'r unigolion. Mae rhagor o wybodaeth am rôl yr eiriolwr annibynnol a rôl yr awdurdod lleol i'w gynorthwyo ar gael yn Atodiad 1.*

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **Cod Ymarfer Rhan 10** (Eiriolaeth) **para. 47** yn nodi: *Mae'n **rhaid i awdurdodau lleol drefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol** ar gyfer person nad yw'n gallu goresgyn y rhwystr(au) i gymryd rhan yn llawn yn y prosesau asesu, cynllunio gofal a chymorth, adolygu a diogelu heb gael cymorth gan unigolyn priodol, ond nad oes unigolyn priodol ar gael."*

Cyfrwch **bob** achos yn ystod y flwyddyn gasglu, lle barnwyd bod angen **eiriolwr proffesiynol annibynnol** yn unol â gofynion paragraff 47 o God Ymarfer rhan 10 ac **darparwyd eiriolwr proffesiynol annibynnol**.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch **bob** achos yn ystod y flwyddyn gasglu, lle barnwyd bod angen **eiriolwr proffesiynol annibynnol** yn unol â gofynion **paragraff 47 o God**

**Ymarfer rhan 10** ac y **darparwyd eiriolwr proffesiynol annibynnol. Data sylfaen = AD/032**

2. Gall gwir ddyddiad dechrau eiriolaeth broffesiynol annibynnol fod **y tu allan i'r flwyddyn gasglu. Cyfrwch y rhain yn y metrig hwn.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys oedolion (yn AD/032) **na chawsant** eiriolwr proffesiynol annibynnol.
2. Peidiwch â chynnwys oedolion (yn AD/032) a **wrthododd** eiriolwr proffesiynol annibynnol.
3. Peidiwch â chynnwys achosion yn ystod y flwyddyn lle penderfynodd gweithiwr proffesiynol mai'r unig ffordd i oedolyn oresgyn y rhwystr(au) rhag cymryd rhan yn llawn yn y prosesau asesu, cynllunio gofal a chymorth, adolygu a diogelu oedd gyda **chymorth unigolyn priodol nad yw'n eiriolwr proffesiynol annibynnol cyflogedig llawn.**
4. Peidiwch â chynnwys oedolion **nad ydynt yn ymddangos yn AD/032.**
5. Peidiwch â chynnwys data a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

# Metrigau sy'n ymwneud â Phlant a Theuluoedd

## Cysylltiadau Plant

**Cyfeirnod Mesur: CH/001**

**Enw'r Mesur:** Nifer y cysylltiadau ar gyfer plant a gafodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn.

### Bwriad y Mesur

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i ganfod faint o wybodaeth, cyngor a chynhorthwy sydd ar gael fel y'u diffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a faint o alw sydd amdanynt. Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod awdurdodau lleol yn gweithredu eu swyddogaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy (IAA) mewn gwahanol ffyrdd, a bwriad y metrig ar hyn o bryd yw archwilio a yw'r gwahanol fodelau hyn o IAA yn cyflwyno data sy'n awgrymu gwahaniaethau yn y gwasanaeth y mae'r defnyddiwr terfynol yn ei gael.

Mae faint sydd ar gael, er nad oes ganddo gydberthynas uniongyrchol, yn arwydd o'r galw ar swyddogaeth y gwasanaethau cymdeithasol o fewn awdurdod lleol. Drwy archwilio faint o bobl sy'n ceisio gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy, mae modd i awdurdodau lleol gael mecanwaith syml i fonitro nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a chymharu hynny â metrigau ychwanegol i asesu sut yr ymdriniwyd â'r unigolion hyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro'r cysylltiadau â gwasanaethau IAA yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

### Diffiniad

Cyfrifwch gyfanswm y cysylltiadau a dderbyniwyd ar gyfer plant gan y gwasanaeth IAA yn eich awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn. Dim ond mewn cysylltiadau "newydd" â'r gwasanaeth y mae gennym ddiddordeb, nid y rhai sydd eisoes yn derbyn gofal a chymorth, neu gymorth.

Gall plentyn gael mwy nag un cyswllt yn ystod y flwyddyn gasglu. Cyfrwch y rhain i gyd.

Mae Cod Ymarfer Rhan 2 a Rhan 3, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn cyfeirio at unigolion yn 'cysylltu' â'r gwasanaeth. Weithiau mae paragraffau eraill o fewn y codau ymarfer yn defnyddio termau gwahanol fel 'atgyfeirio' neu 'geisio' neu 'gyrchu' gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. At ddibenion y metrig hwn, dylid ystyried bod y rhain yr un peth.

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **pob** cyswllt â'ch gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu **ar gyfer unrhyw blentyn nad oedd yn cael gofal a chymorth ar adeg y cyswllt.**
2. Mae cyswllt yn cynnwys unrhyw berson sy'n cysylltu â'r gwasanaeth (gan gynnwys y plentyn yn uniongyrchol), neu weithiwr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar ei ran.
3. Os yw'r cyswllt yn cyfeirio at **nifer o blant, dylai pob plentyn y cyfeirir ato gael ei gyfrif fel un sydd wedi cael cyswllt.**
4. Dylech gynnwys unrhyw gyswllt a gafwyd, p'un a oedd hynny wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy e-bost neu ffurflen gyswllt ar wefan.
5. Gall plentyn gael **mwy nag un cyswllt** yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrwch y rhain i gyd.
6. **Dylid cyfrif materion diogelu fel cyswllt** oni bai eu bod yn cael gofal a chymorth ar adeg y cyswllt.
7. Dylai gofalwr ifanc, sydd eisoes yn cael cymorth gan yr awdurdod lleol, sy'n cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer **IAA nad yw'n gysylltiedig â'i anghenion fel gofalwr**, gael ei gynnwys yn y cyfrif.
8. Nid yw pob awdurdod lleol yn gweithredu un pwynt mynediad. **Dylai'r cyfrif gynnwys pob cyswllt** sy'n bodloni'r meini prawf uchod, **waeth beth fo'r llwybr i mewn i'r system.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant a oedd yn **cael gofal a chymorth** ar adeg y cyswllt.
2. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau ar gyfer **gofalwr ifanc** sydd wedi gofyn am gymorth â'i anghenion gofalu ac nad oes angen ei asesu i benderfynu a yw'n gymwys i gael gofal a chymorth.
3. Peidiwch â chynnwys **ymweliadau â gwefan eich gwasanaeth IAA** fel cysylltiadau. Er bod darparu gwybodaeth ar wefan yn arfer da, nid dyna rydym yn awyddus i'w gyfrif.
4. Peidiwch â chynnwys **cysylltiadau sy'n atgyfeiriadau uniongyrchol i wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal**, os nad oes asesiad yn digwydd. Dywed Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 2 o’r Cod Ymarfer, para. 294 mai swyddogaeth y gwasanaeth IAA yw: *[darparu] gwybodaeth a chyngor sy’n ymwneud â gofal a chymorth, a chynhorthwy i gael mynediad at ofal a chymorth.* Dylid cynnwys cysylltiadau lle mae asesiad yn dod i'r casgliad mai gwasanaeth ymyrraeth gynnar ac atal yw'r ffordd fwyaf priodol o weithredu.
5. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **sy'n amlwg wedi'u cyfeirio at yr adran anghywir.**
6. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau sydd **wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad** (h.y. dyblygu, defnyddio'r math anghywir o atgyfeiriad ar y system).

7. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau a ddefnyddir i **gofnodi gwybodaeth** am gael gafael ar wybodaeth gan asiantaethau eraill (h.y. AGC, yr heddlu)

**Cyfeirnod Mesur: CH/002**

**Enw'r Mesur:** Nifer y cysylltiadau ar gyfer plant a dderbyniodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor a chynhorthwy.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan y gwasanaeth IAA lle darparwyd cyngor a/neu gynhorthwy yn unol â'r diffiniad a geir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Cod Ymarfer, para. 300 (t63).

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro sut mae gwasanaethau IAA yng Nghymru yn ymdrin â chysylltiadau, ac yn ei defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

Mae Cod Ymarfer Rhan 2, para. 300 (t64-65) yn diffinio Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy

Cyfrwch yr holl gysylltiadau yn CH/001 sy'n cyfateb i'r diffiniad ar gyfer darparu cyngor a/neu gynhorthwy. Os rhoddir cyngor neu gynhorthwy, bydd angen cynnal asesiad o anghenion person

Er mwyn rhoi cyngor a chynhorthwy, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid cofnodi Gwybodaeth Bersonol (data craidd) am yr unigolyn (lle bo'n hysbys).
- Rhaid bod y pum elfen asesu wedi'u hystyried.
- Rhaid bod "sgwrs beth sy'n bwysig" wedi'i chynnal.

Ni ddylid cynnwys cysylltiadau os **dim ond** gwybodaeth a ddarparwyd.

Mae darparu cyngor a chynhorthwy yn gofyn am gwblhau asesiad (Cod Ymarfer Rhan 3, para. 20). Mae angen i'r broses asesu **ddod i ben** cyn i ganlyniad yr asesiad fod yn hysbys. Mae hyn yn golygu, os yw'r asesiad yn fwy cynhwysfawr, mai casgliad y 'broses' asesu fydd yn pennu'r canlyniad, ni waeth sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu gwasanaeth IAA.

Mae'r ddogfen Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, **cyfrol 5** (Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg), **para. 74** yn nodi:

*“Bydd y broses asesu a nodir dan Ran 3 yn gymwys pan fo amheuaeth bod plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio. Dylai’r asesiad ddechrau o’r adeg pan atgyfeirir yr awdurdod lleol er mwyn adnabod yr holl anghenion am ofal a chymorth gan gynnwys y rhai i amddiffyn plentyn. Gall yr asesiad fod yn barhaus gydol y broses dan adran 47 Deddf Plant 1989 a rhaid ei gwblhau o fewn 42 diwrnod gwaith.”*

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Mae’r metrig hwn yn is-set o CH/001. Defnyddiwch ddata sy'n cydymffurfio â'r diffiniad o CH/001 fel y data sylfaen ar gyfer y metrig hwn.
2. Dylech gynnwys yr **holl** gysylltiadau ar gyfer plant os canlyniad y cyswllt oedd darparu cyngor a/neu gynhorthwy fel y'u diffinnir gan God Ymarfer Rhan 2, paragraff 300, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
3. Dylech gynnwys pob achos lle darparwyd cyngor neu gynhorthwy **waeth beth fo canlyniad yr asesiad.**
4. Dylid cynnwys **ymholiadau diogelu** plant

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau ar gyfer oedolion os canlyniad y cyswllt oedd **darparu gwybodaeth** fel y'i diffinnir gan God Ymarfer Rhan 2, paragraff 300, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
2. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau os nad ystyriwyd **y pum elfen asesu**, neu **os na chynhaliwyd sgwrs “beth sy'n bwysig”.**
3. Peidiwch â chynnwys unrhyw ddata **y tu allan** i'r hyn a gasglwyd ar gyfer AD/001.
4. Peidiwch â chynnwys **oedolion** (unigolion dros 18 mlwydd oed) yn y metrig hwn.
5. Peidiwch â chynnwys unigolion lle’r oedd y cyswllt ond wedi gofyn am gymorth gyda’u hanghenion fel gofalwr ac nid oedd wedi ystyried asesu eu cymhwysedd i dderbyn gofal a chymorth.

**Cyfeirnod Mesur: CH/003**

**Enw’r Mesur:** Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol i blant yn ystod y flwyddyn lle gwnaed penderfyniad erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf

**Bwriad y Mesur**

Mae’r metrig wedi’i lunio i gasglu gwybodaeth am amseroldeb gwneud penderfyniadau ar gysylltiadau â’r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy (IAA) ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol), para. 313 yn nodi*: “**Rhaid** i’r gwasanaeth [IAA] ddarparu mynediad at wybodaeth, cyngor a chynhorthwy perthnasol, cywir ac **amserol** o safon uchel.”*

Yr amserlen safonol dderbyniol ar gyfer plant yw y gwneir penderfyniad o fewn 24 awr i dderbyn y cyswllt.

Nid yw pob awdurdod lleol yn gallu pennu’r union amser y cafwyd y cyswllt. Mae angen symleiddio’r metrig i’r cysylltiadau hynny lle gwnaed penderfyniad erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf.

Gall awdurdodau lleol ddefnyddio’r wybodaeth hon i asesu cydymffurfiaeth yn erbyn safon a ddiffiniwyd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prydlondeb gwneud penderfyniadau ar ran plant a phobl ifanc yng ngwasanaethau IAA yng Nghymru ac yn defnyddio’r wybodaeth hon ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

Defnyddio data a gasglwyd yn CH/001 fel y data sylfaenol ar gyfer y metrig hwn. Cyfrif nifer y rhai lle gwnaed penderfyniad erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf o ddyddiad derbyn yr atgyfeiriad gan y gwasanaeth IAA.

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **pob** cyswllt ar gyfer plant a phobl ifanc a gafodd eich gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu **ar gyfer unrhyw berson nad oedd yn cael gofal a chymorth, neu gymorth (fel gofalwr), ar adeg y cyswllt.** (Data sylfaen = CH/001)
2. Mae penderfyniad yn golygu penderfyniad ymarfer a wneir gan weithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol cymwysedig. Er y gallai’r penderfyniad fod i gasglu mwy o wybodaeth, neu roi ar restr aros, rhaid i reolwr practis y gwasanaeth IAA, neu ymarferydd gofal cymdeithasol cymwysedig arall sy’n gweithredu ar eu rhan, fod wedi gwneud hynny. Mae penderfyniadau eraill yn cynnwys: darparu cyngor neu gymorth (gan gynnwys cyfeirio ymlaen at wasanaethau allanol); symud ymlaen at asesiad manwl; dechrau gweithdrefnau diogelu; cau – dim camau pellach.
3. Cyfrifir y cyfnod diwrnod gwaith nesaf o’r dyddiad y derbyniodd y gwasanaeth IAA y cyswllt i’r dyddiad y gwnaed y penderfyniad. Rhaid i ddyddiad y penderfyniad fod ar neu cyn y diwrnod gwaith nesaf i’w ystyried i’w gynnwys

yn y metrig hwn. Os cafwyd y cyswllt ar ddiwrnod heb fod yn ddiwrnod gwaith, neu os gwnaed penderfyniad (ee gan wasanaeth argyfwng y tu allan i oriau), yna bydd y rhain yn cael eu hystyried yn ddiwrnodau gwaith at ddibenion yr enghreifftiau hynny.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Mae'r metrig hwn yn is-set o CH/001. Ni ddylid cynnwys unrhyw gysylltiadau sydd y tu allan i ddiffiniad y metrig hwnnw yn y metrig hwn. Ni ddylai fod yn bosibl i gyfrif y metrig hwn fod yn fwy na CH/001.
2. Peidiwch â chynnwys diwrnodau heb fod yn ddiwrnodau gwaith yng nghyfrif amseroldeb. Mae hyn yn cynnwys penwythnosau a gwyliau banc. Bydd cyswllt a dderbynnir ar ddydd Gwener lle na chofnodwyd y penderfyniad tan y dydd Mawrth yn dilyn dydd Llun gŵyl banc yn dal i gael ei ystyried yn "brydlon".
3. Nid yw gweithredoedd system awtomatig, na phenderfyniadau gweinyddol, yn cael eu hystyried yn benderfyniadau y dylid eu cynnwys yn y metrig hwn. Rhaid i'r rhai a gynhwysir fodloni'r amodau uchod.
4. Does dim modd i ddyddiad y penderfyniad fod cyn y dyddiad derbyn.

**Cyfeirnod Mesur: CH/004**

**Enw'r Mesur:** Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan wasanaethau statudol i blant yn ystod y flwyddyn oddi wrth:

a. Yr unigolyn ei hun
b. Perthynas
c. Ffrind neu gymydog
d. Gwasanaeth Atal / Ymyrryd yn fuan (Camu i fyny)
e. Iechyd
f. Addysg
g. Tai
h. Yr heddlu
i. Gwasanaethau prawf
j. Sefydliad trydydd sector
k. Awdurdod Lleol
l. Ysbyty Annibynnol
m. Gwasanaeth Ambiwlans
n. Rheoleiddiwr Gofal
o. Darparwr
p. Eiriolwr
q. Arall
r. Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall)

## Bwriad y Mesur

Bwriad y metrig hwn yw casglu data ar ffynonellau cyswllt. Mae gwybod pwy a sut y deuir i gysylltiad â'r gwasanaeth IAA yn helpu sefydliadau i nodi sut mae pobl yn defnyddio'r gwasanaeth IAA. Mae gweithio gydag asiantaethau partner i nodi'n well y galw a'r llwybrau i mewn i wasanaethau IAA gofal cymdeithasol yn caniatáu cynllunio ac adnoddau rhyng-sefydliadol gwell i sicrhau bod y bobl gywir yn cael y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro sut mae pobl yn cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ac yn defnyddio'r wybodaeth hon ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

## Diffiniad

*Mae'r metrig hwn yn **deillio o CH/001.***

Cyfrwch yr holl gysylltiadau a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol i blant yn ystod y flwyddyn a defnyddio ffynhonnell y cyswllt a gofnodwyd ar eich system wedi'i fapio i'r is-gategorïau a restrir yn y metrig hwn.

Dylai'r aelod o staff sy'n derbyn yr wybodaeth gofnodi ffynhonnell yr atgyfeiriad. Gwerthfawrogir bod gan lawer o awdurdodau lleol ddull llawer mwy manwl o gofnodi pwy gysylltodd â'r adran. Dylid mapio'r rhain i'r categori mwyaf priodol. Er enghraifft.

**Yr unigolyn ei hun neu aelod o'r teulu**; dylai gynnwys achosion o hunangyfeirio, neu os yw'r person sy'n cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn briod, partner, plentyn, brawd neu chwaer neu berthynas arall i'r person sy'n destun y cyswllt.

**Cyfaill neu gymydog**; dylai gynnwys ffrindiau neu gymdogion y person sy'n destun y cyswllt.

**Iechyd**; dylai gynnwys cydweithwyr iechyd sylfaenol, eilaidd, trydyddol a chymunedol, ee Meddygon Teulu, Ysbytai, Ymgynghorwyr, Clinigau, Bydwragedd, Nyrsys Cymunedol ac Ymwelwyr Iechyd ac ati.

**Addysg**; dylai gynnwys unrhyw atgyfeiriwr sy'n darparu gwasanaethau addysg neu ddysgu. Ysgolion, Athrawon, AALlau, Unedau Cyfeirio Disgyblion, Colegau a Phrifysgolion, darpariaeth addysg arbenigol, gwasanaethau seicoleg addysg ac ati.

**Yr Heddlu**; dylai gynnwys unrhyw swyddog awdurdod heddlu, heddlu trafnidiaeth neu asiantaeth troseddau genedlaethol.

**Y Gwasanaeth Prawf**; dylai gynnwys unrhyw aelod o staff y gwasanaeth prawf sy'n gweithredu yn rhinwedd ei swydd broffesiynol.

**Tai**; dylai gynnwys adran dai awdurdodau lleol ac asiantaethau tai eraill.

**Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar / Atal (Camu i fyny)**; dylai gynnwys unrhyw wasanaeth a gynlluniwyd i ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal, boed yn fewnol neu wedi'u comisiynu gan yr awdurdod lleol, pan fo'r person sy'n destun y cyswllt yn derbyn gwasanaeth gan yr asiantaethau hyn – cyfeirir at hyn weithiau fel 'camu i fyny'.

**Sefydliad Trydydd Sector**; dylai gynnwys unrhyw sefydliad trydydd sector, budd cymunedol, menter gymdeithasol neu elusennol.

**Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall)**; dylai gynnwys cysylltiadau a gynhyrchir yn fewnol (hy drwy ddarganfod unigolyn arall sydd ag anghenion gofal a chymorth posibl yn ystod gwaith o ddydd i ddydd).

**Arall**; unrhyw ffynhonnell gyswllt arall nad yw'n cyd-fynd â'r categorïau uchod, ee dienw, cyfreithiwr, awdurdod lleol arall, aelod o'r cyhoedd ac ati.

Rydym yn cydnabod y gall rhai cysylltiadau ddisgyn i fwy nag un categori. Er enghraifft, gall cymydog hefyd fod yn aelod o'r teulu. Gall sefydliad trydydd sector hefyd ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnal ac atal. Mater i'r sawl sy'n derbyn yr wybodaeth yw llunio barn ar y categori mwyaf priodol i'r ffynhonnell gyswllt.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **pob** cyswllt â'ch gwasanaethau cymdeithasol statudol i blant rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu **ar gyfer unrhyw berson nad oedd yn cael gofal a chymorth ar adeg y cyswllt.** Data sylfaen = CH/001
2. Mae cyswllt yn cynnwys unrhyw berson sy'n cysylltu â'r gwasanaeth, neu weithiwr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar ran plentyn.
3. Os yw'r cyswllt yn cyfeirio at nifer o unigolion, dylid cyfrif bob plentyn fel petai ei fod wedi cael cyswllt.
4. Dylech gynnwys unrhyw gyswllt a gafwyd, p'un a oedd hynny wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy e-bost neu ffurflen gyswllt ar wefan.
5. Gall plentyn gael mwy nag un cyswllt yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrwch y rhain i gyd.
6. Dylid cyfrif materion diogelu fel cyswllt oni bai eu bod yn derbyn gofal a chymorth ar adeg y cyswllt.
7. Dylai gofalwr ifanc , sydd eisoes yn cael cymorth gan yr awdurdod lleol sy'n cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer IAA nad yw'n gysylltiedig â'i anghenion fel gofalwr ifanc, gael ei gynnwys yn y cyfrif.
8. Nid yw pob awdurdod lleol yn gweithredu un pwynt mynediad. Dylai'r cyfrif gynnwys pob cyswllt sy'n diwallu'r meini prawf uchod, ni waeth beth yw'r llwybr i'r system.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant a oedd yn cael gofal a chymorth ar adeg y cyswllt.
2. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau mewn perthynas ag plant sydd angen cymorth fel gofalwyr.
3. Peidiwch â chynnwys ymweliadau â gwefan eich gwasanaeth IAA fel cysylltiadau. Er bod darparu gwybodaeth ar wefan yn arfer da, nid dyna rydym yn awyddus i'w gyfrif.
4. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau sy'n amlwg yn cael eu cyfeirio at yr adran anghywir.
5. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad (h.y. dyblygu, y math anghywir o atgyfeiriad a ddefnyddir ar y system).
6. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau a ddefnyddir i fewngofnodi gwybodaeth am gael gafael ar wybodaeth gan asiantaethau eraill (hy AGC, Heddlu)

**Cyfeirnod Mesur: CH/005**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y cysylltiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn lle:

a. Roedd cosb gorfforol gan riant neu ofalwr yn un o sawl ffactor.
b. Cosb gorfforol gan riant neu ofalwr oedd yr unig ffactor.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am effaith y newid polisi yn Neddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru). Mae dileu'r amddiffyniad cosb resymol yn rhan o strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb. Nod y ddeddfwriaeth yw helpu i ddiogelu hawliau plant drwy wahardd rhieni a'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis (yn gweithredu fel rhiant) yng Nghymru, gan gynnwys ymwelwyr â Chymru, rhag cosbi plant yn gorfforol. Drwy wneud hynny, bydd gan blant yng Nghymru yr un amddiffyniad cyfreithiol rhag cosb gorfforol ag oedolion.

Mae dileu'r amddiffyniad cosb resymol yn arbennig o berthnasol i wasanaethau cymdeithasol plant, lle y gallai'r Ddeddf gael effaith ar adnoddau. Mae Llywodraeth Cymru wedi casglu data sylfaenol ar gyfer cysylltiadau sydd â chosb gorfforol yn erbyn plentyn gan riant neu ofalwr cyn gweithredu'r Ddeddf a bydd yn parhau i gasglu'r wybodaeth hon i fonitro unrhyw newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad i'w chyflwyno.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CH/001.***

Cyfrif pob cyswllt a dderbynnir gan wasanaethau statudol i blant yn ystod y flwyddyn (CH/001) lle mae cosb gorfforol gan riant neu ofalwr yn un o sawl ffactor (rhan a),

neu lle mai cosb gorfforol gan riant neu ofalwr yw’r unig ffactor (rhan b). Felly, bydd yr **holl** gysylltiadau sy’n cael eu cyfrif yn rhan b hefyd yn cael eu cyfrif yn rhan a.

Mae cosb gorfforol yn y cyd-destun hwn yn golygu unrhyw achos o guro plentyn a gyflawnir fel cosb.

Diddymwyd yr amddiffyniad cosb resymol yng Nghymru o fis Mawrth 2022. **Ni all neb** ddibynnu arno, hyd yn oed ar gyfer troseddau ymosodiad cyffredin a churo. Mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at gynnydd yn yr achosion o gosbi plant yn gorfforol gan rieni (neu in loco parentis) a adroddir i wasanaethau plant. Dechreuodd Llywodraeth Cymru gasglu'r mesur hwn fel data sylfaenol cyn i'r gyfraith ddod i rym, ac mae'n parhau i gasglu data at ddibenion monitro.

Cyn mis Mawrth 2022, roedd yr amddiffyniad cosb resymol ar gael i rieni, neu i oedolion sy'n gweithredu in loco parentis, a oedd yn cosbi eu plentyn yn gorfforol, fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiad o ymosod cyffredin a churo. Roedd cyfyngiadau eisoes ar y defnydd y gellid ei wneud o'r amddiffyniad, fel na ellid ei ddefnyddio ar gyfer troseddau o niwed corfforol gwirioneddol, clwyfo, achosi niwed corfforol difrifol neu greulondeb tuag at bobl dan 16 oed (o dan **Adran 58 o Ddeddf Plant 2004**).

**Mae’n bwysig gwahaniaethu rhwng cosb gorfforol ac ymyriad corfforol sy’n angenrheidiol i gadw plentyn yn ddiogel rhag niwed, neu i wneud gweithgareddau o ddydd i ddydd.** Gallai ymyriadau o’r fath gynnwys atal plentyn yn gorfforol rhag rhedeg i mewn i ffordd brysur, yn hytrach na chosbi’r plentyn yn gorfforol ar ôl rhedeg i mewn i ffordd. O dan y gyfraith newydd, bydd ymyriadau corfforol sy’n angenrheidiol i gadw plentyn yn ddiogel yn parhau i gael eu caniatáu; hyd yn oed yng nghyd-destun dau oedolyn, ni fyddai’r ymyriadau hyn o reidrwydd yn cael eu caniatáu.

Gall enghreifftiau eraill gynnwys defnyddio grym rhesymol i wisgo plentyn, golchi plentyn neu frwsio dannedd plentyn. Bydd ymyriadau eraill a all fod yn angenrheidiol yn dod o dan awdurdod rhieni, lle, er enghraifft, efallai y bydd angen cario neu arwain plentyn i ardal amser allan fel mecanwaith i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol heb orfod cosbi’n gorfforol.

Bydd angen i’r gweithiwr proffesiynol sy’n cael y cyswllt ynghylch plentyn benderfynu a yw unrhyw ymyriad corfforol a adroddir i’r gwasanaeth IAA yn ***gosb***, neu'n ymyriad sydd naill ai wedi’i ysgogi fel **gweithred i gadw’r plentyn yn ddiogel rhag niwed** neu fel cam angenrheidiol i hybu ymddygiad da ***heb*** **ddefnyddio cosb gorfforol.** Os nad cosb yw ymyriad corfforol, rhaid iddo barhau i fod yn rhesymol a chymedrol.

Os yw’r ymyriad yn cael ei ddosbarthu fel cam a fwriadwyd i gosbi’r plentyn, neu os nad yw ymyriad corfforol yn gymesur ag arfer awdurdod rhieni, neu os nad oes tystiolaeth nad oedd gan yr ymyriad unrhyw rinweddau o ran cadw plentyn yn ddiogel rhag niwed, dylid ei gofnodi yn y metrig hwn.

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch **bob** cysylltiad a gafwyd yn y flwyddyn gasglu pan fo cosb gorfforol gan riant neu ofalwr yn ffactor, neu pan mai cosb gorfforol gan riant neu ofalwr yw'r unig ffactor (yn dibynnu ar yr is-gategori yr ydych yn cyfrif ar ei gyfer). **Data sylfaen = CH/001**
2. Dylech gynnwys **pob** cyswllt â'ch gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu **ar gyfer unrhyw blentyn nad oedd yn cael gofal a chymorth ar adeg y cyswllt.**
3. Mae cyswllt yn cynnwys unrhyw berson sy'n cysylltu â'r gwasanaeth (gan gynnwys y plentyn yn uniongyrchol), neu weithiwr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar ei ran.
4. Os yw'r cyswllt yn cyfeirio at **nifer o blant, dylai pob plentyn y cyfeirir ato gael ei gyfrif fel un sydd wedi cael cyswllt.**
5. Dylech gynnwys unrhyw gyswllt a gafwyd, p'un a oedd hynny wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy e-bost neu ffurflen gyswllt ar wefan.
6. Gall plentyn gael **mwy nag un cyswllt** yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrwch y rhain i gyd.
7. **Dylid cyfrif materion diogelu fel cyswllt** oni bai eu bod yn cael gofal a chymorth ar adeg y cyswllt.
8. Dylai gofalwr ifanc, sydd eisoes yn cael cymorth gan yr awdurdod lleol, sy'n cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer **IAA nad yw'n gysylltiedig â'i anghenion fel gofalwr**, gael ei gynnwys yn y cyfrif.
9. Nid yw pob awdurdod lleol yn gweithredu un pwynt mynediad. Dylai'r cyfrif gynnwys pob cyswllt sy'n bodloni'r meini prawf uchod, waeth beth fo'r llwybr i mewn i'r system.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant a oedd yn **cael gofal a chymorth** ar adeg y cyswllt.
2. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau pan **nad oes honiad na thystiolaeth** fod cosb gorfforol wedi digwydd.
3. Peidiwch â chyfrif cysylltiadau pan oedd **angen ymyriad corfforol i gadw’r plentyn yn ddiogel rhag niwed.**
4. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau sydd **y tu allan** i’r data a gesglir yn CH/001.
5. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **sy'n amlwg wedi'u cyfeirio at yr adran anghywir.**
6. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau sydd **wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad** (h.y. dyblygu, defnyddio'r math anghywir o atgyfeiriad ar y system).
7. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau a ddefnyddir i **gofnodi gwybodaeth** am gael gafael ar wybodaeth gan asiantaethau eraill (h.y. AGC, yr heddlu)

## Asesiadau Plant

### Cyfeirnod Mesur: CH/006

**Enw'r Mesur:** Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn.

### Bwriad y Mesur

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am nifer yr asesiadau **newydd** a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn.

Mae casglu data ar yr unigolion hynny sy'n cyflwyno i'r gwasanaethau cymdeithasol i'w hasesu yn agwedd bwysig ar fesur cyfanswm, llif a galw ar ddechrau'r broses gofal cymdeithasol statudol. **Nid yw'n cynnwys ailasesiadau** o blant sydd eisoes â chynllun gofal a chymorth. Bwriad y metrig yw nodi'r llif a'r galw i mewn i'r system.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cyfanswm a llif i wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, ac yn ei defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro'r galw o fewn y system.

### Diffiniad

Mae Cod Ymarfer **Rhan 2** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, para. 300 (t64) yn nodi bod darparu cyngor a chynhorthwy *yn golygu ei bod yn ofynnol i staff gynnal asesiad cymesur drwy drafod a dadansoddi pum elfen yr Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol.*

Dylai hyn **gynnwys** unrhyw asesiadau sy'n ymgorffori asesiadau manwl neu **gynhwysfawr** yn y broses asesu, yn ogystal â'r rhai sy'n ymgorffori asesiadau arbenigol a gynhaliwyd gan hefyd ystyried deddfwriaeth ategol (Deddf Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ac ati).

Er mwyn rhoi cyngor a chynhorthwy, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid cofnodi Gwybodaeth Bersonol (data craidd) am yr unigolyn (lle bo'n hysbys).
- Rhaid bod y pum elfen asesu wedi'u hystyried.
- Rhaid bod "sgwrs beth sy'n bwysig" wedi'i chynnal.

Ni ddylid cynnwys cysylltiadau lle mai dim ond gwybodaeth a ddarparwyd gan nad yw'r rhain yn bodloni'r trothwy ar gyfer asesu.

Mae darparu cyngor a chynhorthwy yn golygu bod **angen cwblhau asesiad** (Cod Ymarfer **Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion), para. 20). Mae angen i'r broses asesu ddod i ben cyn i ganlyniad yr asesiad fod yn hysbys. Mae hyn yn golygu, os yw'r asesiad yn fwy cynhwysfawr, mai casgliad y 'broses' asesu fydd yn pennu'r canlyniad, ni waeth sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu gwasanaeth IAA.

**Mae'r metrig hwn yn wahanol i CH/002** yn y data a gesglir. Os ceisiwn gasglu data asesu ar gysylltiadau a dderbyniwyd yn y flwyddyn honno, oherwydd yr amser sydd ei angen i gynnal asesiadau, yn enwedig pan fydd yr asesiad yn fanwl neu'n gynhwysfawr, bydd cyfran o asesiadau yn disgyn y tu allan i'r flwyddyn gasglu o gyfnod sylweddol o amser. Mae'r metrig hwn yn cyfrif **unrhyw asesiad newydd a gwblhawyd yn y flwyddyn gasglu, waeth pryd y derbyniwyd y cyswllt.** Mae hyn yn rhoi darlun gwell o gyfanswm nifer yr asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

Mae’r ddogfen Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, **cyfrol 5** (Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn oedolion sy’n wynebu risg), **para. 74** yn nodi:

*“Bydd y broses asesu a nodir dan Ran 3 yn gymwys pan fo amheuaeth bod plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio. Dylai’r asesiad ddechrau o’r adeg pan atgyfeirir yr awdurdod lleol er mwyn adnabod yr holl anghenion am ofal a chymorth gan gynnwys y rhai i amddiffyn plentyn. Gall yr asesiad fod yn barhaus gydol y broses dan adran 47 Deddf Plant 1989 a rhaid ei gwblhau* ***o fewn 42 diwrnod gwaith***

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr **holl** asesiadau a **gwblhawyd** yn ystod y flwyddyn gasglu.
2. Dylech gynnwys asesiadau ar gyfer plant **nad oeddent wedi'u geni** ar yr adeg y daeth yr asesiad i ben.
3. Gall asesiad **gynnwys asesiadau manwl neu gynhwysfawr** a all ymgorffori asesiadau arbenigol a gynhelir gan weithwyr proffesiynol ar wahân i'r ymarferydd arweiniol.
4. Os cynhelir asesiad a’i gofnodi ar sail teulu, **rhaid i bob plentyn a ystyrir yn yr asesiad hwnnw gael ei gyfrif fel un sydd wedi cael asesiad.**
5. Ystyrir bod asesiad wedi'i gwblhau, pan fydd wedi'i **awdurdodi gan reolwr practis** neu berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.
6. Dylech gynnwys pob asesiad cyfrannol **waeth beth fo canlyniad** yr asesiad.
7. Dylech gynnwys asesiadau a gwblhawyd **o ganlyniad i bryderon diogelu.**

**Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau ar gyfer plant lle'r oedd canlyniad y cyswllt yn ddarpariaethau gwybodaeth fel y'u diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Cod Ymarfer Rhan 2 paragraff 300.
2. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **os nad ystyriwyd y pum elfen asesu**, neu os na chynhaliwyd sgwrs “**beth sy'n bwysig**”.
3. Peidiwch â chynnwys asesiadau a gwblhawyd **y tu allan i'r flwyddyn gasglu**.
4. Peidiwch â chynnwys **ailasesiadau** o blant **sydd eisoes â chynllun gofal a chymorth** ar adeg yr asesiad.

5. Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu **proses asesu aml-gam** sy'n defnyddio mwy nag un ffurflen ar gyfer y broses asesu. Peidiwch â chyfrif y rhain yn unigol. Cyfrwch y broses yn ei chyfanrwydd unwaith yn unig.
6. Peidiwch â chynnwys **oedolion (unigolion 18 mlwydd oed neu hŷn)** yn y metrig hwn.
7. Peidiwch â chynnwys asesiadau a oedd yn **anghyflawn** (gweler 6.3 uchod).
8. Peidiwch â chynnwys asesiadau **a gofnodwyd drwy gamgymeriad.**

**Cyfeirnod Mesur: CH/007**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn lle:

a. Dim ond gyda chynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.
b. Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.
c. Lle nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am ganlyniadau'r asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn.

Mae casglu data ar yr unigolion hynny sy'n cyflwyno i'r gwasanaethau cymdeithasol i'w hasesu yn agwedd bwysig ar fesur cyfanswm, llif a galw ar ddechrau'r broses gofal cymdeithasol statudol. **Nid yw'n cynnwys ailasesiadau** o blant sydd eisoes â chynllun gofal a chymorth. Bwriad y metrig yw nodi'r llif a'r galw i mewn i'r system.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cyfanswm a llif i wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, ac yn ei defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro'r galw o fewn y system.

**Diffiniad**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 2** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Swyddogaethau Cyffredinol), para. 300 (t64) yn nodi bod darparu cyngor a chynhorthwy *yn golygu ei bod yn ofynnol i staff gynnal asesiad cymesur drwy drafod a dadansoddi pum elfen yr Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol."*

Dylai hyn **gynnwys** unrhyw asesiadau, **gan gynnwys** y rhai sy'n ymgorffori asesiadau manwl neu **gynhwysfawr** yn y broses asesu, yn ogystal â'r rhai sy'n ymgorffori asesiadau arbenigol a gynhaliwyd gan hefyd ystyried deddfwriaeth ategol (Deddf Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ac ati).

Er mwyn rhoi cyngor a chynhorthwy, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid cofnodi Gwybodaeth Bersonol (data craidd) am yr unigolyn (lle bo'n hysbys).
- Rhaid bod y pum elfen asesu wedi'u hystyried.
- Rhaid bod “sgwrs beth sy'n bwysig” wedi’i chynnal.

Ni ddylid cynnwys cysylltiadau lle mai dim ond gwybodaeth a ddarparwyd gan nad yw'r rhain yn bodloni'r trothwy ar gyfer asesu.

Mae darparu cyngor a chynhorthwy yn golygu bod **angen cwblhau asesiad** (Cod Ymarfer **Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion), **para. 20**). Mae angen i'r broses asesu ddod i ben cyn i ganlyniad yr asesiad fod yn hysbys. Mae hyn yn golygu, os yw'r asesiad cyfrannol yn fwy cynhwysfawr, mai casgliad y ‘broses’ asesu fydd yn pennu'r canlyniad, ni waeth sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu gwasanaeth IAA.

**Mae'r metrig hwn yn wahanol i CH/002** yn y data a gesglir. Os ceisiwn gasglu data asesu ar gysylltiadau a dderbyniwyd yn y flwyddyn honno, oherwydd yr amser sydd ei angen i gynnal asesiadau, yn enwedig pan fydd yr asesiad yn fanwl neu'n gynhwysfawr, bydd cyfran o asesiadau yn disgyn y tu allan i'r flwyddyn gasglu o gyfnod sylweddol o amser. Mae'r metrig hwn yn cyfrif **unrhyw asesiad newydd a gwblhawyd yn y flwyddyn gasglu, waeth pryd y derbyniwyd y cyswllt.** Mae hyn yn rhoi darlun gwell o gyfanswm nifer yr asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

Mae’r ddogfen Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, **cyfrol 5** (Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn oedolion sy’n wynebu risg), **para. 74** yn nodi: *“Bydd y broses asesu a nodir dan Ran 3 yn gymwys pan fo amheuaeth bod plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio. Dylai’r asesiad ddechrau o’r adeg pan atgyfeirir yr awdurdod lleol er mwyn adnabod yr holl anghenion am ofal a chymorth gan gynnwys y rhai i amddiffyn plentyn. Gall yr asesiad fod yn barhaus gydol y broses dan adran 47 Deddf Plant 1989 a rhaid ei gwblhau **o fewn 42 diwrnod gwaith***

At ddibenion y metrig hwn, dylid mapio'r wyth canlyniad asesu a gynhwysir yn yr offeryn asesu a chymhwysedd cenedlaethol i'r is-gategori priodol fel a ganlyn:

Canlyniadau'r Gofyniad Asesu Cyffredin

1. Nid oes angen diwallu unrhyw anghenion gofal a chymorth.

   *Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i fodloni*

2. Mae angen asesiad mwy cynhwysfawr, a all gynnwys asesiadau mwy arbenigol.

   *Amherthnasol – Dylid cyfrif y broses asesu yn ei chyfanrwydd. Os oes angen asesiad mwy cynhwysfawr, mae hyn yn rhan o'r broses asesu gyffredinol lle gellir cynnwys asesiadau arbenigol*.

3. Gellir diwallu anghenion drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy.

   *Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

4. Gellir diwallu anghenion, drwy ddarparu gwasanaethau ataliol.

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

5. Gall anghenion gael eu diwallu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan yr unigolion eu hunain (gyda chymorth pobl eraill neu hebddynt).

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

6. Gall materion eraill gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau personol, neu fel arall ddiwallu'r anghenion.

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

7. Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth, y gall anghenion gael eu diwallu (**mae anghenion yn gymwys**).

*Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.*

8. Mae'r awdurdod lleol o'r farn bod angen diwallu'r anghenion er mwyn amddiffyn y person rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu rhag y risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu yn achos plentyn, rhag niwed arall neu rhag y risg o niwed.

   *Dylai'r asesiad ddechrau ar adeg yr atgyfeiriad a phara drwy gydol y broses ddiogelu (**Cod Ymarfer Rhan 7, paragraff 74**). Dewiswch yr opsiwn priodol ar ôl i'r asesiad hwn ddod i ben.*

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr **holl** asesiadau a **gwblhawyd** yn ystod y flwyddyn gasglu. **Data sylfaen = CH/006**
2. Gall asesiad **gynnwys asesiadau manwl neu gynhwysfawr** a all ymgorffori asesiadau arbenigol a gynhelir gan weithwyr proffesiynol ar wahân i'r ymarferydd arweiniol.
3. Os cynhelir asesiad a'i gofnodi ar sail teulu, **rhaid i bob plentyn a ystyrir yn yr asesiad hwnnw gael ei gyfrif fel un sydd wedi cael asesiad.**
4. Ystyrir bod asesiad wedi'i gwblhau, pan fydd wedi'i **awdurdodi gan reolwr practis** neu berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.
5. Dylech gynnwys pob asesiad cyfrannol **waeth beth fo canlyniad** yr asesiad.
6. Dylech gynnwys asesiadau a gwblhawyd **o ganlyniad i bryderon diogelu.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau ar gyfer plant lle'r oedd canlyniad y cyswllt yn ddarpariaethau gwybodaeth fel y'u diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Cod Ymarfer Rhan 2 paragraff 300.

2. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **os nad ystyriwyd y pum elfen asesu**, neu os na chynhaliwyd sgwrs “**beth sy'n bwysig**”.
3. Peidiwch â chynnwys asesiadau a gwblhawyd **y tu allan i'r flwyddyn gasglu**.
4. Peidiwch â chynnwys **ailasesiadau** o blant s**ydd eisoes â chynllun gofal a chymorth** ar adeg yr asesiad.
5. Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu **proses asesu aml-gam** sy'n defnyddio mwy nag un ffurflen ar gyfer y broses asesu. Peidiwch â chyfrif y rhain yn unigol. Cyfrwch y broses yn ei chyfanrwydd unwaith yn unig.
6. Peidiwch â chynnwys **oedolion (unigolion 18 mlwydd oed neu hŷn)** yn y metrig hwn.
7. Peidiwch â chynnwys asesiadau a oedd yn **anghyflawn** (gweler 6.3 uchod).
8. Peidiwch â chynnwys asesiadau **a gofnodwyd drwy gamgymeriad.**

**Cyfeirnod Mesur: CH/008**

**Enw’r Mesur:** Cyfanswm nifer yr:

a. Asesiadau ar gyfer plant a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer plant a gafodd eu geni ar yr adeg y daeth yr asesiad i ben.
b. O’r rheini, lle ceir tystiolaeth bod y plentyn wedi cael ei weld.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am nifer yr asesiadau **newydd** a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn pan fo’r plentyn wedi cael ei weld. **Nid yw'n cynnwys ailasesiadau** o blant sydd eisoes â chynllun gofal a chymorth.

Mae Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, para. 74 yn datgan: *Yr hyn sy’n hanfodol i sefydlu anghenion gofal a chymorth plentyn a sut y dylid diwallu’r anghenion hynny yw bod yn rhaid i’r dull fod yn canolbwyntio ar y plentyn. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i’r plentyn gael ei weld, a bod ei les ef/hi yn ganolbwynt drwy gydol yr asesiad.*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio’r wybodaeth hon i fonitro cydymffurfiad adrannau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru â’r gofynion a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CH/006***

Mae Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu Anghenion Unigolion) para. 25 yn datgan:

*Os yw'r asesiad yn ymwneud ag anghenion gofal a chymorth plentyn,* ***rhaid i'r plentyn gael ei weld.***

Mae Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu Anghenion Unigolion) para. 74 yn datgan:

*Yr hyn sy'n hanfodol i sefydlu anghenion gofal a chymorth plentyn a sut y dylid diwallu'r anghenion hynny yw bod yn rhaid i'r dull fod yn canolbwyntio ar y plentyn. Mae hyn yn golygu bod yn* ***rhaid i'r plentyn gael ei weld****, a bod ei les ef/hi yn ganolbwynt drwy gydol yr asesiad. Rhaid ystyried safbwynt y plentyn bob amser. Ni ellir gorbwysleisio* ***arwyddocâd gweld ac arsylwi ar y plentyn drwy gydol unrhyw asesiad.***

Dehongliad cyffredinol y gofyniad hwn yw bod **yr angen i weld y plentyn yn rhan o bob asesiad**. Er y gall barn broffesiynol ddod i'r casgliad nad yw bob amser yn angenrheidiol gweld plentyn lle mae cyngor neu gymorth sylfaenol yn ofynnol, gall unrhyw asesiad fynnu bod y plentyn yn cael ei arsylwi.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch **yr holl asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant a oedd wedi'u geni ar adeg cwblhau'r asesiad** yn ystod y flwyddyn gasglu (*rhan a*).
2. O'r rheini, dylid cyfrif yr holl blant a **welwyd gan unigolyn sydd â'r sgiliau, yr hyfforddiant a'r cymwysterau priodol** (yn unol â'r gofynion a nodir yn Rhan 3 o'r Cod Ymarfer (Asesu anghenion Unigolion) para. 43 (*rhan b*).
3. Os yw'r asesiad yn cael ei gynnal a'i gofnodi ar sail teulu, rhaid i **bob plentyn sy'n cael ei ystyried yn yr asesiad hwnnw gael ei gyfrif yn un sydd wedi cael asesiad a rhaid i bob plentyn sy'n cael ei ystyried yn yr asesiad hwnnw gael ei asesu i'w gynnwys yn rhan b.**
4. Ystyrir bod asesiad wedi'i gwblhau, pan fydd wedi'i **awdurdodi gan reolwr practis** neu berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.
5. Dylech gynnwys pob asesiad **waeth beth fo canlyniad** yr asesiad.
6. Dylech gynnwys asesiadau a gwblhawyd **o ganlyniad i bryderon diogelu** (yn amodol ar fodloni meini prawf adran 7 isod).

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys asesiadau ar gyfer plant **na chawsant eu geni** ar yr adeg y daeth yr asesiad i ben.
2. Peidiwch â chynnwys plant yn rhan b lle nad oedd y person a welodd y plentyn yn **unigolyn sydd â'r sgiliau, yr hyfforddiant a'r cymwysterau priodol** (yn unol â'r gofynion a nodir yn Rhan 3 o'r Cod Ymarfer (Asesu anghenion Unigolion) para. 43.
3. Peidiwch â chynnwys asesiadau a gwblhawyd **y tu allan i'r flwyddyn gasglu**.
4. Peidiwch â chynnwys **ailasesiadau** o blant **sydd eisoes â chynllun gofal a chymorth** ar adeg yr asesiad.
5. Peidiwch â chynnwys **oedolion (unigolion 18 mlwydd oed neu hŷn)** yn y metrig hwn.

6. Peidiwch â chynnwys asesiadau a oedd yn **anghyflawn** (gweler 6.4 uchod).
7. Peidiwch â chynnwys asesiadau **a gofnodwyd drwy gamgymeriad.**

**Cyfeirnod Mesur: CH/009**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr asesiadau ar gyfer plant a gwblhawyd (CH/006) yn ystod y flwyddyn lle:

a. Roedd tystiolaeth o'r cynnig rhagweithiol o ran y Gymraeg
b. Derbyniwyd y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg
c. Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio dewis iaith yr unigolyn (unrhyw iaith, heb fod yn gyfyngedig i'r Gymraeg neu'r Saesneg).

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r fframwaith strategol 'Mwy na Geiriau' ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 52** yn nodi:

***Rhaid** i'r broses asesu gydnabod y cysyniad o'r angen am iaith a dylai ymarferwyr **sicrhau bod yr egwyddor cynnig rhagweithiol yn cael ei hymgorffori'n ymarferol.***

*Mae hyn yn golygu y dylai'r awdurdod lleol fod yn rhagweithiol a **dylid gofyn i'r unigolyn pa iaith y byddai'n well ganddo ei defnyddio ar ddechrau'r broses.** Bydd hyn yn sicrhau bod yr unigolyn yn gallu derbyn gwasanaethau yn ei iaith ei hun gydol y broses o nodi a diwallu ei anghenion gofal a chymorth. Mae iaith yn elfen annatod o'r gofal y mae pobl yn ei dderbyn a chyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw darparu gwasanaethau priodol sy'n cynnwys diwallu anghenion ieithyddol defnyddwyr. Dim ond drwy wneud hyn y gallant ddarparu gofal sy'n ddiogel ac yn effeithiol."*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cydymffurfiaeth genedlaethol yn erbyn gofynion y Ddeddf.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o ddata a gasglwyd yn (CH/006)***

Mae **Cod Ymarfer Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 52**. yn nodi: *…dylai'r awdurdod lleol*

*fod yn rhagweithiol a **dylid gofyn i'r unigolyn [neu'r teulu] pa iaith y byddai'n well ganddynt ei defnyddio ar ddechrau'r broses (rhan a).***

Dylai awdurdodau lleol hefyd gofnodi a oedd yr unigolyn neu'r teulu sy'n cael eu hasesu wedi manteisio ar y Gynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg (**rhan b**).

Mae Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, para. 59 yn diffinio'r Set Ddata Graidd sy'n cynnwys 'Iaith sy'n cael ei Ffafrio'. Gall hyn gynnwys ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg (rhan c).

Cyfrwch y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg a dewisiadau iaith eraill ar gyfer pob asesiad a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn gasglu.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. ***Mae'r metrig hwn yn deillio o ddata a gasglwyd yn (CH/006)***
2. Mae **Cod Ymarfer Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 52**. yn nodi: *…dylai'r awdurdod lleol fod yn rhagweithiol a **dylid gofyn i'r unigolyn [neu'r teulu] pa iaith y byddai'n well ganddynt ei defnyddio ar ddechrau'r broses (rhan a).***
3. Dylai awdurdodau lleol hefyd gofnodi a oedd yr unigolyn neu'r teulu sy'n cael eu hasesu wedi manteisio ar y Gynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg (**rhan b**).
4. Mae **Cod Ymarfer Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,**para. 59** yn diffinio'r Set Ddata Graidd sy'n cynnwys 'Dewis o ran Iaith'. Gall hyn gynnwys ieithoedd **heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg (rhan c).**
5. Cyfrwch **y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg a dewisiadau iaith eraill ar gyfer pob asesiad a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn gasglu.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau lle'r oeddech wedi darparu **gwybodaeth yn unig.**
2. Peidiwch â chynnwys asesiadau ar gyfer **gofalwyr ifanc sy'n ofalwyr lle na nodir unrhyw anghenion gofal a chymorth ychwanegol** ar gyfer y sawl sy'n darparu gofal.
3. Peidiwch â chynnwys asesiadau **anghyflawn.**
4. Peidiwch â chynnwys asesiadau ar gyfer pob is-gategori **nad ydynt yn bodloni'r meini prawf** a amlinellir yn 6.2 uchod.
5. Peidiwch â chynnwys asesiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/010**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn yr ystâd ddiogel.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am nifer yr asesiadau **newydd** a gwblhawyd ar gyfer plant yn yr ystad ddiogel yn ystod y flwyddyn.

Mae **Adran 186** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn ymdrin â phlant yn yr ystad ddiogel: *Rhaid i'r awdurdod lleol cartref yng Nghymru fodloni'r dyletswyddau gofal a chymorth ar gyfer plant yn yr ystad ddiogel, boed y plant hynny'n cael eu cadw yng Nghymru neu yn Lloegr, yn yr un modd ag y byddent pe baent yn byw yn y gymuned*.

Mae casglu data ar yr unigolion hynny sy'n cyflwyno i'r gwasanaethau cymdeithasol i'w hasesu yn agwedd bwysig ar fesur cyfanswm, llif a galw ar ddechrau'r broses gofal cymdeithasol statudol. **Nid yw'n cynnwys ailasesiadau** o blant sydd eisoes â chynllun gofal a chymorth. Bwriad y metrig yw nodi'r llif a'r galw i mewn i'r system.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cyfanswm a llif i wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, ac yn ei defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro'r galw o fewn y system.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CH/006***

Mae Cod Ymarfer **Rhan 11** (Amrywiol a Chyffredinol) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, para. 16, yn nodi: "*Mae gan y rhai mewn sefydliadau diogel sydd ag anghenion gofal a chymorth hawl i gael asesiad gyda'r nod o gyflawni eu canlyniadau lles personol. Rhaid i awdurdodau lleol asesu'r rhai mewn sefydliadau diogel yn yr un modd ag y byddent yn asesu unrhyw un sy'n byw yn eu hardal, ond efallai y bydd angen iddynt newid y dull o ddarparu'r trefniadau asesu fel ei fod yn cydymffurfio â chyfyngiadau system y sefydliad diogel."*

Mae Cod Ymarfer **Rhan 2** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Swyddogaethau Cyffredinol), para. 300 (t64) yn nodi bod darparu cyngor a chynhorthwy *yn golygu ei bod yn ofynnol i staff gynnal asesiad cymesur drwy drafod a dadansoddi pum elfen yr Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol."*

Dylai hyn **gynnwys** unrhyw asesiadau sy'n ymgorffori asesiadau mwy **cynhwysfawr** yn y broses asesu, yn ogystal â'r rhai sy'n ymgorffori asesiadau arbenigol a gynhaliwyd gan hefyd ystyried deddfwriaeth ategol (Deddf Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ac ati).

Er mwyn rhoi cyngor a chynhorthwy, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid cofnodi Gwybodaeth Bersonol (data craidd) am yr unigolyn (lle bo'n hysbys).
- Rhaid bod y pum elfen asesu wedi'u hystyried.
- Rhaid bod "sgwrs beth sy'n bwysig" wedi'i chynnal.

Ni ddylid cynnwys cysylltiadau lle mai dim ond gwybodaeth a ddarparwyd gan nad yw'r rhain yn bodloni'r trothwy ar gyfer asesu.

Mae darparu cyngor a chynhorthwy yn golygu bod **angen cwblhau asesiad** (Cod Ymarfer **Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion), para. 20). Mae angen i'r broses asesu ddod i ben cyn i ganlyniad yr asesiad fod yn hysbys. Mae hyn yn golygu, os yw'r asesiad yn fwy cynhwysfawr, mai casgliad y 'broses' asesu fydd yn pennu'r canlyniad, ni waeth sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu gwasanaeth IAA.

**Mae'r metrig hwn yn wahanol i CH/002** yn y data a gesglir. Os ceisiwn gasglu data asesu ar gysylltiadau a dderbyniwyd yn y flwyddyn honno, oherwydd yr amser sydd ei angen i gynnal asesiadau, yn enwedig pan fydd yr asesiad yn fanwl neu'n gynhwysfawr, bydd cyfran o asesiadau yn disgyn y tu allan i'r flwyddyn gasglu o gyfnod sylweddol o amser. Mae'r metrig hwn yn cyfrif **unrhyw asesiad newydd a gwblhawyd yn y flwyddyn gasglu, waeth pryd y derbyniwyd y cyswllt.** Mae hyn yn rhoi darlun gwell o gyfanswm nifer yr asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r ddogfen Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, **cyfrol 5** (Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg), **para. 74** yn nodi: *"Bydd y broses asesu a nodir dan Ran 3 yn gymwys pan fo amheuaeth bod plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio. Dylai'r asesiad ddechrau o'r adeg pan atgyfeirir yr awdurdod lleol er mwyn adnabod yr holl anghenion am ofal a chymorth gan gynnwys y rhai i amddiffyn plentyn. Gall yr asesiad fod yn barhaus gydol y broses dan adran 47 Deddf Plant 1989 a rhaid ei gwblhau **o fewn 42 diwrnod gwaith***

Ar gyfer plant, yr awdurdod lleol cyfrifol yw'r awdurdod lleol sy'n diwallu anghenion y plentyn (e.e. llety) neu'r awdurdod lle'r oeddent yn preswylio fel arfer cyn mynd i'r ystad ddiogel.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr **holl** asesiadau a **gwblhawyd yn yr ystad ddiogel** yn ystod y flwyddyn gasglu. **Data sylfaen = CH/006**
2. **Diffinnir yr ystad ddiogel** yng **Nghod Ymarfer Rhan 11** (Amrywiol a Chyffredinol) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
3. Gall asesiad **gynnwys asesiadau mwy cynhwysfawr** a all ymgorffori asesiadau arbenigol a gynhelir gan weithwyr proffesiynol ar wahân i'r ymarferydd arweiniol.
4. Ystyrir bod asesiad wedi'i gwblhau, pan fydd wedi'i **awdurdodi gan reolwr practis** neu berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.
5. Dylech gynnwys pob asesiad **waeth beth fo canlyniad** yr asesiad.

6. Dylech gynnwys asesiadau a gwblhawyd **o ganlyniad i bryderon diogelu.**

**Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys asesiadau o blant **heb eu geni** y mae eu mam yn yr ystad ddiogel.
2. Peidiwch â chynnwys asesiadau **na chafodd eu cynnal yn yr ystad ddiogel.**
3. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **os nad ystyriwyd y pum elfen asesu**, neu os na chynhaliwyd sgwrs "**beth sy'n bwysig**".
4. Peidiwch â chynnwys asesiadau a gwblhawyd **y tu allan i'r flwyddyn gasglu**.
5. Peidiwch â chynnwys unrhyw asesiadau **nad ydynt wedi'u cynnwys yn CH/006**.
6. Peidiwch â chynnwys **ailasesiadau** o blant **sydd eisoes â chynllun gofal a chymorth** ar adeg yr asesiad.
7. Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu **proses asesu aml-gam** sy'n defnyddio mwy nag un ffurflen ar gyfer y broses asesu. Peidiwch â chyfrif y rhain yn unigol. Cyfrwch y broses yn ei chyfanrwydd unwaith yn unig.
8. Peidiwch â chynnwys **Oedolion (unigolion 18 mlwydd oed neu hŷn)** yn y metrig hwn.
9. Peidiwch â chynnwys asesiadau a oedd yn **anghyflawn** (gweler 6.3 uchod).
10. Peidiwch â chynnwys asesiadau **a gofnodwyd drwy gamgymeriad.**

**Cyfeirnod Mesur: CH/011**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle:

a. Roedd cosb gorfforol gan riant neu ofalwr yn un o sawl ffactor.
b. Cosb gorfforol gan riant neu ofalwr oedd yr unig ffactor.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am effaith y newid polisi yn Neddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru). Mae dileu'r amddiffyniad cosb resymol yn rhan o strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb. Nod y ddeddfwriaeth yw helpu i ddiogelu hawliau plant drwy wahardd rhieni a'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis (yn gweithredu fel rhiant) yng Nghymru, gan gynnwys ymwelwyr â Chymru, rhag cosbi plant yn gorfforol. Drwy wneud hynny, mae gan blant yng Nghymru yr un amddiffyniad cyfreithiol rhag cosb gorfforol ag sydd gan oedolion.

Mae dileu'r amddiffyniad cosb resymol yn arbennig o berthnasol i wasanaethau cymdeithasol plant, lle y gallai'r Ddeddf gael effaith ar adnoddau. Mae Llywodraeth Cymru wedi casglu data sylfaenol ar gyfer cysylltiadau sydd â chosb gorfforol yn

erbyn plentyn gan riant neu ofalwr cyn gweithredu'r Ddeddf a bydd yn parhau i gasglu'r wybodaeth hon i fonitro unrhyw newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad i'w chyflwyno.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CH/006***

Cyfrwch **bob** asesiad a **gwblhawyd** gan wasanaethau statudol i blant yn ystod y flwyddyn (CH/006) pan fo cosb gorfforol gan riant neu ofalwr yn un o sawl ffactor, neu pan mai cosb gorfforol gan riant neu ofalwr yw'r unig ffactor (rhan a). Felly, bydd yr **holl** gysylltiadau sy'n cael eu cyfrif yn rhan b hefyd yn cael eu cyfrif yn rhan a.

Mae cosb gorfforol yn y cyd-destun hwn yn golygu unrhyw achos o guro plentyn a gyflawnir fel cosb.

Diddymwyd yr amddiffyniad cosb resymol yng Nghymru o fis Mawrth 2022. **Ni all neb** ddibynnu arno, hyd yn oed ar gyfer troseddau ymosodiad cyffredin a churo. Mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at gynnydd yn yr achosion o gosbi plant yn gorfforol gan rieni (neu in loco parentis) a adroddir i wasanaethau plant. Dechreuodd Llywodraeth Cymru gasglu'r mesur hwn fel data sylfaenol cyn i'r gyfraith ddod i rym, ac mae'n parhau i gasglu data at ddibenion monitro.

Cyn mis Mawrth 2022, roedd yr amddiffyniad cosb resymol ar gael i rieni, neu i oedolion sy'n gweithredu in loco parentis, a oedd yn cosbi eu plentyn yn gorfforol, fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiad o ymosod cyffredin a churo. Roedd cyfyngiadau eisoes ar y defnydd y gellid ei wneud o'r amddiffyniad, fel na ellid ei ddefnyddio ar gyfer troseddau o niwed corfforol gwirioneddol, clwyfo, achosi niwed corfforol difrifol neu greulondeb tuag at bobl dan 16 oed (o dan **Adran 58 o [Ddeddf Plant 2004](Ddeddf Plant 2004)**).

**Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng cosb gorfforol ac ymyriad corfforol sy'n angenrheidiol i gadw plentyn yn ddiogel rhag niwed, neu i wneud gweithgareddau o ddydd i ddydd.** Gallai ymyriadau o'r fath gynnwys atal plentyn yn gorfforol rhag rhedeg i mewn i ffordd brysur, yn hytrach na chosbi'r plentyn yn gorfforol ar ôl rhedeg i mewn i ffordd. O dan y gyfraith newydd, bydd ymyriadau corfforol sy'n angenrheidiol i gadw plentyn yn ddiogel yn parhau i gael eu caniatáu; hyd yn oed yng nghyd-destun dau oedolyn, ni fyddai'r ymyriadau hyn o reidrwydd yn cael eu caniatáu.

Gall enghreifftiau eraill gynnwys defnyddio grym rhesymol i wisgo plentyn, golchi plentyn neu frwsio dannedd plentyn. Bydd ymyriadau eraill a all fod yn angenrheidiol yn dod o dan awdurdod rhieni, lle, er enghraifft, efallai y bydd angen cario neu arwain plentyn i ardal amser allan fel mecanwaith i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol heb orfod cosbi'n gorfforol.

Bydd angen i'r gweithiwr proffesiynol sy'n asesu plentyn benderfynu a yw unrhyw ymyriad corfforol a ddarganfyddir (neu a adroddir) yn ystod y broses asesu yn ***gosb***, neu'n ymyriad sydd naill ai wedi'i ysgogi fel **gweithred i gadw'r plentyn yn ddiogel rhag niwed** neu fel cam angenrheidiol i hybu ymddygiad da ***heb* ddefnyddio cosb**

**gorfforol.** Os nad cosb yw ymyriad corfforol, rhaid iddo barhau i fod yn rhesymol a chymedrol.

Os yw'r ymyriad yn cael ei ddosbarthu fel cam a fwriadwyd i gosbi'r plentyn, neu os nad yw ymyriad corfforol yn gymesur ag arfer awdurdod rhieni, neu os nad oes tystiolaeth nad oedd gan yr ymyriad unrhyw rinweddau o ran cadw plentyn yn ddiogel rhag niwed, dylid ei gofnodi yn y metrig hwn.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr **holl** asesiadau a **gwblhawyd** yn y flwyddyn gasglu pan oedd cosb gorfforol gan riant neu ofalwr yn ffactor, neu pan mai cosb gorfforol gan riant neu ofalwr oedd yr unig ffactor (yn dibynnu ar yr is-gategori yr ydych yn cyfrif ar ei gyfer). **Data sylfaen = CH/006**
2. Cyfrwch **bob** asesiad a gwblhawyd rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu **ar gyfer unrhyw blentyn nad oedd yn gofal a chymorth ar adeg yr asesiad.**
3. Os yw'r asesiad yn ystyried **nifer o blant, dylai pob plentyn a ystyrir gael ei gyfrif yn un sydd wedi cael asesiad.**
4. Dylech gynnwys **pob** asesiad ar gyfer plant yn y cyfrif hwn (CH/006).
5. Gall plentyn gael **mwy nag un** asesiad yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrwch y rhain i gyd

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant a oedd yn **cael gofal a chymorth** ar adeg yr asesiad.
2. Peidiwch â chynnwys asesiadau lle **nad oes honiad na thystiolaeth** fod cosb gorfforol wedi digwydd.
3. Peidiwch â chyfrif asesiadau lle'r oedd **angen ymyriad corfforol i gadw'r plentyn yn ddiogel rhag niwed.**
4. Peidiwch â chynnwys asesiadau sydd **y tu allan** i'r data a gesglir yn CH/006.
5. Peidiwch â chynnwys asesiadau sydd wedi'u **cofnodi drwy gamgymeriad** (hy dyblygion, y math anghywir o atgyfeiriad wedi'i ddefnyddio yn y system).

**Cyfeirnod Mesur: CH/012**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am nifer yr asesiadau **newydd** a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol.

Mae casglu data am yr unigolion hynny sy'n dod i sylw'r gwasanaethau cymdeithasol i gael eu hasesu yn agwedd bwysig ar fesur cyfanswm, llif a galw ar ddechrau'r broses gofal cymdeithasol statudol. Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r metrig hwn i asesu eu gallu i ymateb yn briodol i gysylltiadau.

**Nid yw'n cynnwys ailasesiadau** o blant sydd eisoes â chynllun gofal a chymorth. Bwriad y metrig yw nodi'r llif a'r galw i mewn i'r system.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cydymffurfiaeth â'r gofynion a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CH/006***

Mae Cod Ymarfer **Rhan 3** (Asesu Anghenion Unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 78** yn nodi:

*"Mae'r ymateb gan awdurdod lleol i gyswllt cychwynnol neu atgyfeiriad sy'n gofyn am gymorth yn hollbwysig. Mae'n bwysig hefyd bod gan bob awdurdod lleol strwythurau a systemau ar waith i sicrhau ymateb effeithiol, hygyrch a chyflym i blant a theuluoedd. Mae ymateb yn amserol i anghenion plentyn yn golygu bod y broses o*

*asesu barhau heb gael ei gwirio dros gyfnod hir heb wneud dadansoddiad o'r hyn sy'n digwydd a pha gamau sydd eu hangen, pa mor anodd neu gymhleth bynnag yw amgylchiadau'r plentyn.* ***Yr amserlen ar gyfer cwblhau'r asesiad yw uchafswm o 42 diwrnod gwaith o'r pwynt atgyfeirio."***

Rhaid i asesiad fod yn gymesur â'r anghenion a'r amgylchiadau ond dylai gynnwys y canlynol o leiaf:

- Rhaid cofnodi Gwybodaeth Bersonol (data craidd) am yr unigolyn (lle bo'n hysbys).
- Rhaid bod y pum elfen asesu wedi'u hystyried.
- Rhaid bod "sgwrs beth sy'n bwysig" wedi'i chynnal.

Dylai'r metrig hwn **gynnwys yr holl asesiadau** a gwblhawyd ar blentyn yn ystod y flwyddyn gasglu.

Ar gyfer adroddiadau diogelu, mae'r ddogfen Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, **cyfrol 5** (Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg), **para. 74** yn nodi:

*"Bydd y broses asesu a nodir dan Ran 3 yn gymwys pan fo amheuaeth bod plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio. Dylai'r asesiad ddechrau o'r adeg pan atgyfeirir yr awdurdod lleol er mwyn adnabod yr holl anghenion am ofal a chymorth gan gynnwys y rhai i amddiffyn plentyn. Gall yr*

*asesiad fod yn barhaus gydol y broses dan adran 47 Deddf Plant 1989 a rhaid ei gwblhau **o fewn 42 diwrnod gwaith***

**Os bydd plentyn yn cael asesiad drwy'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy, a bod angen asesiad mwy cynhwysfawr, dylid cyfrif hyn fel un asesiad.**

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr **holl** asesiadau a **gwblhawyd o fewn 42 diwrnod gwaith** yn ystod y flwyddyn gasglu. **Data sylfaen = CH/006**
2. Gall asesiad **gynnwys asesiadau mwy cynhwysfawr** a all gynnwys asesiadau arbenigol a gynhelir gan weithwyr proffesiynol ar wahân i'r ymarferydd arweiniol os rhoddwyd cyngor neu gymorth a bod asesiad mwy cynhwysfawr wedi'i gwblhau wedi hynny. **Cyfrwch hyn unwaith yn unig.**
3. Os cynhelir asesiad a'i gofnodi ar sail teulu, **rhaid i bob plentyn a ystyrir yn yr asesiad hwnnw gael ei gyfrif fel un sydd wedi cael asesiad.**
4. Gall dyddiad dechrau'r asesiad fod yn y **flwyddyn gasglu flaenorol.** Dylech gynnwys y rhain os cafodd ei gwblhau yn y flwyddyn gasglu **bresennol.**
5. Ystyrir bod asesiad wedi'i gwblhau, pan fydd wedi'i **awdurdodi gan reolwr practis** neu berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.
6. Cyfrwch ddyddiad dechrau'r asesiad fel **diwrnod sero**. Dylech gynnwys **dyddiad cwblhau** eich asesiad **fel diwrnod** wrth gyfrifo'r amser a gymerir i gwblhau'r asesiad.
7. Dylech gynnwys pob asesiad cyfrannol **waeth beth fo canlyniad** yr asesiad.
8. Dylech gynnwys asesiadau a gwblhawyd **o ganlyniad i bryderon diogelu.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys asesiadau **nad ydynt yn CH/006.**
2. Peidiwch â chynnwys asesiadau a gwblhawyd **y tu allan i'r flwyddyn gasglu**.
3. Peidiwch â chynnwys **ailasesiadau** o blant **sydd eisoes â chynllun gofal a chymorth** ar adeg yr asesiad.
4. Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu **proses asesu aml-gam** sy'n defnyddio mwy nag un ffurflen ar gyfer y broses asesu. Peidiwch â chyfrif y rhain yn unigol. Cyfrwch y broses yn ei chyfanrwydd **unwaith yn unig**.
5. Peidiwch â chynnwys **oedolion (unigolion 18 mlwydd oed neu hŷn)** yn y metrig hwn.
6. Peidiwch â chynnwys asesiadau a oedd yn **anghyflawn** (gweler 6.3 uchod).
7. Peidiwch â chynnwys asesiadau **a gofnodwyd drwy gamgymeriad.**

**Cyfeirnod Mesur: CH/013**

**Enw’r Mesur:** Nifer yr asesiadau newydd y gofynnodd y plentyn neu'r teulu amdanynt yn ystod y flwyddyn lle'r oedd asesiad blaenorol wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol.

## Bwriad y Mesur

Mae'r metrig wedi'i lunio i gasglu gwybodaeth am nifer y plant sy'n dychwelyd i'r gwasanaethau cymdeithasol ac yn gofyn i'w hanghenion gael eu hasesu eto (ar gais ganddyn nhw eu hunain, neu gan aelod o’u teulu).

Gall awdurdodau lleol ddefnyddio gwybodaeth am blant a theuluoedd sy'n gofyn am ailasesiad o'u hanghenion i bennu'r prif ffactorau ar gyfer ailgyflwyno. Bydd yr wybodaeth hon yn caniatáu i awdurdodau lleol gynllunio'r gwaith o ddatblygu, gwella a/neu gomisiynu gwasanaethau a allai wella'r cymorth ymyrraeth gynnar ac atal sydd ar gael i unigolion fel y gellir diwallu anghenion heb yr angen am ofal a chymorth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro nifer yr asesiadau a ailgynhelir yng Nghymru.

## Diffiniad

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CH/006.***

Mae Cod Ymarfer **Rhan 3** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 98** yn nodi: “*Mae gan yr unigolyn yr hawl i ofyn am ail-asesiad o'i anghenion ar unrhyw adeg.*

*Rhaid i broses ffurfiol ar gyfer gwneud y cais hwn gael ei datblygu, ei chyhoeddi a'i chyfleu'n glir gan yr awdurdod lleol.”*

Mae'r metrig hwn yn ceisio casglu gwybodaeth i blant sydd heb gynllun gofal a chymorth ar adeg yr asesiad diweddaraf, ond sydd wedi'u hasesu'n flaenorol yn ystod y 12 mis diwethaf ac wedi gofyn i'w hanghenion gael eu hailasesu.

Er mwyn helpu i ddeall hyn, datblygwyd y disgrifiadau canlynol:

**Asesiad newydd** – asesiad a gynhelir ar berson sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol (neu gynllun cymorth os yw'r cais am gymorth fel gofalwr) ar adeg yr asesiad.

**Ailasesiad** – byddai hyn yn digwydd pan fo newid sylweddol mewn amgylchiadau i berson sydd eisoes yn cael gofal a chymorth (neu gymorth fel gofalwr) sy'n gorfodi'r ALl i adolygu'r asesiad (Cod Ymarfer Rhan 3, para. 92-100). Nid yw adolygu asesiad yr un fath ag adolygu cynllun gofal a chymorth.

**Asesiad a ailgynhelir** – mae hwn yn digwydd pan fydd person sydd wedi'i asesu ac nad oes ganddo anghenion cymwys yn arfer ei hawliau i ofyn am ail asesiad o'i anghenion. Fe'i diffinnir fel ailasesiad yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ond at ddibenion casglu, mae wedi'i enwi'n wahanol i'w

gwahaniaethu oddi wrth ailasesiadau o unigolion sydd eisoes yn derbyn gofal a chymorth. Gellir ystyried ailadrodd asesiad fel apêl, lle bo'r unigolyn yn anghytuno â chanlyniad yr asesiad gwreiddiol. Yn yr achos hwn, nid yw eu hamgylchiadau wedi newid. Byddai newid mewn amgylchiadau yn galw am asesiad newydd, yn hytrach nag ailasesiad neu asesiad a ailgynhelir.

**Mae'r metrig hwn yn cyfrif asesiadau a ailgynhaliwyd ar gyfer plant (plant sy'n cael eu hasesu yn ystod y flwyddyn lle bodlonir y meini prawf canlynol):**

- **Nid oes** gan y plentyn gynllun gofal a chymorth (na chynllun cymorth fel gofalwr) ar adeg yr asesiad.
- Mae asesiad cyfrannol blaenorol wedi'i gynnal gan y gwasanaethau cymdeithasol yn y 12 mis cyn **dechrau'r** asesiad diweddaraf.
- **Gofynnodd y plentyn neu aelod o'r teulu** am yr asesiad.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch **asesiad eildro** (y gofynnir amdano gan y plentyn, y person ifanc neu aelod o'i deulu) ar gyfer plant a gynhelir yn y flwyddyn gasglu lle mae **asesiad blaenorol** wedi'i gynnal yn ystod y **12 mis blaenorol ar ôl dechrau'r asesiad diweddaraf. Data sylfaen = CH/006.**
2. Dylech gynnwys **pob** asesiad a ailgynhaliwyd, waeth beth oedd y rheswm pam yr ymgyflwynodd yr unigolyn yn wreiddiol.
3. Dim ond asesiadau y bernir eu bod yn **asesiadau eildro**y dylid eu cynnwys.
4. Dim ond asesiadau **y gofynnwyd amdanynt gan y plentyn neu aelod o'i deulu** y dylid eu cynnwys.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys asesiadau lle mae amgylchiadau'r unigolion **wedi newid.**
2. Peidiwch â chynnwys asesiadau **nad ydynt yn CH/006.**
3. Peidiwch â chynnwys asesiadau y **gofynnwyd amdanynt gan rywun heblaw'r** plentyn neu aelod o'i deulu.
4. Peidiwch â chynnwys asesiadau **lle'r oedd gan y plentyn gynllun gofal a chymorth (neu gynllun cymorth os yw'n ofalwr**) ar adeg yr asesiad.
5. Peidiwch â chynnwys asesiadau lle cafodd yr asesiad blaenorol ei gynnal **>12 mis** cyn dechrau'r asesiad diweddaraf.
6. Peidiwch â chynnwys asesiadau lle'r oedd y plentyn yn cael gofal a chymorth o fewn y 12 mis cyn yr asesiad diweddaraf, **ond roedd yr asesiad blaenorol wedi'i gynnal 12 mis yn gynharach na dyddiad yr asesiad diwethaf**.

**Cyfeirnod Mesur: CH/014**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr asesiadau newydd y gofynnwyd amdanynt gan y plentyn neu'r teulu yn ystod y flwyddyn a bod asesiad blaenorol wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol:

a. Dim ond gyda chynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.
b. Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.
c. Lle nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i lunio i gasglu gwybodaeth am ganlyniadau'r plant sy'n dychwelyd i'r gwasanaethau cymdeithasol ac yn gofyn i'w hanghenion gael eu hasesu eto (ar gais ganddyn nhw eu hunain, neu gan aelod o'u teulu).

Gall awdurdodau lleol ddefnyddio gwybodaeth am blant a theuluoedd sy'n gofyn am ailasesiad o'u hanghenion i bennu'r prif ffactorau ar gyfer ailgyflwyno. Bydd yr wybodaeth hon yn caniatáu i awdurdodau lleol gynllunio'r gwaith o ddatblygu, gwella a/neu gomisiynu gwasanaethau a allai wella'r cymorth ymyrraeth gynnar ac atal sydd ar gael i unigolion fel y gellir diwallu anghenion heb yr angen am ofal a chymorth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro nifer yr asesiadau a ailgynhelir yng Nghymru.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CH/013.***

Mae Cod Ymarfer **Rhan 3** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 98** yn nodi:

"*Mae gan yr unigolyn yr hawl i ofyn am ail-asesiad o'i anghenion ar unrhyw adeg.*

*Rhaid i broses ffurfiol ar gyfer gwneud y cais hwn gael ei datblygu, ei chyhoeddi a'i chyfleu'n glir gan yr awdurdod lleol."*

Mae'r metrig hwn yn ceisio casglu gwybodaeth i blant sydd heb gynllun gofal a chymorth ar adeg yr asesiad diweddaraf, ond sydd wedi'u hasesu'n flaenorol yn ystod y 12 mis diwethaf ac wedi gofyn i'w hanghenion gael eu hailasesu.

Er mwyn helpu i ddeall hyn, datblygwyd y disgrifiadau canlynol:

**Asesiad newydd** – asesiad a gynhelir ar berson sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol (neu gynllun cymorth os yw'r cais am gymorth fel gofalwr) ar adeg yr asesiad.

**Ailasesiad** – byddai hyn yn digwydd pan fo newid sylweddol mewn amgylchiadau i berson sydd eisoes yn cael gofal a chymorth (neu gymorth fel gofalwr) sy'n gorfodi'r

ALI i adolygu'r asesiad (Cod Ymarfer Rhan 3, para. 92-100). Nid yw adolygu asesiad yr un fath ag adolygu cynllun gofal a chymorth.

**Asesiad a ailgynhelir** – mae hwn yn digwydd pan fydd person sydd wedi'i asesu ac nad oes ganddo anghenion cymwys yn arfer ei hawliau i ofyn am ail asesiad o'i anghenion. Fe'i diffinnir fel ailasesiad yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ond at ddibenion casglu, mae wedi'i enwi'n wahanol i'w gwahaniaethu oddi wrth ailasesiadau o unigolion sydd eisoes yn derbyn gofal a chymorth. Gellir ystyried ailadrodd asesiad fel apêl, lle bo'r unigolyn yn anghytuno â chanlyniad yr asesiad gwreiddiol. Yn yr achos hwn, nid yw eu hamgylchiadau wedi newid. Byddai newid mewn amgylchiadau yn galw am asesiad newydd, yn hytrach nag ailasesiad neu asesiad a ailgynhelir.

**Mae'r metrig hwn yn cyfrif deilliannau ar gyfer asesiadau a ailgynhaliwyd ar gyfer plant (plant sy'n cael eu hasesu yn ystod y flwyddyn lle bodlonir y meini prawf canlynol):**

- **Nid oes** gan y plentyn gynllun gofal a chymorth (na chynllun cymorth fel gofalwr) ar adeg yr asesiad.
- Mae asesiad blaenorol wedi'i gynnal gan y gwasanaethau cymdeithasol yn y 12 mis cyn **dechrau'r** asesiad diweddaraf.
- **Gofynnodd y plentyn neu aelod o'r teulu** am yr asesiad.

At ddibenion y metrig hwn, dylid mapio'r wyth canlyniad asesu a gynhwysir yn yr offeryn asesu a chymhwysedd cenedlaethol i'r is-gategori priodol fel a ganlyn:

Canlyniadau'r Gofyniad Asesu Cyffredin

1. Nid oes angen diwallu unrhyw anghenion gofal a chymorth.

*Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i fodloni*

2. Mae angen asesiad mwy cynhwysfawr, a all gynnwys asesiadau mwy arbenigol.

*Amherthnasol – Dylid cyfrif y broses asesu yn ei chyfanrwydd. Os oes angen asesiad mwy cynhwysfawr, mae hyn yn rhan o'r broses asesu gyffredinol lle gellir cynnwys asesiadau arbenigol*.

3. Gellir diwallu anghenion drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy.

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

4. Gellir diwallu anghenion, drwy ddarparu gwasanaethau ataliol.

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

5. Gall anghenion gael eu diwallu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan yr unigolion eu hunain (gyda chymorth pobl eraill neu hebddynt).

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

6. Gall materion eraill gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau personol, neu fel arall ddiwallu'r anghenion.

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

7. Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth, y gall anghenion gael eu diwallu (**mae anghenion yn gymwys**).

*Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.*

8. Mae'r awdurdod lleol o'r farn bod angen diwallu'r anghenion er mwyn amddiffyn y person rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu rhag y risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu yn achos plentyn, rhag niwed arall neu rhag y risg o niwed.

   *Dylai'r asesiad ddechrau ar adeg yr atgyfeiriad a phara drwy gydol y broses ddiogelu (**Cod Ymarfer Rhan 7, paragraff 74**). Dewiswch yr opsiwn priodol ar ôl i'r asesiad hwn ddod i ben.*

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl** asesiadau a **gwblhawyd** yn ystod y flwyddyn gasglu y **gofynnwyd amdanynt gan y plentyn, y person ifanc neu aelod o'u teulu. Data Sylfaen = CH/013.**
2. Gall asesiad **gynnwys asesiadau manwl neu gynhwysfawr** a all ymgorffori asesiadau arbenigol a gynhelir gan weithwyr proffesiynol ar wahân i'r ymarferydd arweiniol.
3. Os cynhelir asesiad a'i gofnodi ar sail teulu, **rhaid i bob plentyn a ystyrir yn yr asesiad hwnnw gael ei gyfrif fel un sydd wedi cael asesiad.**
4. Ystyrir bod asesiad wedi'i gwblhau, pan fydd wedi'i **awdurdodi gan reolwr practis** neu berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.
5. Dylech gynnwys pob asesiad **waeth beth fo canlyniad** yr asesiad.
6. Dylech gynnwys asesiadau a gwblhawyd **o ganlyniad i bryderon diogelu.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys asesiadau **nad ydynt wedi'u cynnwys yn CH/013**.
2. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **os nad ystyriwyd y pum elfen asesu**, neu os na chynhaliwyd sgwrs "**beth sy'n bwysig**".
3. Peidiwch â chynnwys asesiadau a gwblhawyd **y tu allan i'r flwyddyn gasglu**.
4. Peidiwch â chynnwys **ailasesiadau** o blant **sydd eisoes â chynllun gofal a chymorth** ar adeg yr asesiad.
5. Peidiwch â chynnwys asesiadau **y gofynnwyd amdanynt ond na chawsant eu cynnal.**

6. Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu **proses asesu aml-gam** sy'n defnyddio mwy nag un ffurflen ar gyfer y broses asesu. Peidiwch â chyfrif y rhain yn unigol. Cyfrwch y broses yn ei chyfanrwydd unwaith yn unig.
7. Peidiwch â chynnwys **oedolion (unigolion 18 mlwydd oed neu hŷn)** yn y metrig hwn.
8. Peidiwch â chynnwys asesiadau a oedd yn **anghyflawn** (gweler 6.3 uchod).
9. Peidiwch â chynnwys asesiadau **a gofnodwyd drwy gamgymeriad.**

## Cynlluniau Gofal a Chymorth i Blant

**Cyfeirnod Mesur: CH/015**

**Enw'r Mesur:**

Nifer y plant gyda:

a. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth.
b. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth a chynllun cymorth i ofalwyr hefyd, lle mae gan y plentyn ei anghenion gofal a chymorth ei hun a chyfrifoldebau fel gofalwr ifanc

**Bwriad y Mesur**

Mae deall nifer y plant sydd angen gofal a chymorth yn agwedd bwysig ar gynllunio gofal yn llwyddiannus, rheoli achosion a chynllunio'r gweithlu ar gyfer awdurdodau lleol.

Mae nifer y plant sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r galw. Dylai awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth fanylach am ofal a chymorth er mwyn deall yn well rai o'r gofynion a osodir ar eu dyletswyddau a'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i gasglu gwybodaeth am yr angen am ofal a chymorth i blant yng Nghymru ac yn defnyddio'r wybodaeth hon ar y cyd â data arall i bennu beth yw lles cyffredinol y genedl.

**Diffiniad**

Mae **Adran 54** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer person y mae'n ofynnol i'r awdurdod ddiwallu ei anghenion.

Mae Rhan 4 o'r Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion), **para 84**, t16 yn nodi bod yn rhaid i'r cynllun gofal a chymorth gynnwys y canlynol o leiaf:

- *"Y canlyniadau sydd wedi'u nodi mewn perthynas â'r person y mae'r cynllun yn berthnasol iddo*
- *Y camau i'w cymryd gan yr awdurdod lleol a phobl eraill i helpu'r person i gyflawni'r canlyniadau hynny*
- *Yr anghenion a ddiwellir trwy ddarparu gofal a chymorth*
- *Sut y bydd cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau hynny yn cael eu monitor a'u mesur*
- *Dyddiad yr adolygiad nesaf o'r cynllun gofal."*

Yn ogystal â gofynion rhan 4, mae **para. 61** o God Ymarfer **Rhan 6** (Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) yn amlinellu gofynion penodol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal:

*"Dylai cynllun gofal a chymorth Rhan 6 adeiladu ar ofynion y cynllun gofal a chymorth o dan Ran 4 y Ddeddf, a:*

- *disgrifio anghenion datblygu a nodwyd y plentyn a'r gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny, gan gynnwys gwasanaethau sydd i'w darparu i aelodau'r teulu*
- *disgrifio pam y dewiswyd math penodol o leoliad*
- *cynnwys canlyniadau penodol, cyraeddadwy sy'n canolbwyntio ar y plentyn gyda'r bwriad o ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn a nodi sut y mesurir cynnydd*
- *cynnwys strategaethau realistig a chamau gweithredu penodol i sicrhau'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau a gynlluniwyd*
- *nodi'n glir reolau a chyfrifoldebau aelodau'r teulu, gofalwyr ac ymarferwyr y plentyn (gan gynnwys, er enghraifft, meddyg teulu, nyrs a pherson dynodedig mewn ysgolion), ac amlder cyswllt yr ymarferwyr hynny gyda'r plentyn, y gofalwyr a/neu aelodau'r teulu*
- *disgrifio'r trefniadau adolygu os nad yw'r cynllun gofal a chymorth arfaethedig ar gyfer y plentyn yn gyraeddadwy, er mwyn lleihau oedi"*

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau cynllunio gofal lleoliadau ac adolygu achosion yn nodi bod yn rhaid i gynllun gofal a chymorth Rhan 6 nodi:

- *Yr wybodaeth am y cynllun hirdymor ar gyfer y plentyn, gan gynnwys amserlenni (yr opsiwn sefydlogrwydd 2, 3)*
- *Y trefniadau i ddiwallu anghenion lles ac anghenion datblygu'r plentyn;*
- *Trefniadau ar gyfer cyswllt gyda brawd neu chwaer neu lysfrawd neu lyschwaer sydd hefyd yn derbyn gofal ond heb ei leoli gyda'r plentyn*
- *Manylion unrhyw orchmynion llys a wnaed dan adran 8 neu adran 34 Deddf Plant 1989*
- *Trefniadau ar gyfer hyrwyddo a chynnal cyswllt gyda rhiant ac unrhyw un arall sydd â chyfrifoldeb rhiant*
- *Manylion y lleoliad a pham y dewiswyd y lleoliad, oni bai fod y plentyn mewn gofal a heb lety gan yr awdurdod lleol*

- *Enw Swyddog Adolygu Annibynnol y plentyn*
- *Manylion y cynllun iechyd a'r cynllun addysg personol (PEP)*
- *Dymuniadau a theimladau pobl berthnasol am y trefniadau ar gyfer y plentyn*
- *Dymuniadau a theimladau'r bobl hyn am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cynllun gofal a chymorth*

Mae **paragraff 82** o **Ran 4** y Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion) hefyd yn nodi: "***Rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt systemau technoleg gwybodaeth i gefnogi'r broses cynllunio gofal i sicrhau bod y cynllun gofal yn cael ei gofnodi'n electronig."*

Dylech gyfrif yr **holl gynlluniau gofala chymorth gweithredol** ar gyfer **plant ar 31 Mawrth** y flwyddyn gasglu **(rhan a)**. Mewn amgylchiadau achlysurol, mae gan berson sydd â chynllun gofal a chymorth anghenion fel gofalwr hefyd; efallai y bydd yn gofalu am riant, neu frawd neu chwaer anabl er enghraifft (**rhan b)**. hy byddai'r plant hynny yn rhan b yn gymwys i gael cynllun cymorth gofalwr os nad oedd ganddynt eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain.

Efallai y bydd gan rai awdurdodau lleol un cynllun integredig lle mae anghenion gofal unigolyn ei hun, a'u hanghenion cymorth fel gofalwr, yn cael eu cynnwys mewn un cynllun. Yn y sefyllfaoedd hyn, dylech gynnwys yr unigolyn dan **ran a a rhan b.**

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl gynlluniau gofal a chymorth gweithredol ar gyfer pobl ifanc** ar **31 Mawrth** y flwyddyn gasglu.
2. Rhaid i gynllun gofal a chymorth fod wedi'i awdurdodi neu ei gymeradwyo gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw i gael ei ystyried yn 'weithredol'. Felly, peidiwch â chynnwys cynlluniau TAF (Tîm o Amgylch y Teulu), SGO (Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig) ac OT (Therapi Galwedigaethol) yn unig.
3. Dylech gynnwys cynlluniau sy'n cael eu llunio mewn perthynas â **Rhan 4** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ogystal â chynlluniau sy'n cael eu llunio mewn perthynas â **Rhan 6** o'r Ddeddf.
4. Dylech gynnwys **cynlluniau amddiffyn plant** lle penderfynwyd bod plentyn wedi dioddef neu mewn perygl o ddioddef camdriniaeth, esgeulustod neu niwed mewn cynhadledd amddiffyn plant.
5. Dylech gynnwys **cynlluniau llwybr ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi gadael gofal awdurdod lleol** pan fo gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb o hyd i ddarparu cymorth.
6. Os nad yw plentyn bellach yn derbyn gofal, neu os oes ganddo gynllun llwybr, neu os oes ganddo gynllun gofal a chymorth, yna cyfrifwch unwaith yn unig.
7. Dylech gynnwys cynlluniau lle ceir cynlluniau sy'n gorgyffwrdd sydd wedi'u rhagnodi'n gyfreithiol neu'n genedlaethol a all hefyd ddiwallu'r angen am ofal a chymorth drwy un cynllun integredig. Er enghraifft, gellir ystyried **cynllun**

**adran 31a** a baratowyd o dan Ddeddf Plant 1989 fel y ffordd i'r awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a darparu cynllun gofal a chymorth dan ran 6 y Ddeddf.
8. Dylech gynnwys cynlluniau lle mae'r cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn ac anghenion y sawl sy'n gofalu amdanynt wedi cael eu **hystyried ar y cyd.**

**Os nad yw plentyn bellach yn derbyn gofal, mae ganddo gynllun llwybr, mae ganddo gynllun gofal a chymorth, yna cyfrifwch unwaith yn unig. Peidiwch â chyfrif cynlluniau llwybr A chynlluniau gofal a chymorth ar gyfer yr un plentyn.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys **cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion** lle nad oes anghenion gofal a chymorth ychwanegol ar gyfer yr unigolyn sy'n darparu gofal, neu os nad yw ei gynllun wedi'i gysylltu â chynllun gofal a chymorth ar gyfer person sydd angen gofal a chymorth.
2. Peidiwch â chynnwys **cynlluniau arbenigol nad ydynt yn diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn** (oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio i greu un cynllun gofal a chymorth sy'n diwallu anghenion yr unigolyn).
3. Peidiwch â chyfrif cynlluniau llwybr A chynlluniau gofal a chymorth ar gyfer yr un plentyn. Os oes gan blentyn y ddau, cyfrifwch unwaith yn unig.
4. Peidiwch â chynnwys plant sydd yn y destun asesiad ar hyn o bryd ond nad ydynt wedi cyrraedd canlyniad yr asesiad hwnnw eto.
5. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u **gwrthod.**
6. Peidiwch â chynnwys achosion lle rydych yn darparu **cymorth anffurfiol** (er enghraifft, gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy).
7. Peidiwch â chynnwys cynlluniau a luniwyd gan sefydliad a gomisiynwyd neu sefydliad trydydd parti lle mae'r awdurdod lleol wedi **cyfeirio'r** unigolyn at y gwasanaethau hynny drwy broses yr IAA ac nad oes gan yr awdurdod lleol unrhyw gyfrifoldebau diffiniedig i gydgysylltu nac adolygu gofal.
8. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u cofnodi mewn camgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/016**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y plant â chynllun gofal a chymorth lle y diwallir anghenion drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am nifer y plant ar ddiwedd y flwyddyn gasglu gyda chynllun gofal a chymorth sy'n cael ei gefnogi gan ddefnyddio taliad uniongyrchol.

Mae casglu data ar yr unigolion hynny'n bwysig ar gyfer cynllunio ariannol yn ogystal â deall sut y caiff unigolion eu grymuso i ddarparu'r mecanweithiau i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro sut y defnyddir taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plant ledled Cymru.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CH/015.***

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer **Rhan 4** (Codi ffioedd ac asesiadau ariannol), **para**. **35** yn nodi: *"Mae'r cyfeiriad yn y meini prawf cymhwysedd at yr awdurdod lleol yn paratoi cynllun gofal a chymorth, a sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu, yn cynnwys cynllun gofal a chymorth **y gellir ei hunanreoli drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol."***

Mae Cod Ymarfer **Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 128-129** yn nodi: *Symiau ariannol yw taliadau uniongyrchol sydd ar gael gan awdurdodau lleol i unigolion, neu eu cynrychiolydd, i'w galluogi i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth; yn achos cyfleuster a ddarperir ar-lein. Mae taliadau uniongyrchol yn fecanwaith pwysig i bobl allu arfer dewis, llais a rheolaeth i benderfynu sut i ddiwallu eu hanghenion am ofal a chymorth a chyflawni eu canlyniadau personol. O'r herwydd, mae taliadau uniongyrchol yn rhan annatod o ddiwallu anghenion pobl drwy gynllunio gofal a chymorth, ac ni ddylid eu hystyried yn ystyriaeth eilaidd ar wahân.*

*Mae taliadau uniongyrchol yn disodli gofal a chymorth a ddarperir yn uniongyrchol, neu a gomisiynir gan awdurdod lleol. **Gallant fod am y cyfan, neu ran, o anghenion gofal a chymorth unigolyn**, yn yr achos olaf, mae gweddill eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu mewn modd amgen.*

Mae **Adran 187(2)** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi: *na chaniateir i berson (plentyn/oedolyn) gael taliadau uniongyrchol tuag at y gost o ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth os yw wedi'i gollfarnu o drosedd ac yn cael ei gadw'n gaeth mewn carchar neu lety cadw ieuenctid, neu yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd.*

Cyfrwch yr **holl gynlluniau gofal a chymorth gweithredol ar gyfer** plant ar ddiwedd y flwyddyn gasglu (31 Mawrth) **lle gwneir taliad uniongyrchol i ddiwallu eu hanghenion.** Gall y taliad uniongyrchol gwmpasu'r **cyfan neu ran** o'u hanghenion.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr **holl** gynlluniau gofal a chymorth ar gyfer plant a oedd yn weithredol ar ddiwedd y flwyddyn gasglu (31 Mawrth) **lle defnyddir taliad uniongyrchol i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth cyfan neu ran ohonynt. Data sylfaen = CH/015**
2. Rhaid i gynllun gofal a chymorth fod wedi'i **awdurdodi neu ei gymeradwyo** gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw i gael ei ystyried yn '**weithredol**'.
3. Dylech gynnwys yr holl gynlluniau gofal a chymorth gweithredol lle gwneir taliad uniongyrchol, **waeth beth fo'r anghenion** y mae'r taliad uniongyrchol yn helpu i'w diwallu.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth **nad ydynt yn cael eu cefnogi gan daliad uniongyrchol.**
2. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth **nad ydynt yn weithredol** ar ddiwedd y flwyddyn gasglu.
3. Peidiwch â chynnwys unrhyw gynlluniau gofal a chymorth na chafodd eu cynnwys yn y data a gasglwyd yn **CH/015.**
4. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth a gofnodwyd mewn camgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/017**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth a darpariaethau cymorth ariannol a oedd i fod i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu a oedd yn:

a. adolygiadau amddiffyn plant
b. adolygiadau plant sy'n derbyn gofal (gan gynnwys adolygiadau cynllun llwybr ac adolygiadau cyn mabwysiadu)
c. adolygiadau o blant y mae angen gofal a chymorth arnynt (gan gynnwys plant a gefnogir gan daliad uniongyrchol)
d. adolygiadau o gymorth i blant sydd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig
e. adolygiadau o gymorth ariannol i blant sydd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 58** yn nodi:

*Mae adran 54 o'r Ddeddf yn nodi bod **rhaid** i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer person y mae angen diwallu ei anghenion. **Rhaid i'r cynlluniau gael eu hadolygu'n rheolaidd.** Os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod amgylchiadau person wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio ar y cynllun, rhaid iddo gynnal asesiadau o'r fath a diwygio'r cynllun yng ngoleuni'r asesiadau hynny. **Ni ddylai** cynllun gael ei gau heb adolygiad."*

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 88** yn nodi:

*"**Rhaid** i Gynlluniau Gofal a Chymorth gynnwys dyddiad clir, a gytunir gyda'r unigolyn a/neu ei deulu, ar gyfer adolygu'r cynllun, fodd bynnag: [...] yn achos oedolyn, rhaid i'r dyddiad adolygu fod o fewn 12 mis."*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cydymffurfiaeth genedlaethol yn erbyn gofynion y Ddeddf.

**Diffiniad**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 113** yn nodi:

"***Rhaid** i awdurdod lleol adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn deall a yw darpariaeth y gofal a'r cymorth hwnnw yn diwallu anghenion yr unigolyn ac ystyried a yw ei anghenion wedi newid ac a oes angen ailasesiad. **Rhaid** i'r dyddiad cytunedig ar gyfer adolygu'r cynllun fod wedi'i amlinellu yn y cynllun."*

**Mae para. 121** yn nodi:

*"Yn achos plentyn, **rhaid i'r dyddiad adolygu fod o fewn 6 mis [...]**."*

**Dylai'r gofynion ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth sy'n cynnwys taliad uniongyrchol y mae unigolyn yn ei ddefnyddio i reoli ei ofal a'i gymorth ei hun gael eu cynnwys yn y metrig hwn.**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 142** yn nodi:

*"**Rhaid** i awdurdod lleol adolygu'r trefniadau ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol a sut y maent yn cael eu defnyddio ar adegau a bennir gan yr awdurdod lleol yn unol â'r gofynion yn y cod hwn ar gyfer adolygu cynlluniau gofal a chymorth, ond yn sicr o fewn 6 mis i'r dyddiad y gwnaed y taliad cyntaf ac o fewn 12 mis i'r adolygiad cyntaf."*

**Ar gyfer plant y mae eu henwau ar y gofrestr amddiffyn plant:**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 7** (Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl), Cyfrol 5 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 174** yn nodi:

*"[...] Dylid cynnal y gynhadledd adolygu amddiffyn plant gyntaf* ***o fewn tri mis i'r gynhadledd gychwynnol a dylid cynnal adolygiadau pellach yn rheolaidd (o leiaf bob chwe mis)*** *i adlewyrchu natur yr achos tra bo'r plentyn yn aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac yn destun cynllun amddiffyn gofal a chymorth."*

**Ar gyfer plant sy'n derbyn gofal:**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 374-375** yn nodi:

*"Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol* ***gynnal adolygiad cyntaf o achos plentyn o fewn 20 diwrnod gwaith i'r dyddiad pan fydd plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal*** *(rheoliad 39 o'r Rheoliadau CPPCR).*

***Rhaid*** *cynnal yr ail adolygiad ddim mwy na thri mis o'r cyntaf.* ***Rhaid*** *cynnal adolygiadau dilynol ddim hwyrach na chwe mis ar ôl yr adolygiad blaenorol."*

**Ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal:**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 **para. 462-463** yn nodi:

*"Os yw person ifanc categori 2 o dan 18 oed sy'n gadael gofal yn symud i lety nas rheoleiddir (h.y. llety nad yw'n cael ei reoleiddio o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 na'i arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru), mae'n rhaid cynnal yr adolygiad cyntaf o'r cynllun llwybr****mor fuan ag sy'n ymarferol ar ôl 28 diwrnod****."*

Os yw pobl ifanc yn symud mewn ffordd sy'n cael ei chynllunio, bydd angen i'r adolygiad cyntaf benderfynu a fydd angen adolygu'r cynllun llwybr ymhen **tri mis** arall, neu a yw adolygiad ar ôl **chwe mis** yn fwy priodol. Bydd y penderfyniad i adolygu'n gynt yn dibynnu ar asesiad y Cynorthwy-ydd Personol o fregusrwydd y plentyn neu'r person ifanc dan sylw.

**Ar gyfer plant sydd â Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig:**

Mae'r Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig, **para. 10.9 a 10.11-10.12** yn nodi:

"Wrth baratoi'r cynllun gwasanaethau cymorth, **rhaid** i'r awdurdod lleol drafod â'r derbynnydd (a / neu'r gwarcheidwad arbennig neu oedolyn priodol) y trefniadau ar gyfer adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth, os yw'n ystyried bod hynny'n briodol. ***Rhaid*** *i'r trefniadau adolygu gael eu cynnwys yn y cynllun."*

*"Lle bynnag y bo'n bosibl* ***rhaid cynnal adolygiad o fewn pedair wythnos*** *i'r adeg y daw'n amlwg i'r awdurdod lleol bod* ***amgylchiadau wedi newid****.*

*Pan ddarperir cymorth ariannol parhaus,* ***rhaid*** *i awdurdod lleol adolygu'r cymorth ariannol a ddarperir os daw i'w sylw bod newid perthnasol wedi bod yn*

*amgylchiadau'r person sy'n cael cymorth. Rhaid i awdurdodau lleol adolygu’r cymorth ariannol a ddarperir* ***o leiaf unwaith y flwyddyn.****”*

Dylid cyfrif **adolygiadau ar gyfer plant** pan fydd **dyddiad yr adolygiad yn y flwyddyn gasglu** (AD/016). At ddibenion y metrig hwn, mae gennym ddiddordeb mewn cyfrif a gafodd yr adolygiad ei gynnal o fewn **y paramedrau uchod**.

Cyfrwch bob adolygiad o gynlluniau gofal a chymorth, adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth sy’n cynnwys taliad uniongyrchol, ac adolygiadau o Orchmynion Gwarchodaeth Arbennig, **sydd i fod i ddigwydd yn y flwyddyn gasglu** yn seiliedig ar y gofynion uchod. Dangosir enghreifftiau ar ddiwedd y diffiniad hwn.

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys adolygiadau a oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn gasglu ar gyfer **yr holl gynlluniau gofal a chymorth gweithredol** ar gyfer plant.
2. Er mwyn penderfynu a oes adolygiad i fod i gael ei wneud:

   **Ar gyfer plant y mae angen gofal a chymorth arnynt** (ac eithrio Plant sy’n Derbyn Gofal a phlant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant), mae adolygiad i’w gynnal:

   a. 6 mis o’r dyddiad yr **awdurdodwyd y cynllun gofal cyntaf**
   b. 6 mis o ddyddiad yr **adolygiad olaf, neu**
   c. pan fo unigolyn yn defnyddio **taliadau uniongyrchol** i reoli ei ofal ei hun, **6 mis o ddyddiad dyddiad y taliad cyntaf, yna bob 6 mis wedi hynny.**

**Ar gyfer plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant**, mae adolygiad i’w gynnal:

d. 3 mis o ddyddiad y dyddiad **cofrestru am y tro cyntaf**
e. 6 mis o ddyddiad y **gynhadledd adolygu amddiffyn plant ddiwethaf hyd nes y bydd y plentyn wedi’i ddatgofrestru.**

**Ar gyfer plant sy’n derbyn gofal**, disgwylir adolygiad:

f. O fewn **20 diwrnod** i **dderbyn gofal am y tro cyntaf**
g. 3 mis o ddyddiad **yr adolygiad cyntaf**
h. ar ôl hynny, bob **6 mis o ddyddiad yr adolygiad blaenorol hyd nes y bydd y plentyn yn peidio â derbyn gofal.**

**Ar gyfer plant sy’n gadael gofal**, mae adolygiad i fod i gael ei gynnal:

i. O fewn **28 diwrnod i symud i lety heb ei reoleiddio (categori 2 yn unig)**
j. 3 mis o ddyddiad yr **adolygiad diwethaf, neu**

k. bob **6 mis o ddyddiad yr adolygiad blaenorol gan ddibynnu ar ba mor agored i niwed yw'r person ifanc.**

**Ar gyfer plant sydd â Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig**

l. O fewn **28 diwrnod** i **newid mewn amgylchiadau, neu**
m. **O leiaf unwaith bob 12 mis.**

3. Rhaid i gynllun/adolygiad gofal a chymorth fod wedi'i **awdurdodi neu ei gymeradwyo** gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw i gael ei ystyried yn 'weithredol'.
4. Efallai y bydd angen **mwy nag un adolygiad** yn ystod y flwyddyn ar gynllun plentyn. Cyfrwch **bob adolygiad sydd i fod i gael ei gwblhau** yn ystod y flwyddyn gasglu.
5. Dylech gynnwys cynlluniau lle mae'r cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn ac anghenion y sawl sy'n gofalu amdanynt wedi cael eu **hystyried ar y cyd.**
6. Dylech gynnwys yr holl adolygiadau a oedd i fod i gael eu cynnal, **boed yr adolygiad wedi'i gynnal ai peidio.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys adolygiadau **nad ydynt yn ddyledus yn y flwyddyn gasglu gyfredol.** Er enghraifft, pan nad yw'r dyddiad y mae adolygiad i fod i gael ei gynnal yn dod o fewn y flwyddyn gasglu.
2. Peidiwch â chynnwys adolygiadau ar gyfer **cynlluniau cymorth i ofalwyr ifanc** lle nad oes anghenion gofal a chymorth ychwanegol ar gyfer yr unigolyn sy'n darparu gofal, neu os nad yw ei gynllun yn gysylltiedig â chynllun gofal a chymorth ar gyfer person sydd angen gofal a chymorth.
3. Peidiwch â chynnwys **adolygiadau o gynlluniau arbenigol nad ydynt yn diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn** (oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio i un cynllun gofal a chymorth sy'n diwallu anghenion yr unigolyn). Felly, peidiwch â chynnwys cynlluniau TAF (Tîm o Amgylch y Teulu) ac OT (Therapi Galwedigaethol) yn unig.
4. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u **gwrthod.**
5. Peidiwch â chynnwys achosion lle'r ydych yn darparu **cymorth anffurfiol** (er enghraifft, gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy).
6. Peidiwch â chynnwys cynlluniau a luniwyd gan sefydliad a gomisiynwyd neu sefydliad trydydd parti lle mae'r awdurdod lleol wedi **cyfeirio'r** unigolyn at y gwasanaethau hynny drwy broses yr IAA ac nad oes gan yr awdurdod lleol unrhyw gyfrifoldebau diffiniedig i gydgysylltu nac adolygu gofal.
7. Peidiwch unrhyw adolygiadau lle mae'r cynllun gofal a chymorth wedi'i gofnodi mewn camgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/018**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth a darpariaethau o gymorth ariannol a oedd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu a hynny o fewn amserlenni statudol, a oedd yn:

a. adolygiadau amddiffyn plant
b. adolygiadau plant sy'n derbyn gofal (gan gynnwys adolygiadau cynllun llwybr ac adolygiadau cyn mabwysiadu)
c. adolygiadau o blant y mae angen gofal a chymorth arnynt (gan gynnwys plant a gefnogir gan daliad uniongyrchol)
d. adolygiadau o gymorth i blant sydd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig
e. adolygiadau o gymorth ariannol i blant sydd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae wedi'i lunio i helpu awdurdodau lleol i sicrhau bod plant yn derbyn o leiaf y nifer sylfaenol o adolygiadau sy'n ofynnol yn y flwyddyn gasglu.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 58** yn nodi:

*"Mae adran 54 o'r Ddeddf yn nodi bod rhaid i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer person y mae angen diwallu ei anghenion.* ***Rhaid i'r cynlluniau gael eu hadolygu'n rheolaidd.*** *Os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod amgylchiadau person wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio ar y cynllun, rhaid iddo gynnal asesiadau o'r fath a diwygio'r cynllun yng ngoleuni'r asesiadau hynny.* ***Ni ddylai*** *cynllun gael ei gau heb adolygiad."*

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 88**. yn nodi:

*"**Rhaid** i Gynlluniau Gofal a Chymorth gynnwys dyddiad clir, a gytunir gyda'r unigolyn a/neu ei deulu, ar gyfer adolygu'r cynllun, fodd bynnag: [...] yn achos oedolyn, **rhaid** i'r dyddiad adolygu fod o fewn 12 mis."*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cydymffurfiaeth genedlaethol yn erbyn gofynion y Ddeddf.

**Diffiniad**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 113** yn nodi:

*“Rhaid i awdurdod lleol adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn deall a yw darpariaeth y gofal a’r cymorth hwnnw yn diwallu anghenion yr unigolyn ac ystyried a yw ei anghenion wedi newid ac a oes angen ailasesiad. **Rhaid** i’r dyddiad cytunedig ar gyfer adolygu’r cynllun fod wedi’i amlinellu yn y cynllun.”*

**Dylai'r gofynion ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth sy'n cynnwys taliad uniongyrchol y mae unigolyn yn ei ddefnyddio i reoli ei ofal a'i gymorth ei hun gael eu cynnwys yn y metrig hwn.**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 142** yn nodi:

*“Rhaid i awdurdod lleol adolygu’r trefniadau ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol a sut y maent yn cael eu defnyddio ar adegau a bennir gan yr awdurdod lleol yn unol â’r gofynion yn y cod hwn ar gyfer adolygu cynlluniau gofal a chymorth, ond yn sicr **o fewn 6 mis i’r dyddiad y gwnaed y taliad cyntaf ac o fewn 12 mis i’r adolygiad cyntaf.”***

**<u>Ar gyfer plant y mae eu henwau ar y gofrestr amddiffyn plant:</u>**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 7** (Gweithio gyda’n gilydd i ddiogelu pobl), Cyfrol 5 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 174** yn nodi:

*“[...] Dylid cynnal y gynhadledd adolygu amddiffyn plant gyntaf **o fewn tri mis i’r gynhadledd gychwynnol a dylid cynnal adolygiadau pellach yn rheolaidd (o leiaf bob chwe mis)** i adlewyrchu natur yr achos tra bo’r plentyn yn aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac yn destun cynllun amddiffyn gofal a chymorth.”*

**<u>Ar gyfer plant sy’n derbyn gofal:</u>**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 374-375** yn nodi:

*“Mae’n ofynnol i’r awdurdod lleol **gynnal adolygiad cyntaf o achos plentyn o fewn 20 diwrnod gwaith i’r dyddiad pan fydd plentyn yn dod yn blentyn sy’n derbyn gofal** (rheoliad 39 o'r Rheoliadau CPPCR).*

***Rhaid** cynnal yr ail adolygiad ddim mwy na thri mis o’r cyntaf. **Rhaid** cynnal adolygiadau dilynol ddim hwyrach na chwe mis ar ôl yr adolygiad blaenorol.”*

**<u>Ar gyfer pobl ifanc sy’n gadael gofal:</u>**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 6** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 462-463** yn nodi:

*“Os yw person ifanc categori 2 o dan 18 oed sy’n gadael gofal yn symud i lety nas rheoleiddir (h.y. llety nad yw’n cael ei reoleiddio o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 na’i arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru), mae'n **rhaid** cynnal yr adolygiad cyntaf o’r cynllun llwybr mor fuan ag sy’n ymarferol bosibl ar ôl 28 diwrnod.*

*Os yw pobl ifanc yn symud mewn ffordd sy'n cael ei chynllunio, bydd angen i'r adolygiad cyntaf benderfynu a fydd angen adolygu'r cynllun llwybr ymhen* ***tri mis*** *arall, neu a yw adolygiad ar ôl* ***chwe mis*** *yn fwy priodol. Bydd y penderfyniad i adolygu'n gynt yn dibynnu ar asesiad y Cynorthwy-ydd Personol o fregusrwydd y plentyn neu'r person ifanc dan sylw."*

**Ar gyfer plant sydd â Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig:**

Mae'r Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig, **para. 10.9 a pharagraff 10.11-10.12** yn nodi:

"Wrth baratoi'r cynllun gwasanaethau cymorth, **rhaid** i'r awdurdod lleol drafod â'r derbynnydd (a / neu'r gwarcheidwad arbennig neu oedolyn priodol) y trefniadau ar gyfer adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth, os yw'n ystyried bod hynny'n briodol. ***Rhaid*** *i'r trefniadau adolygu gael eu cynnwys yn y cynllun."*

*"Lle bynnag y bo'n bosibl* ***rhaid*** *cynnal adolygiad o fewn pedair wythnos i'r adeg y daw'n amlwg i'r awdurdod lleol bod amgylchiadau wedi newid.*

*Pan ddarperir cymorth ariannol parhaus,* ***rhaid*** *i awdurdod lleol adolygu'r cymorth ariannol a ddarperir os daw i'w sylw bod newid perthnasol wedi bod yn amgylchiadau'r person sy'n cael cymorth. Rhaid i awdurdodau lleol adolygu'r cymorth ariannol a ddarperir* ***o leiaf unwaith y flwyddyn.****"*

Cyfrwch **adolygiadau ar gyfer plant** pan fydd **dyddiad yr adolygiad yn y flwyddyn gasglu**. At ddibenion y metrig hwn, mae gennym ddiddordeb mewn cyfrif a gafodd yr adolygiad ei gwblhau o fewn yr amserlenni.

Cyfrwch yr holl gynlluniau gofal a chymorth, cynlluniau gofal a chymorth sy'n cynnwys taliad uniongyrchol, neu adolygiadau o Orchmynion Gwarchodaeth Arbennig, a gwblhawyd yn y flwyddyn gasglu ac a oedd o fewn yr amserlenni.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys adolygiadau ar gyfer yr **holl gynlluniau gofal a chymorth gweithredol ar gyfer plant** a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn gasglu a hynny o fewn amserlenni statudol.
2. Rhaid i gynllun/adolygiad gofal a chymorth fod wedi'i **awdurdodi neu ei gymeradwyo** gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw i gael ei ystyried yn 'weithredol'.
3. Efallai y bydd angen **mwy nag un adolygiad** yn ystod y flwyddyn ar gynllun plentyn. Cyfrwch **bob un** o'r rhain a oedd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu **ac** a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol.
4. Pan fydd newid mewn amgylchiadau'n ei gwneud yn ofynnol i blentyn gael ailasesiad yn hytrach nag adolygiad wedi'i gynllunio, nid oes angen yr adolygiad hwnnw mwyach, ac ni ddylid ei gyfrif. Yn hytrach, cyfrwch yr holl adolygiadau sy'n **berthnasol i'w gynllun gofal a chymorth newydd** a gynhaliwyd o fewn amserlenni statudol.

5. Dylech gynnwys cynlluniau pan fo'r cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn, ac anghenion y sawl sy'n gofalu amdanynt, wedi'u **hystyried ar y cyd.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys adolygiadau **na chawsant eu cwblhau o fewn amserlenni statudol yn y flwyddyn gasglu gyfredol.**
2. Peidiwch â chynnwys **adolygiadau o gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion** os nad oes anghenion gofal a chymorth ychwanegol ar gyfer yr unigolyn sy'n darparu gofal, neu os nad yw ei gynllun wedi'i gysylltu â chynllun gofal a chymorth ar gyfer person sydd angen gofal a chymorth.
3. Peidiwch â chynnwys **adolygiadau o gynlluniau arbenigol nad ydynt yn diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn** (oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio i un cynllun gofal a chymorth sy'n diwallu anghenion yr unigolyn). Felly, peidiwch â chynnwys cynlluniau TAF (Tîm o Amgylch y Teulu) ac OT (Therapi Galwedigaethol) yn unig.
4. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u **gwrthod.**
5. Peidiwch â chynnwys achosion lle'r ydych yn darparu **cymorth anffurfiol** (er enghraifft, gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy).
6. Peidiwch â chynnwys cynlluniau a luniwyd gan sefydliad a gomisiynwyd neu sefydliad trydydd parti lle mae'r awdurdod lleol wedi **cyfeirio'r** unigolyn at y gwasanaethau hynny drwy broses yr IAA ac nad oes gan yr awdurdod lleol unrhyw gyfrifoldebau diffiniedig i gydgysylltu nac adolygu gofal.
7. Peidiwch â chynnwys adolygiadau o unrhyw gynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u cofnodi mewn camgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/019**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth a darpariaethau cymorth ariannol a gafodd eu cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu, boed y rheini o fewn amserlenni statudol ai peidio, a oedd yn:

a. adolygiadau amddiffyn plant
b. adolygiadau plant sy'n derbyn gofal (gan gynnwys adolygiadau cynllun llwybr ac adolygiadau cyn mabwysiadu)
c. adolygiadau o blant y mae angen gofal a chymorth arnynt (gan gynnwys plant a gefnogir gan daliad uniongyrchol)
d. adolygiadau o gymorth i blant sydd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig
e. adolygiadau o gymorth ariannol i blant sydd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae wedi'i lunio i helpu awdurdodau lleol i sicrhau bod plant yn derbyn o leiaf y nifer sylfaenol o adolygiadau sy'n ofynnol yn y flwyddyn gasglu.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 58** yn nodi:

*Mae adran 54 o'r Ddeddf yn nodi bod **rhaid** i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer person y mae angen diwallu ei anghenion. **Rhaid i'r cynlluniau gael eu hadolygu'n rheolaidd.** Os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod amgylchiadau person wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio ar y cynllun, rhaid iddo gynnal asesiadau o'r fath a diwygio'r cynllun yng ngoleuni'r asesiadau hynny. **Ni ddylai** cynllun gael ei gau heb adolygiad."*

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 88** yn nodi:

*"**Rhaid** i Gynlluniau Gofal a Chymorth gynnwys dyddiad clir, a gytunir gyda'r unigolyn a/neu ei deulu, ar gyfer adolygu'r cynllun, fodd bynnag: [...] yn achos oedolyn, rhaid i'r dyddiad adolygu fod o fewn 12 mis."*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cydymffurfiaeth genedlaethol yn erbyn gofynion y Ddeddf.

**Diffiniad**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 113** yn nodi:

"***Rhaid** i awdurdod lleol adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn deall a yw darpariaeth y gofal a'r cymorth hwnnw yn diwallu anghenion yr unigolyn ac ystyried a yw ei anghenion wedi newid ac a oes angen ailasesiad. **Rhaid** i'r dyddiad cytunedig ar gyfer adolygu'r cynllun fod wedi'i amlinellu yn y cynllun."*

Cyfrwch bob adolygiad o gynlluniau gofal a chymorth, adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth sy'n cynnwys taliad uniongyrchol, ac adolygiadau o Orchmynion Gwarchodaeth Arbennig, a gwblhawyd yn y flwyddyn gasglu, boed y rheini o fewn amserlenni statudol ai peidio, yn seiliedig ar y gofynion uchod.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys pob adolygiad o gynlluniau gofal a chymorth gweithredol ar gyfer plant a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, **boed y rheini wedi'u cwblhau o fewn amserlenni statudol ai peidio.**
2. **Rhaid** i gynllun/adolygiad gofal a chymorth fod wedi'i awdurdodi neu ei gymeradwyo gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw i gael ei ystyried yn 'weithredol'.
3. Efallai y bydd angen mwy nag un adolygiad yn ystod y flwyddyn gasglu ar gynllun plentyn. **Cyfrwch bob adolygiad** a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn

gasglu **ar wahân**, boed y rheini wedi'u cwblhau o fewn amserlenni statudol ai peidio.

4. Pan fydd newid mewn amgylchiadau'n ei gwneud yn ofynnol i blentyn gael ailasesiad yn hytrach nag adolygiad wedi'i gynllunio, nid oes angen yr adolygiad hwnnw mwyach, ac ni ddylid ei gyfrif. Yn hytrach, cyfrwch yr holl adolygiadau sy'n **berthnasol i'w gynllun gofal a chymorth newydd** o fewn y flwyddyn gasglu, boed y rheini o fewn o fewn amserlenni statudol ai peidio.
5. Dylech gynnwys cynlluniau lle mae'r cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn ac anghenion y sawl sy'n gofalu amdanynt wedi cael eu **hystyried ar y cyd.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys adolygiadau **na chawsant eu cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu**.
2. Peidiwch â chynnwys adolygiadau o **gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc** lle nad oes anghenion gofal a chymorth ychwanegol ar gyfer yr unigolyn sy'n darparu gofal, neu os nad yw ei gynllun wedi'i gysylltu â chynllun gofal a chymorth ar gyfer person sydd angen gofal a chymorth.
3. Peidiwch â chynnwys adolygiadau o **gynlluniau arbenigol nad ydynt yn bodloni gofal a chymorth yr unigolyn** (oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio i un cynllun gofal a chymorth sy'n diwallu anghenion yr unigolyn). Felly, peidiwch â chynnwys cynlluniau TAF (Tîm o Amgylch y Teulu) ac OT (Therapi Galwedigaethol) yn unig.
4. Peidiwch â chynnwys adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u **gwrthod.**
5. Peidiwch â chynnwys achosion lle'r ydych yn darparu **cymorth anffurfiol** (er enghraifft, gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy).
6. Peidiwch â chynnwys cynlluniau a luniwyd gan sefydliad a gomisiynwyd neu sefydliad trydydd parti lle mae'r awdurdod lleol wedi **cyfeirio'r** unigolyn at y gwasanaethau hynny drwy broses yr IAA ac nad oes gan yr awdurdod lleol unrhyw gyfrifoldebau diffiniedig i gydgysylltu nac adolygu gofal.
7. Peidiwch â chynnwys adolygiadau o unrhyw gynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u cofnodi mewn camgymeriad.

## Diogelu Plant

**Cyfeirnod Mesur: CH/020a**

**Enw'r Mesur:** Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth cychwynnol i blant a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn

**Bwriad y Mesur**

Drwy gasglu'r data hwn, gall awdurdodau lleol fesur achosion o amheuaeth o gam-drin, esgeulustod neu niwed, os oes gan yr awdurdod lleol achos rhesymol dros amau bod y plentyn mewn perygl. Mae cyfuno'r metrig hwn â metrigau eraill sy'n casglu data am y broses amddiffyn plant yn galluogi awdurdodau lleol i fonitro niferoedd, canlyniadau prosesau a llif yn eu system ddiogelu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

Cyfrwch bob **Cyfarfod Strategaeth *Cychwynnol*** a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn. (Gellir hefyd alw cyfarfod strategaeth yn drafodaeth strategol, ond dylid cymryd bod iddynt yr un ystyr).

Gall awdurdod lleol gynnal nifer o gyfarfodydd strategaeth yn y broses o ddiogelu. Cyfrifwch yr un cyntaf o'r rhain mewn un achos o'r broses amddiffyn plant.

Er enghraifft, mae'r diagram isod yn dangos enghraifft o broses amddiffyn plant:




Cyfrifwch y cyfarfod strategaeth cyntaf yn y broses yn unig (gydag arlliw) ac nid yr ail gyfarfod strategaeth (heb arlliw).

Mae Cod Ymarfer Rhan 7 (Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl), Cyfrol 5 (Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn plant sy'n wynebu risg) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para**. **131** yn nodi: *"Os daw'r gwiriadau cychwynnol yn dilyn adroddiad i'r casgliad bod gan awdurdod lleol achos rhesymol dros amau bod plentyn mewn perygl, dylent* ***drefnu cyfarfod strategaeth*** *i benderfynu a ddylid cychwyn ymholiadau adran 47, yn ogystal â'r ffordd orau o'u cynnal."*

Mae cyfarfod strategaeth wedi'i ddiffinio yn y ddogfen: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg), T30-32.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **pob Cyfarfod Strategaeth Cychwynnol** a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu.

2. Dylech gynnwys cyfarfodydd strategaeth ar gyfer plant sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol ar yr adeg y cynhaliwyd y cyfarfod yn ogystal â'r rhai nad oes ganddynt gynllun gofal a chymorth gweithredol.
3. Dylech ddim ond cynnwys cyfarfodydd strategaeth sydd wedi'u **cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu** (lle mae'r penderfyniad wedi'i awdurdodi gan reolwr practis neu berson sy'n gweithredu ar ei ran).
4. Os cynhelir Cyfarfod Strategaeth Cychwynnol ar gyfer sawl plentyn, **cyfrwch bob plentyn ar wahân.**
5. Dylech gynnwys ymholiadau cyfarfodydd strategaeth sy'n cael eu cynnal o dan y protocolau ar gyfer Plant Coll, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Ymddygiad Risg a Chaethwasiaeth Fodern.
6. Dylech gynnwys cyfarfodydd strategaeth a gynhelir ar blan**t heb eu geni.**
7. Gall plentyn gael **mwy nag un** cyfarfod strategaeth cychwynnol yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrifwch bob un sy'n bodloni'r meini prawf uchod.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cyfarfodydd strategaeth **na chawsant eu cwblhau** yn ystod y flwyddyn gasglu, boed y rheini wedi'u dechrau yn y flwyddyn honno ai peidio.
2. Peidiwch â chyfrif **cyfarfodydd strategaeth lluosog a gynhaliwyd mewn un broses amddiffyn plant.** Cyfrifwch y cyntaf yn unig.
3. Peidiwch â chynnwys cyfarfodydd strategaeth **na chawsant eu cwblhau** yn ystod y flwyddyn.
4. Peidiwch â chynnwys cyfarfodydd strategaeth sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/020b**

**Enw'r Mesur:** Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol ar gyfer plant a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn gasglu, yn ôl cyflawnwr/cyflawnwyr honedig:

a. Person â chyfrifoldeb rhieni
b. Brawd/chwaer neu lysfrawd/llyschwaer
c. Aelod arall o'r teulu
d. Plentyn arall
e. Gweithiwr proffesiynol sy'n darparu gofal a chymorth
f. Gweithiwr proffesiynol nad yw'n darparu gofal a chymorth (e.e. athro)
g. Gwirfoddolwr neu weithiwr di-dâl
h. Cymydog
i. Defnyddiwr Gwasanaeth
j. Person Arall
k. Ddim yn hysbys

**Bwriad y Mesur**

Drwy gasglu'r data hwn, gall awdurdodau lleol fesur achosion o amheuaeth o gam-drin, esgeulustod neu niwed, os oes gan yr awdurdod lleol achos rhesymol dros amau bod y plentyn mewn perygl. Mae cyfuno'r metrig hwn â metrigau eraill sy'n casglu data am y broses amddiffyn plant yn galluogi awdurdodau lleol i fonitro niferoedd, canlyniadau prosesau a llif yn eu system ddiogelu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

Cyfrwch bob **Cyfarfod Strategaeth *Cychwynnol*** a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn. (Gellir hefyd alw cyfarfod strategaeth yn drafodaeth strategol, ond dylid cymryd bod iddynt yr un ystyr).

Gall awdurdod lleol gynnal nifer o gyfarfodydd strategaeth yn y broses o ddiogelu. Cyfrifwch yr un cyntaf o'r rhain mewn un achos o'r broses amddiffyn plant.

Cyfrifwch y cyfarfod strategaeth cyntaf yn y broses yn unig (gydag arlliw) ac nid yr ail gyfarfod strategaeth (heb arlliw).

Mae Cod Ymarfer Rhan 7 (Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl), Cyfrol 5 (Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn plant sy'n wynebu risg) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para**. **131** yn nodi: *"Os daw'r gwiriadau cychwynnol yn dilyn adroddiad i'r casgliad bod gan awdurdod lleol achos rhesymol dros amau bod plentyn mewn perygl, dylent **drefnu cyfarfod strategaeth** i benderfynu a ddylid cychwyn ymholiadau adran 47, yn ogystal â'r ffordd orau o'u cynnal."*

Mae cyfarfod strategaeth wedi'i ddiffinio yn y ddogfen: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg), T30-32.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

8. **Dylech gynnwys yr holl Gyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol** a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu, gan gyflawnwr honedig y cam-drin neu esgeulustod.
9. Dylech gynnwys cyfarfodydd strategaeth ar gyfer plant sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol ar yr adeg y cynhaliwyd y cyfarfod yn ogystal â'r rhai nad oes ganddynt gynllun gofal a chymorth gweithredol.
10. Dylech ddim ond cynnwys cyfarfodydd strategaeth sydd wedi'u **cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu** (lle mae'r penderfyniad wedi'i awdurdodi gan reolwr practis neu berson sy'n gweithredu ar ei ran).

11. Os cynhelir Cyfarfod Strategaeth Cychwynnol ar gyfer sawl plentyn, **cyfrwch bob plentyn ar wahân.**
12. Dylech gynnwys ymholiadau cyfarfodydd strategaeth sy'n cael eu cynnal o dan y protocolau ar gyfer Plant Coll, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Ymddygiad Risg a Chaethwasiaeth Fodern.
13. Dylech gynnwys cyfarfodydd strategaeth a gynhelir ar blan**t heb eu geni.**
14. Gall plentyn gael **mwy nag un** cyfarfod strategaeth cychwynnol yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrifwch bob un sy'n bodloni'r meini prawf uchod.
15. Lle bo hynny'n briodol, cynhwyswch fanylion cyflawnwyr lluosog; nid oes angen nodi prif gyflawnwr pan nad oes un.

**Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur**

5. Peidiwch â chynnwys cyfarfodydd strategaeth **na chawsant eu cwblhau** yn ystod y flwyddyn gasglu, boed y rheini wedi'u dechrau yn y flwyddyn honno ai peidio.
6. Peidiwch â chyfrif **cyfarfodydd strategaeth lluosog a gynhaliwyd mewn un broses amddiffyn plant.** Cyfrifwch y cyntaf yn unig.
7. Peidiwch â chynnwys cyfarfodydd strategaeth **na chawsant eu cwblhau** yn ystod y flwyddyn.
8. Peidiwch â chynnwys cyfarfodydd strategaeth sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.
9. Lle bo hynny'n briodol, cynhwyswch fanylion cyflawnwyr lluosog; nid oes **angen** nodi prif gyflawnwr **os nad oes un**.

**Cyfeirnod Mesur: CH/020c**

**Enw'r Mesur:** Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol ar gyfer plant a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn gasglu, yn ôl lleoliad(au) honedig y cam-drin.

a. Cartref y plentyn ei hun (e.e. cartref teuluol)
b. Y gymuned
c. Addysg
d. Lleoliad gofal (e.e. gofal maeth, gofal preswyl, gofal seibiant)
e. Lleoliad iechyd
f. Ar-lein
g. Arall
h. Nid yw'r wybodaeth yn hysbys

**Bwriad y Mesur**

Drwy gasglu'r data hwn, gall awdurdodau lleol fesur achosion o amheuaeth o gam-drin, esgeulustod neu niwed, os oes gan yr awdurdod lleol achos rhesymol dros amau bod y plentyn mewn perygl. Mae cyfuno'r metrig hwn â metrigau eraill sy'n

casglu data am y broses amddiffyn plant yn galluogi awdurdodau lleol i fonitro niferoedd, canlyniadau prosesau a llif yn eu system ddiogelu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

### Diffiniad

Cyfrwch bob **Cyfarfod Strategaeth *Cychwynnol*** a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn. (Gellir hefyd alw cyfarfod strategaeth yn drafodaeth strategol, ond dylid cymryd bod iddynt yr un ystyr).

Gall awdurdod lleol gynnal nifer o gyfarfodydd strategaeth yn y broses o ddiogelu. Cyfrifwch yr un cyntaf o'r rhain mewn un achos o'r broses amddiffyn plant.

Cyfrifwch y cyfarfod strategaeth cyntaf yn y broses yn unig (gydag arlliw) ac nid yr ail gyfarfod strategaeth (heb arlliw).

Mae Cod Ymarfer Rhan 7 (Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl), Cyfrol 5 (Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn plant sy'n wynebu risg) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para**. **131** yn nodi: *"Os daw'r gwiriadau cychwynnol yn dilyn adroddiad i'r casgliad bod gan awdurdod lleol achos rhesymol dros amau bod plentyn mewn perygl, dylent* ***drefnu cyfarfod strategaeth*** *i benderfynu a ddylid cychwyn ymholiadau adran 47, yn ogystal â'r ffordd orau o'u cynnal."*

Mae cyfarfod strategaeth wedi'i ddiffinio yn y ddogfen: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg), T30-32.

### Beth i'w gynnwys yn y Mesur

16. **Dylech gynnwys yr holl Gyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol** a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu, yn ôl lleoliad y cam-drin neu'r esgeulustod honedig:
    a. Yng nghartref teuluol neu gartref maeth y plentyn ei hun.
    b. Yn y gymuned e.e. lleoliad addysg.
    c. Mewn lleoliad cartref gofal e.e. gofal seibiant, seibiannau byr.
    d. Lleoliad iechyd e.e. ysbyty
    e. Cartref plant awdurdod lleol, h.y. darparwr llety hirdymor i blant sy'n derbyn gofal nad ydynt yn cael gwasanaethau nyrsio arbenigol neu wasanaethau iechyd eraill a ddarperir mewn cartrefi gofal plant.
17. Dylech gynnwys cyfarfodydd strategaeth ar gyfer plant sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol ar yr adeg y cynhaliwyd y cyfarfod yn ogystal â'r rhai nad oes ganddynt gynllun gofal a chymorth gweithredol.

18. Dylech ddim ond cynnwys cyfarfodydd strategaeth sydd wedi'u **cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu** (lle mae'r penderfyniad wedi'i awdurdodi gan reolwr practis neu berson sy'n gweithredu ar ei ran).
19. Os cynhelir Cyfarfod Strategaeth Cychwynnol ar gyfer sawl plentyn, **cyfrwch bob plentyn ar wahân.**
20. Dylech gynnwys ymholiadau cyfarfodydd strategaeth sy'n cael eu cynnal o dan y protocolau ar gyfer Plant Coll, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Ymddygiad Risg a Chaethwasiaeth Fodern.
21. Dylech gynnwys cyfarfodydd strategaeth a gynhelir ar blan**t heb eu geni.**
22. Gall plentyn gael **mwy nag un** cyfarfod strategaeth cychwynnol yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrifwch bob un sy'n bodloni'r meini prawf uchod.
23. Lle bo hynny'n briodol, cynhwyswch fanylion lleoliadau honedig lluosog. Does **dim angen** nodi prif leoliad **os nad oes un**.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

10. Peidiwch â chynnwys cyfarfodydd strategaeth **na chawsant eu cwblhau** yn ystod y flwyddyn gasglu, boed y rheini wedi'u dechrau yn y flwyddyn honno ai peidio.
11. Peidiwch â chyfrif **cyfarfodydd strategaeth lluosog a gynhaliwyd mewn un broses amddiffyn plant.** Cyfrifwch y cyntaf yn unig.
12. Peidiwch â chynnwys cyfarfodydd strategaeth **na chawsant eu cwblhau** yn ystod y flwyddyn.
13. Peidiwch â chynnwys cyfarfodydd strategaeth sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.
14. Lle bo hynny'n briodol, cynhwyswch fanylion lleoliadau honedig lluosog. Does **dim angen** nodi prif leoliad **os nad oes un**.

**Cyfeirnod Mesur: CH/021a**

**Enw'r Mesur:** Cyfrwch bob Cyfarfod Strategaeth a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn lle penderfynwyd symud ymlaen i ymholiadau Adran 47.

**Bwriad y Mesur**

Lle bo gwybodaeth a gesglir yn ystod asesiad yn creu amheuaeth bod y plentyn mewn perygl, mae gan awdurdodau lleol, gyda chymorth sefydliadau partner, ddyletswydd i wneud ymholiadau o dan adran 47 Deddf Plant 1989.

Drwy gasglu'r data hwn, gall awdurdodau lleol fesur achosion o amheuaeth o gam-drin, esgeulustod neu niwed, os oes gan yr awdurdod lleol achos rhesymol dros amau bod y plentyn mewn perygl. Mae cyfuno'r metrig hwn â metrigau eraill sy'n casglu data am y broses amddiffyn plant yn galluogi awdurdodau lleol i fonitro niferoedd, canlyniadau prosesau a llif yn eu system ddiogelu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu yng Nghymru a’i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

Cyfrwch **bob Cyfarfod Strategaeth** a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn lle penderfynwyd **symud ymlaen i ymholiadau Adran 47.**

Mae cyfarfod strategaeth wedi’i ddiffinio yn y ddogfen: Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy’n Wynebu Risg), T30-32.

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **pob Cyfarfod Strategaeth** a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu lle penderfynwyd symud ymlaen i ymholiadau adran 47. **Efallai nad hwn fydd y cyfarfod strategaeth cyntaf yn y broses lle gwneir penderfyniad i fwrw ymlaen.**
2. Dylech gynnwys cyfarfodydd strategaeth ar gyfer plant sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol ar yr adeg y cynhaliwyd y cyfarfod yn ogystal â'r rhai nad oes ganddynt gynllun gofal a chymorth gweithredol.
3. Dylech gynnwys ymholiadau cyfarfodydd strategaeth sy’n cael eu cynnal o dan y protocolau ar gyfer Plant Coll, Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant, Ymddygiad Risg a Chaethwasiaeth Fodern.
4. Dylech gynnwys cyfarfodydd strategaeth a gynhelir ar blan**t heb eu geni.**
5. Os cynhelir Cyfarfod Strategaeth ar gyfer sawl plentyn, **cyfrwch bob plentyn ar wahân.**
6. Gall plentyn gael mwy nag un cyfarfod strategaeth yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrifwch bob un sy’n bodloni’r meini prawf uchod.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech eithrio unrhyw gyfarfodydd strategaeth na chawsant eu cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu, ni waeth a gawsant eu dechrau yn y flwyddyn honno ai peidio.
2. Dim ond yn cyfrif cyfarfodydd strategaeth lle penderfynwyd symud ymlaen i ymholiadau adran 47. Peidiwch â chyfrif pob cyfarfod strategaeth a allai fod wedi digwydd yn ystod y broses ymchwilio.
3. Gan nad y cyfarfod strategaeth cychwynnol, o bosibl, sy'n penderfynu cychwyn ymholiadau Adran 47, nid yw'r metrig hwn yn is-set o CH/020a
4. Peidiwch â chynnwys cyfarfodydd strategaeth sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/021b**

**Enw'r Mesur:** Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn lle penderfynwyd symud ymlaen i ymholiadau Adran 47, yn ôl cyflawnwr/cyflawnwyr honedig:

l. Person â chyfrifoldeb rhieni
m. Brawd/chwaer neu lysfrawd/llyschwaer
n. Aelod arall o'r teulu
o. Plentyn arall
p. Gweithiwr proffesiynol sy'n darparu gofal a chymorth
q. Gweithiwr proffesiynol nad yw'n darparu gofal a chymorth (e.e. athro)
r. Gwirfoddolwr neu weithiwr di-dâl
s. Cymydog
t. Defnyddiwr Gwasanaeth
u. Person Arall
v. Ddim yn hysbys

**Bwriad y Mesur**

Lle bo gwybodaeth a gesglir yn ystod asesiad yn creu amheuaeth bod y plentyn mewn perygl, mae gan awdurdodau lleol, gyda chymorth sefydliadau partner, ddyletswydd i wneud ymholiadau o dan adran 47 Deddf Plant 1989.

Drwy gasglu'r data hwn, gall awdurdodau lleol fesur achosion o amheuaeth o gam-drin, esgeulustod neu niwed, os oes gan yr awdurdod lleol achos rhesymol dros amau bod y plentyn mewn perygl. Mae cyfuno'r metrig hwn â metrigau eraill sy'n casglu data am y broses amddiffyn plant yn galluogi awdurdodau lleol i fonitro niferoedd, canlyniadau prosesau a llif yn eu system ddiogelu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

Cyfrwch **bob Cyfarfod Strategaeth** a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn lle penderfynwyd **symud ymlaen i ymholiadau Adran 47.**

Mae cyfarfod strategaeth wedi'i ddiffinio yn y ddogfen: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg), T30-32.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **pob Cyfarfod Strategaeth** a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu lle penderfynwyd symud ymlaen i ymholiadau

adran 47. **Efallai nad hwn fydd y cyfarfod strategaeth cyntaf yn y broses lle gwneir penderfyniad i fwrw ymlaen.**
2. Dylech gynnwys cyfarfodydd strategaeth ar gyfer plant sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol ar yr adeg y cynhaliwyd y cyfarfod yn ogystal â'r rhai nad oes ganddynt gynllun gofal a chymorth gweithredol.
3. Dylech gynnwys ymholiadau cyfarfodydd strategaeth sy'n cael eu cynnal o dan y protocolau ar gyfer Plant Coll, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Ymddygiad Risg a Chaethwasiaeth Fodern.
4. Dylech gynnwys cyfarfodydd strategaeth a gynhelir ar blan**t heb eu geni.**
5. Os cynhelir Cyfarfod Strategaeth ar gyfer sawl plentyn, **cyfrwch bob plentyn ar wahân.**
6. Gall plentyn gael mwy nag un cyfarfod strategaeth yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrifwch bob un sy'n bodloni'r meini prawf uchod.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech eithrio unrhyw gyfarfodydd strategaeth na chawsant eu cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu, ni waeth a gawsant eu dechrau yn y flwyddyn honno ai peidio.
2. Dim ond yn cyfrif cyfarfodydd strategaeth lle penderfynwyd symud ymlaen i ymholiadau adran 47. Peidiwch â chyfrif pob cyfarfod strategaeth a allai fod wedi digwydd yn ystod y broses ymchwilio.
3. Gan nad y cyfarfod strategaeth cychwynnol, o bosibl, sy'n penderfynu cychwyn ymholiadau Adran 47, **nid** yw'r metrig hwn yn is-set o CH/020b
4. Peidiwch â chynnwys cyfarfodydd strategaeth sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/021c**

**Enw'r Mesur:** Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn lle penderfynwyd symud ymlaen i ymholiadau Adran 47, yn ôl lleoliad(au) honedig:

a. Cartref y plentyn ei hun (e.e. cartref teuluol)
b. Y gymuned
c. Addysg
d. Lleoliad gofal (e.e. gofal maeth, gofal preswyl, gofal seibiant)
e. Lleoliad iechyd
f. Ar-lein
g. Arall
h. Nid yw'r wybodaeth yn hysbys

**Bwriad y Mesur**

Lle bo gwybodaeth a gesglir yn ystod asesiad yn creu amheuaeth bod y plentyn mewn perygl, mae gan awdurdodau lleol, gyda chymorth sefydliadau partner, ddyletswydd i wneud ymholiadau o dan adran 47 Deddf Plant 1989.

Drwy gasglu'r data hwn, gall awdurdodau lleol fesur achosion o amheuaeth o gam-drin, esgeulustod neu niwed, os oes gan yr awdurdod lleol achos rhesymol dros amau bod y plentyn mewn perygl. Mae cyfuno'r metrig hwn â metrigau eraill sy'n casglu data am y broses amddiffyn plant yn galluogi awdurdodau lleol i fonitro niferoedd, canlyniadau prosesau a llif yn eu system ddiogelu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

Cyfrwch **bob Cyfarfod Strategaeth** a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn lle penderfynwyd **symud ymlaen i ymholiadau Adran 47.**

Mae cyfarfod strategaeth wedi'i ddiffinio yn y ddogfen: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg), T30-32.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **yr holl Gyfarfodydd Strategaeth** a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu lle penderfynwyd symud ymlaen i ymholiadau adran 47 (**Mae'n bosibl nad hwn fydd y cyfarfod strategaeth cyntaf yn y broses lle gwneir penderfyniad i fwrw ymlaen),**drwy osod:
    a. Yng nghartref teuluol neu gartref maeth y plentyn ei hun.
    b. Yn y gymuned e.e. lleoliad addysg.
    c. Mewn lleoliad cartref gofal e.e. gofal seibiant, seibiannau byr.
    d. Lleoliad iechyd e.e. ysbyty
    e. Cartref plant awdurdod lleol, h.y. darparwr llety hirdymor i blant sy'n derbyn gofal nad ydynt yn cael gwasanaethau nyrsio arbenigol neu wasanaethau iechyd eraill a ddarperir mewn cartrefi gofal plant.
2. Dylech gynnwys cyfarfodydd strategaeth ar gyfer plant sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol ar yr adeg y cynhaliwyd y cyfarfod yn ogystal â'r rhai nad oes ganddynt gynllun gofal a chymorth gweithredol.
3. Dylech gynnwys ymholiadau cyfarfodydd strategaeth sy'n cael eu cynnal o dan y protocolau ar gyfer Plant Coll, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Ymddygiad Risg a Chaethwasiaeth Fodern.
4. Dylech gynnwys cyfarfodydd strategaeth a gynhelir ar blan**t heb eu geni.**
5. Os cynhelir Cyfarfod Strategaeth ar gyfer sawl plentyn, **cyfrwch bob plentyn ar wahân.**
6. Gall plentyn gael mwy nag un cyfarfod strategaeth yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrifwch bob un sy'n bodloni'r meini prawf uchod.

**Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur**

5. Dylech eithrio unrhyw gyfarfodydd strategaeth na chawsant eu cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu, ni waeth a gawsant eu dechrau yn y flwyddyn honno ai peidio.
6. Dim ond yn cyfrif cyfarfodydd strategaeth lle penderfynwyd symud ymlaen i ymholiadau adran 47. Peidiwch â chyfrif pob cyfarfod strategaeth a allai fod wedi digwydd yn ystod y broses ymchwilio.
7. Gan nad y cyfarfod strategaeth cychwynnol, o bosibl, sy'n penderfynu cychwyn ymholiadau Adran 47, **nid** yw'r metrig hwn yn is-set o CH/020c
8. Peidiwch â chynnwys cyfarfodydd strategaeth sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/022**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr ymholiadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a symudodd ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.

**Bwriad y Mesur**

Yn dilyn yr Ymholiad Adran 47, lle mae ymarferwyr yn barnu y gall plentyn barhau i fod mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, dylai'r awdurdod lleol drefnu cynhadledd amddiffyn plant o fewn 15 diwrnod gwaith i'r cyfarfod strategaeth.

Drwy gasglu'r data hwn, gall awdurdodau lleol fesur achosion o amheuaeth o gam-drin, esgeulustod neu niwed, os oes gan yr awdurdod lleol achos rhesymol dros amau bod y plentyn mewn perygl. Mae cyfuno'r metrig hwn â metrigau eraill sy'n casglu data am y broses amddiffyn plant yn galluogi awdurdodau lleol i fonitro niferoedd, canlyniadau prosesau a llif yn eu system ddiogelu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

Cyfrwch bob **ymholiad Adran 47** a ddaeth i ben pan benderfynwyd **symud ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.**

Mae canlyniadau ymchwiliadau adran 47 wedi'u diffinio yn y ddogfen: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 (Delio ag achosion unigol i amddiffyn plant sy'n wynebu risg), T33-35.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch bob **ymholiad Adran 47** a ddaeth i ben pan benderfynwyd symud ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.
2. Dylech gynnwys ymholiadau adran 47 ar gyfer plant sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol ar yr adeg y cynhaliwyd y cyfarfod yn ogystal â'r rhai nad oes ganddynt gynllun gofal a chymorth gweithredol.
3. Dylech gynnwys ymholiadau adran 47 a wnaed ar **blant heb eu geni**.
4. Dylech gynnwys ymholiadau adran 47 sy'n cael eu cynnal o dan y protocolau ar gyfer Plant Coll, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Ymddygiad Risg a Chaethwasiaeth Fodern.
5. Mae'n bosibl y bydd yr ymholiad adran 47 yn dechrau **y tu allan i'r cyfnod casglu**. Dylech gynnwys y rhain yn eich cyfrif os ydynt yn bodloni'r meini prawf uchod.
6. Os cynhelir Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol ar gyfer sawl plentyn, **cyfrwch bob plentyn ar wahân.**
7. Gall plentyn gael mwy nag un ymholiad dan adran 47 yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrifwch bob un sy'n bodloni'r meini prawf uchod.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Dim ond os mai'r casgliad oedd mynd ymlaen i'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol y dylid cyfrif ymholiadau Adran 47.
2. Peidiwch â chynnwys ymholiadau adran 47 sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/023 (a-i)**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at y penderfyniad i roi plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant dan gategori:

a. Esgeulustod
b. Cam-drin corfforol
c. Cam-drin rhywiol
d. Cam-drin emosiynol
e. Cam-drin ariannol
f. Esgeulustod a cham-drin corfforol
g. Cam-drin corfforol a rhywiol
h. Esgeulustod a cham-drin rhywiol
i. Esgeulustod, cam-drin corfforol a rhywiol

Ac yn ôl oedran:

i. O dan 1 oed
ii. 1-4 oed
iii. 5-9 oed
iv. 10-15 oed
v. 16-18 oed

**Bwriad y Mesur**

Dylai'r gynhadledd benderfynu – ar sail y dystiolaeth sydd ar gael – a yw'r plentyn mewn perygl parhaus o niwed sy'n gofyn am ymyriad aml-asiantaeth drwy gynllun amddiffyn gofal a chymorth ffurfiol a chofrestru ar y gofrestr amddiffyn plant.

Drwy gasglu'r data hwn, gall awdurdodau lleol fesur achosion o amheuaeth o gam-drin, esgeulustod neu niwed, os oes gan yr awdurdod lleol achos rhesymol dros amau bod y plentyn mewn perygl. Mae cyfuno'r metrig hwn â metrigau eraill sy'n casglu data am y broses amddiffyn plant yn galluogi awdurdodau lleol i fonitro niferoedd, canlyniadau prosesau a llif yn eu system ddiogelu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

Cyfrwch gynadleddau a gynhaliwyd ar gyfer **pob plentyn lle gwnaed y penderfyniad i roi'r plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn y flwyddyn gasglu**. Mae penderfyniadau'r gynhadledd wedi'u diffinio yn y ddogfen: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg), T35-36.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys cynadleddau a gynhaliwyd ar gyfer **pob plentyn lle gwnaed y penderfyniad i'w roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn y flwyddyn gasglu**. Gellir cofrestru plentyn fwy nag unwaith yn ystod y cyfnod.
2. Dim ond y cynadleddau lle gwnaed penderfyniadau i ychwanegu plant at y Gofrestr Amddiffyn Plant **yn ystod y flwyddyn** y dylech eu cynnwys.
3. Dylech gynnwys Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol ar gyfer plant sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol ar yr adeg y cynhaliwyd y gynhadledd yn ogystal â'r rhai nad oes ganddynt gynllun gofal a chymorth gweithredol.
4. Dylech gynnwys penderfyniadau i gofrestru **plant heb eu geni** adeg eu geni. Efallai y bydd y plant hyn yn dal i fod heb eu geni erbyn diwedd y cyfnod casglu, ond rydym yn eu cyfrif yma gan fod penderfyniad wedi'i wneud i'w cofrestru **ar ôl iddynt gael eu geni**.
5. Os cynhelir Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol ar gyfer sawl plentyn, **cyfrwch bob plentyn ar wahân.**

6. Dylech gynnwys penderfyniadau i gofrestru ar gyfer plant sydd o dan y protocolau ar gyfer Plant Coll, Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant, Ymddygiad Risg a Chaethwasiaeth Fodern.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys unrhyw ddata sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.
2. Dylech eithrio cynadleddau Trosglwyddo i Mewn.

**Cyfeirnod Mesur: CH/023 (j-k)**

**Enw’r Mesur:** Cyfanswm nifer y Cynadleddau Amddiffyn Plant cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at y penderfyniad i **beidio** â rhoi plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant:

j. Nifer y plant yn ystod y flwyddyn y barnwyd nad ydynt yn wynebu risg o niwed arwyddocaol mewn cynhadledd amddiffyn plant ond bod angen gofal a chymorth arnynt o hyd

k. Nifer y plant yn ystod y flwyddyn na thybiwyd eu bod mewn perygl o niwed sylweddol mewn cynhadledd amddiffyn plant ac ni nodwyd unrhyw anghenion cymwys ychwanegol

**Bwriad y Mesur**

Dylai’r gynhadledd benderfynu – ar sail y dystiolaeth sydd ar gael – a yw’r plentyn mewn perygl parhaus o niwed sy’n gofyn am ymyriad aml-asiantaeth drwy gynllun amddiffyn gofal a chymorth ffurfiol a chofrestru ar y gofrestr amddiffyn plant.

Drwy gasglu’r data hwn, gall awdurdodau lleol fesur achosion o amheuaeth o gam-drin, esgeulustod neu niwed, os oes gan yr awdurdod lleol achos rhesymol dros amau bod y plentyn mewn perygl. Mae cyfuno’r metrig hwn â metrigau eraill sy’n casglu data am y broses amddiffyn plant yn galluogi awdurdodau lleol i fonitro niferoedd, canlyniadau prosesau a llif yn eu system ddiogelu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu yng Nghymru a’i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

**Ar gyfer rhan j:**

Cyfrwch bob **Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol** a ddaeth i ben lle penderfynwyd **peidio â rhoi’r plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ond y gall**

**fod angen gofal a chymorth arnynt o hyd.** Er mwyn mesur yr athreuliad yn llawn drwy'r broses amddiffyn plant, mae'r metrig hwn yn edrych ar y plant hynny lle'r oedd y penderfyniad i gynnull cynhadledd yn y flwyddyn gasglu, nid penderfyniad y gynhadledd o reidrwydd.

**Ar gyfer rhan k:**

Cyfrwch bob **Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol** a ddaeth i ben lle penderfynwyd **peidio â rhoi'r plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ond y gall fod angen gofal a chymorth arnynt o hyd.** Er mwyn mesur yr athreuliad yn llawn drwy'r broses amddiffyn plant, mae'r metrig hwn yn edrych ar y plant hynny lle'r oedd y penderfyniad i gynnull cynhadledd yn y flwyddyn gasglu, nid penderfyniad y gynhadledd o reidrwydd.

Mae penderfyniadau'r gynhadledd wedi'u diffinio yn y ddogfen: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg), T35-36.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **pob Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol** lle penderfynwyd **peidio â rhoi'r plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ond y gall fod angen gofal a chymorth arnynt o hyd.**
2. Dylech gynnwys Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol ar gyfer plant sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol ar yr adeg y cynhaliwyd y gynhadledd yn ogystal â'r rhai nad oes ganddynt gynllun gofal a chymorth gweithredol.
3. Dylech gynnwys penderfyniadau i **beidio** â chofrestru ar gyfer plant sydd o dan y protocolau ar gyfer Plant Coll, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Ymddygiad Risg a Chaethwasiaeth Fodern.
4. Os cynhelir Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol ar gyfer sawl plentyn, **cyfrwch bob plentyn ar wahân.**
5. Gall plentyn gael mwy nag un Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrifwch bob un sy'n bodloni'r meini prawf uchod.

**Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys unrhyw blentyn a gofrestrwyd yn y gynhadledd.
2. Dylech eithrio cynadleddau Trosglwyddo i Mewn.
3. Dylech eithrio unrhyw blentyn nad oedd wedi'i gofrestru ac nad oedd ganddo anghenion ychwanegol am ofal a chymorth.
4. Peidiwch â chynnwys unrhyw ddata sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/024**

**Enw'r Mesur:** Nifer y plant a ychwanegwyd at y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn:

a. Pob plentyn
b. Plant a gofrestrwyd yn flaenorol o dan unrhyw gategori, ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis blaenorol.

**Bwriad y Mesur**

Gall ailgofrestru plentyn awgrymu bod plentyn wedi cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant cyn pryd. Dylai awdurdodau lleol fonitro'r data hwn i sicrhau bod y cynlluniau gofal a chymorth a ddarperir yn effeithiol ac yn gynaliadwy.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

Cyfrwch **bob plentyn a ychwanegwyd at y gofrestr yn y flwyddyn gasglu (rhan a)** ac o blith y rheini, y plant a roddwyd yn flaenorol ar y Gofrestr Amddiffyn Plant **yn y 12 mis blaenorol (rhan b).**

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl blant a ychwanegwyd at y gofrestr** yn y flwyddyn gasglu **(rhan a)** a'r plant hynny a oedd wedi cael eu cofrestru'n flaenorol yn ystod y **12 mis** blaenorol **(rhan b)**.
2. Dylech gynnwys pob plentyn yr oedd ei enw ar y gofrestr amddiffyn plant **ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis cyn ei gofrestru yn y flwyddyn gasglu hon (rhan b).**
3. Dydy'r categori cofrestru ddim yn cael ei ystyried yn y metrig hwn. **Cyfrwch yr ailgofrestriad p'un a yw'r rheswm cofrestru'n wahanol ai peidio.**
4. Gellir cofrestru plentyn fwy nag unwaith yn ystod y cyfnod. **Cyfrwch bob plentyn unwaith yn unig.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys **cofrestriadau dros dro.**
2. Dylech gynnwys pob cofrestriad sy'n **newid o gofrestru dros dro i gofrestru parhaol.**
3. Peidiwch â chynnwys cynadleddau **trosglwyddo i mewn**

4. Peidiwch â chynnwys data sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.
5. Peidiwch â chynnwys unrhyw **blant heb eu geni** lle gwnaed penderfyniad yn y flwyddyn gasglu i'w cynnwys ar y gofrestr, ond nad ydynt wedi'u geni eto. **Dim ond plant sydd wedi'u geni y gellir eu hychwanegu at y gofrestr**.

**Cyfeirnod Mesur: CH/025a**

**Enw'r Mesur:** Nifer y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol cyn geni a gynullwyd yn ystod y flwyddyn.

**Bwriad y Mesur**

Mae casglu'r data hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fesur achosion lle mae gan yr awdurdod lleol sail resymol dros amau y bydd plentyn heb ei eni yn wynebu risg o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed ar ôl cael ei eni. Mae cyfuno'r metrig hwn â metrigau eraill sy'n casglu data am y broses amddiffyn plant yn galluogi awdurdodau lleol i fonitro niferoedd, canlyniadau prosesau a llif yn eu system ddiogelu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

Cyfrwch nifer y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhaliwyd ar gyfer plant heb eu geni.

Mae Cod Ymarfer Rhan 7 (Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl), Cyfrol 5 (Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn plant sy'n wynebu risg) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para**. **162** yn nodi "*Os yw pryderon yn ymwneud â phlentyn heb ei eni, dylid ystyried a yw'n ofynnol cynnal cynhadledd amddiffyn plant cyn genedigaeth y plentyn. Dylai cynhadledd o'r fath fod â'r un statws, a symud ymlaen yn yr un ffordd, ag unrhyw gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol eraill, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch cynllun amddiffyn gofal a chymorth ar gyfer yr adeg pan enir y plentyn, neu ar gyfer y fam yn ystod y beichiogrwydd*".

Diffinnir cynhadledd amddiffyn plant gychwynnol yn y ddogfen: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg), T35-40.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch nifer y cynadleddau amddiffyn plant a gynhaliwyd cyn genedigaeth plentyn yn ystod y flwyddyn gasglu. Er enghraifft, pan fo pryderon y gallai plentyn heb ei eni wynebu risg o niwed arwyddocaol yn y dyfodol.

2. Os bydd mwy nag un gynhadledd amddiffyn plant cyn geni yn cael ei chynnull ar gyfer yr un plentyn yn ystod y flwyddyn gasglu, **dim ond un y dylid ei chyfrif.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chyfrif cynadleddau amddiffyn plant a gynhelir ar gyfer plant ar ôl eu geni. **Cyfrwch y rhai a gynhelir ar gyfer plant heb eu geni yn unig.**
2. Pan fydd mwy nag un gynhadledd amddiffyn plant cyn geni yn cael ei chynnull **ar gyfer yr un plentyn, cyfrwch un yn unig.**

**Cyfeirnod Mesur: CH/025b**

**Enw'r Mesur:** Nifer y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn gasglu a gynhaliwyd o fewn amserlenni statudol.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn monitro cydymffurfiad awdurdodau â safonau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu ar gyfer plant yng Nghymru.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CH/023.***

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 7 (Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl), Cyfrol 5 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg), **para. 159** yn nodi: *"Lle mae ymarferwyr yn barnu y gall plentyn barhau i wynebu risg o niwed arwyddocaol, dylai'r awdurdod lleol gynnull cynhadledd amddiffyn plant o fewn 15 niwrnod gwaith i'r cyfarfod strategaeth."*

Mae **Gweithdrefnau Diogelu Cymru**, Ymateb i adroddiad am blentyn sydd mewn perygl o gael ei niweidio, cam-drin a/neu ei esgeuluso, **Adran 3(1)** yn nodi: *Os oes sail i'r pryderon ac os bernir bod y plentyn mewn perygl parhaus o niwed arwyddocaol, dylid cynnull cynhadledd amddiffyn plant gan y gwasanaethau cymdeithasol o fewn **15 diwrnod gwaith** i'r **cyfarfod strategaeth** neu'r **cyfarfod strategaeth diweddaraf** (os oes mwy nag un wedi bod) **a bennodd fod angen ymholiadau Adran 47**.*

Cyfrwch **bob** plentyn yn (CH/023a-k) lle cynhaliwyd y gynhadledd amddiffyn plant o fewn 15 diwrnod gwaith i'r cyfarfod strategaeth a benderfynodd fod angen ymholiadau A47.

Dylid cynnwys plant heb eu geni yn y metrig hwn.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch bob **cynhadledd sy'n digwydd** ar gyfer plant yn y flwyddyn gasglu. Mae'r metrig hwn yn hafal i **CH/023a-k.**
2. Gellir **cofrestru plentyn fwy nag unwaith** yn ystod y flwyddyn. Cyfrwch y rhain i gyd.
3. Cyfrwch bob cynhadledd a gynhaliwyd hyd at a chan gynnwys **15 diwrnod gwaith** o ddyddiad y **cyfarfod strategaeth a gychwynnodd ymholiadau A47**.
4. At ddibenion cyfrifo, diwrnod y cyfarfod strategaeth (uchod) yw **diwrnod sero**.
5. Dylech gynnwys **plant heb eu geni** yn eich cyfrif ar gyfer y metrig. (Mae CH/025a yn is-set o CH/025b)

**Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chyfrif plant y cynhaliwyd eu cynhadledd amddiffyn plant gyntaf **fwy na 15 diwrnod** o'r cyfarfod strategaeth a oedd yn penderfynu bod angen ymholiadau A47.
2. Peidiwch â chynnwys cynadleddau amddiffyn plant a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/026**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant:

a. ar 31 Mawrth;
b. yn ystod y flwyddyn gasglu.

**Bwriad y Mesur**

Mae deall nifer y plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn galluogi awdurdodau lleol i ddeall cyfran y plant y maent yn darparu gofal a chymorth iddynt y mae angen cynllun amddiffyn gofal a chymorth arnynt. Gall hyn helpu i gynllunio'r gweithlu a datblygu'r gwasanaeth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

Cyfrwch bob **plentyn*** a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar **31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu**, b) unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn gasglu.

**Peidiwch** â chynnwys plant heb eu geni yn y cyfrif hwn.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Ar gyfer a) dylech gynnwys **pob plentyn dros sero oed (plant sydd wedi cael eu geni) yr oedd eu henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant** ar 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu.
2. Ar gyfer b) dylech gynnwys **pob plentyn dros sero oed (plant sydd wedi cael eu geni)** yr oedd eu henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant **ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn gasglu**.
3. Ar gyfer a) a b), dylech gynnwys plant a gofrestrwyd o **dan unrhyw gategori** ac am **unrhyw gyfnod cofrestru.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys **cofrestriadau dros dro** o ran a) a rhan b).
2. Peidiwch â chynnwys **plant heb eu geni** yn y cyfrif hwn.
3. Ar gyfer rhan a) a rhan b) peidiwch â chyfrif unrhyw berson **a oedd yn 18 oed** neu'n hŷn ar 31 Mawrth y flwyddyn gasglu.
4. Peidiwch â chynnwys data sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/027**

**Enw'r Mesur:** Nifer y cyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn monitro cydymffurfiad awdurdodau â safonau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu ar gyfer plant yng Nghymru.

**Diffiniad**

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 7 (Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl), Cyfrol 5 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg), para. 172 yn datgan: *Mae gan y Grŵp Craidd gyfrifoldeb i herio a rhoi gwybod am bryderon lle maent yn credu nad yw'r cynllun yn amddiffyn y plentyn rhag y risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso, neu fathau eraill o niwed. Bydd y grŵp yn cwrdd o fewn 10 niwrnod gwaith i'r gynhadledd gychwynnol i ddatblygu'r cynllun amddiffyn gofal a chymorth mewn mwy o fanylder; penderfynu pa gamau pellach sy'n ofynnol, gan bwy*

Cyfrifwch **yr holl** blant a gofrestrwyd yn dilyn cynadleddau amddiffyn plant a gynhaliwyd yn y flwyddyn gasglu.

Dylid cynnwys plant heb eu geni yn y metrig hwn. Dylai sylfaen y grŵp craidd a'i gyfarfod cyntaf ddilyn yr un broses ag ar gyfer pob plentyn arall.

### Beth i'w gynnwys yn y Mesur

1. Cyfrwch bob **cofrestriad sy'n digwydd** ar gyfer plant yn y flwyddyn gasglu.
2. Gellir **cofrestru plentyn fwy nag unwaith** yn ystod y flwyddyn. Cyfrwch y rhain i gyd.
3. Dylech gynnwys **plant heb eu geni** yn eich cyfrif ar gyfer y metrig.

### Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur

1. Peidiwch â chynnwys plant sydd **nad ydynt ar y gofrestr** yn y flwyddyn gasglu.
2. Peidiwch â chynnwys cynadleddau amddiffyn plant a gofnodwyd drwy gamgymeriad.
3. Dylech eithrio cynadleddau Trosglwyddo i Mewn.

### Cyfeirnod Mesur: CH/028

**Enw'r Mesur:** Nifer y cyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac a gynhaliwyd o fewn amserlenni statudol.

### Bwriad y Mesur

Mae'r metrig hwn yn monitro cydymffurfiad awdurdodau â safonau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu ar gyfer plant yng Nghymru.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CH/027.***

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 7 (Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl), Cyfrol 5 (Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg), para. 172 yn datgan:

"*Mae gan y grŵp craidd gyfrifoldeb am herio a hysbysu ynghylch pryderon lle maent yn teimlo nad yw'r cynllun yn amddiffyn y plentyn rhag y risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed. Bydd y grŵp yn cyfarfod o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gynhadledd gychwynnol i ddatblygu'n fanylach y cynllun amddiffyn gofal a chymorth; penderfynu pa gamau pellach sydd eu hangen, gan bwy."*

Cyfrifwch **yr holl** blant a gofrestrwyd yn dilyn cynadleddau amddiffyn plant, lle cynhaliwyd eu cyfarfod grŵp craidd cychwynnol o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gynhadledd. Mae'n bosibl y bydd y gynhadledd amddiffyn plant wedi digwydd yn y flwyddyn gasglu flaenorol. Cyfrwch y rhain os yw'r cyfarfod grŵp craidd cychwynnol yn digwydd o fewn y flwyddyn gasglu.

Dylid cynnwys plant heb eu geni yn y metrig hwn. Wrth sefydlu'r grŵp craidd a'i gyfarfod cyntaf, dylid dilyn yr un broses ag ar gyfer pob plentyn arall, h.y. o fewn 10 diwrnod i'r gynhadledd amddiffyn plant.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch **yr holl gyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol** a gynhaliwyd o fewn **10 diwrnod gwaith i'r diwrnod cofrestru,** ni waeth beth fo'r dyddiad cofrestru. **Data sylfaen - CH/027**
2. Gall plentyn gael **mwy nag un cyfarfod grŵp craidd cychwynnol** yn ystod y flwyddyn. Cyfrwch y rhain i gyd.
3. Dylech gynnwys **plant heb eu geni** yn eich cyfrif ar gyfer y metrig.
4. Mae'r **diwrnod cofrestru yn cael ei ddosbarthu fel diwrnod sero.** Cyfrifwch 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad hwn.
5. Cyfrwch o'r **dyddiad y cynhaliwyd y gynhadledd amddiffyn plant**, ni waeth pryd y llofnodwyd neu yr awdurdodwyd unrhyw ffurflen ar y system.
6. Mae cyfarfod grŵp craidd a **gynhaliwyd ar ddiwrnod 10 yn cael ei ddosbarthu fel 'prydlon'** a dylid ei gynnwys yn y cyfrif ar gyfer y metrig hwn.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant sydd **heb eu cofrestru** yn y flwyddyn gasglu **(CH/023j-k).**
2. Peidiwch â chynnwys plant sydd â chyfarfod grŵp craidd cychwynnol wedi'i gynnal **11 diwrnod gwaith neu fwy** ar ôl y dyddiad cofrestru.
3. Peidiwch â chynnwys diwrnodau **heb fod yn ddiwrnodau gwaith** (penwythnosau, gwyliau banc) yn eich cyfrifiad amser.
4. Peidiwch â chynnwys unrhyw gysylltiadau a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

5. Dylech eithrio cynadleddau Trosglwyddo i Mewn.

**Cyfeirnod Mesur: CH/029**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm yr ymweliadau â phlant ar y gofrestr amddiffyn plant a oedd yn ddyledus yn ystod y flwyddyn gasglu.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn monitro cydymffurfiad awdurdodau â safonau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol sicrhau nad oedd nifer yr ymweliadau a oedd i fod i gael eu cynnal â'r plentyn sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn llai na'r gofynion sylfaenol a nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn seiliedig ar gynllun gofal a chymorth pob plentyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu ar gyfer plant yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae Diogelu Cymru - Cyfrifoldebau'r gweithiwr cymdeithasol (cydgysylltydd y cynllun amddiffyn gofal a chymorth) yn nodi y dylai'r gweithiwr cymdeithasol:

- *"Ymgysylltu'n weithredol â'r plentyn gan gynnwys:*
- *Gweld y plentyn ar ei ben ei hun o leiaf bob 10 diwrnod gwaith a sicrhau bod y plentyn yn cael ei weld gartref bob 4 wythnos o leiaf.*
    - *Gall plentyn gael ei 'weld' drwy alwad fideo neu rith-gynhadledd os yw'r dull hwnnw wedi cael ei argymell gan ddefnyddio asesiad risg.*
    - *Yn absenoldeb y gweithiwr cymdeithasol a nodwyd, rhaid i'r rheolwr tîm/rheolwr llinell sicrhau bod yr ymweliadau hyn yn digwydd.*
- *Gan fod yn ymwybodol bod 'gweld' y plentyn yn golygu, (yn dibynnu ar oedran, cam datblygu ac anabledd) canfod newidiadau i'w profiad go iawn o ganlyniad i weithredu'r cynllun gofal a chymorth yn ogystal â'u dymuniadau a'u teimladau; sicrhau bod ystafell wely'r plentyn yn cael ei gweld o leiaf unwaith rhwng cynadleddau adolygu."*

Cyfrwch **bob ymweliad a oedd i fod i gael ei gynnal** yn ystod y flwyddyn gasglu ar gyfer plant ar y gofrestr amddiffyn plant.

Ni ddylid cynnwys plant heb eu geni yn y metrig hwn.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch **gyfanswm yr ymweliadau a oedd i fod i gael eu cynnal** yn ystod y flwyddyn gasglu ar gyfer plant ar y gofrestr amddiffyn plant, **ni waeth pryd y cawsant eu hychwanegu at y gofrestr.**
2. Gellir cofrestru plentyn fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn gasglu. Rhaid cynnwys ymweliadau yn ystod y cyfnodau hyn **i gyd** yn y cyfrif, ond dylech ond gyfri nifer yr ymweliadau a oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y cyfnod y **cofrestrwyd y plentyn**.
   Mae'r **diwrnod cofrestru** (neu ddechrau'r flwyddyn gasglu) **yn cael ei ddosbarthu fel diwrnod sero.**
3. Dylech gynnwys plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant **ac** sy'n derbyn gofal yn eich cyfrif.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**


1. Peidiwch â chynnwys plant sydd **nad ydynt ar y gofrestr** yn y flwyddyn gasglu.
2. Ni ddylech gynnwys **plant heb eu geni** yn eich cyfrif metrig.
3. Peidiwch â chynnwys ymweliadau ar y **dyddiad datgofrestru** yn eich cyfrif.
4. Peidiwch â chynnwys cyfnodau yn ystod y flwyddyn pan na chafodd y plentyn ei gofrestru.
5. Peidiwch â chynnwys diwrnodau **heb fod yn ddiwrnodau gwaith** (penwythnosau, gwyliau banc) yn eich cyfrifiad amser.
6. Peidiwch â chynnwys data a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

**Cyfrif ymweliadau sydd i'w cynnal ar gyfer plant ar y gofrestr amddiffyn plant – Enghraifft 1.**

Rhoddwyd Plentyn A ar y gofrestr amddiffyn plant ar 9 Mehefin 2020. Arhosodd ar y gofrestr amddiffyn plant am weddill y flwyddyn gasglu. Cyfrwch nifer y diwrnodau gwaith rhwng 10 Mehefin 2020 a 31 Mawrth 2021.

Yn yr achos hwn, mae **207 diwrnod gwaith** rhwng cofrestru a diwedd y flwyddyn gasglu (gweler y darlun ar y dudalen nesaf). Mae hyn yn golygu bod **20.7 o ymweliadau** i'w cynnal. **Talgrynnwch y rhif hwn i lawr**, gan y byddai'r ymweliad nesaf yn y flwyddyn gasglu nesaf. **Mae gan Blentyn A 20 o ymweliadau** yn y flwyddyn gasglu.

**Darlun o gyfrif ymweliadau sydd i'w cynnal ar gyfer plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, Enghraifft 1**



**Cyfrif ymweliadau sydd i'w cynnal ar gyfer plant ar y gofrestr amddiffyn plant – Enghraifft 2.**

Rhoddwyd Plentyn B ar y gofrestr amddiffyn plant ar 12 Tachwedd 2020. Ar 24 Chwefror daeth yn blentyn sy'n derbyn gofal, ond arhosodd ar y gofrestr amddiffyn plant tan 30 Mawrth.

Yn yr achos hwn, nid yw dod yn blentyn sy'n derbyn gofal yn cael unrhyw effaith ar y gofynion ar gyfer ymweld â phlentyn a roddir ar y gofrestr amddiffyn plant, er y gall amlder yr ymweliadau newid oherwydd gofynion penodol ar gyfer ymweld â'r plentyn o dan ran 6 o'r Ddeddf. Anwybyddwch y digwyddiad yma yn eich cyfrif. Mae **96 diwrnod gwaith** rhwng y cofrestru a diwedd y flwyddyn gasglu (gweler y llun ar y dudalen nesaf). Mae hyn yn golygu bod **9.6 o ymweliadau** i'w cynnal. **Talgrynnwch y rhif hwn i lawr**, gan y byddai'r ymweliad nesaf ar ôl datgofrestru. **Mae gan Blentyn B 9 ymweliad yn** y flwyddyn gasglu.

**Darlun o gyfrif ymweliadau sydd i'w cynnal ar gyfer plant ar y gofrestr amddiffyn plant - Enghraifft 2.**




**Cyfrif ymweliadau sydd i'w cynnal ar gyfer plant ar y gofrestr amddiffyn plant – Enghraifft 3.**

Roedd Plentyn C eisoes wedi'i roi ar y gofrestr amddiffyn plant ar ddechrau'r flwyddyn gasglu. Ar 9 Awst 2021 cafodd ei ddatgofrestru o'r gofrestr amddiffyn plant. Yn dilyn cyfnod o ofal a chymorth, cafodd ei ailgofrestru ar 12 Chwefror 2022 ac arhosodd ar y gofrestr tan ddiwedd y flwyddyn gasglu.

I gyfrifo nifer yr ymweliadau sydd i'w cynnal ar gyfer plentyn C, mae angen inni gyfrif y ddau gyfnod cofrestru yn ystod y flwyddyn. Cyfrwch nifer y diwrnodau gwaith o ddechrau'r flwyddyn gasglu hyd at y diwrnod datgofrestru. Mae gan y cyfnod hwn **88** diwrnod gwaith (gweler y darlun ar y dudalen nesaf), felly roedd **8** o ymweliadau i fod i gael eu cynnal yn ystod y cyfnod hwn (**88/10=8.8**). Roedd gan yr ail gyfnod **34** diwrnod gwaith **(34/10=3.4)**, sy'n golygu bod **3** o ymweliadau i fod i gael eu cynnal yn yr ail gyfnod cofrestru.

Rhaid i gyfnodau cofrestru lluosog **gael eu cyfrifo ar wahân**. Gall methu â gwneud hyn achosi gwall yn eich cyfrifiad. Mae'r cyfrifiad uchod yn dangos bod 11 o ymweliadau i fod i gael eu cynnal ar gyfer plentyn C yn y cyfnod cofrestru. Os ychwanegwn y ddau gyfnod a gwneud y cyfrifiad, rydym yn cael cyfanswm o 122 diwrnod gwaith, sydd o'i rannu â 10 yn rhoi 12 ymweliad inni yn sgil ychwanegu rhifau sydd â gweddill sy'n gwneud cyfanswm o fwy nag 1. Mae ffyrdd o gyflawni hyn mewn un cyfrifiad, drwy dalgrynnu'r rhifau i lawr i'r lluosrif isaf agosaf o 10. Er enghraifft ((88 = 80) + (34 = 30))/10 = 11. Gallwch ddefnyddio'r swyddogaeth TRUNCATE yn SQL neu'r swyddogaeth FLOOR.MATH yn Excel i wneud hyn.

**Darlun o gyfrif ymweliadau sydd i'w cynnal ar gyfer plant ar y gofrestr amddiffyn plant - Enghraifft 3.**



**Cyfeirnod Mesur: CH/030**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm yr ymweliadau â phlant ar y gofrestr amddiffyn plant a oedd wedi cael:

a. eu cwblhau, boed y rheini o fewn amserlenni statudol ai peidio
b. eu cwblhau o fewn amserlenni statudol.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn monitro cydymffurfiad awdurdodau â safonau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol sicrhau nad oedd nifer yr ymweliadau a gwblhawyd â phlant ar y gofrestr amddiffyn plant yn llai na'r gofynion sylfaenol a nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn seiliedig ar gynllun gofal a chymorth pob plentyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu ar gyfer plant yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae Diogelu Cymru - Cyfrifoldebau'r gweithiwr cymdeithasol (cydgysylltydd y cynllun amddiffyn gofal a chymorth) yn nodi

*"Dylai'r gweithiwr cymdeithasol:*

- *Ymgysylltu'n weithredol â'r plentyn gan gynnwys:*
- *Gweld y plentyn ar ei ben ei hun o leiaf bob* ***10 diwrnod gwaith*** *a sicrhau bod y plentyn yn cael ei weld gartref bob 4 wythnos o leiaf*. Yn absenoldeb y gweithiwr cymdeithasol a nodwyd, rhaid i'r rheolwr tîm/rheolwr llinell sicrhau bod yr ymweliadau hyn yn digwydd;*
- *Gan fod yn ymwybodol bod 'gweld' y plentyn yn golygu, (yn dibynnu ar oedran, cam datblygu ac anabledd) canfod newidiadau i'w profiad go iawn o ganlyniad i weithredu'r cynllun gofal a chymorth yn ogystal â'u dymuniadau a'u teimladau; sicrhau bod ystafell wely'r plentyn yn cael ei gweld o leiaf unwaith rhwng cynadleddau adolygu."*

*Gall plentyn gael ei ‘weld’ drwy alwad fideo neu rith-gynhadledd os yw’r dull hwnnw wedi cael ei argymell gan ddefnyddio asesiad risg.

Cyfrwch yr **holl** blant a oedd ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn gasglu yr **ymwelwyd â nhw**:

a. **ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn**, a;
b. **dim ond y rheini yr ymwelwyd â nhw o fewn amserlenni statudol.**

**Ni** ddylid cynnwys plant heb eu geni yn y metrig hwn.

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch **gyfanswm nifer** y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn
   a. **ymwelwyd â nhw yn ystod y flwyddyn, ac;**
   b. **yr ymwelwyd â nhw o fewn amserlenni statudol.**
   Mae hyn yn cynnwys unrhyw blentyn a oedd ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn, ni waeth pryd roedd wedi ymuno â’r gofrestr.
2. Os gwnaed sawl ymweliad yn ystod y flwyddyn,
   a. Ar gyfer rhan a, rhowch **bob ymweliad a gwblhawyd**.
   b. Ar gyfer rhan b, rhowch **ddim ond ymweliadau o fewn amserlenni statudol**.
3. Dim ond ymweliadau a gwblhawyd tra’r oedd y **plentyn wedi’i gofrestru** y dylech eu cyfrif.
4. Mae dyddiad pob ymweliad **llwyddiannus** yn ailosod cloc yr amserlen statudol ar gyfer pob cyfnod.
5. Dylech gynnwys plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant **ac** sy’n derbyn gofal yn eich cyfrif.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant **nad ydynt ar y gofrestr amddiffyn plant** yn y flwyddyn gasglu **(CH/023j-k).** Peidiwch â chynnwys cyfnodau yn ystod y flwyddyn pan na chafodd y plentyn ei gofrestru.
2. Ni ddylech gynnwys **plant heb eu geni** yn eich cyfrif metrig.
3. Peidiwch â chynnwys ymweliadau nad oeddent yn llwyddiannus (dim ateb, plentyn heb ei weld ac ati).

   a. Ar gyfer rhan b, peidiwch â chynnwys ymweliadau na chawsant eu cwblhau o fewn amserlenni statudol.
4. Peidiwch â chynnwys diwrnodau **heb fod yn ddiwrnodau gwaith** (penwythnosau, gwyliau banc) yn eich cyfrifiad amser.
5. Peidiwch â chynnwys data a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

## Cyfrifo nifer yr ymweliadau amddiffyn plant a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol - enghraifft.

Gweler y darlun ar y dudalen nesaf.


Mae **Ymweliad 1** 9 diwrnod gwaith o'r dyddiad cofrestru. **Mae'r ymweliad hwn o fewn yr amserlen.**

Mae **Ymweliad 2** 5 diwrnod gwaith o ddyddiad yr ymweliad diwethaf. **Mae'r ymweliad hwn o fewn yr amserlen.**

Mae **Ymweliad 3** 29 diwrnod gwaith o ddyddiad yr ymweliad diwethaf. **NID yw'r ymweliad hwn o fewn yr amserlen.**

Er bod ymweliad wedi'i drefnu (4). Ni ddigwyddodd.

Mae **Ymweliad 5** 19 diwrnod gwaith o'r ymweliad diwethaf. **NID yw'r ymweliad hwn o fewn yr amserlen.**



Start of Financial Year
M1
M2
Registration (R)
Visit (V1)
Visit (V2)
Visit (V3)
Missed visit (M3)
Visit (V4)
1
2
3
4
5
9 W/Days
5 W/Days
29 W/Days
8 W/Days
11 W/Days
19 W/Days

**Rhagdybiaethau:**

1. Bydd ymweliad a gofnodir ar y system yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ymweliad amddiffyn plant
2. Mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar ddiwrnodau gwaith
3. Nid yw'r ymweliad 'coll' wedi'i gofnodi ar y system fel ymweliad gyda thestun yn esbonio nad oedd wedi digwydd.
4. Mae ymweliad fod i gael ei gynnal 10 diwrnod gwaith o'r ymweliad diwethaf. Ar sail y rhesymeg hon, bob tro y mae ymweliad yn cael ei gofnodi yn y system, mae hynny'n golygu bod ymweliad newydd i fod i gael ei gynnal.

**Cyfrifiad:**

1. Cyfrwch nifer yr ymweliadau a gwblhawyd o'r dyddiad cofrestru (neu ddechrau'r flwyddyn ariannol os yw'r cofrestriad yn y flwyddyn flaenorol).
2. Cyfrwch nifer y diwrnodau gwaith rhwng ymweliadau (neu rhwng y cofrestru a'r ymweliad cyntaf). Rhannwch bob canlyniad â 10 a thalgrynnu'r canlyniad i lawr.
3. Ychwanegwch nifer yr ymweliadau at nifer yr 'ymweliadau a gollwyd' (cyfrifiadau ym mhwynt 3) i gael nifer yr ymweliadau sydd i'w cynnal.
4. Mae ymweliad i'w gynnal 10 diwrnod gwaith o'r ymweliad diwethaf. Ar sail y rhesymeg hon, bob tro y mae ymweliad yn cael ei gofnodi yn y system, mae hynny'n golygu bod ymweliad newydd i fod i gael ei gynnal.

**Nifer yr ymweliadau yn y flwyddyn ariannol, Calc1**

Ymweliadau (V1 + V2 + V3 + V5) = 4

**Dyddiau Rhyngddynt, Calc2**

FLOOR (V1 – R = 9)/10 = 0

FLOOR (V2 – V1 = 5)/10 = 0

FLOOR (V3 – V2 = 29)/10 = 2

FLOOR (V5 – V3 =19)/10 = 1

(EOY* – V5 = n)/10 = n etc.

Cyfanswm = 3

*Diwedd y flwyddyn – 31 Mawrth

**Cyfanswm nifer yr ymweliadau sydd i'w cynnal – Canlyniad Calc1 + Canlyniad Calc2, 4+3=7**

**Cyfanswm nifer yr ymweliadau prydlon = Cyfrif (Calc2) <1 = 2**

**Cyfeirnod Mesur: CH/031**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr adroddiadau am blant a aeth ar goll yn ystod y flwyddyn.

**Bwriad y Mesur**

Mae **Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Rhan 6** (Canllawiau ymarfer, Diogelu plant sy'n mynd ar goll o'u cartref neu ofal) yn nodi:

"*Gwyddom pan fo plentyn yn mynd ar goll eu bod yn agored i ystod o beryglon emosiynol, corfforol a rhywiol: mae'n bosib y byddant yn ymddwyn yn droseddol er mwyn goroesi neu oherwydd bod oedolion yn camfanteisio arnynt. Rydyn ni'n gwybod bod plant sydd â mwy nag un cyfnod ar goll a'r rheini sy'n mynd ar goll am gyfnodau hir mewn perygl mawr o ddioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant a/neu gamfanteisio troseddol ac y gallent gael eu masnachu pan fyddant ar goll.*"

Mae camfanteisio ar blant yn fater diogelu sy'n gallu ac sy'n achosi niwed sylweddol i blant. Mae casglu a monitro data ar ecsploetio yn galluogi awdurdodau lleol i ddatblygu a mireinio eu strategaethau ymhellach er mwyn atal y math hwn o gam-drin.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

Mae **Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Rhan 6** (Canllawiau ymarfer, Diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal) yn nodi "*bydd unrhyw un na ellir sefydlu ei leoliad yn cael ei ystyried fel rhywun ar goll hyd nes y deuir o hyd iddo ac y gellir cadarnhau eu llesiant ai peidio.*"

Pan fydd plentyn yn mynd ar goll, dylid rhoi gwybod i'r awdurdod lleol lle mae'r plentyn yn byw **a'r awdurdod cyfrifol lle mae'r plentyn yn byw fel arfer.** Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru hefyd yn nodi:

*"Mae pawb yn gyfrifol am ddiogelu: er mwyn i wasanaethau fod yn effeithiol, rhaid i bob ymarferydd a sefydliad chwarae eu rhan lawn yn unigol ac mewn cydweithrediad;"*

Mae'n hanfodol felly bod gan yr heddlu, gofalwyr, sefydliadau preswyl plant a'r awdurdod lleol yr wybodaeth angenrheidiol ar gyfer plant sy'n mynd ar goll neu y mae risg y byddant yn mynd ar goll.

At ddibenion y metrig hwn, cyfrwch **gyfanswm nifer yr adroddiadau** a dderbyniwyd o blant sy'n cael gofal a chymorth sy'n mynd ar goll. Lle bo hynny'n berthnasol, mae hyn yn cyfeirio at adroddiadau a gafwyd gan weithiwr cymdeithasol y plentyn.

Cyfrwch ddim ond y plant hynny sy'n cael gofal a chymorth gan eich awdurdod lleol. Os yw plentyn yn un sy'n derbyn gofal ac yn cael ei roi mewn awdurdod lleol gwahanol, **rhaid ichi sicrhau eich bod yn cael gwybod bod y plentyn ar goll, hyd yn oed os ceir hyd i'r plentyn.** Mae rhagor o ganllawiau ymarfer ar gael ar wefan Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrifwch **yr holl adroddiadau** am blant sy'n mynd ar goll yn ystod y flwyddyn gasglu.
2. Cyfrwch y plant sy'n cael gofal a chymorth a hefyd y plant sy'n derbyn gofal gan eich awdurdod lleol.
3. Gall plentyn fynd ar goll **sawl gwaith** yn ystod y flwyddyn. **Casglwch bob un o'r rhain.**
4. Cyfrwch bob adroddiad, **ni waeth am ba mor hir y mae'r plentyn ar goll.**
5. Dylech gynnwys **pob adroddiad** am blentyn y mae eich awdurdod lleol yn gyfrifol amdano, ni waeth a gychwynnwyd y broses amddiffyn plant ffurfiol ai peidio.

**Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys unrhyw blentyn sy'n cael ei **leoli yn eich ardal gan awdurdod lleol arall.**
2. Peidiwch â chasglu unrhyw achosion o fynd ar goll **y tu allan i'r flwyddyn gasglu,** hyd yn oed os ydynt yn dal ar goll pan fydd yn dechrau.
3. Peidiwch â chynnwys data sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/032**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y plant a aeth ar goll  yn ystod y flwyddyn.

**Bwriad y Mesur**

Mae **Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Rhan 6** (Canllawiau ymarfer, Diogelu plant sy'n mynd ar goll o'u cartref neu ofal) yn nodi:

"*Gwyddom pan fo plentyn yn mynd ar goll eu bod yn agored i ystod o beryglon emosiynol, corfforol a rhywiol: mae'n bosib y byddant yn ymddwyn yn droseddol er*

*mwyn goroesi neu oherwydd bod oedolion yn camfanteisio arnynt. Rydyn ni'n gwybod bod plant sydd â mwy nag un cyfnod ar goll a'r rheini sy'n mynd ar goll am gyfnodau hir mewn perygl mawr o ddioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant a/neu gamfanteisio troseddol ac y gallent gael eu masnachu pan fyddant ar goll."*

Mae camfanteisio ar blant yn fater diogelu sy'n gallu ac sy'n achosi niwed sylweddol i blant. Mae casglu a monitro data ar ecsploetio yn galluogi awdurdodau lleol i ddatblygu a mireinio eu strategaethau ymhellach er mwyn atal y math hwn o gam-drin.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CH/031***

Mae **Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Rhan 6** (Canllawiau ymarfer, Diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal) yn nodi *"bydd unrhyw un na ellir sefydlu ei leoliad yn cael ei ystyried fel rhywun ar goll hyd nes y deuir o hyd iddo ac y gellir cadarnhau eu llesiant ai peidio."*

Pan fydd plentyn yn mynd ar goll, dylid rhoi gwybod i'r awdurdod lleol lle mae'r plentyn yn byw **a'r awdurdod cyfrifol lle mae'r plentyn yn byw fel arfer.** Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru hefyd yn nodi:

*"Mae pawb yn gyfrifol am ddiogelu: er mwyn i wasanaethau fod yn effeithiol, rhaid i bob ymarferydd a sefydliad chwarae eu rhan lawn yn unigol ac mewn cydweithrediad"*

Mae'n hanfodol felly bod gan yr heddlu, gofalwyr, sefydliadau preswyl plant a'r awdurdod lleol yr wybodaeth angenrheidiol ar gyfer plant sy'n mynd ar goll neu y mae risg y byddant yn mynd ar goll.

At ddibenion y metrig hwn, cyfrwch **gyfanswm nifer y plant** sy'n cael gofal a chymorth sy'n mynd ar goll.

Cyfrwch ddim ond y plant **lle mae eich awdurdod lleol yn darparu gofal a chymorth i'r plentyn**. Os yw plentyn yn un sy'n derbyn gofal ac yn cael ei roi mewn awdurdod lleol gwahanol, **rhaid ichi sicrhau eich bod yn cael gwybod bod y plentyn ar goll, hyd yn oed os ceir hyd i'r plentyn.** Mae rhagor o ganllawiau ymarfer ar gael ar wefan Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch **gyfanswm nifer y plant sy'n** mynd ar goll yn ystod y flwyddyn gasglu. **Data sylfaen = CH/031**
2. Cyfrwch y plant sy'n cael gofal a chymorth a hefyd y plant sy'n derbyn gofal gan eich awdurdod lleol.
3. Gall plentyn fynd ar goll **sawl gwaith** yn ystod y flwyddyn. **Cyfrwch bob plentyn unwaith yn unig.**
4. Dylech gynnwys pob plentyn **ni waeth am ba mor hir y mae'r plentyn ar goll.**
5. Dylech gynnwys **pob plentyn** y mae eich awdurdod lleol yn gyfrifol amdano, ni waeth a gychwynnwyd y broses amddiffyn plant ffurfiol ai peidio.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys unrhyw blentyn sy'n cael ei **leoli yn eich ardal gan awdurdod lleol arall.**
2. Peidiwch â chasglu unrhyw achosion o fynd ar goll**y tu allan i'r flwyddyn gasglu,** hyd yn oed os ydynt yn dal ar goll pan fydd yn dechrau.
3. Peidiwch â chynnwys data sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/033**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol yn ystod y flwyddyn lle'r oedd camfanteisio ar blant yn ffactor.

**Bwriad y Mesur**

Drwy gasglu'r data hwn, gall awdurdodau lleol fesur achosion o amheuaeth o gam-drin neu niwed, os oes gan yr awdurdod lleol achos rhesymol dros amau bod y plentyn mewn perygl ynghylch pryderon diogelu penodol.

Mae camfanteisio ar blant yn fater diogelu sy'n gallu ac sy'n achosi niwed sylweddol i blant. Mae casglu a monitro data ar ecsploetio yn galluogi awdurdodau lleol i ddatblygu a mireinio eu strategaethau ymhellach er mwyn atal y math hwn o gam-drin.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CH/020a.***

Mae camfanteisio ar blant yn digwydd pan fydd rhywun yn ceisio rheoli ymddygiad a gweithredoedd plentyn yn ei ffordd ei hun drwy ei orfodi a'i gam-drin. Mae hyn yn aml yn cael ei ragfwriadu a'i gynllunio ond gall hefyd fod yn fanteisgar ac fe'i cyflawnir gyda diffyg empathi llwyr tuag at y dioddefwyr.

Mae sawl math o gamfanteisio ar blant yn bodoli. Gall pob un gael effaith hirdymor ddifrifol ar bob agwedd ar fywyd plentyn. At ddibenion y metrig hwn, mae camfanteisio'n rhywiol ar blant, camfanteisio'n droseddol ar blant a masnachu pobl yn cael eu cyfrif. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn diffinio'r rhain fel a ganlyn:

**"Camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE)**

*Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn fath o gam-drin rhywiol sy'n gallu cynnwys rhyw neu unrhyw fath o weithgarwch rhywiol gyda phlentyn; cynhyrchu delweddau anweddus a/neu unrhyw ddeunydd anweddus arall sy'n ymwneud â phlant.*

*Mae'n digwydd i rai hyd at 18 oed ac mae'n cynnwys rhyw fath o gyfnewid. Gall y cyfnewid gynnwys rhoi neu dynnu rhywbeth yn ôl, megis atal trais neu fygythiadau i gam-drin unigolyn arall. Mae'n bosibl y bydd hwylusydd hefyd a fydd yn derbyn rhywbeth, yn ogystal â neu yn lle'r plentyn y camfanteisir arno. Efallai na fydd plant yn cydnabod natur gamfanteisiol y berthynas neu'r cyfnewid. Efallai y bydd plant yn teimlo fel eu bod wedi rhoi eu caniatâd.*

**Camfanteisio'n Droseddol ar Blant (CCE)**

*Mae Camfanteisio'n Droseddol ar Blant yn fath o gam-drin plant sy'n cynnwys camfanteisio troseddol ac mae angen ymateb diogelu. Mae plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol gan gynnwys symud cyffuriau neu arian sy'n arwain at fudd personol i unigolyn, grŵp neu gang troseddol cyfundrefnol. Mae'n digwydd i'r rhai hyd at 18 oed.*

*Mae'n golygu hudo a/neu orfodi ac mae'n cynnwys elfen o gyfnewid a gall dal fod yn ecsbloetio hyd yn oed os yw'r gweithgaredd yn ymddangos yn gydsyniol. Gall gynnwys defnyddio grym a/neu ddulliau cydymffurfio sy'n seiliedig ar anogaeth ac yn aml mae trais neu fygythiadau o drais yn cyd-fynd ag ef. Mae'n cael ei nodweddu gan ryw fath o anghydbwysedd grym o blaid y rhai sy'n cyflawni'r cam-fanteisio.*

**Masnachu mewn Plant**

*Mae Masnachu mewn Plant yn cynnwys 3 elfen:*

***Cam gweithredu***
*Recriwtio, cludo, trosglwyddo, llochesu neu dderbyn plentyn sy'n cynnwys elfen o symud o un lle i'r llall.*

***Camfanteisio***
*Mae tystiolaeth neu achos rhesymol dros gredu bod plentyn yn cael ei gam-drin drwy gamfanteisio rhywiol, camfanteisio troseddol, llafur gorfodol neu gaethwasanaeth domestig, caethwasiaeth, camfanteisio ariannol, mabwysiadu anghyfreithlon, tynnu organau'r plentyn (gweler yr atodiadau).*

***Ac yn cynnwys plentyn.***

*Mae'n digwydd i'r rhai hyd at 18 oed."*

Mae camfanteisio yn fater diogelu, ac o'r herwydd mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau o dan God Ymarfer Rhan 7 (Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

At ddibenion y metrig hwn, cyfrwch **gyfanswm nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol** sydd wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn lle mae sail resymol dros amau bod plentyn yn wynebu risg o gamfanteisio ar blant o dan y categorïau camfanteisio'n rhywiol ar blant, camfanteisio'n droseddol ar blant, masnachu plant. Mae rhagor o ganllawiau ymarfer ar gael ar wefan Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **cyfanswm nifer y plant** a gafodd gyfarfodydd strategaeth rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu lle mae sail resymol dros amau bod plentyn yn wynebu risg o gamfanteisio o dan y categorïau **camfanteisio'n rhywiol ar blant, camfanteisio'n droseddol ar blant, neu fasnachu plant. Data sylfaen = CH/020a**.
2. Dylech gynnwys cyfarfodydd strategaeth ar gyfer plant sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol ar yr adeg y cynhaliwyd y cyfarfod yn ogystal â'r rhai nad oes ganddynt gynllun gofal a chymorth gweithredol.
3. Dylech ddim ond cynnwys cyfarfodydd strategaeth sydd wedi'u **cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu** (lle mae'r penderfyniad wedi'i awdurdodi gan reolwr practis neu berson sy'n gweithredu ar ei ran).
4. Cyfrwch bob plentyn **unwaith** yn unig.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cyfarfodydd strategaeth **na chawsant eu cwblhau** yn ystod y flwyddyn gasglu, boed y rheini wedi'u dechrau yn y flwyddyn honno ai peidio.
2. Peidiwch â chyfrif plentyn fwy nag **unwaith, p'un a oedd yn destun adrodd ar gyfer nifer o ffactorau camfanteisio ai peidio.**
3. Peidiwch â chynnwys cyfarfodydd strategaeth sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/034**

**Enw'r Mesur:** Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn lle penderfynwyd symud ymlaen i ymholiadau Adran 47, yn ôl y math o ffactor camfanteisio ar blant:

a. Camfanteisio'n rhywiol ar blant
b. Camfanteisio’n droseddol ar blant
c. Masnachu plant

**Bwriad y Mesur**

Drwy gasglu’r data hwn, gall awdurdodau lleol fesur achosion o amheuaeth o gam-drin neu niwed, os oes gan yr awdurdod lleol achos rhesymol dros amau bod y plentyn mewn perygl ynghylch pryderon diogelu penodol.

Mae camfanteisio ar blant yn fater diogelu sy’n gallu ac sy’n achosi niwed sylweddol i blant. Mae casglu a monitro data ar ecsploetio yn galluogi awdurdodau lleol i ddatblygu a mireinio eu strategaethau ymhellach er mwyn atal y math hwn o gam-drin.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu yng Nghymru a’i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CH/021a***

Mae camfanteisio ar blant yn digwydd pan fydd rhywun yn ceisio rheoli ymddygiad a gweithredoedd plentyn yn ei ffordd ei hun drwy ei orfodi a’i gam-drin. Mae hyn yn aml yn cael ei ragfwriadu a’i gynllunio ond gall hefyd fod yn fanteisgar ac fe’i cyflawnir gyda diffyg empathi llwyr tuag at y dioddefwyr.

Mae sawl math o gamfanteisio ar blant yn bodoli. Gall pob un gael effaith hirdymor ddifrifol ar bob agwedd ar fywyd plentyn. At ddibenion y metrig hwn, mae camfanteisio’n rhywiol ar blant, camfanteisio’n droseddol ar blant a masnachu pobl yn cael eu cyfrif. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn diffinio’r rhain fel a ganlyn:

**“Camfanteisio’n rhywiol ar blant (CSE)**

*Mae camfanteisio’n rhywiol ar blant yn fath o gam-drin rhywiol sy’n gallu cynnwys rhyw neu unrhyw fath o weithgarwch rhywiol gyda phlentyn; cynhyrchu delweddau anweddus a/neu unrhyw ddeunydd anweddus arall sy’n ymwneud â phlant.*

*Mae’n digwydd i rai hyd at 18 oed ac mae’n cynnwys rhyw fath o gyfnewid. Gall y cyfnewid gynnwys rhoi neu dynnu rhywbeth yn ôl, megis atal trais neu fygythiadau i gam-drin unigolyn arall. Mae’n bosibl y bydd hwylusydd hefyd a fydd yn derbyn rhywbeth, yn ogystal â neu yn lle’r plentyn y camfanteisir arno. Efallai na fydd plant yn cydnabod natur gamfanteisiol y berthynas neu'r cyfnewid. Efallai y bydd plant yn teimlo fel eu bod wedi rhoi eu caniatâd.*

**Camfanteisio’n Droseddol ar Blant (CCE)**

*Mae Camfanteisio'n Droseddol ar Blant yn fath o gam-drin plant sy'n cynnwys camfanteisio troseddol ac mae angen ymateb diogelu. Mae plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol gan gynnwys symud cyffuriau neu arian sy'n arwain at fudd personol i unigolyn, grŵp neu gang troseddol cyfundrefnol. Mae'n digwydd i'r rhai hyd at 18 oed.*

*Mae'n golygu hudo a/neu orfodi ac mae'n cynnwys elfen o gyfnewid a gall dal fod yn ecsbloetio hyd yn oed os yw'r gweithgaredd yn ymddangos yn gydsyniol. Gall gynnwys defnyddio grym a/neu ddulliau cydymffurfio sy'n seiliedig ar anogaeth ac yn aml mae trais neu fygythiadau o drais yn cyd-fynd ag ef. Mae'n cael ei nodweddu gan ryw fath o anghydbwysedd grym o blaid y rhai sy'n cyflawni'r camfanteisio.*

**Masnachu mewn Plant**

*Mae Masnachu mewn Plant yn cynnwys 3 elfen:*

***Cam gweithredu***
*Recriwtio, cludo, trosglwyddo, llochesu neu dderbyn plentyn sy'n cynnwys elfen o symud o un lle i'r llall.*

***Camfanteisio***
*Mae tystiolaeth neu achos rhesymol dros gredu bod plentyn yn cael ei gam-drin drwy gamfanteisio rhywiol, camfanteisio troseddol, llafur gorfodol neu gaethwasanaeth domestig, caethwasiaeth, camfanteisio ariannol, mabwysiadu anghyfreithlon, tynnu organau'r plentyn (gweler yr atodiadau).*

***Ac yn cynnwys plentyn.***
*Mae'n digwydd i'r rhai hyd at 18 oed."*

Mae camfanteisio yn fater diogelu, ac o'r herwydd mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau o dan God Ymarfer Rhan 7 (Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

At ddibenion y metrig hwn, cyfrwch **yr holl** gyfarfodydd strategaeth sydd wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn lle mae sail resymol dros amau bod plentyn yn wynebu risg o gamfanteisio o dan y categorïau camfanteisio'n rhywiol ar blant, camfanteisio'n droseddol ar blant, masnachu plant. Mae rhagor o ganllawiau ymarfer ar gael ar wefan Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Mae'n bosibl y bydd nifer o risgiau o gamfanteisio yn codi o gyfarfod strategaeth. Gellir cyfrif pob adroddiad **fwy nag unwaith**, ni waeth faint o fathau o gamfanteisio sy'n risg i'r plentyn.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **yr holl Gyfarfodydd Strategaeth lle:**
   **a. gwnaed y penderfyniad i symud ymlaen i ymholiadau Adran 47**, A
   **b.** bod y cyfarfod wedi'i gynnal rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu, A

    c. pan fo sail resymol dros amau bod plentyn yn wynebu camfanteisio o dan y categorïau **camfanteisio'n rhywiol ar blant (a), camfanteisio'n droseddol ar blant (b), neu fasnachu plant (c).**
    d. **Data sylfaen = CH/021a**.
2. Dylech gynnwys cyfarfodydd strategaeth ar gyfer plant sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol ar yr adeg y cynhaliwyd y cyfarfod yn ogystal â'r rhai nad oes ganddynt gynllun gofal a chymorth gweithredol.
3. Dylech ddim ond cynnwys cyfarfodydd strategaeth sydd wedi'u **cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu** (lle mae'r penderfyniad wedi'i awdurdodi gan reolwr practis neu berson sy'n gweithredu ar ei ran).
4. Mae'n bosibl y bydd plentyn yn destun adrodd am **nifer o ffactorau camfanteisio**. **Cyfrwch bob un o'r rhain ar wahân.**
5. Gall plentyn gael **mwy nag un** cyfarfod strategaeth yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrifwch bob un sy'n bodloni'r meini prawf uchod.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys unrhyw gyfarfod strategaeth lle oes sail **resymol** dros amau bod plentyn yn wynebu risg o gamfanteisio o dan y categorïau **camfanteisio'n rhywiol ar blant, camfanteisio'n droseddol ar blant, neu fasnachu plant.**
2. Peidiwch â chynnwys cyfarfodydd strategaeth **na chawsant eu cwblhau** yn ystod y flwyddyn gasglu, boed y rheini wedi'u dechrau yn y flwyddyn honno ai peidio.
3. Peidiwch â chynnwys cyfarfodydd strategaeth **na chawsant eu cwblhau** yn ystod y flwyddyn.
4. Peidiwch â chynnwys cyfarfodydd strategaeth sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/035**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y diwrnodau ar y gofrestr amddiffyn plant ar gyfer plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn.

**Bwriad y Mesur**

O'i gyfuno â CH/036, mae'r metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i fonitro cyfartaledd yr amser y mae plant yn aros ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae monitro'r metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i ddeall iechyd gweithredol eu prosesau amddiffyn plant.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu ar gyfer plant yng Nghymru.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn cysylltu â CH/036.***

Mae Cod Ymarfer **Rhan 7** (Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl), Cyfrol 5 (Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn plant sy'n wynebu risg) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 176** yn nodi:

"*Ni ddylai plentyn fod yn destun cynllun amddiffyn gofal a chymorth mwyach os:*

- *Bernir nad yw'r plentyn bellach mewn perygl parhaus o niwed arwyddocaol y mae angen ei amddiffyn drwy gyfrwng cynllun amddiffyn gofal a chymorth. Dan yr amgylchiadau hyn, dim ond cynhadledd adolygu amddiffyn plant all benderfynu nad oes angen cynllun amddiffyn gofal a chymorth mwyach.*
- *Mae'r plentyn a'r teulu wedi symud yn barhaol i ardal awdurdod lleol arall. Mewn achosion o'r fath, dylai'r awdurdod lleol sy'n derbyn gynnull cynhadledd amddiffyn plant o fewn 15 diwrnod i gael ei hysbysu ynghylch y symud. Dim ond ar ôl i gynhadledd amddiffyn plant trosglwyddo gael ei chynnal y dylai'r awdurdod lleol gwreiddiol derfynu cynllun amddiffyn gofal a chymorth y plentyn a rhoi'r gorau i ymwneud â'r plentyn/person ifanc a'i deulu. Neu*
- *Mae'r plentyn wedi cyrraedd 18 oed, wedi marw neu wedi gadael y DU yn barhaol."*

**Ar gyfer plant a ddatgofrestrwyd** yn dilyn cynadleddau amddiffyn plant a gynhaliwyd yn y flwyddyn gasglu **(CH/036)**, cyfrwch **gyfanswm y diwrnodau** y rhoddwyd y plant hynny ar y gofrestr amddiffyn plant.

Dylech gynnwys y cyfnod o amser yr oedd **yr holl blant sydd wedi'u datgofrestru** wedi'u cofrestru ar y gofrestr amddiffyn plant, ni waeth beth fo'r amser cofrestru. Yr amser dechrau fydd **y dyddiad y cafodd plentyn ei roi ar y gofrestr am y tro cyntaf.** Y dyddiad gorffen fydd **y dyddiad y cafodd y plentyn ei dynnu oddi ar y gofrestr** yn ystod y flwyddyn.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch **gyfanswm nifer y diwrnodau a gofrestrwyd** ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn gasglu. Dylai'r metrig hwn gyfrif nifer y diwrnodau a gofrestrwyd ar gyfer y plant hynny yn **CH/036.**
2. **Cyfrwch o'r dyddiad y cafodd y plentyn ei roi ar y gofrestr** i'r **dyddiad y cafodd y plentyn ei dynnu** oddi ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn gasglu.
3. Gall plentyn gael ei **ddatgofrestru fwy nag unwaith** yn ystod y flwyddyn. Cyfrwch y rhain i gyd.

4. Dylech gynnwys datgofrestriadau sy'n digwydd **oherwydd cynadleddau trosglwyddo allan**.
5. Dylech gyfrif y diwrnod cofrestru fel **diwrnod sero. Dylech gyfrif** y dyddiad datgofrestru fel diwrnod yn y cyfrif.

**Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant o awdurdod lleol arall sydd wedi'u **cofrestru dros dro.**
2. Peidiwch â chynnwys cynadleddau amddiffyn plant a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/036**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y plant a gafodd eu tynnu oddi ar y gofrestr amddiffyn plant (eu datgofrestru) yn ystod y flwyddyn.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn galluogi awdurdodau lleol i ddeall iechyd gweithredol eu prosesau amddiffyn plant.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro prosesau diogelu ar gyfer plant yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 7** (Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl), Cyfrol 5 (Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn plant sy'n wynebu risg) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 176** yn nodi:

"*Ni ddylai plentyn fod yn destun cynllun amddiffyn gofal a chymorth mwyach os:*

- *Bernir nad yw'r plentyn bellach mewn perygl parhaus o niwed arwyddocaol y mae angen ei amddiffyn drwy gyfrwng cynllun amddiffyn gofal a chymorth. Dan yr amgylchiadau hyn, dim ond cynhadledd adolygu amddiffyn plant all benderfynu nad oes angen cynllun amddiffyn gofal a chymorth mwyach.*
- *Mae'r plentyn a'r teulu wedi symud yn barhaol i ardal awdurdod lleol arall. Mewn achosion o'r fath, dylai'r awdurdod lleol sy'n derbyn gynnull cynhadledd amddiffyn plant o fewn 15 diwrnod i gael ei hysbysu ynghylch y symud. Dim ond ar ôl i gynhadledd amddiffyn plant trosglwyddo gael ei chynnal y dylai'r awdurdod lleol gwreiddiol derfynu*

*cynllun amddiffyn gofal a chymorth y plentyn a rhoi'r gorau i ymwneud â'r plentyn/person ifanc a'i deulu. Neu*
- *Mae'r plentyn wedi cyrraedd 18 oed, wedi marw neu wedi gadael y DU yn barhaol."*

Cyfrwch bob **plentyn a ddatgofrestrwyd** yn dilyn cynadleddau amddiffyn plant a gynhaliwyd yn y flwyddyn gasglu.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrif **pob** plentyn y cafodd ei **enw ei dynnu (datgofrestru) oddi ar** y gofrestr amddiffyn plant yn y flwyddyn gasglu.
2. Gall plentyn gael ei ddatgofrestru fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn. **Cyfrwch bob plentyn unwaith yn unig.**
3. Dylech gynnwys datgofrestriadau sy'n digwydd **oherwydd cynadleddau trosglwyddo allan neu pan fydd plentyn yn troi'n 18 oed.**
4. Y dyddiad datgofrestru yw'r **dyddiad y cynhaliwyd y gynhadledd.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant o awdurdod lleol arall sydd wedi'u **cofrestru dros dro.**
2. Peidiwch â chynnwys plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr amddiffyn plant y **tu allan i'r flwyddyn gasglu.**
3. Peidiwch â chynnwys cynadleddau amddiffyn plant a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

## Plant sy'n Derbyn Gofal

**Cyfeirnod Mesur: CH/037a**

**Enw'r Mesur:** Nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn.

**Bwriad y Mesur**

Yn aml iawn, plant nad ydynt yn gallu byw gyda'u teuluoedd biolegol yw'r plant mwyaf agored i niwed y mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda nhw. Mae deall y boblogaeth sy'n derbyn gofal, gan gynnwys y niferoedd sy'n derbyn gofal, yn agwedd bwysig ar ddarparu'r gofal a'r cymorth effeithiol y gall fod eu hangen arnynt.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau, galw a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn cael ei lwytho o'r cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal gan Lywodraeth Cymru.***

Cyfrwch bob plentyn sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn oni nodir eu bod yn cael cyfres o egwyliau byr o dan Adran 76 o Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch **bob plentyn** sy'n cael cyfnod math 'S' rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu oni bai ei fod wedi'i eithrio gan un o'r meini prawf isod.
2. **Cyfrwch bob plentyn unwaith**, waeth faint o gyfnodau math 'S' y gallant eu dechrau yn ystod y flwyddyn.

**Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant y cofnodwyd eu bod yn cael egwyliau byr (Statws cyfreithiol V1).
2. Peidiwch â chynnwys mathau o gyfnodau 'P', 'L', 'B' na 'CT' yn y cyfrif hwn.
3. Peidiwch â chynnwys lleoliadau sy'n para llai na 24 awr.
4. Peidiwch â chynnwys plant sy'n cael eu maethu'n breifat.
5. Peidiwch â chynnwys plant sydd wedi ymddangos yn y llys ac sydd wedi cael eu 'mechnïo i fyw lle mae awdurdod lleol yn cyfarwyddo', ond nad ydynt yn cael eu lletya gan yr awdurdod lleol ei hun.
6. Peidiwch â chynnwys plant sydd i gael eu mabwysiadu, ond nad ydynt yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.
7. Peidiwch â chynnwys plant sy'n cael eu cadw o dan Adrannau 90 i 92 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, hyd yn oed os cânt eu rhoi mewn llety awdurdod lleol, **oni bai** y ceir gorchymyn gofal cydamserol ategol.
8. Peidiwch â chynnwys plant sy'n destun gorchmynion goruchwylio dan Ddeddf Plant 1989.
9. Peidiwch â chynnwys plant sy'n destun Gorchmynion Preswylio dan Ddeddf Plant 1989.
10. Peidiwch â chynnwys plant sy'n cael cyfres o egwyliau tymor byr o dan gynllun gofal a chymorth a ddarperir o dan Ran 4 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Cyfeirnod Mesur: CH/037b**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr episodau newydd o blant yn dechrau derbyn gofal yn ystod y flwyddyn.

**Bwriad y Mesur**

Yn aml iawn, plant nad ydynt yn gallu byw gyda'u teuluoedd biolegol yw'r plant mwyaf agored i niwed y mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda nhw. Mae deall y boblogaeth sy'n derbyn gofal, gan gynnwys y niferoedd sy'n derbyn gofal, yn agwedd bwysig ar ddarparu'r gofal a'r cymorth effeithiol y gall fod eu hangen arnynt.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau, galw a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn cael ei lwytho o'r cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal gan Lywodraeth Cymru.***

Cyfrwch bob plentyn sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn oni nodir eu bod yn cael cyfres o egwyliau byr o dan Adran 76 o Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch **bob episod math 'S**' rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu oni bai ei fod wedi'i eithrio gan un o'r meini prawf isod.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant y cofnodwyd eu bod yn cael egwyliau byr (Statws cyfreithiol V1).
2. Peidiwch â chynnwys mathau o gyfnodau 'P', 'L', 'B' na 'CT' yn y cyfrif hwn.
3. Peidiwch â chynnwys lleoliadau sy'n para llai na 24 awr.
4. Peidiwch â chynnwys plant sy'n cael eu maethu'n breifat.
5. Peidiwch â chynnwys plant sydd wedi ymddangos yn y llys ac sydd wedi cael eu 'mechnïo i fyw lle mae awdurdod lleol yn cyfarwyddo', ond nad ydynt yn cael eu lletya gan yr awdurdod lleol ei hun.
6. Peidiwch â chynnwys plant sydd i gael eu mabwysiadu, ond nad ydynt yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.
7. Peidiwch â chynnwys plant sy'n cael eu cadw o dan Adrannau 90 i 92 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, hyd yn oed os cânt eu rhoi mewn llety awdurdod lleol, **oni bai** y ceir gorchymyn gofal cydamserol ategol.

8. Peidiwch â chynnwys plant sy’n destun gorchmynion goruchwylio dan Ddeddf Plant 1989.
9. Peidiwch â chynnwys plant sy’n destun Gorchmynion Preswylio dan Ddeddf Plant 1989.
10. Peidiwch â chynnwys plant sy’n cael cyfres o egwyliau tymor byr o dan gynllun gofal a chymorth a ddarperir o dan Ran 4 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cyfeirnod Mesur: Rhoddwyd y gorau i ddefnyddio CH/037c ym mlwyddyn gasglu 2023-24.

**Cyfeirnod Mesur: CH/038**

**Enw’r Mesur:** Nifer y cynlluniau gofal a chymorth rhan 6 a gwblhawyd o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau derbyn gofal.

**Bwriad y Mesur**

Yn aml iawn, plant nad ydynt yn gallu byw gyda’u teuluoedd biolegol yw’r plant mwyaf agored i niwed y mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda nhw. Mae deall y boblogaeth sy’n derbyn gofal, gan gynnwys y niferoedd sy’n derbyn gofal, yn agwedd bwysig ar ddarparu’r gofal a’r cymorth effeithiol y gall fod eu hangen arnynt.

Mae Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, para. 66 yn datgan:

“*Mae’r rhan fwyaf o blant sy’n dechrau derbyn gofal wedi bod yn hysbys i’r gwasanaethau cymdeithasol ers cryn amser. O ganlyniad, pan benderfynir lletya plentyn, dylai bod modd cychwyn y broses cynllunio gofal a chymorth cyn y cyfnod gofal. Lle nad yw hyn yn bosibl, rhaid paratoi cynllun gofal a chymorth Rhan 6 o fewn deg diwrnod gwaith i ddechrau’r lleoliad cyntaf.”*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro plant sy’n derbyn gofal yng Nghymru a’i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cydymffurfiaeth yn erbyn safonau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

**Diffiniad**

Cyfrif yr holl gynlluniau gofal a chymorth sy’n cydymffurfio â’r safonau a ddisgrifir yng Nghod Ymarfer Rhan 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ar ôl dechrau cyfnod o dderbyn gofal, yn ystod y flwyddyn ariannol.

Oherwydd yr amserlenni ar gyfer cwblhau, efallai y bydd cwblhau cynllun gofal a chymorth rhan 6 yn dod o fewn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'n dderbyniol cynnwys hyn yn y metrig hwn os yw'n bodloni'r meini prawf a ddisgrifir isod.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Mae'r data sylfaenol ar gyfer y metrig hwn yn deillio o CH/037b. Cyfrwch dim ond y **cynlluniau gofal a chymorth a rhan 6 a gwblhawyd sy'n ymwneud ag episodau newydd o blant yn derbyn gofal yn y flwyddyn gasglu.**
2. Rhaid i gynllun gofal a chymorth rhan 6 **gael ei awdurdodi** gan reolwr neu berson sy'n gweithredu ar ei ran i gael ei gynnwys yn y cyfrif.
3. Cynhwyswch dim ond cynlluniau gofal a chymorth **rhan 6 a gwblhawyd o fewn y 10 diwrnod gwaith ar ôl i blentyn ddechrau derbyn gofal** – yr amserlenni a ragnodir ym mharagraff 66 o God Ymarfer Rhan 6 ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
4. Rhaid i gynllun gofal a chymorth Rhan 6 gydymffurfio â'r safonau a ddisgrifir yn y Cod Ymarfer Rhan 6 sydd i'w cynnwys yn y metrig hwn.
5. Ystyrir bod cynllun gofal a chymorth rhan 6 yn brydlon os cafodd ei awdurdodi **hyd at a chan gynnwys 10 diwrnod gwaith** o'r dyddiad y dechreuodd yr episod newydd. Mae'r dyddiad y mae'r cyfnod yn dechrau yn cael ei ystyried fel diwrnod sero.
6. Gellir cwblhau ac awdurdodi cynlluniau gofal a chymorth Rhan 6 **cyn dechrau'r lleoliad.** Dylech gynnwys y rhain yn eich cyfrif (gan dybio bod y cynllun hwn yn ymwneud â'r cyfnod gofal diweddaraf).

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant y cofnodwyd eu bod yn cael egwyliau byr (Statws cyfreithiol V1).
2. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth nad **<u>ydynt</u>** wedi'u hawdurdodi gan reolwr neu berson sy'n gweithredu ar ei ran.
3. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer cynllun gofal a chymorth rhan 6 fel y'i diffinnir gan God Ymarfer Rhan 6.
4. Peidiwch â chynnwys plant sy'n cael eu maethu'n breifat.
5. Peidiwch â chynnwys plant sydd wedi ymddangos yn y llys ac sydd wedi cael eu 'mechnïo i fyw lle mae awdurdod lleol yn cyfarwyddo', ond nad ydynt yn cael eu lletya gan yr awdurdod lleol ei hun.
6. Peidiwch â chynnwys plant sydd i gael eu mabwysiadu, ond nad ydynt yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.
7. Peidiwch â chynnwys plant sy'n cael eu cadw o dan Adrannau 90 i 92 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, hyd yn oed os cânt eu rhoi mewn llety awdurdod lleol, **oni bai** y ceir gorchymyn gofal cydamserol ategol.

8. Peidiwch â chynnwys plant sy’n destun gorchmynion goruchwylio dan Ddeddf Plant 1989.
9. Peidiwch â chynnwys plant sy’n destun Gorchmynion Preswylio dan Ddeddf Plant 1989.
10. Peidiwch â chynnwys plant sy’n cael cyfres o egwyliau tymor byr o dan gynllun gofal a chymorth a ddarperir o dan Ran 4 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Cyfeirnod Mesur: CH/039**

**Enw’r Mesur:** Nifer y plant sy’n derbyn gofal ar 31 Mawrth.

**Bwriad y Mesur**

Yn aml iawn, plant nad ydynt yn gallu byw gyda’u teuluoedd biolegol yw’r plant mwyaf agored i niwed y mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda nhw. Mae deall y boblogaeth sy’n derbyn gofal, gan gynnwys y niferoedd sy’n derbyn gofal, yn agwedd bwysig ar ddarparu’r gofal a’r cymorth effeithiol y gall fod eu hangen arnynt.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro plant sy’n derbyn gofal yng Nghymru a’i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau, galw a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

***Mae’r metrig hwn yn cael ei lwytho o’r cyfrifiad Plant sy’n Derbyn Gofal gan Lywodraeth Cymru.***

Cyfrwch bob plentyn sy’n derbyn gofal ar adeg y casglu (31 Mawrth), oni nodir eu bod yn cael cyfres o seibiannau byr o dan Adran 76 o Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr **holl blant** sydd ag episod derbyn gofal agored ar 31 Mawrth, heblaw'r eithriadau isod.
2. Mae episod derbyn gofal agored yn cynnwys unrhyw gyfnod ‘S’, ‘L’, ‘P’, ‘B’ neu ‘CT’ heb ddyddiad gorffen, neu ddyddiad gorffen sydd ar ôl 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant y cofnodwyd eu bod yn cael egwyliau byr (Statws cyfreithiol V1).
2. Peidiwch â chynnwys plant sy’n cael eu maethu’n breifat.
3. Peidiwch â chynnwys plant sydd wedi ymddangos yn y llys ac sydd wedi cael eu ‘mechnïo i fyw lle mae awdurdod lleol yn cyfarwyddo’, ond nad ydynt yn cael eu lletya gan yr awdurdod lleol ei hun.
4. Peidiwch â chynnwys plant sydd i gael eu mabwysiadu, ond nad ydynt yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.
5. Peidiwch â chynnwys plant sy’n cael eu cadw o dan Adrannau 90 i 92 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, hyd yn oed os cânt eu rhoi mewn llety awdurdod lleol, **oni bai** y ceir gorchymyn gofal cydamserol ategol.
6. Peidiwch â chynnwys plant sy’n destun gorchmynion goruchwylio dan Ddeddf Plant 1989.
7. Peidiwch â chynnwys plant sy’n destun Gorchmynion Preswylio dan Ddeddf Plant 1989.

Peidiwch â chynnwys plant sy’n cael cyfres o egwyliau tymor byr o dan gynllun gofal a chymorth a ddarperir o dan Ran 4 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Cyfeirnod Mesur: CH/040**

**Enw’r Mesur:** Cyfanswm nifer y plant sy’n cael seibiannau byr (A76) ar 31 Mawrth.

**Bwriad y Mesur**

Mae’r metrig wedi’i gynllunio i ddarparu gwybodaeth sylfaenol am nifer y plant sy’n cael egwyliau tymor byr o dan ran 6 o Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Gwybodaeth reolaidd am boblogaethau plant sy’n derbyn gofal yw’r sail ar gyfer blaengynllunio da.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro nifer y plant sy’n derbyn gofal yng Nghymru.

**Diffiniad**

***Mae’r metrig hwn yn deillio o’r Cyfrifiad Plant sy’n Derbyn Gofal ac yn cael ei lenwi gan Lywodraeth Cymru.***

Mae'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA) yn diffinio'r mecanwaith ar gyfer cofnodi lleoliadau, newid lleoliad ac unrhyw newid yn y sail gyfreithiol y mae'r plentyn yn cael ei letya oddi tani.

At ddibenion y metrig hwn, mae pob plentyn sydd ag episod agored (dim dyddiad gorffen neu reswm gorffen) wedi'i gynnwys yn y metrig hwn **pan fo'r plant yn derbyn gofal o dan gyfres o seibiannau byr y cytunwyd arnynt o dan ran 6 o'r Ddeddf (A76, V1).**

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch bob plentyn sydd â **statws cyfreithiol V1** ar y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer y flwyddyn gasglu sydd â **lleoliad agored** ar 31 Mawrth.
2. Dylech gynnwys unrhyw leoliad a **ddechreuodd cyn 31 Mawrth** yn y flwyddyn gasglu ar yr amod ei fod yn bodloni meini prawf pwynt 1 uchod.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech eithrio pob plentyn sydd wedi'i leoli o dan **statws cyfreithiol nad yw'n V1.**
2. Peidiwch â chynnwys lleoliadau '**seibiant**' dros dro o dan unrhyw statws cyfreithiol arall.
3. Peidiwch â chynnwys unrhyw blentyn sy'n cael cyfres o seibiannau byr o dan **adran 4 (Adran 34 o'r Ddeddf).**
4. Peidiwch â chynnwys unrhyw blentyn **18 oed neu hŷn** ar 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu.
5. Peidiwch â chynnwys plant sy'n derbyn gofal a leolwyd yn eich ardal gan **awdurdodau lleol eraill.**

**Cyfeirnod Mesur: CH/041**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr ymweliadau statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a oedd i fod i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn monitro cydymffurfiaeth awdurdodau lleol â'r gofynion ar gyfer ymweld â phlant sy'n derbyn gofal yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 rhan 6. Mae hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol sicrhau nad oedd nifer yr ymweliadau â phlant sy'n derbyn gofal yn llai na'r gofynion sylfaenol a

nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn seiliedig ar gynllun gofal a chymorth pob plentyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

### Diffiniad

Mae Cod Ymarfer **Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn nodi'r gofynion ar gyfer ymweld â phlant sy'n derbyn gofal. Y rhain yw:

***Seibiannau byr***

***Para. 301***

*Mae'r trefniadau i gynrychiolydd yr awdurdod lleol ymweld â phlentyn hefyd yn cael eu haddasu mewn perthynas â lleoliadau o'r fath (gweler rheoliad 62(3)(c) o Reoliadau CPPCR). Rhaid i'r awdurdod lleol, yn yr achosion hyn, sicrhau bod cynrychiolydd yr awdurdod lleol yn ymweld â'r plentyn yn ystod y cyfnodau y mae'r plentyn ar wyliau byr, yn rheolaidd i'w gytuno â'r swyddog adolygu annibynnol (IRO) a rhieni'r plentyn. Rhaid cofnodi pa mor aml y cynhelir yr ymweliadau hyn yng nghynllun gofal y plentyn cyn dechrau'r egwyl fer gyntaf.* ***Mae'n rhaid sicrhau bod yr ymweliad cyntaf yn mynd rhagddo o fewn saith diwrnod cyntaf i ddechrau'r lleoliad cyntaf*** *neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny* ***ac mae'n rhaid ymweld â'r plentyn o leiaf unwaith bob chwe mis****, tra bod y seibiannau byr yn parhau.*

***Plant sy'n Derbyn Gofal***

***Para. 312***

*Rhaid i amlder a hyd ymweliadau bob amser gael eu pennu gan amgylchiadau'r achos ac anghenion y plentyn. Mae Rheoliadau CPPCR yn nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer ymweld â gwahanol fathau o leoliadau, gweler isod, ond efallai y bydd angen ymweliadau amlach neu ychwanegol i sicrhau bod y canlyniadau a nodir uchod yn cael eu cyflawni.*

***Para 316 – Gofynion ymweld cyffredinol***

*Mae'n rhaid ymweld â phlentyn* ***o fewn wythnos iddo ddechrau unrhyw leoliad. Ar ôl hynny, mae'n rhaid ymweld â'r plentyn o leiaf unwaith bob chwe wythnos yn ystod blwyddyn gyntaf unrhyw leoliad. Rhaid i ymweliadau yn ystod y blynyddoedd dilynol hefyd ddigwydd yn ysbeidiol, ddim mwy na chwe wythnos ar wahân, oni bai fod y lleoliad wedi'i gytuno'n ffurfiol fel lleoliad parhaol y bwriedir iddo barhau hyd nes y bo'r plentyn yn 18 oed. Mewn lleoliadau parhaol, rhaid i'r cyfnodau rhwng ymweliadau yn yr ail flwyddyn a'r blynyddoedd dilynol o leoliad beidio â bod yn hwy na thri mis.***

***Para 317 – Lleoliadau gyda rhieni dan Orchymyn Gofal***

*Os yw gorchymyn gofal wedi'i wneud mewn perthynas â phlentyn o dan adran 31 o Ddeddf Plant ac mae'r plentyn yn cael ei leoli gartref gyda rhiant, mae'n rhaid* ***ymweld â'r plentyn o fewn wythnos i wneud y gorchymyn gofal, ac o leiaf unwaith bob chwe wythnos ar ôl hynny.*** *Rhaid i blentyn sy'n cael ei leoli yn ôl gartref gyda rhiant cyn i'r asesiad gael ei gwblhau gael ymweliad* ***o leiaf unwaith yr wythnos tan amser yr adolygiad cyntaf, ac wedyn bob chwe wythnos o leiaf*** *neu hyd nes y cwblheir yr asesiad.*

***Para 318 – Lleoliadau gyda gofalwyr maeth sydd wedi'u cymeradwyo dros dro neu blant sy'n byw gyda rhieni dan Orchymyn Gofal Dros Dro***

*Pan fo plentyn wedi'i leoli gyda gofalwr maeth a gymeradwywyd dros dro (perthynas, ffrind neu berson cyswllt arall fel arfer), neu pan fo gorchymyn gofal interim wedi'i wneud mewn perthynas â'r plentyn hwnnw (o dan adran 38 Deddf Plant 1989) a bod y plentyn yn dal i fyw gyda'r rhiant, rhaid ymweld â'r plentyn* ***o leiaf unwaith yr wythnos hyd at adeg yr adolygiad cyntaf.*** *Yn dilyn hynny, rhaid cynnal ymweliadau* ***bob pedair wythnos o leiaf hyd nes y bydd naill ai'r gofalwr wedi'i gymeradwyo fel gofalwr maeth awdurdod lleol, neu nes y bydd y gwrandawiad terfynol wedi'i gwblhau yn yr achos gofal.*** *Mae'r amleddau hyn yn adlewyrchu'r posibilrwydd y byddai plentyn sydd wedi cael ei leoli gyda gofalwr yn fwy agored i niwed cyn i'r asesiad o addasrwydd y person hwnnw i ofalu am y plentyn gael ei gwblhau, neu pan fydd y plentyn yn parhau i fyw gyda rhiant mewn amgylchiadau lle mae gan yr awdurdod lleol bryderon am risg barhaus bosibl i'r plentyn ddioddef niwed sylweddol. Bydd yr ymweliadau hyn yn galluogi'r gweithiwr cymdeithasol i asesu sut mae'r berthynas rhwng y plentyn a'r rhiant neu'r gofalwr yn datblygu ac i nodi'n gynnar lle gallai fod pryderon am les plentyn.*

***Para 319 – Lleoliadau mewn llety na ddarperir gan yr awdurdod lleol***

*Pan fo'r plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol, ond bod person neu asiantaeth arall yn gyfrifol am y trefniadau y mae'r plentyn yn byw o danynt am y tro (megis plentyn sydd wedi'i ddedfrydu ac sy'n cael ei letya mewn cartref diogel i blant neu garchar i bobl ifanc),* ***rhaid ymweld â'r plentyn o fewn wythnos*** *i ddechrau'r trefniadau byw ac* ***o fewn wythnos i unrhyw newid i'r trefniadau byw hynny. Yn dilyn hynny, rhaid cynnal ymweliadau bob chwe wythnos am y flwyddyn gyntaf ac ar gyfnodau o ddim mwy na thri mis ar wahân mewn unrhyw flwyddyn ddilynol.***

***Para 320 – Gofynion ymweld ychwanegol***

*Yn ogystal, rhaid ymweld hefyd* ***o fewn wythnos*** *i dderbyn hysbysiad o dan Adran 30A Deddf Safonau Gofal 2000 pan gyfeirir at y cartref plant y lleolir y plentyn ynddo ar hyn o bryd yn yr hysbysiad hwnnw. Mae'r rhain yn hysbysu awdurdodau lleol am weithgarwch gorfodi ac maent yn ymwneud â phryderon ynghylch rheoli cartref plant.*

***Para 362 – Plant ar Remand***

*Yn gyffredinol, mae'r ddyletswydd i gadw mewn cysylltiad â phlentyn sy'n derbyn gofal ac ymweld ag ef yr un mor berthnasol i blant sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu remandio i lety awdurdod lleol neu lety cadw ieuenctid, neu sy'n cael eu cadw'n gaeth ar ôl cael eu dyfarnu'n euog o drosedd. Yn ychwanegol at y gofynion hyn,*

*rhaid i gynrychiolydd yr awdurdod lleol ymweld â'r plentyn pryd bynnag y gofynnir yn rhesymol iddo wneud hynny gan gyfarwyddwr, llywodraethwr neu reolwr cofrestredig y carchar, y llety cadw ieuenctid neu'r sefydliad lle y mae'n ofynnol i'r plentyn breswylio."*

Dylech gyfrif **pob ymweliad a oedd i fod i gael ei wneud** ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal yn ystod y flwyddyn gasglu.

### Beth i'w gynnwys yn y Mesur

1. Cyfrwch **gyfanswm yr ymweliadau a oedd i fod i gael eu gwneud** ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn gasglu.
2. Cyfrwch dim ond ymweliadau a oedd i fod i gael eu gwneud yn ystod y cyfnod yr **oedd y plentyn yn derbyn gofal.**
3. Yn eich cyfrif, peidiwch ag eithrio plant sy'n derbyn gofal **ac** sydd ar y gofrestr amddiffyn plant.

### Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur

1. Peidiwch â chynnwys plant **nad oedd yn derbyn gofal** yn ystod y flwyddyn gasglu.
2. Peidiwch â chynnwys cyfnodau yn ystod y flwyddyn **pan nad oedd y plentyn yn derbyn gofal** (ac eithrio pan oedd plant yn cael seibiannau byr).
3. Peidiwch â chynnwys cyfnodau o ofal lle mae'r plentyn yn derbyn gofal am **lai na 7 diwrnod.**
4. Peidiwch â chynnwys data a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

### Cyfrif ymweliadau sydd i'w cynnal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal – enghreifftiau

Mae cyfrif yr ymweliadau sydd i'w cynnal ar gyfer plentyn nad yw'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn gymhleth yn ei hanfod, oherwydd y gofynion a nodir yn Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dylid penderfynu pa mor aml y dylai ymweliadau ddigwydd ar sail anghenion y plentyn unigol (para. 312, Cod Ymarfer Rhan 6) a dylai'r penderfyniad hwn gael ei wneud yn ystod y cam cynllunio ac adolygu gofal. Mae'r Ddeddf yn nodi'r gofynion derbyniol *fan leiaf* o ran ymweld â phlant sy'n derbyn gofal. Mae'r metrig hwn yn caniatáu i ymweliadau gael eu monitro fel eu bod o fewn safonau gofynnol derbyniol. Nid yw'n mesur a yw'r ymweliadau'n cydymffurfio ag amserlenni sydd wedi'u gosod o fewn y cynllun. Wrth fonitro arferion lleol, dylid asesu cydymffurfiaeth unigol yn y cam adolygu.

Er mwyn cyfrifo nifer yr adolygiadau sydd fod i gael eu cynnal yn ystod y cyfnod, mae angen nifer o eitemau data. Heb y rhain nid yw'n bosibl cyfrifo'n gywir faint o adolygiadau sydd i fod i gael eu cynnal yn ystod y cyfnod. Rhaid i'ch systemau cofnodi electronig allu casglu ac adnabod y data canlynol yn hawdd:

1. Math o leoliad: e.e. wedi'i leoli mewn gofal maeth awdurdod lleol; wedi'i leoli gyda'i rieni; wedi'i roi ar remánd;
2. Dyddiad dechrau'r episod gofal; lleoliad math ‘S’ yn y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal.
3. Dyddiad newid mewn lleoliad; lleoliad math ‘P’ neu ‘B’ yn y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal.
4. Dyddiad yr adolygiad 1af ar ôl lleoli.
5. Statws cyfreithiol: e.e. ‘C1’, ‘V2’, ‘J1’ ac ati yn y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal.
6. Newid statws cyfreithiol: Lleoliad math ‘L’ yn y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal.
7. Statws cymeradwyo'r gofalwr a'r dyddiad cymeradwyo.
8. A dderbyniwyd hysbysiad Adran 30A ar gyfer sefydliad preswyl lle mae plentyn wedi'i leoli.
9. Dyddiad gorffen cyfnod gofal.

Mae'r rhan fwyaf, ond nid pob un, o'r eitemau data hyn ar gael o gasgliad data'r cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal. Mae'n bwysig bod modd casglu'r holl eitemau data er mwyn cyfrifo'n gywir faint o ymweliadau sydd i fod i gael eu cynnal. Mae'r enghreifftiau ar y tudalennau canlynol yn amlinellu sut y dylid cyfrifo nifer yr ymweliadau sydd i fod i gael eu cynnal. Nid yw hwn yn ddatrysiad technegol, nac yn hollol gynhwysfawr, ond mae'n ceisio dangos y cysyniad rhesymegol y dylid ei ddefnyddio wrth gyfrifo nifer yr ymweliadau sydd i fod i gael eu cynnal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn.

**Cyfrif ymweliadau sydd i fod i gael eu cynnal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal – enghraifft 1.**

Daeth Plentyn A yn blentyn sy'n derbyn gofal ar 23 Medi 2020. O dan A76 cafodd ei leoli gydag aelod o'r teulu a gymeradwywyd dros dro fel gofalwr. Ar ôl asesiad, cymeradwywyd y gofalwr ar 19 Rhagfyr 2020. Ar 19 Chwefror 2021, rhoddwyd Gorchymyn Gofal i blentyn A. Arhosodd Plentyn A yn y lleoliad hwn tan ddiwedd y flwyddyn gasglu.


**Enghraifft o gyfrif yr ymweliadau sydd i'w cynnal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal – enghraifft 1**



Mae angen i Blentyn A gael ymweliad gan ei weithiwr cymdeithasol o fewn wythnos i'w leoli. Yn dilyn hyn, oherwydd nad yw'r gofalwr wedi'i gymeradwyo eto, mae angen ymweliadau wythnosol ar blentyn A tan amser yr adolygiad cyntaf. Mae'r adolygiad cyntaf yn digwydd ar ddiwrnod 28 ac ar ôl hyn mae'r ymweliadau'n newid i bob pedair wythnos. Mae'r rhain yn parhau nes bod y gofalwyr yn cael eu cymeradwyo. Mae hyn yn digwydd 87 diwrnod ar ôl y lleoliad, ac ar ôl hynny mae'r ymweliadau'n newid i bob 6 wythnos. Nid yw man cychwyn y cyfnod hwn yn newid, ond mae'r dyddiad ar gyfer yr ymweliad yn newid. Mae'r chwe ymweliad wythnosol hyn yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn gasglu. Ar gyfer plentyn A mae 8 ymweliad i fod i gael eu cynnal yn ystod y cyfnod.

**Cyfrif ymweliadau sydd i'w cynnal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal – enghraifft 2.**

Caeth plentyn B yn blentyn sy'n derbyn gofal drwy Orchymyn Gofal Brys ar 1 Mai 2020. Ar 29 Mai fe symudodd i leoliad gyda gofalwr maeth mewn awdurdod lleol gwahanol. Ar 22 Mehefin rhoddwyd Gorchymyn Gofal Interim, a newidiodd i Orchymyn Gofal ar 1 Awst. Ar 18 Hydref 2020 mae'r lleoliad gyda'r gofalwr maeth yn methu ac mae plentyn B yn cael ei symud i ofal preswyl. Mae plentyn B yn troi'n 18 oed ar 24 Rhagfyr 2020 ac nid yw'n derbyn gofal mwyach.




Placement Change
ICO Granted
CO Granted
Placement Change
Turns 18
EPO
1st May 2020
1st Cycle
2nd Cycle
3rd Cycle
7 Days
42 Days
7 Days
42 Days
42 Days
42 Days
42 Days
7 Days
42 Days
42 Days

Mae angen ymweliad cyntaf ar blentyn B o fewn 7 diwrnod ar ôl ei leoli. Oherwydd ei fod yn cael ei leoli gyda gofalwyr cymeradwy, mae ei ymweliad nesaf i fod i gael ei gynnal ar sail cylch chwe wythnos ar ôl hyn. Ar 29 Mai mae plentyn B yn newid lleoliad, sy'n ailosod y cloc, ac mae ymweliad eto i fod o fewn 7 diwrnod. Yna mae'n dychwelyd i'r cylch chwe wythnos. Nid yw'r newid mewn statws cyfreithiol i Orchymyn Gofal Interim yn effeithio ar y cylch ymweld gan nad yw plentyn B yn cael ei osod gyda rhiant neu ofalwr heb ei gymeradwyo. Mae plentyn B yn newid lleoliad eto ar 18 Hydref 2020, gan ailosod y cylch am y trydydd tro, cyn gorffen bod yn blentyn sy'n derbyn gofal ar ddiwrnod ei ben-blwydd yn 18 oed ar 24 Rhagfyr 2020. Cyfrwch fod angen cynnal **7** ymweliad ar gyfer plentyn B.

**Cyfrif ymweliadau sydd i'w cynnal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal – enghraifft 3.**

Mae Plentyn C yn derbyn gofal ers 1 Ebrill 2016. Maent mewn lleoliad sefydlog gyda gofalwr maeth awdurdod lleol ar gytundeb A76 ers 30 Tachwedd 2017. Mae'r lleoliad wedi cael ei ystyried yn un parhaol nes bod plentyn C yn cyrraedd 18 oed. Cafodd plentyn C ei ymweliad diwethaf ar 29 Ionawr 2020, sy'n golygu bod disgwyl i'w leoliad nesaf fod ar 29 Ebrill 2020. Ar 4 Gorffennaf bu'n rhaid i ofalwr maeth plentyn C fynd i'r ysbyty yn annisgwyl a bu farw bythefnos yn ddiweddarach. Yn ystod yr hwn mae plentyn C wedi cael ei roi gyda gofalwr gwahanol dros dro. Ar 18 Gorffennaf mae plentyn C yn symud at ofalwr maeth newydd ac yn aros yno tan ddiwedd y flwyddyn gasglu.


Start of Collection Year
CO Granted
Placement Change
End of Collection Year
Temp Placement
1st Cycle
2nd Cycle
3 Months
3 Months
7 Days
42 Days
42 Days
42 Days
42 Days
42 Days
42 Days

Roedd angen 3 ymweliad misol ar blentyn C ar ddechrau'r flwyddyn gasglu oherwydd hyd, math a statws y lleoliad. Mae dyddiad yr ymweliad nesaf yn cael ei gyfrifo o'r ymweliad diwethaf a gwblhawyd yn y flwyddyn gasglu flaenorol. Os yw'r dyddiad hwn yn golygu bod ymweliad i fod i gael ei gynnal yn y flwyddyn flaenorol, cyfrwch o ddyddiad yr ymweliadau a gollwyd hyd nes bydd y dyddiad yn y flwyddyn gasglu gyfredol. Mae ymweliadau yn parhau i fod yn y cylch 3 mis tan farwolaeth anffodus gofalwr plentyn C. Sylwch nad yw'r lleoliad dros dro tra bod y gofalwr yn yr ysbyty yn ailosod y cylch amser. Mae hwn yn cael ei ailosod unwaith y bydd plentyn C yn symud i leoliad **newydd**. Er bod penderfyniad wedi'i wneud, efallai, y bydd plentyn C yn aros mewn gofal nes ei fod yn 18 oed, gan fod hwn yn lleoliad newydd, bydd y cylch ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn aros ar gylch chwe wythnos ar ôl yr ymweliad saith diwrnod cyntaf.

**Cyfrifo nifer yr ymweliadau sydd i'w cynnal:**

Er mwyn cyfrifo nifer yr ymweliadau Plant sy'n Derbyn Gofal sydd i'w cynnal, mae angen ystyried cyfanrwydd lleoliad y plentyn mewn cylchoedd. Mae pob cylch yn cael ei ragflaenu gan ddigwyddiad sy'n newid yr amser rhwng ymweliadau (amlder). Mae’r digwyddiadau hyn fel a ganlyn:

- Newid yn y lleoliad
- Statws cymeradwyo gofalwr maeth
- Statws cyfreithiol y plentyn/person ifanc

Mae angen ystyried y tair elfen hyn ar ddechrau pob cylch. Yn ogystal, bob tro y newidir lleoliad, mae'r cloc yn cael ei ailosod. Mae angen ymweliad saith diwrnod newydd bob tro y mae hyn yn digwydd.

Beth am ddefnyddio un o'r enghreifftiau o'r uchod i weithio ein ffordd drwy'r broblem a'r ateb?

Dechreuodd plentyn dderbyn gofal ar 23 Medi 2020. Mae angen inni wybod beth yw statws pob un o'r elfennau ym mhob cylch i weithio allan beth yw'r amser.

- **Newid Lleoliad –** Yn yr achos hwn mae'n lleoliad newydd, sy'n cael ei ystyried yn yr un ffordd at ein dibenion ni.
- **Statws Gofalwr –** Nid yw'r gofalwr wedi'i gymeradwyo, felly mae angen ymweliadau wythnosol ar y plentyn tan yr adolygiad cyntaf.
- **Statws Cyfreithiol -** Nid yw'r plentyn yn cael ei roi o dan gyfres o seibiannau byr neu ar remánd.

Mae'r canllawiau yn dweud wrthym fod pob lleoliad newydd (neu ddechrau episod o dderbyn gofal) yn golygu bod angen ymweliad o fewn 7 diwrnod. Mae hon yn rheol gyffredinol; mae hyn yn ofynnol ar gyfer pob lleoliad. Statws y gofalwr sy'n penderfynu pa mor aml y mae'r ymweliadau'n digwydd yn y cylch hwn. Yn yr achos hwn, gan fod y gofalwr heb ei gymeradwyo, mae angen ymweliadau wythnosol tan yr adolygiad cyntaf. Y statws cyfreithiol sy'n penderfynu a oes angen defnyddio unrhyw

reolau arbennig oherwydd natur benodol y math o leoliad. Yn yr achos hwn, nid yw'r naill na'r llall o'r rhain yn berthnasol, felly nid oes angen newidiadau pellach.


Became CLA
23rd Sep
2020
1st Review
Carer Approved
Care Order
End of collection year
1st Cycle
2nd Cycle
3rd Cycle
7 Days
7 Days
7 Days
7 Days
28 Days
28 Days
28 Days
42 Days
42 Days
42 Days

Ar gyfer cylch 1, mae angen inni weithio allan nifer y dyddiau o'r lleoliad cyntaf tan yr adolygiad cyntaf:

Dyddiad yr adolygiad cyntaf – dyddiad y lleoliad = cyfanswm nifer y dyddiau.

Dyddiad yr adolygiad cyntaf oedd 20 Hydref:

20 Hydref – 22 Medi = 28 diwrnod

Nifer yr ymweliadau felly yw:

FLOOR((28-7)/7)= Ymweliadau sydd i'w cynnal +1, neu 28-7 = 21, 21/7 = 3, 3+1=**4**

**Mae'n arfer da trin yr ymweliad cyntaf ar wahân, waeth pa mor aml y mae'r ymweliadau dilynol yn digwydd.** Dylai unrhyw newid yn amlder ymweliadau ddechrau cylch newydd. Ar ddechrau cylch 2, mae angen inni adolygu'r digwyddiadau canlynol eto:

- **Newid lleoliad –** Na, nid yw'r lleoliad wedi newid. Yr adolygiad yw'r rheswm dros y newid mewn amlder. Nid oes angen ymweliad saith diwrnod newydd.
- **Statws Gofalwr –** Mae'r gofalwr yn dal heb ei gymeradwyo.
- **Statws Cyfreithiol –** Nid yw'r plentyn yn cael ei roi o dan gyfres o seibiannau byr neu ar remánd.

Y tro hwn, mae'r Cod Ymarfer yn dweud wrthym fod angen cynnal ymweliad bob 28 diwrnod nes bod y gofalwr yn cael ei gymeradwyo. Dyma'r dyddiad nesaf rydyn ni'n chwilio amdano. Yn ein henghraifft ni, mae'n 19 Rhagfyr, felly nifer yr ymweliadau sydd i'w cynnal yw:

Dyddiad cymeradwyo gofalwr – dyddiad yr ymweliad blaenorol = cyfanswm nifer y dyddiau.

Y dyddiad cymeradwyo gofal oedd 19 Rhagfyr. Roedd dyddiad yr ymweliad blaenorol yr un diwrnod â'r adolygiad blaenorol:

19 Rhagfyr – 20 Hydref = 60 diwrnod

Nifer yr ymweliadau felly yw:

FLOOR (60/28) = Ymweliadau sydd i'w cynnal neu 60/28=**2**

Mae cymeradwyaeth y gofalwyr yn golygu newid arall yn amlder yr ymweliadau; felly mae angen cylch newydd. Unwaith eto, rhaid inni adolygu'r digwyddiadau canlynol:

- **Newid lleoliad –** Na, nid yw'r lleoliad wedi newid. Cymeradwyo'r gofalwyr yw'r rheswm dros y newid mewn amlder. Nid oes angen ymweliad saith diwrnod newydd.
- **Statws Gofalwr –** Mae'r gofalwr wedi'i gymeradwyo.
- **Statws Cyfreithiol -** Nid yw'r plentyn yn cael ei roi o dan gyfres o seibiannau byr neu ar remánd.

Mae'r cod ymarfer yn dweud wrthym fod y plentyn bellach yn cael ymweliad bob 6 wythnos (42 diwrnod). Bydd hyn yn parhau tan naill ai'r newid nesaf mewn amgylchiadau a fyddai'n golygu newid amlder ymweliadau, neu ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn ein hachos ni, y cyntaf o'r rhain i fod yn amlwg yw diwedd y flwyddyn ariannol:

Diwedd y flwyddyn – dyddiad yr ymweliad blaenorol = cyfanswm nifer y dyddiau.

Dyddiad yr ymweliad diwethaf oedd 17 Rhagfyr. Mae'n bwysig defnyddio'r dyddiad hwn yn hytrach na dyddiad y newid yn amlder y cylch, er mwyn sicrhau nad yw'r bwlch mwyaf rhwng ymweliadau yn fwy na'r amser a ganiateir rhwng ymweliadau:

31 Mawrth – 17 Rhagfyr = 104 diwrnod

Nifer yr ymweliadau felly yw:

FLOOR (104/42) = Ymweliadau sydd i'w cynnal neu 104/42=**2**

Cyfanswm nifer yr ymweliadau sydd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn yw swm pob un o'r cylchoedd yn y cyfrifiad:

C1+C2+C3 = Cyfanswm nifer yr ymweliadau sydd i'w cynnal, neu 4+2+2=**8**

**Cyfeirnod Mesur: CH/042**

**Enw’r Mesur:** Nifer yr ymweliadau statudol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn:

a. a gafodd eu cwblhau, boed y rheini o fewn yr amserlenni statudol ai peidio.
b. a gafodd eu cwblhau o fewn amserlenni statudol.

**Bwriad y Mesur**

Mae’r metrig hwn yn monitro cydymffurfiaeth awdurdodau lleol â’r gofynion ar gyfer ymweld â phlant sy’n derbyn gofal yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 rhan 6. Mae hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol sicrhau nad oedd nifer yr ymweliadau â phlant sy’n derbyn gofal yn llai na’r gofynion sylfaenol a nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn seiliedig ar gynllun gofal a chymorth pob plentyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro plant sy’n derbyn gofal yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn nodi'r gofynion ar gyfer ymweld â phlant sy'n derbyn gofal. Y rhain yw:

***Egwyliau Byr – Para 301***

*Mae'r trefniadau i gynrychiolydd yr awdurdod lleol ymweld â phlentyn hefyd yn cael eu haddasu mewn perthynas â lleoliadau o'r fath (gweler rheoliad 62(3)(c) o Reoliadau CPPCR). Rhaid i'r awdurdod lleol, yn yr achosion hyn, sicrhau bod cynrychiolydd yr awdurdod lleol yn ymweld â'r plentyn yn ystod y cyfnodau y mae'r plentyn ar wyliau byr, yn rheolaidd i'w gytuno â'r swyddog adolygu annibynnol (IRO) a rhieni'r plentyn. Rhaid cofnodi pa mor aml y cynhelir yr ymweliadau hyn yng nghynllun gofal y plentyn cyn dechrau'r egwyl fer gyntaf.* ***Mae'n rhaid sicrhau bod yr ymweliad cyntaf yn mynd rhagddo o fewn saith diwrnod cyntaf i ddechrau'r lleoliad cyntaf*** *neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny* ***ac mae'n rhaid ymweld â'r plentyn o leiaf unwaith bob chwe mis****, tra bod y seibiannau byr yn parhau.*

***Plant sy'n derbyn gofal - Para 312***

*Rhaid i amlder a hyd ymweliadau bob amser gael eu pennu gan amgylchiadau'r achos ac anghenion y plentyn. Mae Rheoliadau CPPCR yn nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer ymweld â gwahanol fathau o leoliadau, gweler isod, ond efallai y bydd angen ymweliadau amlach neu ychwanegol i sicrhau bod y canlyniadau a nodir uchod yn cael eu cyflawni.*

***Gofynion ymweld cyffredinol – Para 316***

*Mae'n rhaid ymweld â phlentyn* ***o fewn wythnos iddo ddechrau unrhyw leoliad.*** *Ar ôl hynny mae'n rhaid ymweld â'r plentyn* ***o leiaf unwaith bob chwe wythnos yn ystod blwyddyn gyntaf unrhyw leoliad.*** *Mae'n rhaid ymweld â'r plentyn* ***o leiaf unwaith bob chwe wythnos yn y blynyddoedd sy'n dilyn hefyd*** *oni bai bod y lleoliad wedi'i gytuno'n ffurfiol yn lleoliad parhaol y bwriedir iddo bara nes bod y plentyn yn 18 oed.* ***Mewn lleoliadau parhaol, rhaid i'r cyfnodau rhwng ymweliadau yn yr ail flwyddyn a'r blynyddoedd dilynol o leoliad beidio â bod yn hwy na thri mis.***

***Lleoliadau gyda rhieni dan Orchymyn Gofal – Para 317***

*Pan fo gorchymyn gofal wedi'i wneud mewn perthynas â phlentyn o dan Adran 31 Deddf Plant 1989 a bod y plentyn yn cael ei roi yn ôl gartref gyda rhiant, rhaid* ***ymweld â'r plentyn o fewn wythnos i wneud y gorchymyn gofal ac yna bob chwe wythnos o leiaf.*** *Rhaid i blentyn sy'n cael ei leoli yn ôl gartref gyda rhiant cyn i'r asesiad gael ei gwblhau gael ymweliad* ***o leiaf unwaith yr wythnos tan amser yr adolygiad cyntaf, ac wedyn bob chwe wythnos o leiaf*** *neu hyd nes y cwblheir yr asesiad.*

***Lleoliadau gyda gofalwyr maeth sydd wedi'u cymeradwyo dros dro neu blant sy'n byw gyda rhieni dan Orchymyn Gofal Dros Dro - Para 318***

Pan fo plentyn wedi'i leoli gyda gofalwr maeth a gymeradwywyd dros dro (perthynas, ffrind neu berson cyswllt arall fel arfer), neu pan fo gorchymyn gofal interim wedi'i wneud mewn perthynas â'r plentyn hwnnw (o dan adran 38 Deddf Plant 1989) a bod y plentyn yn dal i fyw gyda'r rhiant, rhaid ymweld â'r plentyn **o leiaf unwaith yr wythnos hyd at adeg yr adolygiad cyntaf.** Yn dilyn hynny, rhaid cynnal ymweliadau **bob pedair wythnos o leiaf hyd nes y bydd naill ai'r gofalwr wedi'i gymeradwyo fel gofalwr maeth awdurdod lleol, neu nes y bydd y gwrandawiad terfynol wedi'i gwblhau yn yr achos gofal.** Mae'r amleddau hyn yn adlewyrchu'r posibilrwydd y byddai plentyn sydd wedi cael ei leoli gyda gofalwr yn fwy agored i niwed cyn i'r asesiad o addasrwydd y person hwnnw i ofalu am y plentyn gael ei gwblhau, neu pan fydd y plentyn yn parhau i fyw gyda rhiant mewn amgylchiadau lle mae gan yr awdurdod lleol bryderon am risg barhaus bosibl i'r plentyn ddioddef niwed sylweddol. Bydd yr ymweliadau hyn yn galluogi'r gweithiwr cymdeithasol i asesu sut mae'r berthynas rhwng y plentyn a'r rhiant neu'r gofalwr yn datblygu ac i nodi'n gynnar lle gallai fod pryderon am les plentyn.

***Lleoliadau mewn llety na ddarperir gan yr awdurdod lleol - Para 319***

*Pan fo'r plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol, ond bod person neu asiantaeth arall yn gyfrifol am y trefniadau y mae'r plentyn yn byw o danynt am y tro (megis plentyn sydd wedi'i ddedfrydu ac sy'n cael ei letya mewn cartref diogel i blant neu garchar i bobl ifanc),* ***rhaid ymweld â'r plentyn o fewn wythnos*** *i ddechrau'r trefniadau byw ac* ***o fewn wythnos i unrhyw newid i'r trefniadau byw hynny. Yn dilyn hynny, rhaid cynnal ymweliadau bob chwe wythnos am y flwyddyn gyntaf ac ar gyfnodau o ddim mwy na thri mis ar wahân mewn unrhyw flwyddyn ddilynol.***

***Gofynion ymweld ychwanegol – Para 320***

*Yn ogystal, rhaid ymweld hefyd* ***o fewn wythnos*** *i dderbyn hysbysiad o dan adran 30A o Ddeddf Safonau Gofal 2000 pan gyfeirir at y cartref plant y lleolir y plentyn ynddo ar hyn o bryd yn yr hysbysiad hwnnw. Mae'r rhain yn hysbysu awdurdodau lleol am weithgarwch gorfodi ac maent yn ymwneud â phryderon ynghylch rheoli cartref plant.*

***Plant ar Remand – Para 363***

*Yn gyffredinol, mae'r ddyletswydd i gadw mewn cysylltiad â phlentyn sy'n derbyn gofal ac ymweld ag ef yr un mor berthnasol i blant sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu remandio i lety awdurdod lleol neu lety cadw ieuenctid, neu sy'n cael eu cadw'n gaeth ar ôl cael eu dyfarnu'n euog o drosedd. Yn ychwanegol at y gofynion hyn, rhaid i gynrychiolydd yr awdurdod lleol ymweld â'r plentyn pryd bynnag y gofynnir yn rhesymol iddo wneud hynny gan gyfarwyddwr, llywodraethwr neu reolwr cofrestredig y carchar, y llety cadw ieuenctid neu'r sefydliad lle y mae'n ofynnol i'r plentyn breswylio.*

Cyfrwch yr holl ymweliadau â **phlant a oedd yn derbyn gofal yn y** flwyddyn gasglu.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch **yr holl ymweliadau** â phlant a oedd yn derbyn gofal yn y flwyddyn lle cafodd ymweliadau**:**
    a. **Eu cwblhau** yn ystod y flwyddyn.
    b. **Eu cwblhau o fewn amserlenni statudol** yn ystod y flwyddyn.
2. Os gwnaed sawl ymweliad yn ystod y flwyddyn,
    a. Ar gyfer rhan a, cyfrifwch bob ymweliad yn ystod y flwyddyn.
    b. Ar gyfer rhan b, **dim ond ymweliadau o fewn amserlenni statudol** y mae'n rhaid eu cynnwys.
3. Dylech gyfrif dim ond yr ymweliadau yn ystod yr amser yr oedd **y plentyn yn derbyn gofal.**
4. Mae cyfrifo'r amserlenni statudol yn dibynnu ar y math o leoliad, am faint o amser y mae'r lleoliad wedi bod yn weithredol, ac a yw'r lleoliad yn cael ei ystyried yn un parhaol. Mae'r **diwrnod lleoli** (neu ddechrau'r flwyddyn gasglu) **yn cael ei ystyried yn ddiwrnod sero.**
5. Gall plant gael mwy nag un cyfnod o ofal yn ystod y flwyddyn gasglu. Rhaid cynnwys ymweliadau yn ystod **yr holl** gyfnodau hyn yn y cyfrif**.**
6. Yn eich cyfrif dylech gynnwys ymweliadau â phlant sy'n derbyn gofal **ac** sydd ar y gofrestr amddiffyn plant.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant **nad oedd yn derbyn gofal** yn ystod y flwyddyn gasglu.
2. Peidiwch â chynnwys cyfnodau yn ystod y flwyddyn **pan nad oedd y plentyn yn derbyn gofal** (ac eithrio pan oedd plant yn cael seibiannau byr).
3. Peidiwch â chynnwys cyfnodau o ofal lle mae'r plentyn yn derbyn gofal am **lai na 7 diwrnod.**
4. Peidiwch â chynnwys data a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

**Cyfrifo nifer yr ymweliadau â phlentyn sy'n derbyn gofal a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol – enghraifft.**

Ar gyfer yr enghraifft hon, mae'r plentyn yn cael ei roi gyda gofalwr heb ei gymeradwyo o dan A76 ar 28 Mawrth.

Mae ymweliad 1 yn digwydd 6 diwrnod o ddechrau derbyn gofal. **Mae'r ymweliad hwn o fewn yr amserlen.** (Rhaid i'r ymweliad cyntaf fod o fewn 7 diwrnod i'r lleoli)


Mae ymweliad 2 yn digwydd 7 diwrnod o ddyddiad yr ymweliad diwethaf. **Mae'r ymweliad hwn o fewn yr amserlen.** (Rhaid i ymweliadau â phlant sy'n cael eu lleoli gyda gofalwyr heb eu cymeradwyo fod o leiaf bob 7 diwrnod)

Mae ymweliad 3 yn digwydd 17 diwrnod o ddyddiad yr ymweliad diwethaf. Fodd bynnag, cynhaliwyd yr adolygiad cyntaf 10 diwrnod ar ôl yr ymweliad diwethaf, sy'n newid yr amlder i bob 28 diwrnod. **Mae'r ymweliad hwn o fewn yr amserlen.**

Er bod ymweliad wedi'i drefnu (4). Ni ddigwyddodd.

Mae **Ymweliad 5** 43 diwrnod o'r ymweliad diwethaf. Er bod y gofalwyr wedi'u cymeradwyo 27 diwrnod ar ôl yr ymweliad diwethaf gan newid yr amlder i o leiaf bob 6 wythnos (42 diwrnod), roedd yr ymweliad diwethaf 43 diwrnod cyn hyn. **NID yw'r ymweliad hwn o fewn yr amserlen.**

## Cyfrifo nifer yr ymweliadau â phlentyn sy'n derbyn gofal a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol - darlun



**Rhagdybiaethau:**

1. Bydd ymweliad a gofnodir ar y system yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ymweliad â phlentyn sy'n derbyn gofal.
2. Mae cyfrifiadau'n seiliedig ar ddyddiau calendr.
3. Nid yw'r ymweliad 'coll' wedi'i gofnodi ar y system fel ymweliad gyda thestun yn esbonio nad oedd wedi digwydd.
4. Mae ymweliad i fod i gael ei gynnal ar adegau amrywiol o ddyddiad yr ymweliad diwethaf, yn dibynnu ar y lleoliad, y statws cyfreithiol, a statws cymeradwyo'r gofalwyr. Mae ymweliad newydd yn dod yn 'ddyledus' bob tro y mae ymweliad yn cael ei gofnodi ar y system.

**Cyfrifiad:**

1. Cyfrwch nifer yr ymweliadau a gwblhawyd ar ddechrau'r cylch sy'n clymu'r amlder (neu ddechrau'r flwyddyn ariannol os yw'r lleoliad/yr ymweliad olaf yn y flwyddyn flaenorol).
2. Cyfrwch nifer y dyddiau rhwng ymweliadau (neu rhwng y lleoliad a'r ymweliad cyntaf). Rhannwch bob canlyniad â nifer y diwrnodau y mae'n rhaid ymweld â'r plentyn, a thalgrynnu'r canlyniad i lawr.
3. Ychwanegwch nifer yr ymweliadau at nifer yr 'ymweliadau a gollwyd' (cyfrifiadau ym mhwynt 3) i gael nifer yr ymweliadau sydd i'w cynnal.
4. Mae ymweliad i fod i gael ei gynnal ar adegau amrywiol o ddyddiad yr ymweliad diwethaf, yn dibynnu ar y lleoliad, y statws cyfreithiol, a statws cymeradwyo'r gofalwyr. Mae ymweliad newydd yn dod yn 'ddyledus' bob tro y mae ymweliad yn cael ei gofnodi ar y system.

**Cyfeirnod Mesur: CH/043**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i ddarparu gwybodaeth am sefydlogrwydd lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal.

Mae cael amrywiaeth o opsiynau ar gyfer lleoli plentyn yn briodol yn allweddol i sefydlogrwydd a pharhauster. Mae plant sy'n dod yn blant sy'n derbyn gofal yn dioddef teimladau o wahanu a cholled, hyd yn oed os ydynt wedi cael eu trin yn wael cyn derbyn gofal. Mae'r teimladau hyn yn gwaethygu i blant sy'n mynd ymlaen i gael

lleoliadau lluosog, gan ei gwneud yn anoddach iddynt sefydlu perthynas ystyrlon â'u gofalwyr.

Er hynny, nid yw pob symudiad o fewn y system yn negyddol. Mae rhai symudiadau'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion y plentyn a hefyd wrth ystyried eu dymuniadau a'u teimladau eu hunain. Fodd bynnag, mae ymchwil yn awgrymu bod plant a phobl ifanc sydd â nifer uchel o symud lleoliadau yn llai tebygol o gyflawni'n academaidd ac yn waeth o ran eu canlyniadau seicolegol, cymdeithasol ac iechyd. Felly, mae'r gallu i awdurdodau lleol fonitro nifer y symudiadau a wneir gan blant o fewn y system derbyn gofal yn hollbwysig i wella canlyniadau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro sefydlogrwydd lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn cael ei lwytho o'r cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal gan Lywodraeth Cymru.***

Mae'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA) yn diffinio'r mecanwaith ar gyfer cofnodi cyfnodau, newid lleoliad ac unrhyw newid yn y sail gyfreithiol y mae'r plentyn yn cael ei letya oddi tani.

Mae cyfnodau plant yn cael eu cofnodi ar y CLA fel a ganlyn:

- Dechrau derbyn gofal (S)
- Newid lleoliad (P)
- Newid mewn statws cyfreithiol (L)
- Newid lleoliad a statws cyfreithiol (B)
- Gofal a gymerwyd drosodd gan awdurdod lleol arall yng Nghymru (CT1)
- Gofal a gymerwyd drosodd gan awdurdod lleol arall y tu allan i Gymru (CT2)

At ddibenion y metrig hwn, mae cyfnodau math 'L' yn cael eu heithrio. Ar gyfer y metrig hwn, mae tri lleoliad neu fwy yn gyfystyr â dau symudiad o leoliad yn ystod y flwyddyn. Mae rhestr lawn o'r eithriadau a'r rhai sydd wedi'u cynnwys wedi'u rhestru isod.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gyfrif **pob** plentyn yn y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer y flwyddyn gasglu sydd â **thri neu fwy** o leoliadau yn ystod y flwyddyn.
2. Cyfrwch yr holl resymau dros ddechrau'r cyfnodau '**S', 'P' a 'B' a 'CT1' a 'CT2'**.
3. Dylech gynnwys newid **'math' o leoliad** lle mae'r cyfeiriad neu'r lleoliad yn aros yr un fath.
4. Dylech gynnwys cyfnodau a ddechreuodd **cyn dechrau'r** flwyddyn gasglu.
5. Dylech gynnwys cyfnodau a **ddaeth i ben** yn y flwyddyn gasglu neu a oedd **heb ddod i ben** ar ddiwedd y flwyddyn gasglu.

6. Dylech gynnwys cyfnodau **nad oeddent yn rhan o gyfnod gofal cydamserol.** Mae hynny'n gyfnodau o ofal a oedd wedi'u gwahanu gan gyfnodau o beidio â derbyn gofal.
7. Dylech gynnwys 'symudiadau dros dro' sy'n para mwy na **21 diwrnod.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech eithrio pob plentyn a leolir dan gyfres o **seibiannau byr** y cytunwyd arnynt **(V1, A76).**
2. Dylech eithrio pob **rheswm dros gychwyn cyfnod math 'L'.** Newidiadau statws cyfreithiol yn unig yw'r rhain ac nid ydynt yn golygu symud na newid lleoliad.
3. Peidiwch â chynnwys **newid cyfeiriad gofalwr** os yw'r plentyn yn aros gyda'r un gofalwr.
4. Dylech eithrio **'symudiadau dros dro'** i blant, pan mai'r cynllun yw i'r plentyn symud yn ôl i'w leoliad parhaol. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:
    a. Symud at ofalwr arall dros dro pan fydd ei **ofalwr parhaol ar wyliau, neu yn yr ysbyty oni bai ei fod yn hwy na 21 diwrnod.**
    b. Symud dros dro tra bo'r **plentyn ar wyliau neu yn yr ysbyty oni bai ei fod yn hwy na 21 diwrnod.**
    c. Plant sydd **wedi mynd ar goll neu wedi dianc** o'r lleoliad.
    d. Unrhyw symudiadau dros dro eraill sy'n para am gyfnod o **saith diwrnod yn olynol neu lai.**
5. Dylech eithrio unrhyw symud i **leoliad cyn mabwysiadu**, hyd yn oed os yw hyn gyda theulu gwahanol.
6. Dylech eithrio pob **plentyn nad yw'n derbyn gofal ar 31 Mawrth.**

**Cyfeirnod Mesur: CH/044**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi profi un neu fwy o newidiadau o ran ysgol yn ystod y flwyddyn (ac eithrio trefniadau pontio, symudiadau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu neu symud tŷ).

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i ddarparu gwybodaeth am sefydlogrwydd addysg i blant sy'n derbyn gofal.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 100** yn nodi:

"*Wrth benderfynu ble i leoli plentyn sy'n derbyn gofal, dylai awdurdod lleol wneud popeth posibl i leihau unrhyw amharu ar addysg y plentyn. Mae hyn yn golygu*

*gwneud y gorau o'r ymdrechion i drefnu lleoliad gofal sy'n golygu bod modd cynnal y ddarpariaeth addysgol bresennol, os yw hynny er lles gorau'r plentyn. Mae'n bwysig ceisio, ac ystyried, barn y plentyn am ei addysg (yn amodol ar oedran a lefel ei ddealltwriaeth) wrth benderfynu ar y ffordd orau o leoli'r plentyn. Lle bo plentyn yng Nghyfnod Allweddol 4 (blynyddoedd 10 ac 11) dylid gwneud popeth posibl i'w cynnal yn eu hysgol bresennol, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid symud. Mae rhagor o arweiniad ar hyn ar gael ym Mhennod 2 o'r cod hwn."*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro sefydlogrwydd addysg i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CH/039***

Dylech gynnwys pob plentyn sy'n derbyn gofal sydd mewn oedran ysgol gorfodol.

Mae plentyn mewn oedran ysgol gorfodol **o ddechrau'r tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn 5 oed tan y dydd Gwener diwethaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol pan fo'r plentyn yn troi'n 16 oed**.

Mae cyfnod o dderbyn gofal yn gyfnod parhaus pan fo plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod. Mae'n bosibl y bydd plentyn yn cael mwy nag un cyfnod o dderbyn gofal yn ystod y flwyddyn os bydd y trefniant gofal yn dod i ben am unrhyw reswm yn ystod y flwyddyn a'i fod yn dychwelyd i dderbyn gofal yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae trefniadau pontio yn cyfeirio at newidiadau o ysgol fabanod i ysgol gynradd, o ysgol gynradd i ysgol iau, o ysgol iau i ysgol uwchradd ac o ysgol uwchradd i goleg chweched dosbarth.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys pob plentyn sydd yn mewn oedran ysgol gorfodol **hyd yn oed os ydynt yn dechrau eu haddysg orfodol yn ystod y flwyddyn.**
2. Dylech gynnwys plant sy'n **symud i ddarpariaeth addysg y tu allan i'r sir.**
3. Dylech **ddim ond** cynnwys newid ysgol **tra bo plentyn yn derbyn gofal**.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant **nad ydynt mewn oedran ysgol gorfodol** yn ystod y flwyddyn.
2. Peidiwch â chynnwys plant **nad ydynt yn CH/039.**
3. Peidiwch â chynnwys unrhyw newidiadau addysg sy'n digwydd **pan nad yw'r plentyn yn derbyn gofal**. Yn yr un modd, peidiwch â chynnwys newidiadau sy'n codi **o ganlyniad i'r ffaith** nad yw'r plentyn **yn derbyn gofal mwyach**.

4. Dylech eithrio pob plentyn a leolir dan gyfres o **seibiannau byr** y cytunwyd arnynt **(V1, A76).**
5. Peidiwch â chynnwys newidiadau os yw **ysgol bresennol y plentyn wedi cau.**
6. Peidiwch â chynnwys newidiadau i **fodloni datganiad anghenion addysgol arbennig.**
7. Peidiwch â chynnwys newidiadau o ran **dechrau neu orffen tiwtora gartref** cyhyd ag y bo'r plentyn yn parhau i fod wedi'i gofrestru yn yr un ysgol.
8. Peidiwch â chynnwys newidiadau sy'n codi oherwydd bod y plentyn wedi'i **leoli ar gyfer mabwysiadu parhaol.**
9. Peidiwch â chynnwys newid ysgol o ganlyniad i **baratoi'r plentyn i ddychwelyd adref.**

**Cyfeirnod Mesur: CH/045**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref yn ystod y flwyddyn.

**Bwriad y Mesur**

Mae Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 38** yn nodi y gellir sicrhau sefydlogrwydd i rai plant drwy eu dychwelyd yn llwyddiannus at eu teulu biolegol.

Mae mesur hyn yn rhoi syniad o allu awdurdod lleol i sicrhau canlyniadau sydd, lle bynnag y bo modd, yn cadw teuluoedd gyda'i gilydd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro deilliannau i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn cael ei lwytho o'r cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal gan Lywodraeth Cymru.***

At ddibenion y mesur hwn, mae'r cyfnod pan mae plentyn yn derbyn gofal yn cael ei rannu'n "episodau" gofal. Mae pob episod yn cynrychioli cyfnod o dderbyn gofal o dan yr un statws cyfreithiol ac yn yr un lleoliad. Pan fydd naill ai statws cyfreithiol neu leoliad y plentyn yn newid, bydd y plentyn hwnnw'n dechrau episod newydd, a chofnodir y rheswm pam y daeth yr episod i ben.

Dyma'r categorïau perthnasol ar gyfer nodi pan fo plentyn sy'n derbyn gofal wedi dychwelyd adref ar ôl cyfnod o dderbyn gofal:

- (E4) Wedi dychwelyd adref i fyw gyda rhieni, perthnasau neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant.

Wedi dychwelyd adref i fyw gyda rhieni, perthnasau neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant, wedi ei ategu gan:

- (E43) Gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig wedi ei wneud i gyn-ofalwyr maeth.
- (E44) Gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig wedi ei wneud i ofalwyr nad ydynt yn gyn-ofalwyr maeth.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **pob** episod o ofal **sy'n dod i ben** yn ystod y flwyddyn gasglu. **Data sylfaen = y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal.**
2. Dylech gynnwys plant sy'n cael eu lleoli o dan **Adran 76 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**, neu **Adran 31 o Ddeddf Plant 1989.** Bydd y rhain yn cynnwys plant y terfynwyd eu cyfnod o dan y codau statws cyfreithiol canlynol:

    i. V2
    ii. C1
    iii. C2

3. Dylech gynnwys dim ond plant sydd â'r **codau rheswm terfynu** (dychwelyd adref) canlynol:

    i. E4
    ii. E43
    iii. E44

4. Gall plentyn ddychwelyd adref **fwy nag unwaith** yn ystod y flwyddyn. **Cyfrwch y diweddaraf o'r rhain** yn unig.
5. Gall cyfnod gofal plentyn gael ei derfynu fwy nag unwaith gyda **gwahanol resymau terfynu.** Os bydd **unrhyw un** o'r rhesymau hyn yn bodloni'r meini prawf uchod, dylech gynnwys y person **unwaith** yn y cyfrif.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant pan ddaeth y cyfnod gofali **ben o dan y codau statws cyfreithiol canlynol:**

    i. V1
    ii. E1
    iii. L1
    iv. L2

v. L3
vi. J1
vii. J2

2. Peidiwch â chynnwys cyfnodau o ofal **a ddaeth i ben y tu allan i'r flwyddyn gasglu.**
3. Dim ond **unwaith** y dylech gynnwys unrhyw blentyn sydd wedi dychwelyd adref fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn gasglu.
4. Peidiwch â chynnwys unrhyw blant nad ydynt yn ymddangos **yn y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal.**

**Cyfeirnod Mesur: CH/046**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal nad ydynt wedi'u lleoli gyda rhieni, teulu na ffrindiau ar 31 Mawrth.

**Bwriad y Mesur**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 20** yn nodi:

"*Hefyd, mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan unrhyw ran o'r Ddeddf mewn perthynas â phlentyn y mae arno anghenion am ofal a chymorth, neu y gall fod arno anghenion am ofal a chymorth, neu mewn perthynas â phlentyn y mae swyddogaethau yn arferadwy mewn cysylltiad ag ef o dan Ran 6:*

- *roi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo magwraeth y plentyn gan deulu'r plentyn, i'r graddau y mae gwneud hynny yn gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn.*
- *pan fo'r plentyn o dan 16 oed, canfod barn, dymuniadau a theimladau'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn a rhoi sylw i'r farn honno, y dymuniadau hynny a'r teimladau hynny i'r graddau y mae gwneud hynny yn gyson â llesiant y plentyn, ac yn rhesymol ymarferol - adran 6(4).*"

Mae mesur hyn yn rhoi syniad o allu awdurdod lleol i sicrhau canlyniadau sydd, lle bynnag y bo modd, yn cadw teuluoedd gyda'i gilydd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro'r plant hynny sy'n derbyn gofal sy'n cael eu lleoli y tu allan i deulu a ffrindiau yng Nghymru.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn cael ei lwytho o'r cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal gan Lywodraeth Cymru.***

Mae **Cod Ymarfer Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 **para. 120** yn nodi:

*“Os oes modd – h.y. os yw’n gyson â llesiant y plentyn ac yn rhesymol ymarferol – dylai’r awdurdod lleol wneud trefniadau i blentyn sy’n derbyn gofal fyw gyda rhiant, person sydd â chyfrifoldeb rhiant, neu (os yw’r plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol a bod gorchymyn preswylio / trefniant plentyn ar waith yn union cyn i’r gorchymyn gofal gael ei wneud) berson y gwnaed gorchymyn trefniant plentyn o’i blaid. Mae hyn yn unol â’r ddyletswydd gyffredinol, a nodir yn Rhan 2 o’r Ddeddf, bod rhaid i berson sy’n arfer swyddogaethau o dan Ran 6 roi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo magwraeth y plentyn gan deulu’r plentyn, i’r graddau y mae hyn yn gyson â llesiant y plentyn.”*

At ddibenion y metrig hwn, cyfrwch yr holl leoliadau gweithredol ar ddiwedd y flwyddyn gasglu sydd â’r codau lleoliad sydd wedi’u rhestru isod.

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **pob lleoliad gweithredol** ar ddiwedd y flwyddyn gasglu gyda’r mathau canlynol o leoliadau: **Data sylfaen = y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal.**

    i. F2, F3, F5, F6, F7, F8
    ii. P2, P3
    iii. H1, H3, H4, H5, H21, H22
    iv. R1, R2, R3, R5
    v. S1
    vi. Z1

2. Dylech gynnwys plant sy’n bodloni’r meini prawf uchod, **beth bynnag fo’u statws cyfreithiol.**
3. **Lleoliad gweithredol yw un heb ddyddiad gorffen** ar ddiwedd y flwyddyn gasglu.

**Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech eithrio **pob lleoliad gweithredol** ar ddiwedd y flwyddyn gasglu gyda’r mathau canlynol o leoliadau: **Data sylfaen = y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal.**

    i. A3, A4, A5 A6, A8
    ii. F1, F4
    iii. M1, M2, M3
    iv. P1

2. Peidiwch â chynnwys lleoliadau sydd wedi **dod i ben.**
3. Peidiwch â chyfrif unrhyw blentyn sydd â math o leoliad **nad yw ym mhwynt 1 uchod.**
4. Peidiwch â chynnwys unrhyw blant nad ydynt yn ymddangos **yn y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal.**

**Cyfeirnod Mesur: CH/047**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal a leolir yng Nghymru, ond y tu allan i'r awdurdod lleol cyfrifol ar 31 Mawrth.

**Bwriad y Mesur**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 183** yn nodi:

"*Mae'n bwysig bod plant sy'n derbyn gofal* ***yn aros yn eu hardal eu hunain lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn briodol****. Mae lleoli plentyn yn ei ardal ei hun yn sicrhau cysondeb o ran gofal iechyd ac addysg, gan ei gwneud yn haws i'r plentyn gadw mewn cysylltiad â'i rieni biolegol a phobl arwyddocaol eraill yn ei fywyd.*

*Canfuwyd bod cynnal cyswllt â'r teulu yn cyfrannu at sefydlogrwydd lleoliadau, ac mae'n ffactor pwysig o ran sicrhau ailuno llwyddiannus gyda theulu biolegol y plentyn ar sail gynlluniedig neu wrth adael gofal. Fodd bynnag, mae adegau pan fydd lleoliad y tu allan i ardal yr awdurdod er lles gorau'r plentyn."*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro'r plant hynny sy'n derbyn gofal sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir yng Nghymru.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn cael ei lwytho o'r cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal gan Lywodraeth Cymru.***

Mae'r data ar gyfer y dangosydd hwn yn deillio o faes **Cod Post Lleoliad** y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, sy'n cael ei baru â data'r Rhestr Gyfeiriadau Cenedlaethol i ganfod y lleoliadau hynny sydd y allan i ardal yr awdurdod lleol cyfrifol, ond o fewn Cymru. Bydd dilysu o fewn y cyfrifiad CLA yn sicrhau bod yr holl ddata cod post priodol yn cael ei ddarparu cyn cyflwyno.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys pob lleoliad gweithredol ar ddiwedd y flwyddyn gasglu pan fo'r plentyn yn cael ei leoli yng Nghymru, ond y tu allan i'r awdurdod lleol cyfrifol. **Data sylfaen = y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal.**
2. Mae **lleoliad gweithredol yn un heb ddyddiad gorffen** ar ddiwedd y flwyddyn gasglu.

**Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant sy'n cael eu lleoli dan gyfres o **egwyliau tymor byr (cod statws cyfreithiol V1).**
2. Peidiwch â chynnwys lleoliadau sydd wedi **dod i ben.**
3. Peidiwch â chynnwys plant sy'n cael eu rhoi mewn lleoliadau cyn mabwysiadu ar ddiwedd y flwyddyn gasglu. Mae'r rhain yn cynnwys:
    i. A3
    ii. A4
    iii. A5
    iv. A6
    v. A8
4. Peidiwch â chynnwys unrhyw blant nad ydynt yn ymddangos **yn y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal.**

**Cyfeirnod Mesur: CH/048**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu lleoli y tu allan i Gymru ar 31 Mawrth.

**Bwriad y Mesur**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 183** yn nodi:

"*Mae'n bwysig bod plant sy'n derbyn gofal* ***yn aros yn eu hardal eu hunain lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn briodol****. Mae lleoli plentyn yn ei ardal ei hun yn sicrhau cysondeb o ran gofal iechyd ac addysg, gan ei gwneud yn haws i'r plentyn gadw mewn cysylltiad â'i rieni biolegol a phobl arwyddocaol eraill yn ei fywyd.*

*Canfuwyd bod cynnal cyswllt â'r teulu yn cyfrannu at sefydlogrwydd lleoliadau, ac mae'n ffactor pwysig o ran sicrhau ailuno llwyddiannus gyda theulu biolegol y plentyn ar sail gynlluniedig neu wrth adael gofal. Fodd bynnag, mae adegau pan fydd lleoliad y tu allan i ardal yr awdurdod er lles gorau'r plentyn."*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro'r plant hynny sy'n derbyn gofal sy'n cael eu lleoli y tu allan i Gymru.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn cael ei lwytho o'r cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal gan Lywodraeth Cymru.***

Mae'r data ar gyfer y dangosydd hwn yn deillio o faes **Cod Post Lleoliad** y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, sy'n cael ei baru â data'r Rhestr Gyfeiriadau Cenedlaethol i ganfod y lleoliadau hynny sydd y tu allan i'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd

dilysu o fewn y cyfrifiad CLA yn sicrhau bod yr holl ddata cod post priodol yn cael ei ddarparu cyn cyflwyno.

### Beth i’w gynnwys yn y Mesur

1. Dylech gynnwys **pob lleoliad gweithredol** ar ddiwedd y flwyddyn gasglu pan fo’r plentyn yn cael ei leoli y tu allan i Gymru. **Data sylfaen = y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal.**
2. Mae **lleoliad gweithredol yn un heb ddyddiad gorffen** ar ddiwedd y flwyddyn gasglu.

### Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur

1. Peidiwch â chynnwys plant sy’n cael eu lleoli dan gyfres o **seibiannau byr (cod statws cyfreithiol V1).**
2. Peidiwch â chynnwys lleoliadau sydd wedi **dod i ben.**
3. Peidiwch â chynnwys plant sy’n cael eu rhoi mewn lleoliadau cyn mabwysiadu ar ddiwedd y flwyddyn gasglu. Mae’r rhain yn cynnwys:
    i. A3
    ii. A4
    iii. A5
    iv. A6
    v. A8
4. Peidiwch â chynnwys unrhyw blant nad ydynt yn ymddangos **yn y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal.**

## Unigolion sy’n gadael gofal

### Cyfeirnod Mesur: CH/049

**Enw’r Mesur:** Cyfanswm nifer y Cynlluniau Llwybr cychwynnol i’w cwblhau yn ystod y flwyddyn.

### Bwriad y Mesur

Mae’r metrig wedi’i ddylunio i ddarparu gwybodaeth am blant sy’n paratoi ar gyfer gadael gofal.

Mae casglu’r wybodaeth hon yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae **adran 107** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun llwybr gael ei baratoi ar gyfer pob person ifanc **categori 1** – pobl ifanc sy'n derbyn gofal ar ôl 16 neu 17 oed, **categori 2** – pobl ifanc sy'n gadael gofal sydd o dan 18 oed neu **gategori 3** – pobl ifanc sy'n gadael gofal sy'n 18 oed a hŷn, a **chategori 4** – unigolion sydd wedi gadael gofal sydd wedi ailgysylltu â gofal at ddibenion addysg neu hyfforddiant.

Dylai pobl ifanc categori 2 a phobl ifanc categori 3 fod â **chynllun llwybr eisoes** sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 421** yn nodi: *Pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal ar fin troi'n 16 oed, rhaid i'r awdurdod lleol baratoi cynllun llwybr i gynorthwyo'r person ifanc hwnnw i bontio i fod yn oedolyn a gadael gofal. Bydd y cynllun llwybr yn adeiladu ar gynllun gofal a chymorth Rhan 6 presennol y plentyn, a fydd yn cael ei ymgorffori yn y cynllun llwybr.*

Mae **Cod Ymarfer Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 399** yn nodi: *Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson ifanc categori 4 roi cymorth i'r person ifanc hwnnw, i'r graddau y bo'n ofynnol i'w anghenion addysgol, drwy baratoi cynllun llwybr.*

Mae Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoliadau ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015, **para. 48** yn nodi:

"Rhaid i'r awdurdod cyfrifol gwblhau'r asesiad o anghenion C yn unol ag adran 107(1) Deddf 2014 **heb fod yn fwy na 3 mis ar ôl y dyddiad y mae C yn cyrraedd 16 oed neu'n dod yn berson ifanc categori 1 ar ôl yr oedran hwnnw.** ***(para. 51) Rhaid paratoi'r cynllun llwybr cyn gynted â phosibl ar ôl asesu anghenion C.***"

Mae Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015, **para. 5** yn nodi:

"*Yn achos person ifanc categori 4,* ***dim mwy na 3 mis ar ôl y dyddiad y mae'r awdurdod lleol cyfrifol yn cael gwybod bod y person ifanc categori 4 yn dilyn, neu'n dymuno dilyn, rhaglen addysg neu hyfforddiant. (Para 6) Rhaid paratoi cynllun llwybr a baratowyd yn unol ag adran 107(3) neu (4) o'r Ddeddf cyn gynted â phosibl ar ôl asesu anghenion.***"

**Mae person ifanc categori 1 yn:**

Cael ei ddiffinio yn **Adran 104 (2)** y Ddeddf fel plentyn:

a) sy'n 16 neu'n 17 oed,
b) sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, ac
c) wedi bod yn derbyn gofal gan awdurdod lleol am gyfnod o 13 wythnos, neu gyfnodau sy'n gyfanswm o 13 wythnos, a ddechreuodd ar ôl iddo gyrraedd 14 oed ac a ddaeth i ben ar ôl iddo gyrraedd 16 oed.

(Hysbys drwy gydol y cod hwn ei fod yn berson ifanc sy’n derbyn gofal sy’n 16 neu 17 oed.)

Mae hyn yn cynnwys Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches sy'n bodloni'r amodau uchod. Nid oes unrhyw ofyniad i'r cyfnod penodedig o gymhwystra gael ei fodloni yn ystod y cyfnod rhwng pen-blwyddi'r person yn 14 oed ac 16 oed. Bydd cyfnod sy'n dechrau ar ôl pen-blwydd person yn 16 oed yn bodloni'r gofyniad yn yr un modd â chyfnod sy'n dechrau yn syth ar ôl pen-blwydd yn 14 oed neu ben-blwydd yn 15 oed. Er enghraifft, byddai unigolyn sy'n mynd i ofal yn 17 oed ac un diwrnod yn gymwys fel person ifanc categori 1,  union 13 wythnos yn ddiweddarach.

**Mae person ifanc categori 4 yn:**

golygu person sydd:

a) yn berson ifanc categori 3 y mae’r dyletswyddau o dan **Adrannau 105**, 107(3) a **(10)** a **110** o'r Ddeddf wedi peidio â bod yn gymwys iddo (gweler **Adran 111** o’r Ddeddf)
b) sydd wedi hysbysu’r awdurdod lleol ei fod yn dilyn, neu ei fod yn dymuno dilyn, rhaglen addysg neu hyfforddiant, ac
c) sydd heb gyrraedd 25 oed neu unrhyw oedran is a bennir.

(Yn cael ei adnabod drwy’r cod fel person ifanc sy’n ailgysylltu â gofal at ddibenion addysg neu hyfforddiant.)

**At ddibenion y metrig hwn, cyfrwch yr holl bobl ifanc sy’n dod o dan gategori 1 a chategori 4 rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr.**

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr holl **bobl ifanc sy’n derbyn gofal ac sy’n troi’n 16 oed neu’n 17 oed rhwng 1 Ionawr cyn y flwyddyn gasglu a 31 Rhagfyr yn ystod y flwyddyn gasglu ac sydd wedi bodloni’r meini prawf ar gyfer eu cynnwys yng nghategori 1.**
2. Dylech gynnwys yr holl bobl ifanc sy’n **ailgysylltu â gwasanaethau gadael gofal, o 1 Ionawr cyn y flwyddyn gasglu hyd at 31 Rhagfyr yn ystod y flwyddyn gasglu, er mwyn mynd ar drywydd addysg neu hyfforddiant (categori 4)**
3. **Rhaid i bobl ifanc barhau i dderbyn gofal ar ddechrau’r flwyddyn gasglu** (1 Ebrill) i’w cynnwys yn y cyfrif ar gyfer categori 1.
4. **Rhaid i bobl ifanc barhau i ymwneud yn weithredol â gwasanaethau gadael gofal ar ddechrau’r flwyddyn gasglu** (1 Ebrill) i’w cynnwys yn y cyfrif ar gyfer categori 4.
5. Dylech gynnwys yr holl bobl ifanc yn 6.1 a 6.2 uchod, ni waeth a yw cynllun llwybr wedi’i gwblhau ar eu cyfer.

**Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys y **bobl ifanc hynny sydd wedi'u dosbarthu fel:**
    i. categori 2,
    ii. categori 3,
    iii. categori 5 a,
    iv. categori 6
2. Peidiwch â chynnwys pobl ifanc a ddaeth yn gategori 1 neu gategori 4 y **tu allan i'r paramedrau dyddiadau uchod.**
3. Peidiwch â chyfrif plant a oedd wedi cael eu pen-blwydd yn 17 oed ond a oedd eisoes wedi cael eu cyfrif yng nghasgliad y flwyddyn flaenorol pan oeddent yn 16 oed.

Peidiwch â chynnwys data a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/050**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y Cynlluniau Llwybr cychwynnol a oedd yn ddyledus yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn amserlenni.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i ddylunio i ddarparu gwybodaeth am blant sy'n paratoi ar gyfer gadael gofal.

Mae casglu'r wybodaeth hon yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CH/049.***

Mae **adran 107** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun llwybr gael ei baratoi ar gyfer pob person ifanc **categori 1** – pobl ifanc sy'n derbyn gofal ar ôl 16 neu 17 oed; pobl ifanc **categori 2** – pobl ifanc o dan 18 oed sy'n gadael gofal; neu bobl ifanc **categori 3** – pobl ifanc 18 oed a hŷn sy'n gadael gofal; a phobl **categori 4** – unigolion sydd wedi gadael gofal sydd wedi ailgysylltu â gofal at ddibenion addysg neu hyfforddiant.

Dylai pobl ifanc categori 2 a phobl ifanc categori 3 fod â **chynllun llwybr eisoes** sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 421** yn nodi: *Pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal ar fin troi'n 16 oed, rhaid i'r awdurdod lleol baratoi cynllun llwybr i gynorthwyo'r person ifanc hwnnw i bontio i fod yn oedolyn a gadael gofal. Bydd y cynllun llwybr yn adeiladu ar gynllun gofal a chymorth Rhan 6 presennol y plentyn, a fydd yn cael ei ymgorffori yn y cynllun llwybr.*

Mae **Cod Ymarfer Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 **para. 399** yn nodi: *Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson ifanc categori 4 roi cymorth i'r person ifanc hwnnw, i'r graddau y bo'n ofynnol i'w anghenion addysgol, drwy baratoi cynllun llwybr.*

Mae Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoliadau ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015, **para. 48** yn nodi: *Rhaid i'r awdurdod cyfrifol gwblhau'r asesiad o anghenion C yn unol ag adran 107(1) Deddf 2014* ***heb fod yn fwy na 3 mis ar ôl y dyddiad y mae C yn cyrraedd 16 oed neu'n dod yn berson ifanc categori 1 ar ôl yr oedran hwnnw. (para. 51) Rhaid paratoi'r cynllun llwybr cyn gynted â phosibl ar ôl asesu anghenion C.***

Mae Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015, **para.** 5 yn nodi: yn achos person ifanc categori 4, **dim mwy na 3 mis ar ôl y dyddiad y mae'r awdurdod lleol cyfrifol yn cael gwybod bod y person ifanc categori 4 yn dilyn, neu'n dymuno dilyn, rhaglen addysg neu hyfforddiant.** ***(Para 6) Rhaid paratoi cynllun llwybr a baratowyd yn unol ag adran 107(3) neu (4) o'r Ddeddf cyn gynted â phosibl ar ôl asesu anghenion.***

**Mae person ifanc categori 1 yn:**

Cael ei ddiffinio yn **Adran 104 (2)** y Ddeddf fel plentyn:

a) sy'n 16 neu'n 17 oed,
b) sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, ac
c) wedi bod yn derbyn gofal gan awdurdod lleol am gyfnod o 13 wythnos, neu gyfnodau sy'n gyfanswm o 13 wythnos, a ddechreuodd ar ôl iddo gyrraedd 14 oed ac a ddaeth i ben ar ôl iddo gyrraedd 16 oed.

(Hysbys drwy gydol y cod hwn ei fod yn berson ifanc sy'n derbyn gofal sy'n 16 neu 17 oed.)

Mae hyn yn cynnwys Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches sy'n bodloni'r amodau uchod. Nid oes unrhyw ofyniad i'r cyfnod penodedig o gymhwystra gael ei fodloni yn ystod y cyfnod rhwng pen-blwyddi'r person yn 14 oed ac 16 oed. Bydd cyfnod sy'n dechrau ar ôl pen-blwydd person yn 16 oed yn bodloni'r gofyniad yn yr un modd â chyfnod sy'n dechrau yn syth ar ôl pen-blwydd yn 14 oed neu ben-blwydd yn 15 oed. Er enghraifft, byddai unigolyn sy'n mynd i ofal yn 17 oed ac un diwrnod yn gymwys fel person ifanc categori 1, union 13 wythnos yn ddiweddarach.

**Mae person ifanc categori 4 yn:**

golygu person sydd:

a) yn berson ifanc categori 3 y mae'r dyletswyddau o dan **Adrannau 105, 106, 107(3)** a **(10)** a **110** o'r Ddeddf wedi peidio â bod yn gymwys iddo (gweler **Adran 111** o'r Ddeddf)
b) sydd wedi hysbysu'r awdurdod lleol ei fod yn dilyn, neu ei fod yn dymuno dilyn, rhaglen addysg neu hyfforddiant, ac
c) sydd heb gyrraedd 25 oed neu unrhyw oedran is a bennir.

(Yn cael ei adnabod drwy'r cod fel person ifanc sy'n ailgysylltu â gofal at ddibenion addysg neu hyfforddiant.)

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **Cod Ymarfer Rhan 6**, **para. 423** yn nodi:

"*Rhaid i'r cynllun llwybr roi sylw i'r canlynol:*

***Iechyd a datblygiad y person ifanc***

*Bydd hyn yn adeiladu ar yr wybodaeth yng nghynllun iechyd y person ifanc, a oedd yn rhan o'i gynllun gofal a chymorth Rhan 6 pan oedd yn derbyn gofal. Dylai gynnwys iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol.*

***Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth***

*Dylid parhau i gynnal y cynllun addysg personol tra bo'r person ifanc yn parhau i dderbyn addysg amser llawn neu ran-amser. Bydd gwybodaeth yn y cynllun yn bwydo'n uniongyrchol i'r cynllun llwybr. Rhaid i gynlluniau llwybr ganolbwyntio'n benodol ar gynllunio gyrfa, gan ystyried dyheadau, sgiliau a photensial addysgol y person ifanc.*

***Cyswllt â rhieni'r person ifanc, teulu ehangach a ffrindiau***

*Mae hyn yn cynnwys gallu'r rhwydwaith hwn i annog y person ifanc a'i alluogi i bontio'n gadarnhaol i fod yn oedolyn.*

***Galluoedd ariannol a rheoli arian***

*Bydd hyn yn canolbwyntio ar allu'r person ifanc i reoli ei arian ei hun, ac yn amlinellu strategaethau i ddatblygu sgiliau'r person ifanc yn y maes hwn."*

**At ddibenion y metrig hwn, cyfrwch yr holl bobl ifanc sy'n dod o dan gategori 1 a chategori 4 rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr (CH/049) lle mae cynllun llwybr wedi'i gwblhau o fewn 3 mis i'r dyddiad y cawsant eu dosbarthu o dan gategori 1 neu gategori 4.**

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr holl **bobl ifanc sy'n derbyn gofal sy'n troi'n 16 oed o 1 Ionawr cyn y flwyddyn gasglu hyd at 31 Rhagfyr yn ystod y flwyddyn gasglu ac sydd wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer eu cynnwys yng nghategori 1, a chael cynllun llwybr o fewn 3 mis o'r dyddiad hwn.**

2. Dylech gynnwys yr holl bobl ifanc sy’n **ailgysylltu o 1 Ionawr cyn y flwyddyn gasglu hyd at 31 Rhagfyr yn ystod y flwyddyn gasglu â gwasanaethau gadael gofal er mwyn mynd ar drywydd addysg neu hyfforddiant (categori 4), a chael cynllun llwybr o fewn 3 mis o’r dyddiad hwn.**
3. **Rhaid i bobl ifanc barhau i dderbyn gofal ar ddechrau’r flwyddyn gasglu** (1 Ebrill) i’w cynnwys yn y cyfrif ar gyfer categori 1.
4. **Rhaid i bobl ifanc barhau i ymwneud yn weithredol â gwasanaethau gadael gofal ar ddechrau’r flwyddyn gasglu** (1 Ebrill) i’w cynnwys yn y cyfrif ar gyfer categori 4.
5. Rhaid i gynllun llwybr gael ei **gymeradwyo gan reolwr** neu berson arall sy’n gweithredu ar ei ran i'w ystyried yn gyflawn.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys pobl ifanc **nad ydynt yn CH/049.**
2. Peidiwch â chynnwys pobl ifanc a ddaeth o dan gategori 1 neu gategori 4 **y tu allan i’r cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr.**
3. Peidiwch â chynnwys cynlluniau **nad ydynt yn bodloni’r gofynion** a nodir ar gyfer cynlluniau llwybr yng Nghod Ymarfer rhan 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
4. Peidiwch â chynnwys cynlluniau llwybr **anghyflawn.**
5. Peidiwch â chynnwys data a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/051**

**Enw’r Mesur:** Cyfanswm nifer y bobl ifanc yn ystod y flwyddyn lle dyrannwyd ymgynghorydd personol yn ôl yr angen.

**Bwriad y Mesur**

Mae’r metrig wedi’i ddylunio i ddarparu gwybodaeth am blant sy’n paratoi ar gyfer gadael gofal.

Mae casglu’r wybodaeth hon yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CH/049.***

Mae **Adran 106** o Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol cyfrifol drefnu bod cynghorydd personol yn cael ei neilltuo i'r unigolion canlynol:

- Person ifanc categori 1
- Person ifanc categori 2
- Person ifanc categori 3
- Person ifanc categori 4

Dylai pobl ifanc categori 2 a phobl ifanc categori 3 **fod wedi cael cynghorydd personol yn barod** pan fyddant yn trosglwyddo i'r categorïau hyn. Gall yr unigolyn sy'n cael ei ddyrannu fel ymgynghorydd personol newid i gynghorydd personol sydd â sgiliau penodol mewn gweithio gydag oedolion ifanc, ond byddai hyn yn cael ei ystyried yn barhad o'r dyraniad yn hytrach na dyraniad newydd.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 440** yn nodi: *Dylai unrhyw un a benodir yn Ymgynghorydd Personol:*

- *Darparu cyngor (gan gynnwys cyngor ymarferol) a chymorth.*
- *Cyfrannu at asesiadau a pharatoi cynlluniau llwybr.*
- *Cyfrannu at adolygu'r cynllun llwybr.*
- *Cydweithio â'r awdurdod lleol i roi'r cynllun llwybr ar waith.*
- *Cydgysylltu darpariaeth gwasanaethau a chymryd camau rhesymol i sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal yn defnyddio gwasanaethau.*
- *Gwybod am gynnydd a llesiant pobl ifanc sy'n gadael gofal.*
- *Cadw cofnodion llawn, cywir a chyfoes o gyswllt â'r person ifanc sy'n gadael gofal a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu.*

**Mae person ifanc categori 1 yn:**

Yn cael ei ddiffinio yn **Adran 104 (2)** o Ddeddf fel plentyn:

a) sy'n 16 neu'n 17 oed,
b) sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, ac
c) wedi bod yn derbyn gofal gan awdurdod lleol am gyfnod o 13 wythnos, neu gyfnodau sy'n gyfanswm o 13 wythnos, a ddechreuodd ar ôl iddo gyrraedd 14 oed ac a ddaeth i ben ar ôl iddo gyrraedd 16 oed.

(Hysbys drwy gydol y cod hwn ei fod yn berson ifanc sy'n derbyn gofal sy'n 16 neu 17 oed.)

Mae hyn yn cynnwys Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches sy'n bodloni'r amodau uchod. Nid oes unrhyw ofyniad i'r cyfnod penodedig o gymhwystra gael ei fodloni yn ystod y cyfnod rhwng pen-blwyddi'r person yn 14 oed ac 16 oed. Bydd cyfnod sy'n dechrau ar ôl pen-blwydd person yn 16 oed yn bodloni'r gofyniad yn yr un modd â chyfnod sy'n dechrau yn syth ar ôl pen-blwydd yn 14 oed neu ben-blwydd yn 15 oed.

Er enghraifft, byddai unigolyn sy'n mynd i ofal yn 17 oed ac un diwrnod yn gymwys fel person ifanc categori 1,  union 13 wythnos yn ddiweddarach.

**Mae person ifanc categori 4 yn:**

golygu person sydd:

a. yn berson ifanc categori 3 y mae'r dyletswyddau o dan **Adrannau 105, 106, 107(3)** a **(10)** a **110** o'r Ddeddf wedi peidio â bod yn berthnasol iddo (gweler adran **111** o'r Ddeddf)
b. sydd wedi hysbysu'r awdurdod lleol ei fod yn dilyn, neu ei fod yn dymuno dilyn, rhaglen addysg neu hyfforddiant, ac
c. sydd heb gyrraedd 25 oed neu unrhyw oedran is a bennir.

(Yn cael ei adnabod drwy'r cod fel person ifanc sy'n ailgysylltu â gofal at ddibenion addysg neu hyfforddiant.)

Mae Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoliadau ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015, **para. 48** yn nodi:

"Rhaid i'r awdurdod cyfrifol gwblhau'r asesiad o anghenion C yn unol ag adran 107(1) Deddf 2014 **heb fod yn fwy na 3 mis ar ôl y dyddiad y mae C yn cyrraedd 16 oed neu'n dod yn berson ifanc categori 1 ar ôl yr oedran hwnnw.** ***(para. 51) Rhaid paratoi'r cynllun llwybr cyn gynted â phosibl ar ôl asesu anghenion C."***

Mae Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015, **para. 5** yn nodi:

"*Yn achos person ifanc categori 4,* ***dim mwy na 3 mis ar ôl y dyddiad y mae'r awdurdod lleol cyfrifol yn cael gwybod bod y person ifanc categori 4 yn dilyn, neu'n dymuno dilyn, rhaglen addysg neu hyfforddiant. (Para 6) Rhaid paratoi cynllun llwybr a baratowyd yn unol ag adran 107(3) neu (4) o'r Ddeddf cyn gynted â phosibl ar ôl asesu anghenion.****"*

Nid oes amserlenni penodol ar gyfer dyrannu cynghorydd personol (PA), ond gan fod y rheoliadau'n nodi y dylai'r cynghorydd personol fod yn gysylltiedig â datblygu'r cynllun llwybr a bod angen cwblhau'r cynllun llwybr ar gyfer pobl ifanc categori 1 a chategori 4 o fewn 3 mis i fod yn y categori hwnnw, dylid hefyd dyrannu'r PA o fewn yr amserlen honno. Felly, **at ddibenion y metrig hwn, mae pob person ifanc sy'n dod o dan gategori 1 a chategori 4 rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr wedi cael cynghorydd personol o fewn 3 mis i gael eu dosbarthu o dan un o'r categorïau hynny.**

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr holl **bobl ifanc sy'n derbyn gofal ac sy'n troi'n 16 oed rhwng 1 Ionawr cyn y flwyddyn gasglu a 31 Rhagfyr yn ystod y flwyddyn gasglu ac sydd wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu cynnwys yng**

**nghategori 1, lle dyrannwyd cynghorydd personol iddynt o fewn 3 mis o ddod yn gategori 1. Data sylfaen = CH/049.**

2. Dylech gynnwys yr holl bobl ifanc sy'n **ailgysylltu â gwasanaethau gadael gofal rhwng 1 Ionawr cyn y flwyddyn gasglu a 31 Rhagfyr yn ystod y flwyddyn gasglu er mwyn mynd ar drywydd addysg neu hyfforddiant (categori 4), lle dyrannwyd cynghorydd personol iddynt o fewn 3 mis o ddod yn gategori 4. Data sylfaen = CH/049.**
3. **Rhaid i bobl ifanc barhau i dderbyn gofal ar ddechrau'r flwyddyn gasglu** (1 Ebrill) i'w cynnwys yn y cyfrif ar gyfer categori 1.
4. **Rhaid i bobl ifanc barhau i ymwneud yn weithredol â gwasanaethau gadael gofal ar ddechrau'r flwyddyn gasglu** (1 Ebrill) i'w cynnwys yn y cyfrif ar gyfer categori 4.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys pobl ifanc **nad ydynt yn CH/049.**
2. Peidiwch â chynnwys pobl ifanc a ddaeth o dan gategori 1 neu gategori 4 y **tu allan i'r flwyddyn gasglu.**
3. Peidiwch â chyfrif plant na chafodd cynghorydd personol ei neilltuo iddynt am y tro cyntaf **yn hwyrach na 3 mis** o'r dyddiad y daethant o dan gategori 1 neu gategori 4.
4. Peidiwch â chynnwys data a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/052**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y bobl ifanc sy'n gadael gofal sy'n ddigartref yn ystod y flwyddyn (fel y'i diffinnir gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014).

**Bwriad y Mesur**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 440 (f)** yn nodi:

"*Er mwyn gwybod am gynnydd a llesiant pobl ifanc sy'n gadael gofal, mae'n rhaid i CP fod mewn cysylltiad wyneb yn wyneb rheolaidd â phob person sy'n gadael gofal sy'n derbyn cymorth ganddo.... O dan y Rheoliadau CL, pan fydd person ifanc sy'n gadael gofal yn symud i lety newydd, mae'n rhaid i'r CP ei weld yn y llety hwnnw o fewn saith diwrnod iddo symud. O ganlyniad, rhaid iddynt weld y sawl sy'n gadael gofal pan adolygir y cynllun llwybr am y tro cyntaf (ar ôl 28 diwrnod), ac yna ymweld â'r rhai sy'n gadael gofal bob dau fis o leiaf. Mae'n bwysig deall mai'r gofynion sylfaenol yw'r rhain. Pan fydd pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael problemau, gallant ddisgwyl cyswllt personol llawer mwy aml gyda'u PA.*"

Drwy gasglu’r data hwn, gall awdurdodau lleol fonitro lles parhaus y rhai sy’n gadael gofal, gan sicrhau bod eu hanghenion llety’n cael eu diwallu’n briodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro digartrefedd pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru.

**Diffiniad**

O dan Adran 55 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae person yn ddigartref os

- nad oes ganddo/ganddi lety yn y DU nac yn unman arall sydd ar gael i'w feddiannu ac y mae gan y person hwnnw hawl gyfreithiol i fyw ynddo
- os oes ganddo/ganddi lety ond nad yw'n gallu sicrhau mynediad iddo
- os oes ganddo/ganddi lety sy'n strwythur symudol (megis carafán neu gwch preswyl) ac nad oes lle i'w osod er mwyn darparu llety

O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cod canllawiau i awdurdodau lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd sy’n argymell y diffiniad ehangach canlynol o ‘ddigartrefedd’ at ddibenion cynllunio gwasanaethau:

Lle nad oes gan berson lety neu lle nad yw eu deiliadaeth yn ddiogel’. Bydd enghreifftiau o bobl sy’n dod o dan y diffiniad hwn yn cynnwys pobl sydd yn:

a) cysgu allan
b) byw mewn tai ansicr/dros dro (ac eithrio tenantiaid sicr / tenantiaid daliadaeth byr sicr)
c) byw mewn hosteli tymor byr, llochesi nos, hostelau mynediad uniongyrchol
d) byw mewn gwely a brecwast
e) symud yn aml rhwng perthnasau/ffrindiau
f) sgwatio
g) yn methu aros mewn tai neu ddychwelyd iddynt oherwydd amodau gwael, gorlenwi, problemau fforddiadwyedd, trais yn y cartref, aflonyddu, cam-drin meddyliol, corfforol a/neu rywiol, anaddasrwydd ar gyfer anghenion corfforol ac ati.
h) yn cael eu bygwth â cholli eu cartref a heb lety arall addas am unrhyw reswm, ee cam-drin domestig.
i) gadael ysbytai, yr heddlu, carchardai, y lluoedd arfog a sefydliadau eraill neu dai â chymorth heb gartref i fynd iddo.
j) gorfod gadael eu cartref ar gais teulu neu ffrindiau neu oherwydd tor-perthynas.

Mae’r diffiniad o berson sy’n gadael gofal yn y Ddeddf fel a ganlyn:

- person ifanc categori 2 – rhywun sy’n 16 neu 17 oed, nad yw’n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ac a oedd yn blentyn categori 1;
- person ifanc categori 3 – rhywun a oedd yn blentyn categori 1 neu’n blentyn categori 2, ond sy'n 18 oed neu’n hŷn.
- person ifanc categori 4 – rhywun y mae dyletswyddau awdurdod lleol wedi dod i ben ar ei gyfer o dan gategorïau 2 neu 3 ond sy’n dymuno ailymgysylltu

at ddibenion rhaglen addysg neu hyfforddiant hyd at 24 oed neu'r tu hwnt i hynny os yw'r rhaglen y mae'n ymwneud â hi yn ymestyn y tu hwnt i'w ben-blwydd yn 25 oed.

Dylech gyfrif yr holl bobl ifanc sy'n gadael gofal yn y categorïau uchod **a fu'n ddigartref yn ystod y flwyddyn gasglu (fel y'u diffinnir gan gategorïau a-j uchod).**

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gyfrif yr holl bobl ifanc sy'n gadael gofal yng **nghategori 2, categori 3 neu gategori 4** yn ystod y flwyddyn gasglu **a fu'n ddigartref yn ystod y flwyddyn**, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
2. Rhaid i berson ifanc sy'n gadael gofal gael cefnogaeth weithredol gan yr awdurdod lleol ar yr adeg y rhoddwyd gwybod am y digartrefedd.
3. Dylech gynnwys pobl ifanc waeth faint o amser y cawsant eu hystyried yn ddigartref.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Ni ddylech gynnwys pobl ifanc sy'n gadael gofal sydd wedi'u dosbarthu o dan **gategori 1, categori 5 a chategori 6.**
2. Peidiwch â chynnwys pobl ifanc sy'n gadael gofal **nad oeddent yn cael eu cefnogi gan yr awdurdod lleol** a chynghorydd personol adeg y digartrefedd.
3. Peidiwch â chynnwys unrhyw ddiffiniadau eraill o ddigartrefedd **heblaw'r rhai** a ddisgrifir yn adran a-j uchod.
4. Peidiwch â chynnwys cyfnodau o ddigartrefedd **y tu allan i'r flwyddyn gasglu.**
5. Peidiwch â chynnwys data a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/053**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn y categorïau canlynol ar 31 Mawrth:

a. categori 1
b. categori 2
c. categori 3
d. categori 4
e. categori 5

f. categori 6

**Bwriad y Mesur**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 400** yn nodi: *Un canlyniad allweddol i bob person ifanc sy'n gadael gofal yw eu bod yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i bontio'n llwyddiannus i fod yn oedolyn a symud tuag at fyw'n fwy annibynnol.*

Mae'r metrig yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro nifer y bobl ifanc sy'n gadael gofal y mae ganddynt gyfrifoldebau statudol drostynt. Bydd defnyddio'r data hwn yn galluogi awdurdodau lleol i ddarparu adnoddau effeithiol ar gyfer y maes gwaith hwn, gan sicrhau bod pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael yr un lefel o ofal a chymorth ag y byddai eraill yn ei ddisgwyl gan riant rhesymol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data hwn i fonitro nifer y bobl sy'n gadael gofal yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae'r diffiniad o berson sy'n gadael gofal wedi'i nodi yn **Adran 104** o Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Diffinnir person ifanc sy'n gadael gofal fel:

1. person ifanc categori 1 – plentyn sy'n 16 neu'n 17 oed, sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, ac sydd wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol am gyfnod o 13 wythnos, neu am gyfnodau sy'n gwneud cyfanswm o 13 wythnos, a ddechreuodd ar ôl iddo gyrraedd 14 oed ac a ddaeth i ben ar ôl iddo droi'n 16 oed.
    a. Mae hyn yn cynnwys Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches sy'n bodloni'r amodau uchod. Nid oes unrhyw ofyniad i'r cyfnod penodedig o gymhwystra gael ei fodloni yn ystod y cyfnod rhwng pen-blwyddi'r person yn 14 oed ac 16 oed. Bydd cyfnod sy'n dechrau ar ôl pen-blwydd person yn 16 oed yn bodloni'r gofyniad yn yr un modd â chyfnod sy'n dechrau yn syth ar ôl pen-blwydd yn 14 oed neu ben-blwydd yn 15 oed. Er enghraifft, byddai unigolyn sy'n mynd i ofal yn 17 oed ac un diwrnod yn gymwys fel person ifanc categori 1, union 13 wythnos yn ddiweddarach.
2. person ifanc categori 2 – rhywun sy'n 16 neu 17 oed, nad yw'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ac a oedd yn blentyn categori 1;
3. person ifanc categori 3 – rhywun a oedd yn blentyn categori 1 neu'n blentyn categori 2 ond sydd bellach yn 18 oed neu'n hŷn.
4. person ifanc categori 4 yr oedd dyletswyddau awdurdod lleol wedi dod i ben o dan gategorïau 2 neu 3 ond sy'n dymuno ailymgysylltu at ddibenion rhaglen addysg neu hyfforddiant hyd at 24 oed neu fwy os yw'r rhaglen y maent yn ymwneud â hi yn ymestyn y tu hwnt i'w pen-blwydd yn 25 oed.

5. Person ifanc categori 5 – rhywun sydd wedi cyrraedd 16 oed, ond nad yw eto wedi cyrraedd 21 oed sy'n destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (neu a oedd mewn grym pan oedd ef neu hi yn 18 oed) ac a oedd yn derbyn gofal yn union cyn gwneud y gorchymyn hwnnw.
6. Person ifanc categori 6 – rhywun ar wahân i berson ifanc categori 5 a oedd ar unrhyw adeg ar ôl cyrraedd 16 oed a chyn 21 oed nad oedd yn bodloni'r meini prawf cymhwyso a ddisgrifir yng nghategorïau 1-4 uchod.

Cyfrwch y plant sy'n derbyn gofal neu sy'n gadael gofal sydd yn y categorïau uchod ar ddiwedd y flwyddyn gasglu.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr **holl** blant a phobl ifanc sydd yng nghategorïau 1-6 fel y'u **disgrifir yn Adran 104** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar ddiwedd y flwyddyn gasglu.
2. Dylech gynnwys yr holl bobl ifanc **y rhyngweithiodd yr ALl â nhw yn ystod y flwyddyn gasglu (achosion a ystyrid yn rhai gweithredol cyn hynny)** ac y mae'r person ifanc yn cael cymorth gan gynghorydd personol.
3. **Dim ond unwaith** y dylid cyfrif plant a phobl ifanc.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant a phobl ifanc **nas disgrifir yn Adran 104** o Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
2. Dylech eithrio pob unigolyn sydd wedi gadael gofal **na wnaeth yr ALl ryngweithio â nhw yn ystod y flwyddyn gasglu (achosion a ystyrid yn rhai anweithredol cyn hynny)** ac nad yw'r person ifanc yn cael cymorth gan gynghorydd personol.
3. Peidiwch â chynnwys data a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CH/054**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y bobl ifanc, ar 31 Mawrth, yng nghategorïau 2, 3 a 4 sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis yn olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant:

a. Ers gadael gofal
b. Yn ystod y flwyddyn gasglu

**Bwriad y Mesur**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 476** yn nodi: *Mae'n rhaid sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd uchel ar gael i'r person ifanc hefyd, er mwyn ei helpu i gynllunio unrhyw newid i addysg neu hyfforddiant parhaus, neu i gyflogaeth. Dylid cynnwys sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni yn y cynllun llwybr. Dylai'r cymorth cynllunio gyrfa hwn helpu pobl ifanc i gydnabod perthnasedd eu hastudiaethau i'w gyrfa a'u cyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol, a dylai eu hannog i fyfyrio'n rheolaidd ar eu sgiliau, eu cryfderau a'u dyheadau.*

Mae'r metrig yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro nifer y bobl ifanc sy'n ymgymryd ag, neu sydd wedi cwblhau, o leiaf 3 mis yn olynol o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn y flwyddyn gasglu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data hwn i fonitro canlyniadau pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae'r diffiniad o berson sy'n gadael gofal wedi'i nodi yn **Adran 104** o Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Diffinnir person ifanc sy'n gadael gofal fel:

1. person ifanc categori 2 – rhywun sy'n 16 neu 17 oed, nad yw'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ac a oedd yn blentyn categori 1;
2. person ifanc categori 3 – rhywun a oedd yn blentyn categori 1 neu'n blentyn categori 2 ond sydd bellach yn 18 oed neu'n hŷn; neu
3. berson ifanc categori 4 yr oedd dyletswyddau awdurdod lleol wedi dod i ben ar ei gyfer o dan gategorïau 2 neu 3 ond sy'n dymuno ailymgysylltu at ddibenion rhaglen addysg neu hyfforddiant hyd at 24 oed neu'r tu hwnt i hynny os yw'r rhaglen y mae'n ymwneud â hi yn ymestyn y tu hwnt i'w ben-blwydd yn 25 oed.

Dim ond categorïau 2, 3 a 4 sydd wedi'u cynnwys yn y metrig hwn.

Diffinnir "addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth" fel pobl ifanc yr oedd eu prif weithgarwch yn:

- F1 – Person ifanc mewn addysg uwch yn llawn amser
- F2 – Person ifanc mewn addysg heblaw addysg uwch yn llawn amser
- F3 – Person ifanc mewn hyfforddiant neu gyflogaeth yn llawn amser
- F4 - Person ifanc mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn rhan amser

F1 - Mae hyn yn golygu pob astudiaeth ar lefel academaidd uwch na Safon Uwch. Mae hyn yn cynnwys graddau, diplomâu mewn addysg uwch, cymwysterau addysgu a nyrsio, HND, ONDs, a BTEC. At ddibenion OC3 mae hyn yn cynnwys naill ai astudio amser llawn neu ran-amser os yw'n cael ei ystyried yn brif weithgaredd. Does dim rhaid i'r cwrs addysgol fod yn gwrs preswyl.

F2 - Mae hyn yn golygu pob addysg arall nad yw'n dod o dan god F1. Gall hwn fod yn astudiaeth amser llawn neu ran-amser os ystyrir mai dyma yw prif weithgaredd y person ifanc. Does dim rhaid i'r cwrs addysgol fod yn gwrs preswyl.

F3 – Person ifanc sy'n ymgysylltu'n llawn amser mewn hyfforddiant neu gyflogaeth

Mae 'hyfforddiant' yn cynnwys hyfforddiant gyda chymorth y llywodraeth, Hyfforddiant Ieuenctid, y Fargen Newydd, Hyfforddiant i Weithio a Hyfforddiaethau Cenedlaethol.

F4 - Person ifanc mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn rhan amser. Mae 'cyflogaeth' yn cynnwys gwaith cyflogedig, hunangyflogaeth, a gwaith gwirfoddol di-dâl. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant a chyflogaeth llawn amser a rhan amser os ystyrir mai dyma'r prif weithgaredd.

Dylech gynnwys pobl ifanc sydd wedi gadael gofal sy'n ymgymryd ag, neu sydd wedi cwblhau, o leiaf 3 mis yn olynol o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn y flwyddyn gasglu.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrifwch **yr holl** bobl ifanc sydd, ar 31 Mawrth, yn y categorïau 2-4 **ac** wedi **cwblhau tri mis yn olynol** o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant
    a. Ers gadael gofal;
    b. Yn ystod y flwyddyn gasglu.
2. Caiff gadael gofal **ei ddisgrifio yn Adran 104** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
3. Dylech gynnwys yr holl bobl ifanc **y rhyngweithiodd yr ALl â nhw yn ystod y flwyddyn gasglu (achosion a ystyrid yn rhai gweithredol cyn hynny)** ac y mae'r person ifanc yn cael cymorth gan gynghorydd personol.
4. At ddibenion y metrig hwn, mae addysg, cyflogaeth a hyfforddiant wedi'u dosbarthu yn y diffiniad uchod o'r metrig.
5. Rhaid i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant **bara 3 mis yn olynol neu fwy** i gael eu cyfrif.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant a phobl ifanc **yng nghategorïau 1, 5 a 6** yn y metrig hwn.
2. Dylech eithrio pob person ifanc **nad yw'r ALl wedi cymryd unrhyw gamau ar eu cyfer o fewn y flwyddyn gasglu (achos a oedd yn cael ei ystyried yn achos anweithredol yn flaenorol)** ac nad yw'r person ifanc yn cael cymorth gan gynghorydd personol.
3. Peidiwch â chynnwys addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a gwblhawyd **cyn** i'r plentyn ddod yn berson ifanc categori 2, 3 neu 4.
4. Peidiwch â chynnwys pobl ifanc **a ddaeth yn ôl i ofal** yn ystod y flwyddyn gasglu.

**Cyfeirnod Mesur: CH/055**

**Enw'r Mesur:** Nifer y bobl ifanc sy'n gadael gofal sy'n symud i leoliad 'Pan Fydda i'n Barod' yn ystod y flwyddyn.

**Bwriad y Mesur**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 646** yn nodi:

"*Mae'r Ddeddf (adran 108(3)) yn defnyddio'r term 'trefniant byw ôl-18' i ddisgrifio sefyllfa lle mae person ifanc sy'n gadael gofal ac sydd wedi cyrraedd 18 oed yn parhau i fyw gyda'i riant/rhieni maeth mewn trefniant sy'n cael ei hwyluso gan yr awdurdod lleol. Mae'n bwysig nodi bod y trefniadau hyn yn wahanol i leoliadau maeth. Ar ôl i berson ifanc droi'n 18 oed ac yn oedolyn, nid yw mwyach 'mewn gofal' neu'n 'derbyn gofal' yn gyfreithiol, nid yw'r trefniadau maethu a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant sy'n cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth yn berthnasol mwyach, ac mae'r sail gyfreithiol y mae'r person ifanc yn byw arni yng nghartref y gofalwr maeth yn newid. Nid yw'r awdurdod lleol bellach yn rhoi 'lleoliad' ond yn hwyluso 'trefniant byw ar ôl-18' ar gyfer y person ifanc hwnnw. Yng Nghymru, mae'r rhain yn cael eu galw'n drefniadau '**Pan Fydda i'n Barod'**.*"

Mae'r metrig yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro nifer y trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod'. Bydd defnyddio'r data hwn yn galluogi awdurdodau lleol i ddarparu adnoddau effeithiol ar gyfer y maes gwaith hwn er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cynnal y sefydlogrwydd a'r parhad sydd eu hangen i sicrhau cyfleoedd da mewn bywyd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data hwn i fonitro nifer y trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 6** (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 654** yn nodi:

*Gellir gwneud trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' pan:*

- *roedd y person ifanc yn 'blentyn sy'n derbyn gofal' yn union cyn ei ben-blwydd yn 18 oed ac roedd yn byw gyda gofalwyr maeth mewn lleoliad a drefnwyd gan yr awdurdod lleol*
- *roedd y gofalwyr yn gweithredu fel gofalwyr maeth cymeradwy ar gyfer y person ifanc yn union cyn ei ben-blwydd yn 18 oed*

- *mae'r person ifanc a'r gofalwyr maeth yn dymuno ymrwymo i drefniant 'Pan Fydda i'n Barod', ac mae'r trefniant wedi'i nodi yng nghynllun llwybr y person ifanc*
- *mae'r awdurdod lleol wedi'i fodloni nad yw trefniant o'r fath yn anghyson â llesiant y person ifanc*
- *bydd cyfran o'r lwfans a delir i'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' yn cael ei dalu gan yr awdurdod lleol."*

Dylech gyfrif y plant hynny sy'n derbyn gofal a orffennodd gyfnod o ofal ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf uchod yn ystod y flwyddyn gasglu.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gyfrif yr **holl** bobl ifanc a orffennodd gyfnod o ofal â'r cod rheswm terfynu **E10. Data sylfaen - y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal.**
2. Dylech gynnwys pob person ifanc sydd wedi symud i leoliad 'Pan Fydda i'n Barod', **boed y trefniant hwnnw'n dal yn weithredol ai peidio** ar ddiwedd y flwyddyn gasglu.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant a phobl ifanc sy'n cael cyfres o **seibiannau byr** o dan adran 76 (statws cyfreithiol V1).
2. Peidiwch â chynnwys unrhyw berson ifanc nad yw wedi'i gynnwys yn natganiad y **Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal.**
3. Peidiwch â chynnwys data a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

## Eiriolaeth Plant

### Cyfeirnod Mesur: CH/056

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm y "Cynigion Rhagweithiol" o eiriolaeth i blant, pump oed a throsodd ar ddechrau'r flwyddyn gasglu, yn ystod y flwyddyn.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i ddylunio i gofnodi nifer y plant a gafodd "Gynnig Rhagweithiol" Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol.

Mae'r metrig yn galluogi awdurdodau lleol i asesu'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau eiriolaeth yn eu hawdurdodau lleol, gan alluogi cynllunio a chomisiynu gwell yn y dyfodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro'r galw am eiriolaeth broffesiynol annibynnol yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae **Adran 181(2)** o'r Ddeddf yn diffinio "gwasanaethau eirioli" fel a ganlyn: "*gwasanaethau sy'n darparu cynhorthwy (ar ffurf cynrychiolaeth neu fel arall) i bersonau at ddibenion sy'n ymwneud â'u gofal a chymorth."* Yn yr un modd, eiriolaeth yw un o'r enghreifftiau a nodir yn adran 34(2)(e) o'r hyn y gellir ei ddarparu neu ei drefnu i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolion o dan adrannau 35 i 45 o'r Ddeddf.

Mae Cod Ymarfer **Rhan 10** (Eiriolaeth) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 32** yn diffinio **Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol** fel: *partneriaeth un i un rhwng eiriolwr proffesiynol annibynnol sydd wedi'i hyfforddi i weithio fel eiriolwr proffesiynol am dâl. Gall y gwaith ymwneud ag un pwnc neu bynciau lluosog. Mae'n rhaid i eiriolwyr proffesiynol annibynnol sicrhau bod safbwyntiau unigolion yn cael eu cyfleu yn gywir, waeth beth yw safbwynt yr eiriolwr neu safbwynt eraill ynglŷn â'r hyn sydd o fudd pennaf i'r unigolion.*

Mae Cod Ymarfer **Rhan 10** (Eiriolaeth), **para**. **90** yn darparu canllawiau penodol ar gyfrifoldebau awdurdodau lleol o ran darparu eiriolaeth i blant sydd â hawl i'w chael. Mae'r ddogfen **Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru (Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol**) yn diffinio'r cysyniad "**Cynnig Gweithredol**" o ran eiriolaeth:

*"Mae 'cynnig gweithredol' yn golygu rhannu gwybodaeth ynglŷn â hawl a hawlogaeth statudol plentyn neu berson ifanc mewn amgylchiadau penodol i gael mynediad at gymorth gan wasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol.* ***Mae plant a phobl ifanc yn gymwys i gael cynnig eiriolaeth gan Eiriolydd Proffesiynol Annibynnol statudol pan fyddant yn dechrau derbyn gofal neu'n dod yn destun ymchwiliad amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol."***

Mae'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol (NASA) yn brosiect a sefydlwyd gan ADSS Cymru ac mae'n cynnwys aelodau o awdurdodau lleol, CLILC, AGGCC a darparwyr Eiriolaeth. Mae'r grŵp hefyd yn cynnwys plant a phobl ifanc yng nghyfnodau allweddol datblygu'r dull gweithredu cenedlaethol ac mae'n gyfrifol am nodi a datblygu'r elfennau allweddol ar gyfer Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth y gellir ei gyflwyno drwy gydweithrediadau rhanbarthol.

Mae'r grŵp hefyd wedi datblygu fframwaith rheoli perfformiad sydd, ar ôl ymgynghori â Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan (AWHoCS), yn darparu'r data ar gyfer y metrig hwn.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylid cyfrif **pob** “Cynnig Gweithredol” o Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol fel y’u diffinnir yn y **Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru (Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol), Atodiad B**, rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth y flwyddyn gasglu.
2. Dylid casglu data yn y fath fodd fel y gall **awdurdod lleol eu dadgyfuno.**
3. Gall plentyn gael **mwy nag un “Cynnig Gweithredol**” yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrwch y rhain i gyd.

Dylai awdurdodau lleol **groeswirio** data gan ddarparwyr **cyn eu cyflwyno** i Lywodraeth Cymru, i sicrhau eu bod yn **fodlon bod y data a ddarperir yn gywir.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cynigion na gwybodaeth mewn perthynas â **mathau eraill o eiriolaeth**, nad ydynt yn gymesur â’r Cynnig Gweithredol o Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol fel y disgrifir ym mharagraff 32 o'r Cod Ymarfer **Rhan 10** (Eiriolaeth).
2. Peidiwch â chynnwys plant o dan bump oed ar ddechrau’r flwyddyn gasglu.

**Cyfeirnod Mesur: CH/057**

**Enw’r Mesur:** Cyfanswm y “Cynigion Rhagweithiol” o eiriolaeth i blant yn ystod y flwyddyn lle darparwyd Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol.

**Bwriad y Mesur**

Bwriad y metrig yw cofnodi nifer y “Cynigion Gweithredol” o Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn ystod y flwyddyn, lle darparwyd Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol.

Mae’r metrig yn galluogi awdurdodau lleol i asesu faint o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau eiriolaeth yn eu hawdurdodau lleol, fel bod modd cynllunio a chomisiynu'n well yn y dyfodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro'r galw am eiriolaeth broffesiynol annibynnol yng Nghymru.

**Diffiniad**

Mae **Adran 181(2)** o'r Ddeddf yn diffinio “gwasanaethau eirioli” fel a ganlyn: “*[g]wasanaethau sy’n darparu cynhorthwy (ar ffurf cynrychiolaeth neu fel arall) i bersonau at ddibenion sy’n ymwneud â’u gofal a chymorth.”* Yn yr un modd,

eiriolaeth yw un o'r enghreifftiau a nodir yn adran 34(2)(e) o'r hyn y gellir ei ddarparu neu ei drefnu i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolion o dan adrannau 35 i 45 o'r Ddeddf.

Mae Cod Ymarfer **Rhan 10** (Eiriolaeth) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 32** yn diffinio Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol fel:

*"Partneriaeth un i un rhwng eiriolwr proffesiynol annibynnol sydd wedi'i hyfforddi i weithio fel eiriolwr proffesiynol am dâl. Gall y gwaith ymwneud ag un pwnc neu bynciau lluosog. Mae'n rhaid i eiriolwyr proffesiynol annibynnol sicrhau bod safbwyntiau unigolion yn cael eu cyfleu yn gywir, waeth beth yw safbwynt yr eiriolwr neu safbwynt eraill ynglŷn â'r hyn sydd o fudd pennaf i'r unigolion."*

Mae Cod Ymarfer **Rhan 10** (Eiriolaeth), **para**. **90** yn darparu canllawiau penodol ar gyfrifoldebau awdurdodau lleol o ran darparu eiriolaeth i blant sydd â hawl i'w chael. Mae'r ddogfen **Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru (Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol**) yn diffinio'r cysyniad "**Cynnig Gweithredol**" o ran eiriolaeth:

*"Mae 'cynnig gweithredol' yn golygu rhannu gwybodaeth ynglŷn â hawl a hawlogaeth statudol plentyn neu berson ifanc mewn amgylchiadau penodol i gael mynediad at gymorth gan wasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol.* ***Mae plant a phobl ifanc yn gymwys i gael cynnig eiriolaeth gan Eiriolydd Proffesiynol Annibynnol statudol pan fyddant yn dechrau derbyn gofal neu'n dod yn destun ymchwiliad amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol."***

Mae'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol (NASA) yn brosiect a sefydlwyd gan ADSS Cymru ac mae'n cynnwys aelodau o awdurdodau lleol, CLILC, AGGCC a darparwyr Eiriolaeth. Mae'r grŵp hefyd yn cynnwys plant a phobl ifanc yng nghyfnodau allweddol datblygu'r dull gweithredu cenedlaethol ac mae'n gyfrifol am nodi a datblygu'r elfennau allweddol ar gyfer Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth y gellir ei gyflwyno drwy gydweithrediadau rhanbarthol.

Mae'r grŵp hefyd wedi datblygu fframwaith rheoli perfformiad a fydd, ar ôl ymgynghori â Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan (AWHoCS), yn darparu'r data ar gyfer y metrig hwn.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylid cyfrif **pob** "Cynnig Gweithredol" o Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol fel y'u diffinnir yn y **Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru (Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol), Atodiad B**, rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth y flwyddyn gasglu **pan ddarparwyd Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol.**
2. Dylid casglu data yn y fath fodd fel y gall **awdurdod lleol eu dadgyfuno.**
3. Dylai'r metrig fod yn **is-set o ddata a gasglwyd yn CH/056.** Gall darparu Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol ar gyfer y plant hynny y cyfeirir atynt yn

CH/056 fod y **tu allan i'r flwyddyn gasglu.** Dylech gynnwys y rhain yn eich cyfrif.

4. Gall plentyn gael **mwy nag un "Cynnig Gweithredol**" yn ystod y cyfnod casglu. Dylid cyfrif pob un o'r rhain **a arweiniodd at ddarparu Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol.**

Dylai awdurdodau lleol **groeswirio** data gan ddarparwyr **cyn eu cyflwyno** i Lywodraeth Cymru, i sicrhau eu bod yn **fodlon bod y data a ddarperir yn gywir**.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys y galw am eiriolaeth mewn perthynas â **mathau eraill o eiriolaeth**, nad ydynt yn gymesur â'r Cynnig Gweithredol o Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol fel y'i disgrifir ym mharagraff 32 o'r Cod Ymarfer **Rhan 10** (Eiriolaeth).
2. Peidiwch â chynnwys plant na chafodd eu cynnwys yn **CH/056** hyd yn oed os rhoddwyd Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol iddynt yn y flwyddyn gasglu.

# Metrigau sy'n ymwneud â Gofalwyr

## Cysylltiadau Gofalwyr sy'n Oedolion

**Cyfeirnod Mesur: CA/001**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y cysylltiadau â gwasanaethau cymdeithasol statudol gan oedolion sy'n ofalwyr neu weithwyr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar eu rhan a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

### Bwriad y Mesur

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i ganfod faint o wybodaeth, cyngor a chymorth a ddarperir i oedolion sy'n ofalwyr fel y'u diffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a faint o alw sydd amdanynt. Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod awdurdodau lleol yn gweithredu eu swyddogaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy (IAA) mewn gwahanol ffyrdd, a bwriad y metrig ar hyn o bryd yw archwilio a yw'r gwahanol fodelau hyn o IAA yn cyflwyno data sy'n awgrymu gwahaniaethau yn y gwasanaeth y mae'r defnyddiwr terfynol yn ei gael.

Mae faint sydd ar gael, er nad oes ganddo gydberthynas uniongyrchol, yn arwydd o'r galw ar swyddogaeth y gwasanaethau cymdeithasol o fewn awdurdod lleol. Mae edrych ar nifer y gofalwyr sy'n ceisio gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn rhoi mecanwaith syml i awdurdodau lleol i fonitro nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac i gymharu hynny â metrigau ychwanegol i asesu sut yr ymdriniwyd â'r unigolion hyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro nifer y gofalwyr sy'n cysylltu â gwasanaethau IAA yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

### Diffiniad

Mae **Adran 3** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gofalwr ifanc fel a ganlyn:

- *Ystyr "oedolyn" yw unigolyn sy'n 18 oed neu hŷn.*
- *Ystyr "gofalwr" yw unigolyn sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl.*

Mae **Cod Ymarfer Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion) y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, **para. 15** yn cyflwyno'r cysyniad o ofalwr sy'n oedolyn ifanc fel "*gofalwr rhwng 16 a 25 oed*." Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw asesiad yn ystyried unrhyw "*gamau pontio y mae'r gofalwr yn debygol o'u cymryd i addysg bellach neu uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant yn awr neu yn y dyfodol a rhoi sylw priodol i'r hyn y mae'r oedolyn ifanc yn dymuno cymryd rhan ynddo.*" **At ddibenion y**

**metrig hwn, cyfrifwch dim ond oedolion fel y'u diffinnir gan Adran 3(2) – unigolion 18 oed neu hŷn.**

Cyfrwch gyfanswm nifer y cysylltiadau a gafwyd oddi wrth **oedolion sy'n ofalwyr** neu berson sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar eu rhan, a geisiodd wybodaeth, cyngor a chynhorthwy gan y gwasanaeth IAA yn eich awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn. Dim ond mewn **cysylltiadau "newydd"** â'r gwasanaeth y mae gennym ddiddordeb, nid y rhai sydd eisoes yn cael cymorth (fel gofalwr).

Gall oedolyn gael **mwy nag un cyswllt** yn ystod y flwyddyn gasglu. **Cyfrwch bob un o'r rhain os yw'r person wedi cysylltu â'r gwasanaeth IAA (neu wedi cael ei gyfeirio ato) yn gofyn am gymorth fel gofalwr.**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 2 a Rhan 3**, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn cyfeirio at unigolion yn **'cysylltu'** â'r gwasanaeth. Weithiau mae paragraffau eraill yn y Codau Ymarfer yn defnyddio termau gwahanol fel **'atgyfeirio'** neu **'geisio' neu 'gyrchu'** gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. At ddibenion y metrig hwn, dylid ystyried bod y rhain yr un peth.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys pob cyswllt â'ch gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu ar gyfer **unrhyw oedolyn sy'n cysylltu â'r gwasanaeth IAA i gael cymorth fel gofalwr.**
2. Mae cyswllt yn cynnwys unrhyw berson sy'n cysylltu â'r gwasanaeth, neu weithiwr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar ei ran.
3. Os yw'r cyswllt yn cyfeirio at **nifer o unigolion, dylai pob person y cyfeirir ato fel un sydd angen cymorth gael ei gyfrif yn un sydd wedi cael cyswllt.**
4. Dylech gynnwys unrhyw gyswllt a geir, p'un a yw hynny wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy e-bost, neu drwy ffurflen gyswllt ar wefan.
5. Gall person gael **mwy nag un cyswllt** yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrwch bob un o'r rhain **lle mae'n amlwg eu bod yn cysylltu â'r gwasanaeth i gael cymorth fel gofalwr.**

Nid yw pob awdurdod lleol yn gweithredu un pwynt mynediad. **Dylai'r cyfrif gynnwys pob cyswllt** sy'n bodloni'r meini prawf uchod, **waeth beth fo'r llwybr i mewn i'r system.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys unigolion a oedd **yn cael cymorth (fel gofalwr)** ar adeg y cyswllt.
2. Ni ddylid cynnwys unigolion sydd eisoes yn cael cymorth fel gofalwr gan yr awdurdod lleol **sy'n cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol i gael asesiad ar gyfer gofal a chymorth** yn y metrig.

3. Peidiwch â chynnwys **ymweliadau â gwefan eich gwasanaeth IAA** fel cysylltiadau. Er bod darparu gwybodaeth ar wefan yn arfer da, nid dyna rydym yn awyddus i'w gyfrif.
4. Peidiwch â chynnwys **cysylltiadau sy'n atgyfeiriadau uniongyrchol i wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal**, os nad oes asesiad yn digwydd. Dywed Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 2 o'r Cod Ymarfer, para. 294 mai swyddogaeth y gwasanaeth IAA yw: *[darparu] gwybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â gofal a chymorth, a chynhorthwy i gael mynediad at ofal a chymorth.* Dylid cynnwys cysylltiadau lle mae asesiad yn dod i'r casgliad mai gwasanaeth ymyrraeth gynnar ac atal yw'r ffordd fwyaf priodol o weithredu.
5. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **sy'n amlwg wedi'u cyfeirio at yr adran anghywir.**
6. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau sydd **wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad** (h.y. dyblygu, defnyddio'r math anghywir o atgyfeiriad ar y system).
7. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau a ddefnyddir i **gofnodi gwybodaeth** am gael gafael ar wybodaeth gan asiantaethau eraill (h.y. AGC, yr heddlu)
8. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau ar gyfer plant (dan 18 oed).

**Cyfeirnod Mesur: CA/002**

**Enw'r Mesur:** Nifer y cysylltiadau ar gyfer oedolion sy'n ofalwyr a gafodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor a chynhorthwy.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am nifer y cysylltiadau a gafodd y gwasanaeth IAA oddi wrth ofalwyr sy'n oedolion, lle darparwyd cyngor a/neu gynhorthwy yn unol â'r diffiniad a geir yng Nghod Ymarfer **Rhan 2** (Swyddogaethau Cyffredinol) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 **para. 300** (t63).

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro nifer y gofalwyr sy'n oedolion sy'n cysylltu â gwasanaethau IAA yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CA/001.***

Mae Cod Ymarfer **Rhan 2**, **para. 300** (t64-65) yn diffinio Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy.

Cyfrwch yr **holl** gysylltiadau yn CA/001 sy'n cyfateb i'r diffiniad ar gyfer darparu **cyngor a/neu gynhorthwy.**

Er mwyn rhoi cyngor a chynhorthwy, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid cofnodi Gwybodaeth Bersonol (data craidd) am yr unigolyn (lle bo'n hysbys).
- Rhaid bod y pum elfen asesu wedi'u hystyried.
- Rhaid bod "sgwrs beth sy'n bwysig" wedi'i chynnal.

Ni ddylid cynnwys cysylltiadau pan mai dim ond gwybodaeth a ddarparwyd.

Mae darparu cyngor a chynhorthwy **yn gofyn am gwblhau asesiad cyfrannol** (Cod Ymarfer Rhan 3, para. 20). Mae angen i'r broses asesu **ddod i ben** cyn i ganlyniad yr asesiad fod yn hysbys. Mae hyn yn golygu, os yw'r asesiad cyfrannol yn fwy cynhwysfawr, mai casgliad y 'broses' asesu fydd yn pennu'r canlyniad, ni waeth sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu gwasanaeth IAA.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. **Darparu cyngor a/neu gynhorthwy** fel y'u diffinnir gan God Ymarfer Rhan 2, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), paragraff 300. **Data sylfaen = CA/001**
2. Dylech gynnwys yr holl ofalwyr sy'n oedolion sy'n cysylltu â'r gwasanaeth IAA am **gymorth fel gofalwr.**
3. Dylech gynnwys pob achos lle darparwyd cyngor neu gynhorthwy **waeth beth fo canlyniad yr asesiad.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys asesiadau ar gyfer cymhwystra am **ofal a chymorth.**
2. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau ar gyfer **gofalwyr sy'n oedolion** os canlyniad y cyswllt oedd **darparu gwybodaeth** fel y'i diffinnir gan God Ymarfer Rhan 2, paragraff 300, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
3. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **os nad ystyriwyd y pum elfen asesu**, neu os na chynhaliwyd sgwrs "beth sy'n bwysig".
4. Peidiwch â chynnwys unrhyw ddata sydd **y tu allan**i'r flwyddyn gasglu.
5. Peidiwch â chynnwys data **nad ydynt yn CA/001.**
6. Peidiwch â chynnwys plant (unigolion o dan 18 mlwydd oed) yn y metrig hwn.
7. Peidiwch â chynnwys unrhyw gysylltiadau a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CA/003**

**Enw'r Mesur:** Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion gan wasanaethau statudol i oedolion yn ystod y flwyddyn oddi wrth:

a. Yr unigolyn ei hun
b. Perthynas
c. Ffrind neu gymydog
d. Gwasanaeth Atal / Ymyrryd yn fuan (Camu i fyny)
e. Iechyd
f. Addysg
g. Tai
h. Yr heddlu
i. Gwasanaethau prawf
j. Sefydliad trydydd sector
k. Awdurdod Lleol
l. Ysbyty Annibynnol
m. Gwasanaeth Ambiwlans
n. Rheoleiddiwr Gofal
o. Darparwr
p. Eiriolwr
q. Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall)
r. Arall

**Bwriad y Mesur**

Bwriad y metrig hwn yw casglu data ar ffynonellau cyswllt. Mae gwybod pwy a sut y deuir i gysylltiad â'r gwasanaeth IAA yn helpu sefydliadau i nodi sut mae gofalwyr yn defnyddio'r gwasanaeth IAA. Mae gweithio gydag asiantaethau partner i nodi'n well y galw a'r llwybrau i mewn i wasanaethau IAA yn caniatáu cynllunio ac adnoddau rhyng-sefydliadol gwell i sicrhau bod y bobl gywir yn cael y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro sut mae gofalwyr yn cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ac yn defnyddio'r wybodaeth hon ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CA/001*.**

Cyfrwch yr holl gysylltiadau a gafodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol ar gyfer **oedolion sy'n ofalwyr** yn ystod y flwyddyn, gan ddefnyddio ffynhonnell y cyswllt a gofnodwyd ar eich system wedi'i fapio i'r is-gategorïau a restrir yn y metrig hwn.

Dylai'r aelod o staff sy'n derbyn yr wybodaeth gofnodi ffynhonnell yr atgyfeiriad. Gwerthfawrogir bod gan lawer o awdurdodau lleol ddull llawer mwy manwl o gofnodi pwy gysylltodd â'r adran. Dylid mapio'r rhain i'r categori mwyaf priodol. Er enghraifft:

Dylai **hunan** gynnwys enghreifftiau o hunanatgyfeiriad.

Dylai **perthynas** gynnwys achosion pan fo'r person sy'n cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn briod, partner, plentyn, brawd neu chwaer neu berthynas arall i'r person sy'n destun y cyswllt.

Dylai **cyfaill neu gymydog** gynnwys ffrindiau neu gymdogion y person sy'n destun y cyswllt.

Dylai **Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar / Atal (Camu i fyny)** gynnwys unrhyw wasanaeth a gynlluniwyd i ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal, boed yn fewnol neu wedi'u comisiynu gan yr awdurdod lleol, pan fo'r person sy'n destun y cyswllt yn derbyn gwasanaeth gan yr asiantaethau hyn – cyfeirir at hyn weithiau fel 'camu i fyny'.

Dylai **iechyd** gynnwys cydweithwyr iechyd sylfaenol, eilaidd, trydyddol a chymunedol. Meddygon Teulu, Ysbytai, Ymgynghorwyr, Clinigau, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd ac ati.

Dylai **addysg** gynnwys unrhyw atgyfeiriwr sy'n darparu gwasanaethau addysg neu ddysgu. Ysgolion, Athrawon, AALlau, Unedau Cyfeirio Disgyblion, Colegau a Phrifysgolion, darpariaeth addysg arbenigol, gwasanaethau seicoleg addysg ac ati.

Dylai **tai** gynnwys adran dai awdurdod lleol ac asiantaethau tai eraill.

Dylai **yr Heddlu** gynnwys unrhyw swyddog awdurdod heddlu, heddlu trafnidiaeth neu asiantaeth troseddau genedlaethol.

Dylai **Gwasanaeth Prawf** gynnwys unrhyw aelod o staff y gwasanaeth prawf sy'n gweithredu yn rhinwedd ei swydd broffesiynol.

Dylai **Sefydliad Trydydd Sector** gynnwys unrhyw sefydliad trydydd sector, budd cymunedol, menter gymdeithasol neu elusennol.

Dylai **Awdurdod Lleol** gynnwys awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gellir hefyd gynnwys asiantaethau llywodraeth leol dramor yn yr is-gategori hwn.

Dylai **Ysbyty Annibynnol** gynnwys ysbytai sy'n cael eu rhedeg yn annibynnol ar fyrddau iechyd lleol y GIG. Gall ysbytai annibynnol gael eu hariannu'n llawn neu'n rhannol gan y GIG a gallant ddarparu ystod o wasanaethau. Weithiau, cyfeirir at ysbytai annibynnol fel 'ysbytai preifat'.

Dylai'r **Gwasanaeth Ambiwlans** gynnwys Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ogystal â'r rhai yng ngweddill y DU.

Dylai **Rheoleiddiwr Gofal** gynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Dylai **darparwr** gynnwys gwasanaethau a gomisiynir, neu wasanaethau sy’n darparu gwasanaethau gofal i awdurdodau lleol. Gall darparwyr fod yn breifat, yn wirfoddol neu’n rhan o'r trydydd sector.

Dylai **eiriolwr** gynnwys pobl sy’n darparu gwasanaethau eiriolaeth ffurfiol i unigolion sy’n cysylltu â gwasanaethau IAA awdurdodau lleol neu sy’n cysylltu â gwasanaethau IAA ar eu rhan.

Dylai **Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall)**; gynnwys cysylltiadau a gynhyrchir yn fewnol (h.y. drwy ddarganfod unigolyn arall sydd ag anghenion gofal a chymorth posibl yn ystod gwaith o ddydd i ddydd).

Dylai **arall** gyfeirio at unrhyw ffynhonnell gyswllt arall nad yw'n cyd-fynd â'r categorïau uchod, ee ffynhonnell ddienw, cyfreithiwr, aelod o'r cyhoedd ac ati.

Rydym yn cydnabod y gall rhai cysylltiadau ddisgyn i fwy nag un categori. Er enghraifft, gall cymydog hefyd fod yn aelod o'r teulu. Gall sefydliad trydydd sector hefyd ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnal ac atal neu fod yn ddarparwr. Mater i'r sawl sy'n derbyn yr wybodaeth yw llunio barn ar y categori mwyaf priodol i’r ffynhonnell gyswllt.

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **pob** cyswllt a gafwyd ar gyfer **oedolion sy’n ofalwyr** gan wasanaethau cymdeithasol statudol i oedolion rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu **ar gyfer unrhyw berson nad oedd yn cael cymorth fel gofalwr ar adeg y cyswllt.**
2. Mae cyswllt yn cynnwys **unrhyw oedolyn sy’n ofalwr** sy'n cysylltu â'r gwasanaeth, neu unigolyn sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar ei ran.
3. Os yw'r cyswllt yn cyfeirio at **nifer o unigolion**, dylid cyfrif pob gofalwr y gallai fod angen cymorth arno fel rhywun sydd â chyswllt.
4. Dylech gynnwys unrhyw gyswllt a gafwyd, p'un a oedd hynny wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy e-bost neu ffurflen gyswllt ar wefan.
5. Gall gofalwr gael **mwy nag un cyswllt** yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrwch y rhain i gyd.
6. Nid yw pob awdurdod lleol yn gweithredu un pwynt mynediad. Dylai'r cyfrif gynnwys pob cyswllt sy'n diwallu'r meini prawf uchod, ni waeth beth yw'r llwybr i'r system.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys gofalwyr a oedd **yn cael cymorth ar adeg y cyswllt.**
2. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau ar gyfer oedolion **sy’n gofyn am asesiad o gymhwystra ar gyfer gofal a chymorth.**
3. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **nad ydynt wedi cynnwys yn CA/001.**

4. Peidiwch â chynnwys **ymweliadau â gwefan** eich gwasanaeth IAA fel cysylltiadau. Er bod darparu gwybodaeth ar wefan yn arfer da, nid dyna rydym yn awyddus i'w gyfrif.
5. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau sy'n amlwg yn cael eu cyfeirio at yr adran anghywir.
6. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad (h.y. dyblygu, y math anghywir o atgyfeiriad a ddefnyddir ar y system).
7. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau a ddefnyddir i fewngofnodi gwybodaeth am gael gafael ar wybodaeth gan asiantaethau eraill (hy AGC, Heddlu)
8. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau ar gyfer plant (dan 18 oed).

## Asesiadau Gofalwyr sy'n Oedolion

**Cyfeirnod Mesur: CA/004**

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer oedolion a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

### Bwriad y Mesur

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am nifer yr asesiadau **newydd** a gwblhawyd ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion yn ystod y flwyddyn.

Mae casglu data am ofalwyr sy'n cyflwyno i'r gwasanaethau cymdeithasol i'w hasesu yn agwedd bwysig ar fesur cyfanswm, llif a galw ar ddechrau'r broses gofal cymdeithasol statudol. **Nid yw'n cynnwys ailasesiadau** o ofalwyr sy'n oedolion sydd eisoes â chynllun cymorth. Bwriad y metrig yw nodi'r llif a'r galw i mewn i'r system.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cyfanswm a llif i wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, ac yn ei defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro'r galw o fewn y system.

### Diffiniad

Mae darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy, a'r ddyletswydd i asesu, yn gyffredin i unigolion a all fod angen gofal a chymorth ac unigolion a all fod angen cymorth fel gofalwr.

Mae Cod Ymarfer **Rhan 2** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 300** yn nodi bod darparu cyngor a chymorth *"yn golygu ei bod yn ofynnol i staff gynnal asesiad cymesur drwy drafod a dadansoddi pum elfen yr Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol."*

Dylai hyn **gynnwys unrhyw asesiadau** gan gynnwys y rhai lle cwblhawyd **asesiadau anghenion gofalwyr** arbenigol.

Er mwyn rhoi cyngor a chynhorthwy, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid cofnodi Gwybodaeth Bersonol (data craidd) am yr unigolyn (lle bo'n hysbys).
- Rhaid bod y pum elfen asesu wedi'u hystyried.
- Rhaid bod "sgwrs beth sy'n bwysig" wedi'i chynnal.

Ni ddylid cynnwys cysylltiadau lle mai dim ond gwybodaeth a ddarparwyd gan nad yw'r rhain yn bodloni'r trothwy ar gyfer asesu.

Mae darparu cyngor a chynhorthwy yn golygu bod **angen cwblhau asesiad** (Cod Ymarfer **Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion), para. 20). Mae angen i'r broses asesu ddod i ben cyn i ganlyniad yr asesiad fod yn hysbys. Mae hyn yn golygu, os yw'r asesiad **yn fwy cynhwysfawr, neu os oes angen asesiad gofalwyr arbenigol,** mai **casgliad** y 'broses' asesu fydd yn pennu'r canlyniad, ni waeth sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu gwasanaeth IAA.

**Mae'r metrig hwn yn wahanol i CA/002** yn y data a gesglir. Os ceisiwn gasglu data asesu ar gysylltiadau gofalwyr sy'n oedolion a dderbyniwyd yn y flwyddyn honno, bydd yr amser sydd ei angen i gynnal asesiadau, yn enwedig pan fydd yr asesiad yn fanwl neu'n gynhwysfawr, yn golygu y bydd cyfran o'r asesiadau gryn dipyn o amser y tu allan i'r flwyddyn gasglu. Mae'r metrig hwn yn cyfrif **unrhyw asesiad o ofalwyr newydd a gwblhawyd yn y flwyddyn gasglu, ni waeth pryd y derbyniwyd y cyswllt.** Mae hyn yn rhoi darlun gwell o gyfanswm nifer yr asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr **holl** asesiadau o **ofalwyr sy'n oedolion** a **gwblhawyd** yn ystod y flwyddyn gasglu.
2. Gall yr asesiad **gynnwys asesiadau gofalwyr arbenigol** sy'n ystyried yr anghenion cymorth ar gyfer y gofalwr.
3. Dylech gynnwys asesiadau ar gyfer gofal a chymorth, lle **naill ai**:
    a. Mae gan yr oedolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth anghenion cymorth fel gofalwr hefyd.
    b. Mae gofalwr sy'n oedolyn sy'n darparu cymorth i'r person sydd ag anghenion gofal a chymorth yn dymuno i'w anghenion cymorth fel gofalwr gael eu hystyried yn yr un asesiad.
4. Ystyrir bod asesiad wedi'i gwblhau, pan fydd wedi'i **awdurdodi gan reolwr practis** neu berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.
5. Dylech gynnwys pob asesiad cyfrannol **waeth beth fo canlyniad** yr asesiad.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau ar gyfer oedolion os canlyniad y cyswllt oedd **darparu gwybodaeth** fel y'i diffinnir gan God Ymarfer Rhan 2, paragraff 300, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
2. Peidiwch â chynnwys asesiadau o oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, ond **dim anghenion cymorth fel gofalwr.**
3. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **os nad ystyriwyd y pum elfen asesu**, neu os na chynhaliwyd sgwrs "**beth sy'n bwysig**".
4. Peidiwch â chynnwys asesiadau a gwblhawyd **y tu allan i'r flwyddyn gasglu**.
5. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau pan **wrthododd** gofalwr y cynnig o asesiad.
6. Peidiwch â chynnwys **ailasesiadau** o oedolion sydd eisoes â chynllun cymorth.
7. Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu **proses asesu aml-gam** sy'n defnyddio mwy nag un ffurflen ar gyfer y broses asesu. Peidiwch â chyfrif y rhain yn unigol. Cyfrwch y broses yn ei chyfanrwydd unwaith yn unig.
8. Peidiwch â chynnwys **plant (unigolion o dan 18 mlwydd oed)** yn y metrig hwn.
9. Peidiwch â chynnwys asesiadau a oedd yn **anghyflawn**.
10. Peidiwch â chynnwys asesiadau **a gofnodwyd drwy gamgymeriad.**

**Cyfeirnod Mesur: CA/005**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr asesiadau o ofalwyr a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn lle:

a. Lle'r oedd modd diwallu'r anghenion drwy gynllun cymorth i ofalwr neu gynllun gofal a chymorth.
b. Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.
c. Lle nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am ganlyniadau'r asesiadau a gwblhawyd ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion yn ystod y flwyddyn.

Mae casglu data am ganlyniadau gofalwyr sy'n oedolion sy'n cyflwyno i'r gwasanaethau cymdeithasol i'w hasesu yn agwedd bwysig ar fesur cyfanswm, llif a galw yn y broses gofal cymdeithasol statudol. **Nid yw'n cynnwys ailasesiadau** o ofalwyr sy'n oedolion sydd eisoes â chynllun cymorth. Bwriad y metrig yw nodi'r llif a'r galw i mewn i'r system.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cyfanswm a llif i wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, ac yn ei defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro'r galw o fewn y system.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CA/004.***

Mae Cod Ymarfer **Rhan 2** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Swyddogaethau Cyffredinol), para. 300 (t64) yn nodi bod darparu cyngor a chynhorthwy *yn golygu ei bod yn ofynnol i staff gynnal asesiad cymesur drwy drafod a dadansoddi pum elfen yr Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol.*

Dylai hyn gynnwys unrhyw asesiadau ar **anghenion cymorth gofalwyr sy'n oedolion, gan gynnwys** y rheini sy'n ymgorffori **asesiadau manwl neu gynhwysfawr** yn y broses asesu, a'r rheini sy'n ymgorffori **asesiadau gofalwyr** arbenigol.

Mae darparu cyngor a chynhorthwy yn golygu bod **angen cwblhau asesiad** (Cod Ymarfer **Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion), **para. 20**). Mae angen i'r broses asesu ddod i ben cyn i ganlyniad yr asesiad fod yn hysbys. Mae hyn yn golygu, os yw'r asesiad yn fwy cynhwysfawr, mai casgliad y 'broses' asesu fydd yn pennu'r canlyniad, ni waeth sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu gwasanaeth IAA.

Er mwyn rhoi cyngor a chynhorthwy, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid cofnodi Gwybodaeth Bersonol (data craidd) am yr unigolyn (lle bo'n hysbys).
- Rhaid bod y pum elfen asesu wedi'u hystyried.
- Rhaid bod "sgwrs beth sy'n bwysig" wedi'i chynnal.

Ni ddylid cynnwys cysylltiadau lle mai dim ond gwybodaeth a ddarparwyd gan nad yw'r rhain yn bodloni'r trothwy ar gyfer asesu.

At ddibenion y metrig hwn, dylid mapio'r wyth canlyniad asesu a gynhwysir yn yr offeryn asesu a chymhwysedd cenedlaethol i'r is-gategori priodol fel a ganlyn:

1. Canlyniadau'r Gofyniad Asesu Cyffredin. Nid oes unrhyw anghenion gofal a chymorth i'w diwallu.

*Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu*

2. Mae angen asesiad mwy cynhwysfawr, a all gynnwys asesiadau mwy arbenigol.

*Amherthnasol – Dylid cyfrif y broses asesu yn ei chyfanrwydd. Os oes angen asesiad mwy cynhwysfawr, mae hyn yn rhan o'r broses asesu gyffredinol lle gellir cynnwys asesiadau arbenigol*.

3. Gellir diwallu anghenion drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy.

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

4. Gellir diwallu anghenion, drwy ddarparu gwasanaethau ataliol.

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

5. Gall anghenion gael eu diwallu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan yr unigolion eu hunain (gyda chymorth pobl eraill neu hebddynt).

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

6. Gall materion eraill gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau personol, neu fel arall ddiwallu'r anghenion.

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

7. Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth, y gall anghenion gael eu diwallu (**mae anghenion yn gymwys**).

*Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.*

8. Mae'r awdurdod lleol o'r farn bod angen diwallu'r anghenion er mwyn amddiffyn y person rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu rhag y risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu yn achos plentyn, rhag niwed arall neu rhag y risg o niwed.

   *Dylai'r asesiad ddechrau ar adeg yr atgyfeiriad a phara drwy gydol y broses ddiogelu (**Cod Ymarfer Rhan 7, paragraff 74**). Dewiswch yr opsiwn priodol ar ôl i'r asesiad hwn ddod i ben.*

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr **holl** asesiadau a **gwblhawyd ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion** yn ystod y flwyddyn gasglu. **Data sylfaen = CA/004**
2. Gall asesiad **gynnwys asesiadau manwl neu gynhwysfawr** a all ymgorffori **asesiadau gofalwyr arbenigol** a gynhelir gan weithwyr proffesiynol heblaw'r ymarferydd arweiniol.
3. Ystyrir bod asesiad wedi'i gwblhau, pan fydd wedi'i **awdurdodi gan reolwr practis** neu berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.
4. Dylech gynnwys pob asesiad ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion (CA/004) **ni waeth beth yw canlyniad** yr asesiad.
5. Dylech gynnwys asesiadau a gwblhawyd **o ganlyniad i bryderon diogelu.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion os canlyniad y cyswllt oedd darparu gwybodaeth fel y'i diffinnir gan God Ymarfer Rhan 2, paragraff 300, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
2. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau os nad ystyriwyd y pum elfen asesu, neu os na chynhaliwyd sgwrs "beth sy'n bwysig".

3. Peidiwch â chynnwys asesiadau a gwblhawyd **y tu allan i'r flwyddyn gasglu**.
4. Peidiwch â chynnwys **ailasesiadau** o oedolion sydd **eisoes â chynllun cymorth** ar adeg yr asesiad.
5. Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu proses asesu aml-gam sy'n defnyddio mwy nag un ffurflen ar gyfer y broses asesu. Peidiwch â chyfrif y rhain yn unigol. Cyfrwch y broses yn ei chyfanrwydd unwaith yn unig.
6. Peidiwch â chynnwys **plant (unigolion o dan 18 mlwydd oed)** yn y metrig hwn.
7. Peidiwch â chynnwys asesiadau a oedd yn **anghyflawn**.
8. Peidiwch â chynnwys asesiadau **a gofnodwyd drwy gamgymeriad.**

**Cyfeirnod Mesur: CA/006**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer oedolion a wrthodwyd yn ystod y flwyddyn.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am nifer yr asesiadau a gynigiwyd i ofalwyr sy'n oedolion yn ystod y flwyddyn a gafodd eu gwrthod.

Mae casglu data am y gofalwyr sy'n oedolion sy'n gwrthod asesiad yn agwedd bwysig ar fesur dealltwriaeth o sut y gallwn wella mynediad at gefnogaeth i ofalwyr. **Nid yw'n cynnwys gwrthod ailasesiadau** o ofalwyr sy'n oedolion sydd eisoes â chynllun cymorth. Bwriad y metrig yw cofnodi nifer y bobl **sydd heb gynllun cymorth cyfredol, nad ydynt yn dymuno cael eu hasesu.**

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cyfanswm a llif i wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, ac yn ei defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro'r galw o fewn y system.

**Diffiniad**

Mae gan oedolyn hawl i wrthod asesiad o anghenion y gwasanaethau cymdeithasol. Mae Cod Ymarfer **Rhan 3** (Asesu Anghenion Unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 107** yn nodi: "*Rhaid i'r awdurdod lleol gofnodi unrhyw achos o wrthod cynnig asesiad o angen*."

Mae Cod Ymarfer **Rhan 3** (Asesu Anghenion Unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 115** yn nodi:

"*Mae gan ofalwr sy'n gwrthod asesiad hawl i newid ei feddwl a rhaid i'r awdurdod lleol wedyn gynnal asesiad. Hefyd, rhaid i'r awdurdod lleol gynnig cynnal asesiad eto os yw'n fodlon bod amgylchiadau'r gofalwr wedi newid, fyddai'n golygu y byddai asesiad pellach o fudd i'r gofalwr. Unwaith eto, nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol gynnal yr asesiad os yw'r gofalwr yn gwrthod.*"

Mae Cod Ymarfer **Rhan 2** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 300** yn nodi bod darparu cyngor a chymorth *"yn golygu ei bod yn ofynnol i staff gynnal asesiad cymesur drwy drafod a dadansoddi pum elfen yr Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol."*

At ddibenion y metrig hwn, cyfrwch yr **holl ofalwyr sy'n oedolion** sy'n cysylltu â gwasanaeth IAA yr awdurdod lleol a gafodd gynnig asesiad o'u hanghenion gofalu ac a **wrthododd** y cynnig o asesiad.

Mae'r metrig hwn hefyd yn cynnwys yr holl ofalwyr sy'n oedolion y cysylltwyd â hwy gan yr awdurdod lleol ac a gafodd gynnig asesiad o'u hanghenion gofalu ac a **wrthododd** y cynnig o asesiad. Mae hyn yn cynnwys y gofalwyr hynny nad ydynt wedi cysylltu â gwasanaeth IAA yr awdurdod lleol.

Byddai asesiad yn cynnwys unrhyw asesiad, lle rhoddwyd cyngor a/neu gynhorthwy gan gynnwys asesiadau mwy cynhwysfawr neu arbenigol o anghenion gofalwyr.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr **holl** gysylltiadau ar gyfer **gofalwyr sy'n oedolion** yn ystod y flwyddyn gasglu **lle gwnaed cynnig o asesiad ond gwrthododd y gofalwr.**
2. Gall asesiad **gynnwys darparu cyngor neu gynhorthwy syml,** neu **asesiadau cynhwysfawr** a all ymgorffori **asesiadau o anghenion gofalwr arbenigol** a gynhelir gan weithwyr proffesiynol heblaw'r ymarferydd arweiniol.
3. Mae gan awdurdodau lleol **wahanol fodelau o IAA.** Nid oes gan bob gwasanaeth IAA un pwynt cyswllt ond mae ganddo nifer o bwyntiau mynediad.  Cyfrifwch unrhyw gyswllt newydd â'r gwasanaeth ble bynnag, neu sut bynnag y gwnaed hynny.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau ar gyfer oedolion os cynhaliwyd **asesiad** o'u hanghenion.
2. Peidiwch â chynnwys gofalwyr sy'n oedolion sydd **eisoes â chynllun cymorth** fel gofalwr ac sy'n gwrthod cynnig o **ailasesiad.**
3. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau os oedd y **pum elfen asesu** a sgwrs "**beth sy'n bwysig**" wedi digwydd.
4. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau a oedd  **y tu allan i'r flwyddyn gasglu**.
5. Peidiwch â chynnwys **plant (unigolion o dan 18 mlwydd oed)** yn y metrig hwn.
6. Peidiwch â chynnwys asesiadau **a gofnodwyd drwy gamgymeriad.**

**Cyfeirnod Mesur: CA/007**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer oedolion a gwblhawyd (CA/004) yn ystod y flwyddyn lle:

a. Roedd tystiolaeth o'r cynnig rhagweithiol o ran y Gymraeg.
b. Derbyniwyd y cynnig rhagweithiol o ran y Gymraeg.
c. Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio dewis iaith yr unigolyn (unrhyw iaith, heb fod yn gyfyngedig i'r Gymraeg neu'r Saesneg).

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r fframwaith strategol 'Mwy na Geiriau' ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 52**. yn nodi:

***Rhaid*** *i'r broses asesu gydnabod y cysyniad o'r angen am iaith a dylai ymarferwyr* ***sicrhau bod yr egwyddor cynnig rhagweithiol yn cael ei hymgorffori'n ymarferol.***

*Mae hyn yn golygu y dylai'r awdurdod lleol fod yn rhagweithiol a* ***dylid gofyn i'r unigolyn pa iaith y byddai'n well ganddo ei defnyddio ar ddechrau'r broses.*** *Bydd hyn yn sicrhau bod yr unigolyn yn gallu derbyn gwasanaethau yn ei iaith ei hun gydol y broses o nodi a diwallu ei anghenion gofal a chymorth. Mae iaith yn elfen annatod o'r gofal y mae pobl yn ei dderbyn a chyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw darparu gwasanaethau priodol sy'n cynnwys diwallu anghenion ieithyddol defnyddwyr. Dim ond drwy wneud hyn y gallant ddarparu gofal sy'n ddiogel ac yn effeithiol."*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cydymffurfiaeth genedlaethol yn erbyn gofynion y Ddeddf.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o ddata a gasglwyd yn CA/004.***

Mae **Cod Ymarfer Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 52**. yn nodi: *"…dylai'r awdurdod lleol fod yn rhagweithiol a* ***dylid gofyn i'r unigolyn pa iaith y byddai'n well ganddo ei defnyddio ar ddechrau'r broses (rhan a)".***

Dylai awdurdodau lleol hefyd gofnodi a oedd yr unigolyn neu'r teulu sy'n cael eu hasesu wedi manteisio ar y Gynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg (**rhan b**).

Mae **Cod Ymarfer Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,**para. 59** yn diffinio'r Set Ddata Graidd sy'n

cynnwys ‘Dewis o ran Iaith’. Gall hyn gynnwys ieithoedd **heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg (rhan c).**

Cyfrwch **y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg a dewisiadau iaith eraill ar gyfer pob asesiad o anghenion gofalwyr a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn gasglu.**

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr holl **asesiadau o anghenion gofalwyr** ar gyfer oedolion a gwblhawyd yn y flwyddyn gasglu. **Data sylfaen = CA/004.**
2. Cyfrifwch yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:
   a. **Ar gyfer rhan a:** Mae cysyniad y Cynnig Rhagweithiol yn cyfarwyddo awdurdodau leol i gynnig gwasanaethau i unigolion yn Gymraeg heb fod angen i'r gofalwr ofyn yn benodol am hynny. Mae hyn yn golygu gofyn i bobl sy'n mynd at y gwasanaeth i gael asesiad a fyddai'n well ganddynt gael gohebiaeth yn Gymraeg. Mae'r canllawiau ‘Mwy na Geiriau’, para. 3.13 yn datgan: “*Dylai cofnodion cleientiaid a chleifion ddangos yn glir beth yw dewis iaith dinasyddion (sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg neu'r Saesneg)”.*
   **b.** **Ar gyfer rhan b:** Pan fo unigolyn yn *rhan a* yn dewis y Gymraeg yn iaith cyfathrebu, dylai awdurdodau lleol gofnodi hyn yn yr asesiad (neu mewn rhan arall o'r system lle bo modd cyfeirio'n ôl at yr asesiad). Mae'r canllawiau 'Mwy na Geiriau', para. 3.13 yn datgan: “**Rhaid** i gofnodion cleientiaid a chleifion gynnwys adrannau i alluogi staff i gofnodi pryd y bydd **rhaid** darparu Cynnig Rhagweithiol”.
   **c.** **Ar gyfer rhan c:** Pan fo gofalwr yn *rhan a* yn dewis iaith heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith cyfathrebu, dylai awdurdodau lleol gofnodi hyn yn yr asesiad. Mae **Cod Ymarfer Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,**para. 59** yn diffinio’r Set Ddata Graidd sy’n cynnwys ‘Dewis o ran Iaith’. **Cofnodwch a gynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio’r iaith o ddewis, ni waeth beth oedd yr iaith.**
3. Rhaid i asesiad fod wedi'i **awdurdodi neu ei gymeradwyo** gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw i gael ei ystyried yn 'gyflawn’.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau lle'r oeddech wedi darparu **gwybodaeth yn unig.**
2. Peidiwch â chynnwys asesiadau ar gyfer **oedolion nad ydynt yn cael eu hasesu fel gofalwyr (ddim yn CA/004).**
3. Peidiwch â chynnwys asesiadau **anghyflawn.**
4. Peidiwch â chynnwys asesiadau ar gyfer pob is-gategori **nad ydynt yn bodloni'r meini prawf** a amlinellir uchod.

5. Peidiwch â chynnwys plant (dan 18 oed).
6. Peidiwch â chynnwys asesiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

## Cynlluniau Cefnogi Gofalwyr sy'n Oedolion

**Cyfeirnod Mesur: CA/008**

**Enw'r Mesur:** Nifer y gofalwyr sy'n oedolion gyda:

a. Chynllun cymorth i ofalwyr ar 31 Mawrth.
b. Cynllun cymorth i ofalwyr ar 31 Mawrth a hefyd cynllun gofal a chymorth, lle mae gan yr oedolyn gyfrifoldebau fel gofalwr a'i anghenion gofal a chymorth ei hun.

### Bwriad y Mesur

Mae deall nifer y gofalwyr sy'n oedolion sy'n cael eu cefnogi gan yr awdurdod lleol yn elfen bwysig o ran deall sut mae unigolion sy'n darparu gofal di-dâl yn cael eu cefnogi.

Mae nifer y gofalwyr sy'n oedolion sydd â chynllun cymorth gweithredol yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r galw. Dylai awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth fanylach am gymorth i ofalwyr er mwyn deall yn well sut y maent yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac er mwyn deall proffil gofal di-dâl yn eu hawdurdodau lleol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i gasglu gwybodaeth am ofal di-dâl yng Nghymru ac yn defnyddio'r wybodaeth hon ar y cyd â data arall i bennu sut caiff gofalwyr di-dâl eu cefnogi yng Nghymru.

### Diffiniad

Mae **Adran 54** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer person y mae'n ofynnol i'r awdurdod ddiwallu ei anghenion.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 27** yn amlinellu'r rheoliadau sy'n nodi'r meini prawf cymhwystra ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr. Mae'r meini prawf yr un fath, ni waeth a oes angen gofal a chymorth ar yr unigolyn, neu gefnogaeth fel gofalwr.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 56** yn nodi:

*"Yn y Cod Ymarfer hwn, oni nodir fel arall, dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad at ddyletswyddau neu bwerau mewn perthynas â chynlluniau gofal a chymorth* ***yr un mor berthnasol i gynlluniau cymorth i ofalwyr. Yn yr un modd, dylid darllen***

***unrhyw gyfeiriad at ‘ofal a chymorth’ fel cyfeiriad at ‘gymorth’ lle bo hyn yn berthnasol i ofalwyr.”***

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 63** yn nodi:

*“Mae’n ofynnol i awdurdod lleol baratoi cynllun gofal a chymorth [neu gynllun cymorth fel uchod] ar gyfer pobl y mae eu hanghenion yn bodloni’r meini prawf cymhwysedd, neu mae’n rhaid diwallu eu hanghenion am reswm arall (fel amddiffyn rhag camdriniaeth), lle mae’r unigolyn hwnnw’n annhebygol o gyflawni ei ganlyniadau personol oni bai fod yr awdurdod lleol yn darparu neu’n trefnu gofal a chymorth [neu gymorth fel gofalwr] i ddiwallu angen a nodwyd.”*

Mae **paragraff 82** o'r Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) hefyd yn nodi: *"**Rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt systemau technoleg gwybodaeth i gefnogi'r broses cynllunio gofal i sicrhau bod y cynllun gofal yn cael ei gofnodi'n electronig.”*

Mae gan ofalwyr sy’n oedolion yr hawl i wrthod cynllun cymorth a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Peidiwch â chyfrif gofalwyr sy’n gwrthod derbyn y gefnogaeth a gynigir. Mae rhagor o ganllawiau ar ofynion gofal a chymorth a chefnogaeth i ofalwyr ar gael yn y Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion).

Dylech gyfrif yr **holl gynlluniau cymorth gweithredol** ar gyfer **gofalwyr sy’n oedolion ar 31 Mawrth** y flwyddyn gasglu **(rhan a)**. Mewn amgylchiadau achlysurol, mae gan berson sydd â chynllun gofal a chymorth hefyd anghenion fel gofalwr - efallai y bydd yn gofalu am briod neu blentyn anabl, er enghraifft **(rhan b).**

Efallai y bydd gan rai awdurdodau lleol un cynllun integredig lle mae anghenion gofal unigolyn ei hun, a’u hanghenion cymorth fel gofalwr, yn cael eu cynnwys mewn un cynllun. Yn y sefyllfaoedd hyn, dylech gynnwys yr unigolyn dan **ran b.**

**Peidiwch â chyfrif** y gofalwyr hynny nad ydynt yn cael cymorth gan yr awdurdod lleol (h.y. cymorth gan wasanaeth ataliol) **oni bai fod y gwasanaeth hwnnw’n cael ei gomisiynu’n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol i gyflawni ei gyfrifoldebau tuag at ofalwyr sy’n oedolion o dan y Ddeddf**.

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. **Dylech gynnwys yr holl gynlluniau cymorth gweithredol (a) a chynlluniau gofal a chymorth lle mae gan yr unigolyn sy’n cael gofal a chymorth anghenion fel gofalwr hefyd (b)** ar gyfer gofalwyr sy’n oedolion ar 31 Mawrth y flwyddyn gasglu.
2. Rhaid i gynllun cymorth (neu gynllun gofal a chymorth) fod wedi'i **awdurdodi neu ei gymeradwyo** gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw i gael ei ystyried yn 'weithredol'.
3. Dylech gynnwys cynlluniau lle mae’r ddarpariaeth yn **cynnwys taliad uniongyrchol** i ddiwallu anghenion cymorth y gofalwr.

4. Dylech gynnwys cynlluniau lle mae'r cynllun cymorth ar gyfer y gofalwr a'r cynllun gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn y maent yn gofalu amdano wedi cael eu **hystyried ar y cyd.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys **cynlluniau gofal a chymorth i oedolion** os nad oes anghenion cymorth i ofalwr ar gyfer yr unigolyn sy'n cael gofal a chymorth, neu os nad oes gan yr unigolyn sy'n cael gofal a chymorth anghenion fel gofalwr.
2. Peidiwch â chynnwys **cynlluniau arbenigol nad ydynt yn diwallu anghenion cymorth yr unigolyn fel gofalwr** (oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio i un cynllun gofal a chymorth sy'n diwallu anghenion yr unigolyn).
3. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u **gwrthod.**
4. Peidiwch â chynnwys achosion lle'r ydych yn darparu **cymorth anffurfiol** (er enghraifft, gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy).
5. Peidiwch â chynnwys cynlluniau a luniwyd gan sefydliad a gomisiynwyd neu sefydliad trydydd parti lle mae'r awdurdod lleol wedi **cyfeirio'r** unigolyn at y gwasanaethau hynny drwy broses yr IAA **oni bai fod y gwasanaeth hwnnw'n cael ei gomisiynu'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol i gyflawni ei gyfrifoldebau i ofalwyr sy'n oedolion o dan y Ddeddf**.
6. Peidiwch â chynnwys cynlluniau cymorth sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CA/009**

**Enw'r Mesur:** Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion a oedd i fod i gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn gasglu.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 58** yn nodi:

*"Mae adran 54 o'r Ddeddf yn nodi bod rhaid i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer person y mae angen diwallu ei anghenion.* ***Rhaid i'r cynlluniau gael eu hadolygu'n rheolaidd.*** *Os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod amgylchiadau person wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio ar y*

*cynllun, rhaid iddo gynnal asesiadau o'r fath a diwygio'r cynllun yng ngoleuni'r asesiadau hynny. Ni ddylai cynllun gael ei gau heb adolygiad."*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cydymffurfiaeth genedlaethol yn erbyn gofynion y Ddeddf.

**Diffiniad**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 113** yn nodi:

"*Rhaid i awdurdod lleol adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn deall a yw darpariaeth y gofal a'r cymorth hwnnw yn diwallu anghenion yr unigolyn ac ystyried a yw ei anghenion wedi newid ac a oes angen ailasesiad. Rhaid i'r dyddiad cytunedig ar gyfer adolygu'r cynllun fod wedi'i amlinellu yn y cynllun."*

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 56** yn nodi:

*"Yn y Cod Ymarfer hwn, oni nodir fel arall, dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad at ddyletswyddau neu bwerau mewn perthynas â chynlluniau gofal a chymorth* ***yr un mor berthnasol i gynlluniau cymorth i ofalwyr. Yn yr un modd, dylid darllen unrhyw gyfeiriad at 'ofal a chymorth' fel cyfeiriad at 'gymorth' lle bo hyn yn berthnasol i ofalwyr."***

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 88** yn nodi:

*"Rhaid i Gynlluniau Gofal a Chymorth gynnwys dyddiad clir, a gytunir gyda'r unigolyn a/neu ei deulu, ar gyfer adolygu'r cynllun. Fodd bynnag, yn achos oedolyn,* ***rhaid i'r dyddiad adolygu fod o fewn 12 mis****."*

**Mae'r gofynion ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth sy'n cynnwys taliad uniongyrchol y mae unigolyn yn ei ddefnyddio i reoli ei ofal a'i gymorth ei hun ychydig yn wahanol. Dylid cynnwys y rhain yn y metrig hwn.**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 142** yn nodi:

*"Rhaid i awdurdod lleol adolygu'r trefniadau ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol a sut y maent yn cael eu defnyddio ar adegau a bennir gan yr awdurdod lleol yn unol â'r gofynion yn y cod hwn ar gyfer adolygu cynlluniau gofal a chymorth, ond yn sicr* ***o fewn 6 mis i'r dyddiad y gwnaed y taliad cyntaf ac o fewn 12 mis i'r adolygiad cyntaf."***

Cyfrwch **gynlluniau cymorth i ofalwyr sy'n oedolion y mae eu dyddiad adolygu yn digwydd yn y flwyddyn gasglu.**

**Cyfrwch yr holl gynlluniau cymorth hynny, neu gynlluniau cymorth sy'n cynnwys taliad uniongyrchol, sy'n ddyledus yn y flwyddyn gasglu.**

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **yr holl gynlluniau cymorth gweithredol** ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion a oedd i fod i gael eu hadolygu yn y flwyddyn gasglu.
2. Er mwyn penderfynu a oes adolygiad i fod i gael ei wneud yn ystod y flwyddyn:
   **a.** Mae adolygiad i fod i gael ei gynnal 12 mis o'r dyddiad yr awdurdodwyd y cynllun cymorth neu'r adolygiad diwethaf yn y flwyddyn ariannol flaenorol, neu
   **b.** Pan fydd unigolyn yn defnyddio taliadau uniongyrchol i reoli ei gymorth fel gofalwr, dylid cynnal adolygiad 6 mis o ddyddiad y taliad cyntaf, ac yna bob 12 mis wedi hynny.
3. Rhaid i gynllun/adolygiad cymorth **fod wedi'i awdurdodi** neu ei gymeradwyo gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw i gael ei ystyried yn 'weithredol'.
4. Dylech gynnwys cynlluniau lle mae'r cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn ac anghenion y sawl sy'n gofalu amdanynt wedi cael eu **hystyried ar y cyd.**

**Beth i beidio â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech eithrio **pob** adolygiad o gynlluniau **gofal a chymorth** – lle mae anghenion gofal a chymorth yn cael eu hadolygu, nid anghenion yr oedolyn fel gofalwr. Cesglir y rhain ar wahân (AD/016).
2. Peidiwch â chynnwys cynlluniau cymorth nad oeddent i fod i gael eu hadolygu yn y flwyddyn gasglu. Er enghraifft, pan nad yw'r dyddiad adolygu yn digwydd yn y flwyddyn gasglu.
3. Peidiwch â chynnwys cynlluniau cymorth sydd wedi'u **gwrthod.**
4. Peidiwch â chynnwys achosion lle'r ydych yn darparu **cymorth anffurfiol** (er enghraifft, gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy).
5. Peidiwch â chynnwys cynlluniau a luniwyd gan sefydliad a gomisiynwyd neu sefydliad trydydd parti lle mae'r awdurdod lleol wedi **cyfeirio'r** unigolyn at y gwasanaethau hynny drwy broses yr IAA **oni bai fod y gwasanaeth hwnnw'n cael ei gomisiynu'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol i gyflawni ei gyfrifoldebau i ofalwyr sy'n oedolion o dan y Ddeddf**.
6. Peidiwch â chynnwys cynlluniau cymorth sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CA/010**

**Enw'r Mesur:** Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion a oedd i fod i gael eu hadolygu yn y flwyddyn gasglu ac a adolygwyd o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn gasglu.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 58** yn nodi:

*"Mae adran 54 o'r Ddeddf yn nodi bod rhaid i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer person y mae angen diwallu ei anghenion.* ***Rhaid i'r cynlluniau gael eu hadolygu'n rheolaidd.*** *Os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod amgylchiadau person wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio ar y cynllun, rhaid iddo gynnal asesiadau o'r fath a diwygio'r cynllun yng ngoleuni'r asesiadau hynny. Ni ddylai cynllun gael ei gau heb adolygiad."*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cydymffurfiaeth genedlaethol yn erbyn gofynion y Ddeddf.

**Diffiniad**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 113** yn nodi:

*"Rhaid i awdurdod lleol adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn deall a yw darpariaeth y gofal a'r cymorth hwnnw yn diwallu anghenion yr unigolyn ac ystyried a yw ei anghenion wedi newid ac a oes angen ailasesiad. Rhaid i'r dyddiad cytunedig ar gyfer adolygu'r cynllun fod wedi'i amlinellu yn y cynllun."*

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 56** yn nodi:

*"Yn y Cod Ymarfer hwn, oni nodir fel arall, dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad at ddyletswyddau neu bwerau mewn perthynas â chynlluniau gofal a chymorth* ***yr un mor berthnasol i gynlluniau cymorth i ofalwyr. Yn yr un modd, dylid darllen unrhyw gyfeiriad at 'ofal a chymorth' fel cyfeiriad at 'gymorth' lle bo hyn yn berthnasol i ofalwyr."***

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 88** yn nodi:

*"Rhaid i Gynlluniau Gofal a Chymorth gynnwys dyddiad clir, a gytunir gyda'r unigolyn a/neu ei deulu, ar gyfer adolygu'r cynllun. Fodd bynnag, yn achos oedolyn,* ***rhaid i'r dyddiad adolygu fod o fewn 12 mis****."*

**Mae'r gofynion ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth sy'n cynnwys taliad uniongyrchol y mae unigolyn yn ei ddefnyddio i reoli ei ofal a'i gymorth ei hun ychydig yn wahanol. Dylid cynnwys y rhain yn y metrig hwn.** Ar gyfer oedolion,

mae'r gofynion ar gyfer adolygu taliadau uniongyrchol yn **gyfnodau o ddim mwy na 6 mis ar ôl gwneud y taliad cyntaf a 12 mis ar ôl yr adolygiad cyntaf.**

At ddibenion y metrig hwn, mae gennym ddiddordeb mewn cyfrif p'un a gwblhawyd adolygiad o fewn **12 mis i'r dyddiad yr awdurdodwyd y cynllun cymorth neu ddyddiad yr adolygiad diwethaf (pa un bynnag oedd ddiwethaf), neu lle darparwyd taliad uniongyrchol 6 mis ar ôl i'r taliad cyntaf gael ei wneud a 12 mis yn dilyn yr adolygiad diwethaf.** Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr adolygiad o'r cynllun cymorth a'r adolygiad o'r taliad uniongyrchol yn cael eu hystyried yn yr un adolygiad.

Cyfrwch yr holl gynlluniau cymorth hynny, neu gynlluniau cymorth sy'n cynnwys taliad uniongyrchol, a oedd **i fod i gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn gasglu** ac y **cwblhawyd o leiaf un adolygiad yn ystod y flwyddyn gasglu**.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl gynlluniau cymorth** ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion a oedd i fod i gael eu hadolygu ac a gafodd eu hadolygu yn y flwyddyn gasglu, ni waeth a gafodd yr adolygiad ei gwblhau o fewn yr amserlenni statudol ai peidio, **data sylfaen = CA/009**.

3. Rhaid i gynllun/adolygiad cymorth **fod wedi'i awdurdodi** neu ei gymeradwyo gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw i gael ei ystyried yn **gyflawn**.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech eithrio **pob** adolygiad o **gynlluniau gofal a chymorth** – hyd yn oed os yw'r oedolyn sydd angen gofal a chymorth yn cael cymorth fel gofalwr hefyd. Cesglir y rhain ar wahân (AD/017).
2. Peidiwch â chynnwys cynlluniau cymorth a oedd i fod i gael eu hadolygu yn y flwyddyn gasglu, ond **na chawsant eu hadolygu yn ystod y flwyddyn gasglu**. Yn yr un modd, peidiwch â chynnwys cynlluniau cymorth a adolygwyd yn y flwyddyn gasglu **os nad oedd eu hadolygiad i fod i gael ei gynnal** yn y flwyddyn gasglu.
3. Peidiwch â chynnwys cynlluniau a luniwyd gan sefydliad a gomisiynwyd neu sefydliad trydydd parti lle mae'r awdurdod lleol wedi **cyfeirio'r** gofalwr at y gwasanaethau hynny drwy broses yr IAA **oni bai fod y gwasanaeth hwnnw'n cael ei gomisiynu'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol i gyflawni ei gyfrifoldebau i ofalwyr sy'n oedolion o dan y Ddeddf**.
4. Peidiwch â chynnwys cynlluniau cymorth sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

## Cysylltiadau Gofalwyr Ifanc
### Cyfeirnod Mesur: CA/011

**Enw'r Mesur:** Cyfanswm nifer y cysylltiadau â gwasanaethau cymdeithasol statudol gan ofalwyr ifanc neu weithwyr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar eu rhan a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

### Bwriad y Mesur

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i ganfod faint o wybodaeth, cyngor a chymorth a ddarperir i bobl ifanc sy'n ofalwyr fel y'u diffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a faint o alw sydd amdanynt. Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod awdurdodau lleol yn gweithredu eu swyddogaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy (IAA) mewn gwahanol ffyrdd, a bwriad y metrig ar hyn o bryd yw archwilio a yw'r gwahanol fodelau hyn o IAA yn cyflwyno data sy'n awgrymu gwahaniaethau yn y gwasanaeth y mae'r defnyddiwr terfynol yn ei gael.

Mae faint sydd ar gael, er nad oes ganddo gydberthynas uniongyrchol, yn arwydd o'r galw ar swyddogaeth y gwasanaethau cymdeithasol o fewn awdurdod lleol. Mae edrych ar nifer y gofalwyr sy'n ceisio gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn rhoi mecanwaith syml i awdurdodau lleol i fonitro nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac i gymharu hynny â metrigau ychwanegol i asesu sut yr ymdriniwyd â'r unigolion hyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro nifer y gofalwyr sy'n cysylltu â gwasanaethau IAA yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

### Diffiniad

Mae **Adran 3** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gofalwr ifanc fel a ganlyn:

- *Ystyr "plentyn" yw unigolyn dan 18 oed.*
- *Ystyr "gofalwr" yw unigolyn sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl.*

Mae **Cod Ymarfer Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion) y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, **para. 15** yn cyflwyno'r cysyniad o ofalwr sy'n oedolyn ifanc fel gofalwr rhwng 16 a 25 oed. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw asesiad yn ystyried unrhyw "*gamau pontio y mae'r gofalwr yn debygol o'u cymryd i addysg bellach neu uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant yn awr neu yn y dyfodol a rhoi sylw priodol i'r hyn y mae'r oedolyn ifanc yn dymuno cymryd rhan ynddo.*" **At ddibenion y metrig hwn, cyfrifwch dim ond plant fel y'u diffinnir gan Adran 3(3) – unigolion dan 18 oed.**

Cyfrwch gyfanswm nifer y cysylltiadau a gafwyd oddi wrth **ofalwyr ifanc** neu berson sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar eu rhan, a ofynnodd am wybodaeth, cyngor a chynhorthwy gan y gwasanaeth IAA yn eich awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn. Dim ond mewn **cysylltiadau newydd** â'r gwasanaeth y mae gennym ddiddordeb, nid y rhai sydd eisoes yn derbyn cymorth (fel gofalwr).

Gall gofalwr ifanc gael **mwy nag un cyswllt** yn ystod y flwyddyn gasglu. **Cyfrwch bob un o'r rhain os yw'r person wedi cysylltu â'r gwasanaeth IAA (neu wedi cael ei gyfeirio ato) yn gofyn am gymorth fel gofalwr ifanc.**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 2 a Rhan 3**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyfeirio at unigolion yn **'cysylltu'** â'r gwasanaeth. Weithiau mae paragraffau eraill o fewn y codau ymarfer yn defnyddio termau gwahanol fel **'atgyfeirio'** neu **'geisio' neu 'gyrchu'** gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. At ddibenion y metrig hwn, dylid ystyried bod y rhain yr un peth.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys pob cyswllt â'ch gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu ar gyfer **unrhyw blentyn sy'n cysylltu â'r gwasanaeth IAA i gael cymorth fel gofalwr.**
2. Mae cyswllt yn cynnwys unrhyw berson sy'n cysylltu â'r gwasanaeth, neu weithiwr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar ei ran.
3. Os yw'r cyswllt yn cyfeirio at **nifer o blant, dylai pob plentyn y cyfeirir ato fel un sydd angen cymorth gael ei gyfrif yn un sydd wedi cael cyswllt.**
4. Dylech gynnwys unrhyw gyswllt a gafwyd, p'un a oedd hynny wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy e-bost neu ffurflen gyswllt ar wefan.
5. Gall gofalwr ifanc gael **mwy nag un cyswllt** yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrwch bob un o'r rhain **lle mae'n amlwg eu bod yn cysylltu â'r gwasanaeth i gael cymorth fel gofalwr.**
6. Nid yw pob awdurdod lleol yn gweithredu un pwynt mynediad. **Dylai'r cyfrif gynnwys pob cyswllt** sy'n bodloni'r meini prawf uchod, **waeth beth fo'r llwybr i mewn i'r system.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys plant a oedd **yn cael cymorth (fel gofalwr)** ar adeg y cyswllt.
2. Ni ddylid cynnwys yn plant sydd eisoes yn cael cymorth fel gofalwr gan yr awdurdod lleol **sy'n cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol i gael asesiad ar gyfer gofal a chymorth** yn y metrig.
3. Peidiwch â chynnwys **ymweliadau â gwefan eich gwasanaeth IAA** fel cysylltiadau. Er bod darparu gwybodaeth ar wefan yn arfer da, nid dyna rydym yn awyddus i'w gyfrif.
4. Peidiwch â chynnwys **cysylltiadau sy'n atgyfeiriadau uniongyrchol i wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal**, os nad oes asesiad yn digwydd.

Dywed Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 2 o'r Cod Ymarfer, para. 294 mai swyddogaeth y gwasanaeth IAA yw: "*[darparu] gwybodaeth a chyngor ar ofal a chymorth, a chymorth o ran cael mynediad at ofal a chymorth".* Dylid cynnwys cysylltiadau lle mae asesiad yn dod i'r casgliad mai gwasanaeth ymyrraeth gynnar ac atal yw'r ffordd fwyaf priodol o weithredu.

5. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **sy'n amlwg wedi'u cyfeirio at yr adran anghywir.**
6. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau sydd **wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad** (h.y. dyblygu, defnyddio'r math anghywir o atgyfeiriad ar y system).
7. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau a ddefnyddir i **gofnodi gwybodaeth** am gael gafael ar wybodaeth gan asiantaethau eraill (h.y. AGC, yr heddlu)
8. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau mewn perthynas ag oedolion (18 oed neu hŷn).

**Cyfeirnod Mesur: CA/012**

**Enw'r Mesur:** Nifer y cysylltiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a gafodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor a chynhorthwy.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am nifer y cysylltiadau oddi wrth ofalwyr ifanc a gafwyd gan y gwasanaeth IAA lle darparwyd cyngor a/neu gynhorthwy yn unol â'r diffiniad a geir yng Nghod Ymarfer **Rhan 2** (Swyddogaethau Cyffredinol) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, para. **300** (t63).

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro nifer y gofalwyr ifanc sy'n cysylltu â gwasanaethau IAA yng Nghymru a'i defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CA/011.***

Mae **Adran 3** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gofalwr ifanc fel a ganlyn:

- *Ystyr "plentyn" yw unigolyn dan 18 oed.*
- *Ystyr "gofalwr" yw unigolyn sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl.*

Mae **Cod Ymarfer Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion) y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, **para. 15** yn cyflwyno'r cysyniad o ofalwr sy'n oedolyn ifanc fel gofalwr rhwng 16 a 25 oed. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw asesiad yn ystyried unrhyw "*gamau pontio y mae'r gofalwr yn debygol o'u cymryd i addysg bellach neu uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant yn awr neu yn y dyfodol a rhoi sylw priodol i'r hyn y mae'r oedolyn ifanc yn dymuno cymryd rhan ynddo".* **At ddibenion y metrig hwn, cyfrifwch dim ond plant fel y'u diffinnir gan Adran 3(3) – unigolion dan 18 oed.**

Mae Cod Ymarfer **Rhan 2** (Swyddogaethau Cyffredinol), **para. 300** (t64-65) yn diffinio Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy.

Cyfrwch yr **holl** gysylltiadau yn CA/011 sy'n cyfateb i'r diffiniad ar gyfer darparu **cyngor a/neu gynhorthwy.**

Er mwyn rhoi cyngor a chynhorthwy, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid cofnodi Gwybodaeth Bersonol (data craidd) am yr unigolyn (lle bo'n hysbys).
- Rhaid bod y pum elfen asesu wedi'u hystyried.
- Rhaid bod "sgwrs beth sy'n bwysig" wedi'i chynnal.

Ni ddylid cynnwys cysylltiadau pan mai dim ond gwybodaeth a ddarparwyd.

Mae darparu cyngor a chynhorthwy **yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau asesiad** (Cod Ymarfer Rhan 3, para. 20). Mae angen i'r broses asesu **ddod i ben** cyn i ganlyniad yr asesiad fod yn hysbys. Mae hyn yn golygu, os yw'r asesiad cyfrannol yn fwy cynhwysfawr, mai casgliad y 'broses' asesu fydd yn pennu'r canlyniad, ni waeth sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu gwasanaeth IAA.

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr **holl** gysylltiadau ar gyfer **gofalwyr ifanc** pan mai canlyniad y cyswllt oedd **darparu cyngor a/neu gynhorthwy** fel y'u diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Cod Ymarfer Rhan 2 paragraff 300. **Data sylfaen = CA/011**
2. Dylech gynnwys yr holl ofalwyr ifanc sy'n cysylltu â'r gwasanaeth IAA am **gymorth fel gofalwr.**
3. Dylech gynnwys pob achos lle darparwyd cyngor neu gynhorthwy **waeth beth fo canlyniad yr asesiad.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys asesiadau ar gyfer cymhwystra am **ofal a chymorth.**
2. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau ar gyfer gofalwyr ifanc os canlyniad y cyswllt oedd **darparu gwybodaeth** fel y'i diffinnir gan God Ymarfer Rhan 2, paragraff 300, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

3. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **os nad ystyriwyd y pum elfen asesu**, neu os na chynhaliwyd sgwrs “beth sy'n bwysig”.
4. Peidiwch â chynnwys unrhyw ddata sydd **y tu allan**i'r flwyddyn gasglu.
5. Peidiwch â chynnwys data **nad ydynt yn CA/011.**
6. Peidiwch â chynnwys oedolion (unigolion 18 mlwydd oed neu hŷn) yn y metrig hwn.
7. Peidiwch â chynnwys unrhyw gysylltiadau a gofnodwyd drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CA/013**

**Enw’r Mesur:** Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd ar gyfer gofalwyr ifanc gan wasanaethau statudol i blant yn ystod y flwyddyn oddi wrth:

a. Yr unigolyn ei hun
b. Perthynas
c. Ffrind neu gymydog
d. Gwasanaeth Atal / Ymyrryd yn fuan (Camu i fyny)
e. Iechyd
f. Addysg
g. Tai
h. Yr heddlu
i. Gwasanaethau prawf
j. Sefydliad trydydd sector
k. Awdurdod Lleol
l. Ysbyty Annibynnol
m. Gwasanaeth Ambiwlans
n. Rheoleiddiwr Gofal
o. Darparwr
p. Eiriolwr
q. Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall)
r. Arall

**Bwriad y Mesur**

Bwriad y metrig hwn yw casglu data ar ffynonellau cyswllt. Mae gwybod pwy a sut y deuir i gysylltiad â'r gwasanaeth IAA yn helpu sefydliadau i nodi sut mae gofalwyr yn defnyddio'r gwasanaeth IAA. Mae gweithio gydag asiantaethau partner i nodi'n well y galw a'r llwybrau i mewn i wasanaethau IAA yn caniatáu cynllunio ac adnoddau rhyng-sefydliadol gwell i sicrhau bod y bobl gywir yn cael y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro sut mae gofalwyr yn cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ac yn defnyddio'r wybodaeth hon ar y cyd â metrigau eraill i fonitro cyfansymiau a llif o fewn y system.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CA/011***.

Cyfrifwch yr holl gysylltiadau a gafwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol ar gyfer **gofalwyr ifanc** yn ystod y flwyddyn a chan defnyddio ffynhonnell y cyswllt a gofnodwyd ar eich system wedi'i mapio i'r is-gategorïau a restrir yn y metrig hwn.

Dylai'r aelod o staff sy'n derbyn yr wybodaeth gofnodi ffynhonnell yr atgyfeiriad. Gwerthfawrogir bod gan lawer o awdurdodau lleol ddull llawer mwy manwl o gofnodi pwy gysylltodd â'r adran. Dylid mapio'r rhain i'r categori mwyaf priodol. Er enghraifft:

Dylai **hunan** gynnwys enghreifftiau o hunanatgyfeiriad.

Dylai **perthynas** gynnwys achosion pan fo'r person sy'n cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn rhiant, brawd neu chwaer neu berthynas arall i'r person sy'n destun y cyswllt.

Dylai **cyfaill neu gymydog** gynnwys ffrindiau neu gymdogion y person sy'n destun y cyswllt.

Dylai **Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar / Atal (Camu i fyny)** gynnwys unrhyw wasanaeth a gynlluniwyd i ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal, boed yn fewnol neu wedi'u comisiynu gan yr awdurdod lleol, pan fo'r person sy'n destun y cyswllt yn derbyn gwasanaeth gan yr asiantaethau hyn – cyfeirir at hyn weithiau fel 'camu i fyny'.

Dylai **iechyd** gynnwys cydweithwyr iechyd sylfaenol, eilaidd, trydyddol a chymunedol. Meddygon Teulu, Ysbytai, Ymgynghorwyr, Clinigau, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd ac ati.

Dylai **addysg** gynnwys unrhyw atgyfeiriwr sy'n darparu gwasanaethau addysg neu ddysgu. Ysgolion, Athrawon, AALlau, Unedau Cyfeirio Disgyblion, Colegau a Phrifysgolion, darpariaeth addysg arbenigol, gwasanaethau seicoleg addysg ac ati.

Dylai **tai** gynnwys adran dai awdurdod lleol ac asiantaethau tai eraill.

Dylai **yr Heddlu** gynnwys unrhyw swyddog awdurdod heddlu, heddlu trafnidiaeth neu asiantaeth troseddau genedlaethol.

Dylai **Gwasanaeth Prawf** gynnwys unrhyw aelod o staff y gwasanaeth prawf sy'n gweithredu yn rhinwedd ei swydd broffesiynol.

**Sefydliad Trydydd Sector**; dylai gynnwys unrhyw sefydliad trydydd sector, budd cymunedol, menter gymdeithasol neu elusennol.

Dylai'r **Awdurdod Lleol** gynnwys awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gellir hefyd gynnwys asiantaethau llywodraeth leol dramor yn yr is-gategori hwn.

Dylai **Ysbyty Annibynnol** gynnwys ysbytai sy’n cael eu rhedeg yn annibynnol ar fyrddau iechyd lleol y GIG. Gall ysbytai annibynnol gael eu hariannu’n llawn neu’n rhannol gan y GIG a gallant ddarparu ystod o wasanaethau. Weithiau, gellir cyfeirio at ysbytai annibynnol fel ‘ysbytai preifat’.

Dylai **Gwasanaeth Ambiwlans** gynnwys Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ogystal â’r rhai yng ngweddill y DU.

Dylai **Rheoleiddiwr Gofal** gynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Dylai **darparwr** gynnwys gwasanaethau a gomisiynir, neu wasanaethau sy’n darparu gwasanaethau gofal i awdurdodau lleol. I blant, gallai hyn fod yn ofalwr maeth, neu’n gartref i blant. Gall darparwyr fod yn breifat, yn wirfoddol neu’n drydydd sector.

Dylai **eiriolwr** gynnwys pobl sy’n darparu gwasanaethau eiriolaeth ffurfiol i unigolion sy’n cysylltu â gwasanaethau IAA awdurdodau lleol neu sy’n cysylltu â gwasanaethau IAA ar eu rhan.

Dylai **Mewnol (Gweithiwr Cymdeithasol, tîm arall)**; gynnwys cysylltiadau a gynhyrchir yn fewnol (h.y. drwy ddarganfod unigolyn arall sydd ag anghenion gofal a chymorth posibl yn ystod gwaith o ddydd i ddydd).

**Arall;** unrhyw ffynhonnell gyswllt arall nad yw'n cyd-fynd â'r categorïau uchod, ee dienw, cyfreithiwr, aelod o'r cyhoedd ac ati.

Rydym yn cydnabod y gall rhai cysylltiadau ddisgyn i fwy nag un categori. Er enghraifft, gall cymydog hefyd fod yn aelod o'r teulu. Gall sefydliad trydydd sector hefyd ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnal ac atal neu fod yn ddarparwr. Mater i'r sawl sy'n derbyn yr wybodaeth yw llunio barn ar y categori mwyaf priodol i’r ffynhonnell gyswllt.

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys **pob** cyswllt a dderbyniwyd ar gyfer **gofalwyr ifanc** gan wasanaethau cymdeithasol statudol rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth yn y flwyddyn gasglu **ar gyfer unrhyw blentyn nad oedd yn cael cymorth fel gofalwr ar adeg y cyswllt. Data sylfaen = CA/011**
2. Mae cyswllt yn cynnwys **unrhyw ofalwr ifanc** sy'n cysylltu â'r gwasanaeth, neu unigolyn sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar ei ran.
3. Os yw'r cyswllt yn cyfeirio at **nifer o blant**, dylai pob gofalwr ifanc y gallai fod angen cymorth arno gael ei gyfrif yn un sydd â chyswllt.
4. Dylech gynnwys unrhyw gyswllt a gafwyd, p'un a oedd hynny wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy e-bost neu ffurflen gyswllt ar wefan.
5. Gall gofalwr gael **mwy nag un cyswllt** yn ystod y cyfnod casglu. Cyfrwch y rhain i gyd.

6. Nid yw pob awdurdod lleol yn gweithredu un pwynt mynediad. Dylai'r cyfrif gynnwys pob cyswllt sy'n diwallu'r meini prawf uchod, ni waeth beth yw'r llwybr i'r system.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys gofalwyr ifanc a oedd **yn cael cymorth ar adeg y cyswllt.**
2. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau mewn perthynas â phlant **sy’n gofyn am asesiad o gymhwystra ar gyfer gofal a chymorth (neu sy'n cael eu hatgyfeirio am asesiad).**
3. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **nad ydynt wedi  cynnwys yn CA/011.**
4. Peidiwch â chynnwys **ymweliadau â gwefan** eich gwasanaeth IAA fel cysylltiadau. Er bod darparu gwybodaeth ar wefan yn arfer da, nid dyna rydym yn awyddus i'w gyfrif.
5. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau sy'n amlwg yn cael eu cyfeirio at yr adran anghywir.
6. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad (h.y. dyblygu, y math anghywir o atgyfeiriad a ddefnyddir ar y system).
7. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau a ddefnyddir i fewngofnodi gwybodaeth am gael gafael ar wybodaeth gan asiantaethau eraill (hy AGC, Heddlu)
8. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau mewn perthynas ag oedolion (18 oed neu hŷn).

## Asesiadau Gofalwyr Ifanc

**Cyfeirnod Mesur: CA/014**

**Enw’r Mesur:** Cyfanswm yr asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer gofalwyr ifanc a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am nifer yr asesiadau **newydd** a gwblhawyd ar gyfer gofalwyr ifanc yn ystod y flwyddyn.

Mae casglu data am ofalwyr ifanc sy'n cyflwyno i'r gwasanaethau cymdeithasol i'w hasesu yn agwedd bwysig ar fesur cyfanswm, llif a galw ar ddechrau'r broses gofal cymdeithasol statudol. **Nid yw'n cynnwys ailasesiadau** o ofalwyr ifanc sydd eisoes â chynllun cymorth. Bwriad y metrig yw nodi’r llif a'r galw i mewn i'r system.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cyfanswm a llif i wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, ac yn ei defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro'r galw o fewn y system.

**Diffiniad**

Mae **[Adran 3](#)** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gofalwr ifanc fel a ganlyn:

- *Ystyr "plentyn" yw unigolyn dan 18 oed.*
- *Ystyr "gofalwr" yw unigolyn sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl.*

Mae **Cod Ymarfer Rhan 3** (Asesu Anghenion Unigolion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, para. 15 yn amlinellu'r ddyletswydd i asesu "***unrhyw*** *ofalwr pan fo'n ymddangos i'r awdurdod hwnnw fod angen cymorth ar y gofalwr".*

Mae darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy, a'r ddyletswydd i asesu, yn gyffredin i blant a all fod angen gofal a chymorth ac i blant a all fod angen cymorth fel gofalwr.

Mae Cod Ymarfer **Rhan 2** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 300** yn nodi bod darparu cyngor a chynhorthwy "yn golygu ei bod yn ofynnol i staff gynnal asesiad cymesur drwy drafod a dadansoddi pum elfen yr Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol."

Dylai hyn **gynnwys unrhyw asesiadau** gan gynnwys y rhai lle cwblhawyd **asesiadau anghenion gofalwyr ifanc** arbenigol.

Er mwyn rhoi cyngor a chynhorthwy, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid cofnodi Gwybodaeth Bersonol (data craidd) am yr unigolyn (lle bo'n hysbys).
- Rhaid bod y pum elfen asesu wedi'u hystyried.
- Rhaid bod "sgwrs beth sy'n bwysig" wedi'i chynnal.

Ni ddylid cynnwys cysylltiadau lle mai dim ond gwybodaeth a ddarparwyd gan nad yw'r rhain yn bodloni'r trothwy ar gyfer asesu.

Mae darparu cyngor a chynhorthwy yn golygu bod **angen cwblhau asesiad** (Cod Ymarfer **Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion), para. 20). Mae angen i'r broses asesu ddod i ben cyn i ganlyniad yr asesiad fod yn hysbys. Mae hyn yn golygu, os yw'r asesiad **yn fwy cynhwysfawr, neu os oes angen asesiad arbenigol o ofalwyr ifanc,** mai **casgliad** y 'broses' asesu fydd yn pennu'r canlyniad, ni waeth sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu gwasanaeth IAA.

**Mae'r metrig hwn yn wahanol i CA/012** yn y data a gesglir. Os ceisiwn gasglu data asesu ar gysylltiadau gofalwyr ifanc a gafwyd yn ystod y flwyddyn, bydd yr amser sydd ei angen i gynnal asesiadau, yn enwedig pan fydd yr asesiad yn fanwl neu'n gynhwysfawr, yn golygu y bydd cyfran o'r asesiadau gryn dipyn o amser y tu allan i'r flwyddyn gasglu. Mae'r metrig hwn yn cyfrif **unrhyw asesiad gofalwr ifanc *newydd* a gwblhawyd yn y flwyddyn gasglu, ni waeth pryd y cafwyd y cyswllt.** Mae hyn

yn rhoi darlun gwell o gyfanswm nifer yr asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr **holl** asesiadau o **ofalwyr ifanc** a **gwblhawyd** yn ystod y flwyddyn gasglu.
2. Gall yr asesiad **gynnwys asesiadau gofalwyr ifanc arbenigol** sy’n ystyried yr anghenion cymorth ar gyfer y gofalwr.
3. Dylech gynnwys asesiadau ar gyfer gofal a chymorth, lle **naill ai**:
    a. Mae gan y plentyn sydd ag anghenion gofal a chymorth anghenion cymorth fel gofalwr hefyd.
    b. Mae gofalwr ifanc sy’n darparu cymorth i’r person sydd ag anghenion gofal a chymorth yn dymuno i’w anghenion cymorth fel gofalwr gael eu hystyried yn yr un asesiad.
4. Ystyrir bod asesiad wedi'i gwblhau, pan fydd wedi'i **awdurdodi gan reolwr practis** neu berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.
5. Dylech gynnwys pob asesiad cyfrannol **waeth beth fo canlyniad** yr asesiad.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau ar gyfer gofalwyr ifanc os canlyniad y cyswllt oedd **darparu gwybodaeth** fel y'i diffinnir gan God Ymarfer Rhan 2, paragraff 300, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
2. Peidiwch â chynnwys asesiadau o blant sydd ag anghenion gofal a chymorth, ond **dim anghenion cymorth fel gofalwr.**
3. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **os nad ystyriwyd y pum elfen asesu**, neu os na chynhaliwyd sgwrs “**beth sy'n bwysig**”.
4. Peidiwch â chynnwys asesiadau a gwblhawyd **y tu allan i'r flwyddyn gasglu**.
5. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau pan **wrthododd** gofalwr ifanc (16 neu 17 oed) y cynnig o asesiad. (Nid oes rheidrwydd i gynnal asesiad os yw plentyn yn 16 neu’n 17 oed).
6. Peidiwch â chynnwys **ailasesiadau** o ofalwyr ifanc sydd eisoes â chynllun cymorth.
7. Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu **proses asesu aml-gam** sy'n defnyddio mwy nag un ffurflen ar gyfer y broses asesu. Peidiwch â chyfrif y rhain yn unigol. Cyfrwch y broses yn ei chyfanrwydd unwaith yn unig.
8. Peidiwch â chynnwys **gofalwyr sy’n oedolion (unigolion 18 mlwydd oed neu hŷn)** yn y metrig hwn.
9. Peidiwch â chynnwys asesiadau a oedd yn **anghyflawn** (gweler 6.4 uchod).
10. Peidiwch â chynnwys asesiadau **a gofnodwyd drwy gamgymeriad.**

**Cyfeirnod Mesur: CA/015**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr asesiadau o ofalwyr a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn lle:

a. Gellid diwallu anghenion gyda chynllun cymorth neu gynllun gofal a chymorth gofalwr ifanc.
b. Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.
c. Lle nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am ganlyniadau'r asesiadau a gwblhawyd ar gyfer gofalwyr ifanc yn ystod y flwyddyn.

Mae casglu data am ganlyniadau gofalwyr ifanc sy'n dod i sylw'r gwasanaethau cymdeithasol i'w hasesu yn agwedd bwysig ar fesur cyfanswm, llif a galw yn y broses gofal cymdeithasol statudol. **Nid yw'n cynnwys ailasesiadau** o ofalwyr ifanc sydd eisoes â chynllun cymorth. Bwriad y metrig yw nodi'r llif a'r galw i mewn i'r system.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cyfanswm a llif i wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, ac yn ei defnyddio ar y cyd â metrigau eraill i fonitro'r galw o fewn y system.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o CA/014.***

Mae **Adran 3** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gofalwr ifanc fel a ganlyn:

- *Ystyr "plentyn" yw unigolyn dan 18 oed.*
- *Ystyr "gofalwr" yw unigolyn sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl.*

Mae Cod Ymarfer **Rhan 2** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Swyddogaethau Cyffredinol), para. 300 (t64) yn nodi bod darparu cyngor a chynhorthwy "*yn golygu ei bod yn ofynnol i staff gynnal asesiad cymesur drwy drafod a dadansoddi pum elfen yr Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol."*

Dylai hyn gynnwys unrhyw asesiadau o **anghenion cymorth gofalwyr ifanc, gan gynnwys** y rheini sy'n ymgorffori **asesiadau manwl neu gynhwysfawr** yn y broses asesu, a'r rheini sy'n ymgorffori **asesiadau gofalwyr ifanc** arbenigol.

Mae darparu cyngor a chynhorthwy yn golygu bod **angen cwblhau asesiad** (Cod Ymarfer **Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion), **para. 20**). Mae angen i'r broses asesu ddod i ben cyn i ganlyniad yr asesiad fod yn hysbys. Mae hyn yn golygu, os yw'r

asesiad yn fwy cynhwysfawr, mai casgliad y 'broses' asesu fydd yn pennu'r canlyniad, ni waeth sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu eu gwasanaeth IAA.

Er mwyn rhoi cyngor a chynhorthwy, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid cofnodi Gwybodaeth Bersonol (data craidd) am yr unigolyn (lle bo'n hysbys).
- Rhaid bod y pum elfen asesu wedi'u hystyried.
- Rhaid bod "sgwrs beth sy'n bwysig" wedi'i chynnal.

Ni ddylid cynnwys cysylltiadau lle mai dim ond gwybodaeth a ddarparwyd gan nad yw'r rhain yn bodloni'r trothwy ar gyfer asesu.

At ddibenion y metrig hwn, dylid mapio'r wyth canlyniad asesu a gynhwysir yn yr offeryn asesu a chymhwysedd cenedlaethol i'r is-gategori priodol fel a ganlyn:

Canlyniadau'r Gofyniad Asesu Cyffredin

1. Nid oes angen diwallu unrhyw anghenion gofal a chymorth.

*Lle nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu.*

2. Mae angen asesiad mwy cynhwysfawr, a all gynnwys asesiadau mwy arbenigol.

*Amherthnasol – Dylid cyfrif y broses asesu yn ei chyfanrwydd. Os oes angen asesiad mwy cynhwysfawr, mae hyn yn rhan o'r broses asesu gyffredinol lle gellir cynnwys asesiadau arbenigol*.

3. Gellir diwallu anghenion drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy.

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

4. Gellir diwallu anghenion, drwy ddarparu gwasanaethau ataliol.

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

5. Gall anghenion gael eu diwallu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan yr unigolion eu hunain (gyda chymorth pobl eraill neu hebddynt).

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

6. Gall materion eraill gyfrannu at gyflawni'r canlyniadau personol, neu fel arall ddiwallu'r anghenion.

*Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.*

*7.* Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth, y gall anghenion gael eu diwallu (**mae anghenion yn gymwys**).

*Dim ond drwy gynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.*

8. Mae'r awdurdod lleol o'r farn bod angen diwallu'r anghenion er mwyn amddiffyn y person rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu rhag y risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu yn achos plentyn, rhag niwed arall neu rhag y risg o niwed.

   *Dylai'r asesiad ddechrau ar adeg yr atgyfeiriad a phara drwy gydol y broses ddiogelu (**Cod Ymarfer Rhan 7, paragraff 74**). Dewiswch yr opsiwn priodol ar ôl i'r asesiad hwn ddod i ben.*

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Cyfrwch yr **holl** asesiadau a **gwblhawyd ar gyfer gofalwyr ifanc** yn ystod y flwyddyn gasglu. **Data sylfaen = CA/014**
2. Gall asesiad **gynnwys asesiadau manwl neu gynhwysfawr** a all ymgorffori **asesiadau gofalwyr arbenigol** a gynhelir gan weithwyr proffesiynol heblaw'r ymarferydd arweiniol.
3. Ystyrir bod asesiad wedi'i gwblhau, pan fydd wedi'i **awdurdodi gan reolwr practis** neu berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.
4. Dylech gynnwys pob asesiad cyfrannol ar gyfer gofalwyr ifanc (CA/014) **ni waeth beth yw canlyniad yr asesiad.**
5. Dylech gynnwys asesiadau a gwblhawyd **o ganlyniad i bryderon diogelu.**

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau ar gyfer gofalwyr ifanc os canlyniad y cyswllt oedd darparu gwybodaeth fel y'i diffinnir gan God Ymarfer Rhan 2, paragraff 300, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
2. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau **os nad ystyriwyd y pum elfen asesu**, neu os na chynhaliwyd sgwrs "**beth sy'n bwysig**".
3. Peidiwch â chynnwys asesiadau a gwblhawyd **y tu allan i'r flwyddyn gasglu**.
4. Peidiwch â chynnwys **ailasesiadau** o ofalwyr ifanc sydd **eisoes â chynllun cymorth** ar adeg yr asesiad.
5. Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu **proses asesu aml-gam** sy'n defnyddio mwy nag un ffurflen ar gyfer y broses asesu. Peidiwch â chyfrif y rhain yn unigol. Cyfrwch y broses yn ei chyfanrwydd unwaith yn unig.
6. Peidiwch â chynnwys **oedolion (unigolion 18 mlwydd oed neu hŷn)** yn y metrig hwn.
7. Peidiwch â chynnwys asesiadau a oedd yn **anghyflawn**.
8. Peidiwch â chynnwys asesiadau **a gofnodwyd drwy gamgymeriad.**

**Cyfeirnod Mesur: CA/016**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer gofalwyr ifanc a gwblhawyd (CA/014) yn ystod y flwyddyn lle:

a. Roedd tystiolaeth o'r cynnig rhagweithiol o ran y Gymraeg
b. Derbyniwyd y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg
c. Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio dewis iaith yr unigolyn (unrhyw iaith, heb fod yn gyfyngedig i'r Gymraeg neu'r Saesneg).

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r fframwaith strategol 'Mwy na Geiriau' ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 52** yn nodi: ***Rhaid*** *i'r broses asesu gydnabod y cysyniad o'r angen am iaith a dylai ymarferwyr* ***sicrhau bod yr egwyddor cynnig rhagweithiol yn cael ei hymgorffori'n ymarferol.***

*Mae hyn yn golygu y dylai'r awdurdod lleol fod yn rhagweithiol a* ***dylid gofyn i'r unigolyn pa iaith y byddai'n well ganddo ei defnyddio ar ddechrau'r broses.*** *Bydd hyn yn sicrhau bod yr unigolyn yn gallu derbyn gwasanaethau yn ei iaith ei hun gydol y broses o nodi a diwallu ei anghenion gofal a chymorth. Mae iaith yn elfen annatod o'r gofal y mae pobl yn ei dderbyn a chyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw darparu gwasanaethau priodol sy'n cynnwys diwallu anghenion ieithyddol defnyddwyr. Dim ond drwy wneud hyn y gallant ddarparu gofal sy'n ddiogel ac yn effeithiol."*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cydymffurfiaeth genedlaethol yn erbyn gofynion y Ddeddf.

**Diffiniad**

***Mae'r metrig hwn yn deillio o ddata a gasglwyd yn (CA/014)***

Mae **Cod Ymarfer Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 52** yn nodi: *…dylai'r awdurdod lleol fod yn rhagweithiol a* ***dylid gofyn i'r unigolyn pa iaith y byddai'n well ganddo ei defnyddio ar ddechrau'r broses (rhan a).****"*

Dylai awdurdodau lleol hefyd gofnodi a oedd yr unigolyn neu'r teulu sy'n cael eu hasesu wedi manteisio ar y Gynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg (**rhan b**).

Mae **Cod Ymarfer Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,**para. 59** yn diffinio'r Set Ddata Graidd sy'n cynnwys 'Dewis o ran Iaith'. Gall hyn gynnwys ieithoedd **heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg (rhan c).**

Cyfrwch **y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg a dewisiadau iaith eraill ar gyfer pob asesiad o anghenion gofalwyr a gwblhawyd ar gyfer gofalwyr ifanc yn ystod y flwyddyn gasglu.**

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys yr holl **asesiadau o anghenion gofalwyr** ar gyfer **gofalwyr ifanc** a gwblhawyd yn y flwyddyn gasglu. **Data sylfaen = CA/004.**
2. Cyfrifwch yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:
    a. **Ar gyfer rhan a:** Mae cysyniad y Cynnig Rhagweithiol yn cyfeirio awdurdodau lleol at gynnig gwasanaethau i unigolion yn Gymraeg heb fod angen i'r gofalwr ifanc ofyn amdano'n benodol. Mae hyn yn golygu gofyn i bobl sy'n mynd at y gwasanaeth i gael asesiad a fyddai'n well ganddynt gael gohebiaeth yn Gymraeg. Mae'r canllawiau 'Mwy na Geiriau', para. 3.13 yn datgan: "*Dylai cofnodion cleientiaid a chleifion ddangos yn glir beth yw dewis iaith dinasyddion (sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg neu'r Saesneg).*"
    **b. Ar gyfer rhan b:** Pan fo unigolyn yn **rhan a** yn dewis y Gymraeg yn iaith cyfathrebu, dylai awdurdodau lleol gofnodi hyn yn yr asesiad (neu mewn rhan arall o'r system lle bo modd cyfeirio'n ôl at yr asesiad). Mae'r canllawiau 'Mwy na Geiriau', para. 3.13 yn datgan: "***Rhaid** i gofnodion cleientiaid a chleifion gynnwys adrannau i alluogi staff i gofnodi pryd y bydd **rhaid** darparu Cynnig Rhagweithiol.*"
    **c. Ar gyfer rhan c:** Pan fo gofalwr ifanc yn *rhan a* yn dewis iaith heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith cyfathrebu, dylai awdurdodau lleol gofnodi hyn yn yr asesiad. Mae **Cod Ymarfer Rhan 3** (Asesu anghenion unigolion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,**para. 59** yn diffinio'r Set Ddata Graidd sy'n cynnwys 'Dewis o ran Iaith'. **Cofnodwch a gynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio'r iaith o ddewis, ni waeth beth oedd yr iaith.**
3. Rhaid i asesiad fod wedi'i **awdurdodi neu ei gymeradwyo** gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw i gael ei ystyried yn 'gyflawn'.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys cysylltiadau lle'r oeddech wedi darparu **gwybodaeth yn unig.**
2. Peidiwch â chynnwys asesiadau ar gyfer **plant nad ydynt yn cael eu hasesu fel gofalwyr (ddim yn CA/014).**
3. Peidiwch â chynnwys asesiadau sy'n **anghyflawn.**
4. Peidiwch â chynnwys asesiadau ar gyfer pob is-gategori **nad ydynt yn bodloni'r meini prawf** a amlinellir uchod.
5. Peidiwch â chynnwys oedolion (18 oed neu hŷn).
6. Peidiwch â chynnwys asesiadau sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

## Cynlluniau Cefnogi Gofalwyr Ifanc

**Cyfeirnod Mesur: CA/017**

**Enw'r Mesur:** Nifer y gofalwyr ifanc gyda:

a. Chynllun cymorth i ofalwyr ar 31 Mawrth.
b. Cynllun cymorth i ofalwyr ar 31 Mawrth a hefyd cynllun gofal a chymorth, lle mae gan y person ifanc gyfrifoldebau fel gofalwr a'i anghenion gofal a chymorth ei hun.

### Bwriad y Mesur

Mae deall nifer y gofalwyr ifanc sy'n cael eu cefnogi gan yr awdurdod lleol yn elfen bwysig o ran deall sut mae plant sy'n darparu gofal i eraill yn cael eu cefnogi.

Mae nifer y gofalwyr ifanc sydd â chynllun cymorth gweithredol yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r galw. Dylai awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth fanylach am gymorth i ofalwyr er mwyn deall yn well sut y maent yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac er mwyn deall proffil gofal di-dâl yn eu hawdurdodau lleol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i gasglu gwybodaeth am ofal di-dâl yng Nghymru ac yn defnyddio'r wybodaeth hon ar y cyd â data arall i bennu sut caiff gofalwyr di-dâl eu cefnogi yng Nghymru.

### Diffiniad

Mae **Adran 54** o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi bod rhaid i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer person y mae'n ofynnol i'r awdurdod ddiwallu ei anghenion.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 27** yn amlinellu'r rheoliadau sy'n pennu'r meini prawf cymhwystra ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr. Mae'r meini prawf yr un fath, ni waeth a oes angen gofal a chymorth ar yr unigolyn, neu gefnogaeth fel gofalwr.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 56** yn nodi:

*"Yn y Cod Ymarfer hwn, oni nodir fel arall, dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad at ddyletswyddau neu bwerau mewn perthynas â chynlluniau gofal a chymorth* ***yr un mor berthnasol i gynlluniau cymorth i ofalwyr. Yn yr un modd, dylid darllen unrhyw gyfeiriad at 'ofal a chymorth' fel cyfeiriad at 'gymorth' lle bo hyn yn berthnasol i ofalwyr."***

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 63** yn nodi:

"*Mae'n ofynnol i awdurdod lleol baratoi cynllun gofal a chymorth [neu gynllun cymorth fel uchod] ar gyfer pobl y mae eu hanghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, neu mae'n rhaid diwallu eu hanghenion am reswm arall (fel amddiffyn rhag camdriniaeth), lle mae'r unigolyn hwnnw'n annhebygol o gyflawni ei ganlyniadau personol oni bai fod yr awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chymorth [neu gymorth fel gofalwr] i ddiwallu angen a nodwyd".*

Mae **paragraff 82** o'r Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion hefyd yn nodi: ***"Rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt systemau technoleg gwybodaeth i gefnogi'r broses cynllunio gofal i sicrhau bod y cynllun gofal yn cael ei gofnodi'n electronig."*

Mae gan ofalwyr ifanc sy'n 16 ac 17 oed yr hawl i wrthod cynllun cymorth a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Dan yr oedran hwn, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu'r plentyn ac efallai y bydd ganddynt ddyletswydd awtomatig i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Peidiwch â chyfrif gofalwyr sy'n gwrthod derbyn y gefnogaeth a gynigir. Mae rhagor o ganllawiau ar ofynion gofal a chymorth a chefnogaeth i ofalwyr ar gael yn y Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion).

Dylech gyfrif yr **holl gynlluniau cymorth gweithredol** ar gyfer **gofalwyr ifanc ar 31 Mawrth** y flwyddyn gasglu **(rhan a)**. Mewn amgylchiadau achlysurol, mae gan blentyn sydd â chynllun gofal a chymorth hefyd anghenion fel gofalwr – efallai y bydd yn gofalu am riant neu frawd neu chwaer, er enghraifft **(rhan b).**

Efallai y bydd gan rai awdurdodau lleol un cynllun integredig lle mae anghenion gofal unigolyn ei hun, a'u hanghenion cymorth fel gofalwr, yn cael eu cynnwys mewn un cynllun. Yn y sefyllfaoedd hyn, dylech gynnwys yr unigolyn dan **ran b.**

Peidiwch â chyfrif y gofalwyr ifanc hynny nad ydynt yn cael cymorth gan yr awdurdod lleol (h.y. yn cael cymorth gan wasanaeth ataliol) **oni bai fod y gwasanaeth hwnnw'n cael ei gomisiynu'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol i gyflawni ei gyfrifoldebau tuag at ofalwyr ifanc o dan y Ddeddf.**

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

1. **Dylech gynnwys yr holl gynlluniau cymorth gweithredol (a) a chynlluniau gofal a chymorth os oes gan y plentyn sy'n cael gofal a chymorth anghenion fel gofalwr hefyd (b)** ar gyfer gofalwyr ifanc ar 31 Mawrth y flwyddyn gasglu.
2. Rhaid i gynllun cymorth (neu gynllun gofal a chymorth) fod wedi'i **awdurdodi neu ei gymeradwyo** gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw i gael ei ystyried yn 'weithredol'.
3. Dylech gynnwys cynlluniau lle mae'r ddarpariaeth yn **cynnwys taliad uniongyrchol** i ddiwallu anghenion cymorth y gofalwr ifanc.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Peidiwch â chynnwys **cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer plant** os nad oes anghenion cymorth gofalwr ar gyfer y plentyn sy’n cael gofal a chymorth.
2. Peidiwch â chynnwys **cynlluniau arbenigol nad ydynt yn diwallu anghenion y plentyn fel gofalwr.**
3. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u **gwrthod.**
4. Peidiwch â chynnwys achosion lle'r ydych yn darparu **cymorth anffurfiol** (er enghraifft, gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy).
5. Peidiwch â chynnwys cynlluniau a luniwyd gan sefydliad a gomisiynwyd neu sefydliad trydydd parti lle mae'r awdurdod lleol wedi **cyfeirio'r** unigolyn at y gwasanaethau hynny drwy broses yr IAA **oni bai fod y gwasanaeth hwnnw’n cael ei gomisiynu’n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol i gyflawni ei gyfrifoldebau i ofalwyr ifanc o dan y Ddeddf**.
6. Peidiwch â chynnwys cynlluniau cymorth sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CA/018**

**Enw’r Mesur:** Nifer yr adolygiadau o gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc a oedd i fod i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 58** yn nodi:

*“Mae adran 54 o’r Ddeddf yn nodi bod rhaid i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer person y mae angen diwallu ei anghenion.* ***Rhaid i’r cynlluniau gael eu hadolygu’n rheolaidd.*** *Os yw’r awdurdod lleol o’r farn bod amgylchiadau person wedi newid mewn ffordd sy’n effeithio ar y cynllun, rhaid iddo gynnal asesiadau o’r fath a diwygio’r cynllun yng ngoleuni’r asesiadau hynny. Ni ddylai cynllun gael ei gau heb adolygiad.”*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cydymffurfiaeth genedlaethol yn erbyn gofynion y Ddeddf.

**Diffiniad**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 113** yn nodi:

“*Rhaid i awdurdod lleol adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn deall a yw darpariaeth y gofal a’r cymorth hwnnw yn diwallu anghenion yr unigolyn ac ystyried a yw ei anghenion wedi newid ac a oes angen ailasesiad. Rhaid i’r dyddiad cytunedig ar gyfer adolygu’r cynllun fod wedi’i amlinellu yn y cynllun.”*

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 56** yn nodi:

*“Yn y Cod Ymarfer hwn, oni nodir fel arall, dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad at ddyletswyddau neu bwerau mewn perthynas â chynlluniau gofal a chymorth* ***yr un mor berthnasol i gynlluniau cymorth i ofalwyr. Yn yr un modd, dylid darllen unrhyw gyfeiriad at ‘ofal a chymorth’ fel cyfeiriad at ‘gymorth’ lle bo hyn yn berthnasol i ofalwyr.”***

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 88**. yn nodi: *“Rhaid i Gynlluniau Gofal a Chymorth gynnwys dyddiad clir, a gytunir gyda’r unigolyn a/neu ei deulu, ar gyfer adolygu’r cynllun. Fodd bynnag,* ***yn achos plentyn, rhaid i'r dyddiad adolygu fod o fewn 6 mis****.”*

**Mae'r gofynion ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth sy'n cynnwys taliad uniongyrchol y mae unigolyn yn ei ddefnyddio i reoli ei ofal a'i gymorth ei hun ychydig yn wahanol. Dylid cynnwys y rhain yn y metrig hwn.** Ar gyfer plant, mae’r gofynion yn y cod hwn ar gyfer adolygu cynlluniau gofal a chymorth, ond sut bynnag ar ôl **cyfnodau o ddim mwy na 6 mis ar ôl gwneud y taliad cyntaf a 6 mis ar ôl yr adolygiad cyntaf.**

Cyfrwch **adolygiadau o gynlluniau cymorth i ofalwyr ifanc y mae eu dyddiad adolygu yn digwydd yn y flwyddyn gasglu.**

**Cyfrwch yr holl gynlluniau cymorth hynny, neu gynlluniau cymorth sy'n cynnwys taliad uniongyrchol, sydd i fod i gael eu hadolygu yn y flwyddyn gasglu.**

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys adolygiadau sydd i fod i gael eu cynnal yn y flwyddyn gasglu ar gyfer **pob cynllun cymorth** i ofalwyr ifanc.
2. Rhaid i gynllun/adolygiad cymorth **fod wedi'i awdurdodi** neu ei gymeradwyo gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw i gael ei ystyried yn ‘weithredol’.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech eithrio **pob** adolygiad o **gynlluniau gofal a chymorth** – hyd yn oed os yw’r plentyn sydd angen gofal a chymorth yn cael cymorth fel gofalwr hefyd. Cesglir y rhain ar wahân yn CH/015.
2. Peidiwch â chynnwys adolygiadau o gynlluniau cymorth sydd wedi'u **gwrthod.**

3. Peidiwch â chynnwys achosion lle'r ydych yn darparu **cymorth anffurfiol** (er enghraifft, gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy).
4. Peidiwch â chynnwys adolygiadau o gynlluniau a luniwyd gan sefydliad a gomisiynwyd neu sefydliad trydydd parti lle mae'r awdurdod lleol wedi **cyfeirio'r** gofalwr ifanc at y gwasanaethau hynny drwy broses yr IAA **oni bai fod y gwasanaeth hwnnw'n cael ei gomisiynu'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol i gyflawni ei gyfrifoldebau i ofalwyr ifanc o dan y Ddeddf**.
5. Peidiwch â chynnwys adolygiadau o gynlluniau cymorth sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CA/019**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr adolygiadau o gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc a oedd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu a oedd o fewn amserlenni statudol.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 58** yn nodi:

*"Mae adran 54 o'r Ddeddf yn nodi bod rhaid i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer person y mae angen diwallu ei anghenion.* ***Rhaid i'r cynlluniau gael eu hadolygu'n rheolaidd.*** *Os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod amgylchiadau person wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio ar y cynllun, rhaid iddo gynnal asesiadau o'r fath a diwygio'r cynllun yng ngoleuni'r asesiadau hynny. Ni ddylai cynllun gael ei gau heb adolygiad".*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cydymffurfiaeth genedlaethol yn erbyn gofynion y Ddeddf.

**Diffiniad**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 113** yn nodi: Rhaid i awdurdod lleol adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn deall a yw darpariaeth y gofal a'r cymorth hwnnw yn diwallu anghenion yr unigolyn ac ystyried a yw ei anghenion wedi newid ac a oes angen ailasesiad. Rhaid i'r dyddiad cytunedig ar gyfer adolygu'r cynllun fod wedi'i amlinellu yn y cynllun.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 56** yn nodi:

*“Yn y Cod Ymarfer hwn, oni nodir fel arall, dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad at ddyletswyddau neu bwerau mewn perthynas â chynlluniau gofal a chymorth* ***yr un mor berthnasol i gynlluniau cymorth i ofalwyr. Yn yr un modd, dylid darllen unrhyw gyfeiriad at ‘ofal a chymorth’ fel cyfeiriad at ‘gymorth’ lle bo hyn yn berthnasol i ofalwyr.”***

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para 88** yn nodi: *“Rhaid i Gynlluniau Gofal a Chymorth gynnwys dyddiad clir, a gytunir gyda’r unigolyn a/neu ei deulu, ar gyfer adolygu’r cynllun. Fodd bynnag,* ***yn achos plentyn, rhaid i'r dyddiad adolygu fod o fewn 6 mis****.”*

**Mae'r gofynion ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth sy'n cynnwys taliad uniongyrchol y mae unigolyn yn ei ddefnyddio i reoli ei ofal a'i gymorth ei hun ychydig yn wahanol. Dylid cynnwys y rhain yn y metrig hwn.** Ar gyfer plant, mae’r gofynion yn y cod hwn ar gyfer adolygu taliadau uniongyrchol yn **gyfnodau o ddim mwy na 6 mis ar ôl gwneud y taliad cyntaf a phob 6 mis ar ôl yr adolygiad cyntaf.**

At ddibenion y metrig hwn, mae gennym ddiddordeb mewn cyfrif a gynhaliwyd yr adolygiad o fewn **6 mis i'r dyddiad yr awdurdodwyd y cynllun cymorth neu ddyddiad yr adolygiad diwethaf (pa un bynnag oedd ddiwethaf), neu lle darparwyd taliad uniongyrchol 6 mis ar ôl i'r taliad cyntaf gael ei wneud a 6 mis yn dilyn yr adolygiad diwethaf.** Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr adolygiad o’r cynllun cymorth a’r adolygiad o’r taliad uniongyrchol yn cael eu hystyried yn yr un adolygiad.

**Cyfrifwch yr holl gynlluniau cymorth hynny, neu gynlluniau cymorth sy’n cynnwys taliad uniongyrchol, sy’n ddyledus yn y flwyddyn gasglu a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol.**

**Beth i’w gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech gynnwys pob adolygiad o **gynlluniau cymorth** ar gyfer gofalwyr ifanc a adolygwyd yn y flwyddyn gasglu ac a **gwblhawyd o fewn amserlenni statudol.**
2. Dyma’r amserlenni statudol:
    - **a.** 6 mis o ddyddiad y **cynllun cymorth neu’r adolygiad diwethaf yn y flwyddyn ariannol flaenorol, neu**
    - **b.** pan fo unigolyn yn defnyddio **taliadau uniongyrchol** i reoli ei gymorth fel gofalwr, **6 mis o ddyddiad dyddiad y taliad cyntaf, yna bob 6 mis wedi hynny.**
3. Rhaid i gynllun/adolygiad cymorth **fod wedi'i awdurdodi** neu ei gymeradwyo gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw i gael ei ystyried yn **gyflawn**.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

1. Dylech eithrio **pob** adolygiad o **gynlluniau gofal a chymorth** – hyd yn oed os yw'r plentyn sydd angen gofal a chymorth yn cael cymorth fel gofalwr hefyd. Cesglir y rhain ar wahân yn CH/015.
2. Peidiwch â chyfrif cynlluniau cymorth na chawsant eu **cwblhau mewn pryd.**
3. Peidiwch â chynnwys cynlluniau a luniwyd gan sefydliad a gomisiynwyd neu sefydliad trydydd parti lle mae'r awdurdod lleol wedi **cyfeirio'r** gofalwr ifanc at y gwasanaethau hynny drwy broses yr IAA **oni bai fod y gwasanaeth hwnnw'n cael ei gomisiynu'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol i gyflawni ei gyfrifoldebau i ofalwyr ifanc o dan y Ddeddf**.
4. Peidiwch â chynnwys cynlluniau gofal a chymorth sydd wedi'u cofnodi mewn camgymeriad.

**Cyfeirnod Mesur: CA/020**

**Enw'r Mesur:** Nifer yr adolygiadau o gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc a oedd wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn, boed y rheini wedi'u cwblhau o fewn amserlenni statudol ai peidio.

**Bwriad y Mesur**

Mae'r metrig hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fonitro eu cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 58** yn nodi:

*"Mae adran 54 o'r Ddeddf yn nodi bod rhaid i awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer person y mae angen diwallu ei anghenion.* ***Rhaid i'r cynlluniau gael eu hadolygu'n rheolaidd.*** *Os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod amgylchiadau person wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio ar y cynllun, rhaid iddo gynnal asesiadau o'r fath a diwygio'r cynllun yng ngoleuni'r asesiadau hynny. Ni ddylai cynllun gael ei gau heb adolygiad".*

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cydymffurfiaeth genedlaethol yn erbyn gofynion y Ddeddf.

**Diffiniad**

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 113** yn nodi: Rhaid i awdurdod lleol adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn deall a yw darpariaeth y gofal a'r cymorth hwnnw yn diwallu anghenion yr unigolyn ac ystyried a yw ei anghenion wedi

newid ac a oes angen ailasesiad. Rhaid i'r dyddiad cytunedig ar gyfer adolygu'r cynllun fod wedi'i amlinellu yn y cynllun.

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para. 56** yn nodi:

*"Yn y Cod Ymarfer hwn, oni nodir fel arall, dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad at ddyletswyddau neu bwerau mewn perthynas â chynlluniau gofal a chymorth* ***yr un mor berthnasol i gynlluniau cymorth i ofalwyr. Yn yr un modd, dylid darllen unrhyw gyfeiriad at 'ofal a chymorth' fel cyfeiriad at 'gymorth' lle bo hyn yn berthnasol i ofalwyr."***

Mae **Cod Ymarfer Rhan 4** (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, **para 88** yn nodi: *"Rhaid i Gynlluniau Gofal a Chymorth gynnwys dyddiad clir, a gytunir gyda'r unigolyn a/neu ei deulu, ar gyfer adolygu'r cynllun. Fodd bynnag,* ***yn achos plentyn, rhaid i'r dyddiad adolygu fod o fewn 6 mis****."*

**Mae'r gofynion ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth sy'n cynnwys taliad uniongyrchol y mae unigolyn yn ei ddefnyddio i reoli ei ofal a'i gymorth ei hun ychydig yn wahanol. Dylid cynnwys y rhain yn y metrig hwn.**

**Cyfrifwch yr holl gynlluniau cymorth hynny, neu gynlluniau cymorth sy'n cynnwys taliad uniongyrchol, sy'n ddyledus yn y flwyddyn gasglu ni waeth a gwblhawyd eu hadolygiadau o fewn amserlenni statudol ai peidio.**

**Beth i'w gynnwys yn y Mesur**

4. Dylech gynnwys adolygiadau o **bob cynllun cymorth** ar gyfer gofalwyr ifanc a oedd i'w cynnal yn y flwyddyn gasglu ac a gwblhawyd, **boed y rheini wedi'u cwblhau o fewn amserlenni statudol ai peidio**.
5. Rhaid i gynllun/adolygiad cymorth **fod wedi'i awdurdodi** neu ei gymeradwyo gan reolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw i gael ei ystyried yn **gyflawn**.

**Beth i <u>beidio</u> â'i gynnwys yn y Mesur**

5. Dylech eithrio **pob** adolygiad o **gynlluniau gofal a chymorth** – hyd yn oed os yw'r plentyn sydd angen gofal a chymorth yn cael cymorth fel gofalwr hefyd. Cesglir y rhain ar wahân yn CH/015.
6. Peidiwch â chyfrif adolygiadau o gynlluniau cymorth **na chawsant eu cwblhau.**
7. Peidiwch â chynnwys adolygiadau o gynlluniau a luniwyd gan sefydliad a gomisiynwyd neu sefydliad trydydd parti lle mae'r awdurdod lleol wedi **cyfeirio'r** gofalwr ifanc at y gwasanaethau hynny drwy broses yr IAA **oni bai fod y gwasanaeth hwnnw'n cael ei gomisiynu'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol i gyflawni ei gyfrifoldebau i ofalwyr ifanc o dan y Ddeddf**.

8. Peidiwch â chynnwys adolygiadau o gynlluniau cymorth sydd wedi'u cofnodi drwy gamgymeriad.

# Mynegai Mesurau

## Metrigau sy’n ymwneud ag Oedolion

### Cysylltiadau Oedolion

AD/001 – Nifer y cysylltiadau ar gyfer oedolion a gafodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn.

a. Cyfanswm nifer y cysylltiadau
b. Nifer y cysylltiadau newydd

AD/002 – Nifer y cysylltiadau newydd ar gyfer oedolion a gafodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor neu gynhorthwy.

AD/003 – Nifer y cysylltiadau newydd a gafodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol i oedolion yn ystod y flwyddyn, lle darparwyd cyngor neu gynhorthwy, yn ôl y math o gyswllt (ee yr unigolyn ei hun, perthynas, ac ati.)

### Asesiadau Oedolion

AD/004 – Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn.

AD/005 – Nifer yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn lle:

a. Dim ond gyda chynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.
b. Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.
c. Lle nad oedd unrhyw anghenion cymwys i’w diwallu.

AD/006 – Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gwblhawyd (AD/004) yn ystod y flwyddyn lle:

a. Roedd tystiolaeth o'r cynnig rhagweithiol o ran y Gymraeg
b. Derbyniwyd Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg
c. Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio dewis iaith yr unigolyn (unrhyw iaith, heb fod yn gyfyngedig i'r Gymraeg neu'r Saesneg).

AD/007 – Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn yr ystad ddiogel.

AD/008 – Nifer yr asesiadau newydd y gofynnodd yr oedolyn neu'r teulu amdanynt yn ystod y flwyddyn lle'r oedd asesiad blaenorol wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol.

AD/009 – Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd, pan ofynnwyd am yr asesiad gan yr oedolyn neu’r teulu yn ystod y flwyddyn, roedd asesiad blaenorol wedi’i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol, nid oes gan yr unigolyn gynllun gofal a chymorth ar hyn o bryd ac os yw canlyniad yr asesiad newydd yw:

a. Dim ond gyda chynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.
b. Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.
c. Lle nad oedd unrhyw anghenion cymwys i’w diwallu.

### Ailalluogi

AD/010 – Cyfanswm y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

AD/011 – Cyfanswm y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle:

a. Cafodd yr angen am gymorth ei leihau
b. Cafodd yr angen am gymorth ei gynnal
c. Cafodd yr angen am gymorth ei liniaru
d. Ni chafodd yr angen am gymorth ei leihau, ei gynnal na'i liniaru

**Cynlluniau Gofal a Chymorth i Oedolion**

AD/012 – Nifer yr oedolion gyda:

a. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth.
b. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth a hefyd anghenion cymorth fel gofalwr, a all gynnwys cynllun cymorth i ofalwr.

AD/013 – Cyfanswm nifer yr oedolion â chynllun gofal a chymorth y mae eu hanghenion yn cael eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth sydd â:

a. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth.
b. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth a hefyd anghenion cymorth fel gofalwr, a all gynnwys cynllun cymorth i ofalwr.

AD/014 – Ar gyfer gwasanaethau a gychwynnwyd yn ystod y flwyddyn, cyfanswm y diwrnodau y mae'n rhaid i oedolion aros rhwng y dyddiad dechrau a drefnwyd a dyddiad dechrau gwirioneddol gwasanaeth a nodwyd yn eu cynllun gofal a chymorth, lle mai'r canlynol yw'r gwasanaeth hwnnw:

a. Gartref Gofal i Oedolion
b. Gofal Cartref

AD/015 – Cyfanswm y gwasanaethau i oedolion a gychwynnwyd yn ystod y flwyddyn, pan fo'r gwasanaeth hwnnw yn:

a. Gartref Gofal i Oedolion
b. Gofal Cartref
c. Gofal Seibiant

AD/016 – Nifer yr oedolion a oedd i fod i gael adolygiad yn ystod y flwyddyn gasglu.

AD/017 – Nifer yr oedolion a oedd i fod i gael adolygiad yn y flwyddyn gasglu ac a gafodd adolygiad o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn gasglu.

AD/018 – Nifer yr oedolion a gynorthwyir â thaliadau uniongyrchol a oedd i fod i gael adolygiad yn ystod y flwyddyn gasglu.

AD/019 – Nifer yr oedolion a gynorthwyir â thaliadau uniongyrchol a oedd i fod i gael adolygiad yn ystod y flwyddyn gasglu ac a gafodd o leiaf un adolygiad yn ystod y flwyddyn gasglu.

**Diogelu Oedolion**

AS/001 – Cyfanswm nifer yr oedolion yr amheuid eu bod yn wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn.

AS/002 – Cyfanswm nifer yr oedolion yr amheuid eu bod yn wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod a gofnodwyd fwy nag unwaith ar gyfer yr un categori o gamdriniaeth neu esgeulustod yn ystod y flwyddyn.

AS/003 – Cyfanswm nifer yr oedolion yr amheuid eu bod yn wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod a gofnodwyd ar gyfer categorïau gwahanol o gamdriniaeth neu esgeulustod yn ystod y flwyddyn.

AD/020 – Cyfanswm yr adroddiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn ynghylch oedolion yr amheuir eu bod yn wynebu risg.

AD/021 – Cyfanswm nifer yr adroddiadau am oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl yn ystod y flwyddyn, yn ôl math o gyswllt (ee yr hunan, perthynas, ac ati)

AD/022 – Cyfanswm yr adroddiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gasglu lle'r honnwyd bod cam-drin o dan y prif gategori o esgeulustod, cam-drin corfforol, cam-drin rhywiol, cam-drin emosiynol neu seicolegol, cam-drin ariannol, ac yn ôl categori oedran.

AS/004 – Cyfanswm nifer yr adroddiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn gasglu yn ôl ethnigrwydd yr oedolyn yr amheuid ei fod yn wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Cyfanswm nifer yr adroddiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn gasglu lle'r oedd rhywedd yr oedolyn yr amheuid ei fod yn wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod yn:

a. Gwryw
b. Benyw
c. Arall
d. Heb ei ddatgelu neu'n anhysbys

AD/023 – Cyfanswm yr adroddiadau a gafwyd ynghylch oedolyn y amheuir ei fod yn wynebu risg, lle mae gwneud ymholiadau Adran 126, yn ôl categori oedran.

AD/024 – Cyfanswm nifer yr ymholiadau Adran 126 a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith o gael gwybod am yr achos honedig o gam-drin.

AD/025 – O'r ymholiadau hynny, nifer yr ymholiadau yn ôl y math o gyflawnwr honedig (ee priod, plentyn, aelod o'r teulu, ac ati).

AS/005 – O'r ymholiadau Adran 126 hynny, y nifer lle digwyddodd y gamdriniaeth honedig: yng nghartref yr unigolyn, yn y gymuned, mewn lleoliad cartref gofal, mewn lleoliad iechyd.

AD/026 – Cyfanswm nifer yr ymholiadau Adran 126 lle:

a. Amddiffyn ar Unwaith
b. Mae'r oedolyn yn 'oedolyn sy'n wynebu risg' ac mae angen gweithredu i'w amddiffyn.

c. Nid yw'r oedolyn yn ‘oedolyn sy'n wynebu risg’ ond gall fod ganddo anghenion gofal a chymorth.
d. Nid yw'r oedolyn yn ‘oedolyn sy'n wynebu risg’ ac ni nodwyd unrhyw anghenion gofal a chymorth sydd heb eu diwallu; nid oes angen cymryd camau pellach.

AD/027 – Cyfanswm nifer yr ymholiadau Adran 126 lle gwrthododd yr unigolyn gymryd rhan yn y camau a nodwyd.

AD/028 – Cyfanswm nifer yr:

a. Ymholiadau Adran 126 yn y flwyddyn gasglu lle penderfynwyd bod angen camau ychwanegol, gan arwain at gynllun amddiffyn gofal a chymorth agored.
b. y cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth gweithredol ar gyfer oedolion ar 31 Mawrth lle mae'r awdurdod lleol o'r farn bod angen amddiffyn oedolyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu rhag y risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

AS/006 – Cyfanswm nifer yr ymchwiliadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle’r oedd yr ymchwiliad yn un:
a. Troseddol
b. Anhroseddol

AS/007 – Cyfanswm nifer:

a. Yr ymholiadau adran 126 am oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg a gafwyd yn ystod y flwyddyn.
b. Y cyfarfodydd a thrafodaethau strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.
c. Y cyfarfodydd cynadleddau achos a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

**Mathau o Ofal a Chymorth**

AD/029 – Nifer yr oedolion sydd â chynllun gofal a chymorth a oedd yn ystod y flwyddyn:

a. wedi talu’r uchafswm tâl wythnosol tuag at gost gofal dibreswyl
b. wedi talu ffi cyfradd safonol tuag at wasanaethau gofal a chymorth
c. canfuwyd eu bod dros y terfyn cyfalaf ar gyfer gofal preswyl

AD/030 – Cyfanswm nifer yr oedolion ar 31 Mawrth gyda gofal a chymorth yn ôl math o wasanaeth a chategori oedran.

AD/031 - Cyfanswm nifer yr oedolion ar 31 Mawrth y codwyd tâl arnynt am ofal a chymorth, yn ôl math o wasanaeth a chategori oedran.

**Eiriolaeth ar gyfer Oedolion**

AD/032 – Cyfanswm nifer yr oedolion yn ystod y flwyddyn lle nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol.

AD/033 – Cyfanswm nifer yr oedolion yn ystod y flwyddyn lle nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol ac y darparwyd eiriolwr proffesiynol annibynnol.

## Metrigau sy'n ymwneud â Phlant a Theuluoedd

### Cysylltiadau Plant

CH/001 – Nifer y cysylltiadau ar gyfer plant a gafodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn.

CH/002 – Nifer y cysylltiadau ar gyfer plant a gafodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor a chynhorthwy.

CH/003 – Nifer y cysylltiadau a gafwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol i blant yn ystod y flwyddyn lle gwnaed penderfyniad erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf

CH/004 – Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan wasanaethau plant statudol yn ystod y flwyddyn a dderbyniwyd, yn ôl y math o gyswllt (ee yr hunan, perthynas, ffrind, ac ati.)

CH/005 – Cyfanswm nifer y cysylltiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn lle:

a. Roedd cosb gorfforol gan riant neu ofalwr yn un o sawl ffactor.
b. Cosb gorfforol gan riant neu ofalwr oedd yr unig ffactor.

### Asesiadau Plant

CH/006 – Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn.

CH/007 – Nifer yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn lle:

a. Dim ond gyda chynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.
b. Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.
c. Lle nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu.

CH/008 – Cyfanswm y canlynol:

a. Asesiadau ar gyfer plant a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer plant a gafodd eu geni ar yr adeg y daeth yr asesiad i ben.
b. O'r rheini, lle ceir tystiolaeth bod y plentyn wedi cael ei weld.

CH/009 – Nifer yr asesiadau ar gyfer plant a gwblhawyd (CH/006) yn ystod y flwyddyn lle:

a. Roedd tystiolaeth o'r cynnig rhagweithiol o ran y Gymraeg
b. Derbyniwyd y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg
c. Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio dewis iaith yr unigolyn (unrhyw iaith, heb fod yn gyfyngedig i'r Gymraeg neu'r Saesneg).

CH/010 – Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn yr ystad ddiogel.

CH/011 – Cyfanswm nifer yr asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn:

a. Pan oedd cosb gorfforol gan riant neu ofalwr yn un o sawl ffactor.
b. Pan mai cosb gorfforol gan riant neu ofalwr oedd yr unig ffactor.

CH/012 – Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol.

CH/013 – Nifer yr asesiadau newydd y gofynnodd y plentyn neu'r teulu amdanynt yn ystod y flwyddyn lle'r oedd asesiad blaenorol wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol.

CH/014 – Nifer yr asesiadau newydd y gofynnwyd amdanynt gan y plentyn neu'r teulu yn ystod y flwyddyn a bod asesiad blaenorol wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol lle:

a. Dim ond gyda chynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.
b. Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.
c. Lle nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu.

**Cynlluniau Gofal a Chymorth i Blant**

CH/015 – Nifer y plant oedd â:

a. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth.
b. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth a chynllun cymorth i ofalwyr hefyd, lle mae gan y plentyn ei anghenion gofal a chymorth ei hun a chyfrifoldebau fel gofalwr ifanc

CH/016 – Cyfanswm nifer y plant â chynllun gofal a chymorth y mae eu hanghenion yn cael eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth.

CH/017 – Nifer yr adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth a darpariaethau cymorth ariannol a oedd i fod i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu a oedd yn:

a. adolygiadau amddiffyn plant
b. adolygiadau plant sy'n derbyn gofal (gan gynnwys adolygiadau cynllun llwybr ac adolygiadau cyn mabwysiadu)
c. adolygiadau o blant y mae angen gofal a chymorth arnynt (gan gynnwys plant a gefnogir gan daliad uniongyrchol)
d. adolygiadau o gymorth i blant sydd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig
e. adolygiadau o gymorth ariannol i blant sydd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig

CH/018 – Nifer yr adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth a darpariaethau o gymorth ariannol a oedd wedi cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu ac a oedd o fewn amserlenni statudol, a oedd yn:

a. adolygiadau amddiffyn plant
b. adolygiadau plant sy'n derbyn gofal (gan gynnwys adolygiadau cynllun llwybr ac adolygiadau cyn mabwysiadu)
c. adolygiadau o blant y mae angen gofal a chymorth arnynt (gan gynnwys plant a gefnogir gan daliad uniongyrchol)
d. adolygiadau o gymorth i blant sydd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig

e. adolygiadau o gymorth ariannol i blant sydd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig

CH/019 – Nifer yr adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth a darpariaethau cymorth ariannol a oedd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu, boed y rheini o fewn amserlenni statudol ai peidio, a oedd yn:

a. adolygiadau amddiffyn plant
b. adolygiadau plant sy'n derbyn gofal (gan gynnwys adolygiadau cynllun llwybr ac adolygiadau cyn mabwysiadu)
c. adolygiadau o blant y mae angen gofal a chymorth arnynt (gan gynnwys plant a gefnogir gan daliad uniongyrchol)
d. adolygiadau o gymorth i blant sydd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig
e. adolygiadau o gymorth ariannol i blant sydd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig

**Diogelu Plant**

CH/020a – Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol ar gyfer plant a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn gasglu.

CH/020b – Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol ar gyfer plant a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn gasglu, yn ôl cyflawnwr/cyflawnwyr honedig.

CH/020c – Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol i blant ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn gasglu, yn ôl lleoliad(au) honedig y cam-drin.

CH/021a – Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn lle penderfynwyd symud ymlaen i ymholiadau Adran 47.

CH/021b – Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn lle penderfynwyd symud ymlaen i ymholiadau Adran 47, yn ôl cyflawnwr/cyflawnwyr honedig.

CH/021c – Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn lle penderfynwyd symud ymlaen i ymholiadau Adran 47, yn ôl lleoliad(au) honedig y cam-drin.

CH/022 – Cyfanswm nifer yr ymholiadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a aeth ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.

CH/023 (a-i) – Cyfanswm nifer y Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at y penderfyniad i roi plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o dan gategori:

a. Esgeulustod
b. Cam-drin corfforol
c. Cam-drin rhywiol
d. Cam-drin emosiynol
e. Cam-drin ariannol
f. Esgeulustod a cham-drin corfforol

g. Cam-drin corfforol a rhywiol
h. Esgeulustod a cham-drin rhywiol
i. Esgeulustod, cam-drin corfforol a rhywiol

Ac yn ôl categori oedran.

CH/023 (j-k) – Cyfanswm y Cynadleddau Amddiffyn Plant cychwynnol a gynhaliwyd yn y flwyddyn a arweiniodd at benderfynu peidio â rhoi plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant:

j. Nifer y plant yn ystod y flwyddyn y barnwyd nad ydynt yn wynebu risg o niwed arwyddocaol mewn cynhadledd amddiffyn plant ond bod angen gofal a chymorth arnynt o hyd

k. Nifer y plant yn ystod y flwyddyn na thybiwyd eu bod mewn perygl o niwed sylweddol mewn cynhadledd amddiffyn plant ac ni nodwyd unrhyw anghenion cymwys ychwanegol

CH/024 - Nifer y plant a gafodd eu hychwanegu at y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn gasglu:

a. Pob plentyn
b. Plant a gofrestrwyd yn flaenorol o dan unrhyw gategori, ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis blaenorol.

CH/025a – Nifer y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol cyn geni a gynullwyd yn ystod y flwyddyn.

CH/025b – Nifer y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn gasglu a gynhaliwyd o fewn yr amserlenni statudol.

CH/026 – Cyfanswm nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant

a. ar 31 Mawrth;
b. yn ystod y flwyddyn gasglu

CH/027 – Nifer y cyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

CH/028 – Nifer y cyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac a gynhaliwyd o fewn amserlenni statudol.

CH/029 – Cyfanswm yr ymweliadau â phlant ar y gofrestr amddiffyn plant a oedd yn ddyledus yn ystod y flwyddyn gasglu.

CH/030 – Cyfanswm yr ymweliadau â phlant ar y gofrestr amddiffyn plant a gafodd:

a. eu cwblhau, boed y rheini o fewn amserlenni statudol ai peidio
b. eu cwblhau o fewn amserlenni statudol.

CH/031 – Cyfanswm nifer yr adroddiadau am blant sy’n mynd ar goll o ofal yn ystod y flwyddyn.

CH/032 – Cyfanswm nifer y plant sy’n mynd ar goll o ofal yn ystod y flwyddyn.

CH/033 – Cyfanswm nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol yn ystod y flwyddyn lle'r oedd camfanteisio ar blant yn ffactor.

CH/034 – Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn lle penderfynwyd symud ymlaen i ymholiadau Adran 47, yn ôl math o ffactor camfanteisio ar blant:

a. Camfanteisio'n rhywiol ar blant
b. Camfanteisio'n droseddol ar blant
c. Masnachu plant

CH/035 – Cyfanswm nifer y diwrnodau ar y gofrestr amddiffyn plant ar gyfer plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn.

CH/036 – Cyfanswm nifer y plant a gafodd eu tynnu oddi ar y gofrestr amddiffyn plant (eu datgofrestru) yn ystod y flwyddyn.

**Plant sy'n Derbyn Gofal**

CH/037a – Nifer y plant a ddaeth yn blant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn.

CH/037b – Nifer yr episodau newydd o blant yn dechrau derbyn gofal yn ystod y flwyddyn.

CH/038 – Nifer y cynlluniau gofal a chymorth rhan 6 a gwblhawyd o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau derbyn gofal.

CH/039 – Nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth.

CH/040 – Cyfanswm nifer y plant sy'n cael seibiannau byr (A76) ar 31 Mawrth.

CH/041 – Nifer yr ymweliadau statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn.

CH/042 – Nifer yr ymweliadau statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a gafodd:

a. eu cwblhau, boed y rheini o fewn amserlenni statudol ai peidio
b. eu cwblhau o fewn amserlenni statudol.

CH/043 – Cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn.

CH/044 – Cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi newid ysgol unwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn (ac eithrio trefniadau pontio, symudiadau'n gysylltiedig â mabwysiadu neu symud yn ôl adref).

CH/045 – Cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref yn ystod y flwyddyn.

CH/046 – Cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal nad ydynt yn cael eu lleoli gyda rhieni, teulu na ffrindiau ar 31 Mawrth.

CH/047 – Cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal a leolir yng Nghymru, ond y tu allan i'r awdurdod lleol cyfrifol ar 31 Mawrth.

CH/048 – Cyfanswm nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu lleoli y tu allan i Gymru ar 31 Mawrth.

**Pobl sy’n gadael gofal**

CH/049 – Cyfanswm nifer y Cynlluniau Llwybr cychwynnol i’w cwblhau yn ystod y flwyddyn.

CH/050 – Cyfanswm nifer y Cynlluniau Llwybr cychwynnol a oedd yn ddyledus yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn amserlenni.

CH/051 – Cyfanswm nifer y bobl ifanc yn ystod y flwyddyn y neilltuwyd cynghorydd personol iddynt yn ôl yr angen.

CH/052 – Cyfanswm nifer y bobl ifanc sy’n gadael gofal sy’n ddigartref yn ystod y flwyddyn (fel y’i diffinnir gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014).

CH/053 – Cyfanswm nifer y bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn y categorïau canlynol ar 31 Mawrth:

a. categori 1
b. categori 2
c. categori 3
d. categori 4
e. categori 5
f. categori 6

CH/054 – Cyfanswm nifer y bobl ifanc, ar 31 Mawrth, yng nghategorïau 2, 3 a 4 sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis yn olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant:

a. Ers gadael gofal
b. Yn ystod y flwyddyn gasglu

CH/055 – Nifer y bobl ifanc sy’n gadael gofal sy’n symud i leoliad ‘Pan Fydda i’n Barod’ yn ystod y flwyddyn.

**Eiriolaeth Plant**

CH/056 – Cyfanswm y “Cynigion Rhagweithiol” o eiriolaeth i blant, pump oed a throsodd ar ddechrau’r flwyddyn gasglu, yn ystod y flwyddyn.

CH/057 – Cyfanswm y “Cynigion Rhagweithiol” o eiriolaeth i blant yn ystod y flwyddyn lle darparwyd Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol.

## Metrigau sy’n ymwneud â Gofalwyr

### Cysylltiadau Gofalwyr sy’n Oedolion

CA/001 – Cyfanswm nifer y cysylltiadau â gwasanaethau cymdeithasol statudol gan ofalwyr sy’n oedolion neu weithwyr proffesiynol sy’n cysylltu â’r gwasanaeth ar eu rhan a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

CA/002 – Nifer y cysylltiadau gan ofalwyr sy’n oedolion a gafodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor neu gynhorthwy.

CA/003 – Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd ar gyfer gofalwyr sy’n oedolion gan y gwasanaethau oedolion statudol yn ystod y flwyddyn a dderbyniwyd, yn ôl y math o gyswllt (ee yr hunan, perthynas, ffrind, ac ati.)

**Asesiadau Gofalwyr sy'n Oedolion**

CA/004 – Cyfanswm nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer oedolion a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

CA/005 – Nifer yr asesiadau gofalwyr a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn lle:

a. Gellid diwallu anghenion gyda chynllun cymorth neu gynllun gofal a chymorth gofalwr.
b. Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.
c. Lle nad oedd unrhyw anghenion cymwys i’w diwallu.

CA/006 – Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer oedolion a wrthodwyd yn ystod y flwyddyn.

CA/007 – Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer oedolion a gwblhawyd (CA/004) yn ystod y flwyddyn lle:

a. Roedd tystiolaeth o'r cynnig rhagweithiol o ran y Gymraeg
b. Derbyniwyd y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg
c. Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio dewis iaith yr unigolyn (unrhyw iaith, heb fod yn gyfyngedig i'r Gymraeg neu'r Saesneg).

**Cynlluniau Cymorth i Ofalwyr sy’n Oedolion**

CA/008 – Nifer y gofalwyr sy’n oedolion sydd â:

a. Chynllun cymorth i ofalwyr ar 31 Mawrth.
b. Cynllun cymorth i ofalwyr ar 31 Mawrth a hefyd cynllun gofal a chymorth, lle mae gan yr oedolyn gyfrifoldebau fel gofalwr a’i anghenion gofal a chymorth ei hun.

CA/009 – Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr sy’n oedolion a oedd i fod i gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn gasglu.

CA/010 – Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr sy’n oedolion a oedd i fod i gael eu hadolygu yn y flwyddyn gasglu ac a adolygwyd o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn gasglu.

**Cysylltiadau Gofalwyr Ifanc**

CA/011 – Cyfanswm nifer y cysylltiadau â gwasanaethau cymdeithasol statudol gan ofalwyr ifanc neu weithwyr proffesiynol sy’n cysylltu â’r gwasanaeth ar eu rhan a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

CA/012 – Nifer y cysylltiadau gan ofalwyr ifanc a gafodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor neu gynhorthwy.

CA/013 – Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd ar gyfer gofalwyr ifanc gan y gwasanaethau plant statudol yn ystod y flwyddyn a dderbyniwyd, yn ôl y math o gyswllt (ee yr hunan, perthynas, ffrind, ac ati.)

**Asesiadau Gofalwyr Ifanc**

CA/014 – Cyfanswm yr asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer gofalwyr ifanc a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

CA/015 – Nifer yr asesiadau gofalwyr a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn lle:

a. Gellid diwallu anghenion gyda chynllun cymorth neu gynllun gofal a chymorth gofalwr ifanc.
b. Gellid diwallu'r anghenion drwy ddulliau eraill.
c. Lle nad oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu.

CA/016 – Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer gofalwyr ifanc a gwblhawyd (CA/014) yn ystod y flwyddyn lle:

a. Roedd tystiolaeth o'r cynnig rhagweithiol o ran y Gymraeg
b. Derbyniwyd y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg
c. Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio dewis iaith yr unigolyn (unrhyw iaith, heb fod yn gyfyngedig i'r Gymraeg neu'r Saesneg).

**Cynlluniau Cefnogi Gofalwyr Ifanc**

CA/017 – Nifer y gofalwyr ifanc gyda:

a. Chynllun cymorth i ofalwyr ar 31 Mawrth.
b. Cynllun cymorth i ofalwyr ar 31 Mawrth a hefyd cynllun gofal a chymorth, lle mae gan y person ifanc gyfrifoldebau fel gofalwr a'i anghenion gofal a chymorth ei hun.

CA/018 - Nifer yr adolygiadau o gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc a oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn gasglu.

CA/019 – Nifer yr adolygiadau o gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc a oedd wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu a oedd o fewn amserlenni statudol.

CA/020 – Nifer yr adolygiadau o gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc a oedd wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn, ni waeth a gawsant eu cwblhau o fewn amserlenni statudol ai peidio.